# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

**Dydd Mawrth, 26 Mehefin 2012**
**Tuesday, 26 June 2012**

**Cynnwys**
**Contents**

3 Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

30 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

35 Datganiad: Lansio'r Ymgynghoriad ar Ddiwygio'r Fframwaith Deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig
Statement: Launch of the Consultation on Reform of the Legislative Framework for Special Educational Needs

54 Datganiad: Hygyrchedd i Gyfreithiau Cymru a Datblygu Llyfr Statud i Gymru—Y Wybodaeth Ddiweddaraf
Statement: Access to Welsh Laws and Developing a Welsh Statute Book —An Update

73 Rheoliadau Seibiannau i Ofalwyr Plant Anabl (Cymru) 2012
Breaks for Carers of Disabled Children (Wales) Regulations 2012

78 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Cyllid Llywodraeth Leol
Legislative Consent Motion on the Local Government Finance Bill

89 Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus
Public Service Reform

115 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m.gyda'r Dirprwy Lywydd (David Melding) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 1.30 p.m.with the Deputy Presiding Officer (David Melding) in the Chair.*

**The Deputy Presiding Officer:** The National Assembly for Wales is now in session.

**Y Dirprwy Lywydd:** Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog
## Questions to the First Minister

### Trafnidiaeth Gyhoeddus ym Mae Abertawe

### Public Transport in Swansea Bay

***1. Mike Hedges:*** *Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i annog rhagor o bobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn ardal Bae Abertawe. OAQ(4)0584(FM)*

***1. Mike Hedges:*** *What action is the Welsh Government taking to encourage more people to use public transport in the Swansea Bay area. OAQ(4)0584(FM)*

**The First Minister (Carwyn Jones):** We are committed to a sustainable transport policy and to the delivery of our priorities for public transport, as outlined in the national transport plan. For example, the modernised Swansea High Street train station recently reopened, which now provides significantly improved accessibility.

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Rydym wedi ymrwymo i bolisi cludiant cynaliadwy ac i gyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus, fel yr amlinellir yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol. Er enghraifft, mae'r orsaf drenau yn Stryd Fawr Abertawe wedi'i moderneiddio ac ailagorodd yn ddiweddar. Mae'r orsaf bellach yn fwy hygyrch o lawer.

**Mike Hedges:** I thank the First Minister for his response. Substantial work on public transport has been done by the Welsh Government in the Swansea area. Unfortunately, that has not been matched by the local bus company, which seems intent on closing down a whole range of bus services. What consideration have you given to implementing quality transport contract schemes for providers of public transport to sign up to when bidding for public contracts, in order to ensure that we have sustainable public transport in Swansea?

**Mike Hedges:** Diolch i'r Prif Weinidog am ei ymateb. Mae gwaith sylweddol ar drafnidiaeth gyhoeddus wedi cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru yn ardal Abertawe. Yn anffodus, nid oes gwaith cyfatebol wedi ei wneud gan y cwmni bysiau lleol, sy'n ymddangos yn benderfynol o ddod ag ystod eang o wasanaethau bysiau i ben. Pa ystyriaeth yr ydych wedi'i rhoi i weithredu cynlluniau cytundebau trafnidiaeth o safon er mwyn i ddarparwyr trafnidiaeth gyhoeddus ymgofrestru â hwy wrth ymgeisio am gontractau cyhoeddus, er mwyn sicrhau bod gennym drafnidiaeth gyhoeddus gynaliadwy yn Abertawe?

**The First Minister:** Provisions in the Transport Act 2000 provide powers for local authorities to make quality contract schemes, and set out requirements on the quality, timing and frequency of services covered by the scheme, as well as maximum fares. This is a matter for the local authority to pursue.

**Y Prif Weinidog:** Mae darpariaethau yn Neddf Trafnidiaeth 2000 yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol wneud cynlluniau cytundebau o safon, ac yn nodi gofynion o ran ansawdd, amseru ac amlder y gwasanaethau a gwmpesir gan y cynllun, yn ogystal â phrisiau uchaf. Mae hwn yn fater i'r awdurdod lleol.

**Suzy Davies:** First Minister, in the previous One Wales Government programme, a transport entitlement card, similar to London's Oyster card, was included in the national transport plan and envisaged to be available for use on buses and trains in 2014. Are you and your Government still committed to simpler ticketing payments for travellers to and from Swansea and beyond, and if so, by when?

**Suzy Davies:** Brif Weinidog, yn rhaglen flaenorol Llywodraeth Cymru'n Un, cafodd cerdyn hawliau, yn debyg i gerdyn Oyster Llundain, ei gynnwys yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol a rhagwelir y bydd ar gael i'w ddefnyddio ar fysiau a threnau yn 2014. A ydych chi a'ch Llywodraeth wedi ymrwymo o hyd i daliadau tocynnau symlach ar gyfer teithwyr i Abertawe ac oddi yno a thu hwnt, ac os felly, erbyn pryd?

**The First Minister:** Yes, we are. We are, at the moment, piloting schemes on the two railways in Wales that help in terms of accessibility to transport, and we are continuing to look at how an Oyster-style card could operate in the Welsh context.

**Y Prif Weinidog:** Ydym. Ar hyn o bryd, rydym yn cynnal cynlluniau peilot ar y ddwy reilffordd yng Nghymru sy'n helpu o ran hygyrchedd i gludiant, ac rydym yn parhau i edrych ar sut y gallai cerdyn yn debyg i'r cerdyn Oyster weithredu yng nghyd-destun Cymru.

**Bethan Jenkins:** Yn fy nghyfarfod diwethaf â chyn arweinydd cyngor Abertawe, dywedodd fod y cyngor yn gorfod ystyried darparu mwy o fysiau ystwyth—y *bendy buses*—oherwydd ei fod yn rhagweld na fyddai myfyrwyr, neu bobl ar incwm isel, yn gallu fforddio gyrru ceir yn y ddinas. A yw hwn yn fater mae Llywodraeth Cymru wedi'i drafod gyda'r cyngor ar ei newydd wedd yn Abertawe, ac a fyddech yn cymryd camau i ymchwilio i'r sefyllfa hon?

**Bethan Jenkins:** In my last meeting with the former leader of Swansea council, he said that the council had to consider providing more bendy buses because he anticipated that students, or people on low incomes, would not be able to afford to drive cars in the city. Is this an issue that the Welsh Government has discussed with the council in its new form in Swansea, and would you take steps to investigate this situation?

**Y Prif Weinidog:** Mae'n bwysig bod system cludiant cyhoeddus Abertawe yn gwasanaethu pobl Abertawe. Mae hynny'n wir am y bysiau a'r trenau. Er enghraifft, rydym yn ailddeuoli'r rheilffordd rhwng Casllwchwr a Thre-gŵyr a fydd yn helpu pobl o'r gorllewin i deithio i Abertawe.

**The First Minister:** It is important that the public transport system in Swansea serves the people of Swansea. That is true for buses and trains. For example, we are redoubling the railway line between Loughor and Gowerton, which will help people from the west to travel to Swansea.

### Economi Gorllewin Cymru

### The Economy in West Wales

***2. Elin Jones:*** *Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i'r economi yng ngorllewin Cymru. OAQ(4)0597(FM)*

***2. Elin Jones:*** *What support is the Welsh Government giving to the economy in west Wales. OAQ(4)0597(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn cynorthwyo'r economi ym mhob rhan o Gymru, trwy fuddsoddi mewn seilwaith, sgiliau ac arloesedd, a hefyd trwy wella'r amgylchedd busnes.

**The First Minister:** We are supporting the economy in all parts of Wales, by investing in infrastructure, skills, innovation and improving the business environment.

**Elin Jones:** Un o'r dangosyddion ar gyfer cymuned ag economi gynaliadwy yw'r gallu i

**Elin Jones:** One of the indicators for a community with a sustainable economy is the

gadw canran uchel o bobl ifanc yn gweithio ac yn byw yn y gymuned honno. Wrth i chi ddatblygu'ch Bil datblygu cynaliadwy, a wnewch chi ystyried casglu data ar nifer y bobl ifanc sy'n gallu aros, gweithio a byw yn eu cymuned yn lleol, fel y gallwn fesur cynaliadwyedd ein cymunedau yn y gorllewin a thrwy Gymru?

ability to retain a high percentage of young people working and living in that community. As you develop your sustainable development Bill, will you consider collecting data on the number of young people who can stay, work and live in their local community, so that we can measure the sustainability of our communities in the west and across Wales?

**Y Prif Weinidog:** Os cofiaf, rydym yn gwneud hynny'n barod. Mae'n bwysig bod cyfleoedd ar gael i bobl sydd eisiau aros yn eu hardaloedd, a bod cyfleoedd ar gael i bobl sydd eisiau dod yn ôl i'w hardaloedd hefyd. Rydym yn gweld hynny mewn cymunedau fel Aberaeron, lle mae hyn wedi digwydd yn barod. Rydym yn casglu ffigurau er mwyn sicrhau bod gennym ddarlun o beth sy'n digwydd yn nghefn gwlad o ran pobl ifanc.

**The First Minister:** If I recall, we are already doing so. It is important that opportunities are available to people who want to stay in their areas, and that opportunities are also available to people who want to come back to their areas. We see that in communities such as Aberaeron, where this has already happened. We collect figures to ensure that we have a picture of what is happening in the countryside in relation to young people.

**Paul Davies:** Rwy'n falch bod y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth wedi sefydlu ardal yr *Haven* yn fy etholaeth i yn ardal fenter. Gobeithiaf y bydd hyn yn cael effaith bositif, nid yn unig yn yr ardal o amgylch yr *Haven*, ond ar draws sir Benfro. Derbyniaf y bydd y Gweinidog busnes yn gwneud datganiad pellach yr wythnos nesaf, ond a all y Prif Weinidog ddweud wrthym beth fydd prif fanteision yr ardal hon i fusnesau presennol a newydd yn fy etholaeth i?

**Paul Davies:** I am pleased that the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science has established the Haven area in my constituency as an enterprise zone. I hope that this will have a positive impact, not only in the area around the Haven, but across Pembrokeshire. I accept that the Minister for Business will make a further statement next week, but can the First Minister tell us what the main advantages of this area will be to new and existing businesses in my constituency?

**Y Prif Weinidog:** Rydym am sicrhau bod lwfansau cyfalaf ar gael yn yr ardaloedd hyn a bod grantiau ar gael i ddatblygu sgiliau ac ar gyfer ymchwil, a hefyd i sicrhau bod pecyn o gefnogaeth ar gael i fusnesau. Ar hyn o bryd, mae problem oherwydd bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn dweud nad yw'n bosibl i gael lwfansau cyfalaf a manteision eraill fel rhan o'r ardaloedd menter yn y dyfodol. Nid yw hynny o fudd i Gymru, ac rydym yn dadlau'r pwynt hwnnw gyda'r Llywodraeth ar hyn o bryd.

**The First Minister:** We want to ensure that capital allowances are available in these areas and that grants are available to develop skills and for research, and also to ensure that a package of support is available to businesses. At present, there is a problem because the United Kingdom Government says that it is not possible to have capital allowances and other benefits as part of the enterprise zones in future. That does not benefit Wales, and we are currently disputing that point with the Government.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

**The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies):** First Minister, the UK has been proven to be the most attractive place

**Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies):** Brif Weinidog, mae tystiolaeth yn dangos mai'r DU yw'r lle mwyaf deniadol ar

for inward investment in the European Union; the European Commission and a recent Ernst and Young survey of business have confirmed that. However, regrettably, Wales is now at the bottom of the league table. We are not second from bottom, but bottom of the league table for countries and regions of the United Kingdom where companies look to locate. Why is that?

gyfer mewnfuddsoddi yn yr Undeb Ewropeaidd; ac mae’r Comisiwn Ewropeaidd ac arolwg diweddar o fusnes gan Ernst and Young wedi cadarnhau hynny. Fodd bynnag, yn anffodus, mae Cymru erbyn hyn ar waelod y tabl cynghrair. Nid ydym yn ail o’r gwaelod, ond ar waelod y tabl cynghrair ar gyfer gwledydd a rhanbarthau’r Deyrnas Unedig lle y mae cwmnïau yn ystyried lleoli. Pam hynny?

**The First Minister:** We have reformed our overseas operation. I have spoken personally to all staff who work overseas for the Welsh Government. We are beginning to see the fruit of that with the announcement by Tata of the £800 million investment into Port Talbot. We will, of course, be taking advantage of the Olympics and playing our part with UK Trade and Investment in selling Wales. We will, of course, be using our new office in London to act as a hub to attract investment into Wales.

**Y Prif Weinidog:** Rydym wedi diwygio ein gwaith dramor. Rwyf wedi siarad yn bersonol â’r holl staff sy’n gweithio dramor ar ran Llywodraeth Cymru. Rydym yn dechrau gweld ffrwyth hynny wrth i Tata gyhoeddi buddsoddiad o £800 miliwn ym Mhort Talbot. Byddwn, wrth gwrs, yn manteisio ar y Gemau Olympaidd ac yn chwarae ein rhan gyda Masnach a Buddsoddi y DU drwy werthu Cymru. Byddwn, wrth gwrs, yn defnyddio ein swyddfa newydd yn Llundain i weithredu fel canolbwynt i ddenu buddsoddiad i Gymru.

**Andrew R.T. Davies:** Thank you for that answer, First Minister. It is a little concerning when you say that you have spoken to everyone around the world who works for the Welsh Government regarding the offering that we have around the world. I have asked questions of the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science and, if you take the North American market, for example, all Welsh Government staff are located on the east coast. However, on the west coast is California, with Silicon Valley and other research centres, but we have no presence there. Despite that, in your earlier answer, you indicated that you are happy with the configuration that we have. Is it not a key consideration for the Welsh Government to be out promoting Wales in the research-intensive industries as somewhere that they can locate themselves in the European Union?

**Andrew R.T. Davies:** Diolch am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Mae’n peri pryder pan ddywedwch eich bod wedi siarad â phawb ar draws y byd sy’n gweithio i Lywodraeth Cymru ynghylch yr hyn sydd gennym i’w gynnig ar draws y byd. Rwyf wedi gofyn cwestiynau i’r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ac, os cymerwch farchnad Gogledd America, er enghraifft, mae holl staff Llywodraeth Cymru wedi eu lleoli ar yr arfordir dwyreiniol. Fodd bynnag, ar yr arfordir gorllewinol mae Califfornia, gyda Silicon Valley a chanolfannau ymchwil eraill, ond nid oes gennym bresenoldeb yno. Er gwaethaf hynny, yn eich ateb cynharach, dywedasoch eich bod yn fodlon ar y trefniant sydd gennym. Onid yw’n ystyriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru fod wrthi’n hyrwyddo Cymru yn y diwydiannau ymchwil-ddwys fel rhywle y gallant eu lleoli eu hunain yn yr Undeb Ewropeaidd?

**The First Minister:** Yes, I agree, and one of the things that I am looking at is placing someone in California, working with UKTI, in order to represent Wales in the western part of the States. The leader of the opposition is quite right to say that we need to ensure that we have proper coverage in the

**Y Prif Weinidog:** Rwy’n cytuno, ac un o’r pethau yr wy’n ystyried ei wneud yw lleoli rhywun yng Nghaliffornia, gan weithio gyda Masnach a Buddsoddi’r DU, er mwyn cynrychioli Cymru yn rhan orllewinol yr Unol Daleithiau. Mae arweinydd yr wrthblaid yn llygad ei le wrth ddweud bod angen inni

US, and this is something that will be dealt with pretty quickly.

sicrhau bod gennym nifer priodol o gynrychiolwyr yn yr Unol Daleithiau, a bydd hyn yn cael ei wneud yn eithaf cyflym.

**Andrew R.T. Davies:** I am pleased to hear the positive engagement that we are having today, First Minister. I will raise another example of the contradiction within your Government. You came back from China saying that you wanted to establish an air link to China, or to look at the feasibility of doing so. I recently questioned the relevant Minister in writing about the priority that the Welsh Government puts on the Chinese tourism market. The Minister indicated that no money was made available to the UK tourist board to promote Wales as a destination for Chinese tourists and confirmed that, in the tourism plan, the Wales Tourist Board, as it used to be, did not recognise China as a growing market for Wales to promote itself. You, as the First Minister, want to establish an air link, yet the Welsh Government is putting no resources into promoting Wales as a destination. What is it to be?

**Andrew R.T. Davies:** Rwy'n falch o glywed yr ymgysylltiad cadarnhaol yr ydym yn ei gael heddiw, Brif Weinidog. Codaf enghraifft arall o'r gwrth-ddweud o fewn eich Llywodraeth. Daethoch yn ôl o Tsieina gan ddweud eich bod am sefydlu cyswllt awyr i Tsieina, neu edrych ar y posibilrwydd o wneud hynny. Yn ddiweddar, bu imi holi'r Gweinidog perthnasol yn ysgrifenedig am y flaenoriaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i'r farchnad dwristiaeth yn Tseina. Dywedodd y Gweinidog nad oedd dim arian ar gael i fwrdd croeso'r DU i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan ar gyfer twristiaid o Tseina a chadarnhaodd nad oedd Bwrdd Croeso Cymru, fel yr arferai fod, yn cydnabod yn y cynllun twristiaeth fod Tsieina yn farchnad sy'n tyfu lle y gall Cymru hyrwyddo ei hun. Rydych chi, fel Prif Weinidog, yn awyddus i sefydlu cyswllt awyr ond nid yw Llywodraeth Cymru yn darparu dim adnoddau i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan. Beth sy'n digwydd?

**The First Minister:** We believe that it is best to work with the British tourism authority—Visit Britain, as it is now—in order to promote Wales. It has resources that we, inevitably, do not have. The issue of the air link to China is still very much a live issue, and I look forward, with the first meeting of the airport task force taking place soon, to pursuing this and other matters.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn credu mai'r peth gorau i'w wneud yw gweithio gydag awdurdod twristiaeth Prydain—Visit Britain, fel y mae yn awr—er mwyn hyrwyddo Cymru. Mae ganddo adnoddau nad ydynt gennym ni, wrth reswm. Mae'r cyswllt awyr i Tsieina yn dal yn fatersy'n cael sylw ar hyn o bryd, ac edrychaf ymlaen, pan fydd cyfarfod cyntaf tasglu'r maes awyr yn cael ei gynnal yn fuan, at fynd ar drywydd hyn a materion eraill.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** First Minister, at one stage in the last 10 years, Wales attracted the highest amount of foreign direct investment of any region or nation in the UK. As we have seen from the latest figures, we are now at the bottom of that league table. What has happened in the last 10 years to see us go from the very best to the worst?

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Brif Weinidog, ar un adeg yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, roedd Cymru yn denu'r swm uchaf o fuddsoddiad uniongyrchol tramor o blith pob rhanbarth neu wlad yn y DU. Fel y gwelwn yn ôl y ffigurau diweddaraf, erbyn hyn rydym ar waelod y tabl cynghrair. Beth sydd wedi digwydd dros y 10 mlynedd diwethaf i esbonio pam mai ni yw'r gwaethaf, bellach, yn lle'r gorau?

**The First Minister:** One of the issues that we needed to address was to ensure that we had proper representation overseas, that it

**Y Prif Weinidog:** Un o'r materion yr oedd yn rhaid i ni fynd i'r afael â hwy oedd sicrhau bod gennym gynrychiolaeth briodol dramor,

was known overseas what the message from Wales was, and also that we worked very closely with UKTI. I am pleased to say that the relationship that we have with UKTI is a very good one, particularly with Lord Green as the appropriate Minister, but also with the organisation as a whole.

ei bod yn hysbys dramor beth oedd y neges gan Gymru, a hefyd ein bod yn gweithio'n agos iawn â Masnach a Buddsoddi'r DU. Yr wyf yn falch o ddweud bod ein perthynas â Masnach a Buddsoddi'r DU yn un dda iawn, yn enwedig â'r Arglwydd Green, sef y Gweinidog priodol, ond hefyd â'r sefydliad yn ei gyfanrwydd.

**Kirsty Williams:** In your economic renewal programme, you said that

**Kirsty Williams:** Yn eich rhaglen i adnewyddu'r economi, dywedasoch

'Securing Foreign Direct Investment (FDI) and stimulating trade will be integral parts of our sector approach'

'Bydd sicrhau Buddsoddi Uniongyrchol Tramor ac ysgogi masnach yn rhannau hanfodol o'n dull sector ni'

and you have outlined today some of the steps that you have taken, but it is clearly not working, First Minister. Wales has shown the largest UK decline in foreign direct investment projects, with its share of UK projects falling to a paltry 1.3% last year. In 2003, we were punching above our weight at 9%. What has gone wrong with your approach?

ac rydych wedi amlinellu heddiw rai o'r camau yr ydych wedi'u cymryd, ond mae'n amlwg nad yw'n gweithio, Brif Weinidog. Yng Nghymru y cafwyd y gostyngiad mwyaf yn y DU o ran prosiectau buddsoddiad uniongyrchol tramor, gyda'i chyfran o brosiectau'r DU yn gostwng i 1.3% pitw y llynedd. Yn 2003, roeddem yn cyflawni'n well na'r disgwyl, gan fod y ffigur yn 9%. Beth sydd wedi mynd o'i le gyda'ch dull chi?

**The First Minister:** Things are certainly improving. I have already mentioned the £800 million investment from Tata. We know about the investment from Firstsource, and the Japanese investment in TES Aviation Group in my constituency in the last few days. I believe that the structure is now right for us to be able to compete with countries around the world and to attract investment into Wales, and we have just seen the beginnings of that policy bearing fruit.

**Y Prif Weinidog:** Mae pethau'n gwella yn sicr. Rwyf eisoes wedi sôn am yr £800 miliwn o fuddsoddiad gan Tata. Rydym yn gwybod am y buddsoddiad gan Firstsource, a'r buddsoddiad gan Siapan yng Ngrŵp TES Aviation yn fy etholaeth i dros y dyddiau diwethaf. Credaf fod y strwythur yn iawn yn awr inni allu cystadlu â gwledydd ledled y byd a denu buddsoddiad i Gymru, ac rydym wedi gweld y polisi hwnnw yn dechrau dwyn ffrwyth.

**Kirsty Williams:** That is an interesting definition of success. The figures for last year show that the position is getting worse since you took these initiatives. Ernst and Young says that investor confidence in the UK remains strong. If confidence in the UK as a whole is high, why is the performance of your Government in attracting inward investment so low?

**Kirsty Williams:** Mae hwnnw'n ddiffiniad diddorol o lwyddiant. Mae'r ffigurau ar gyfer y llynedd yn dangos bod y sefyllfa yn gwaethygu ers i chi gychwyn y mentrau hyn. Mae Ernst and Young yn dweud bod hyder buddsoddwyr yn y DU yn dal yn gryf. Os yw lefel yr hyder yn y DU yn gyffredinol yn uchel, pam mae perfformiad eich Llywodraeth o ran denu mewnfuddsoddiad mor isel?

**The First Minister:** The leader of the Liberal Democrats chose to ignore what I just said, particularly with regard to Tata and companies such as TES. The reality is that we are successful in attracting overseas

**Y Prif Weinidog:** Mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol wedi dewis anwybyddu'r hyn yr wyf newydd ei ddweud, yn enwedig o ran Tata a chwmnïau fel TES. Y gwir amdani yw ein bod yn llwyddiannus o

investment and we intend to be more successful in the future. That is why we are ensuring that our office in London will be a hub for potential investors in the future and during the Olympics. It is an office that, I have to say, the UK Government opposed.

ran denu buddsoddiad tramor ac rydym yn bwriadu bod yn fwy llwyddiannus yn y dyfodol. Dyna pam yr ydym yn sicrhau y bydd ein swyddfa yn Llundain yn ganolbwynt ar gyfer buddsoddwyr posibl yn y dyfodol ac yn ystod y Gemau Olympaidd. Mae'n rhaid i mi ddweud i Lywodraeth y DU wrthwynebu'r swyddfa honno.

**The Leader of Plaid Cymru (Leanne Wood):** First Minister, we in Plaid Cymru have sometimes criticised you for lacking new ideas for stimulating the Welsh economy and helping to create jobs. Is that what prompted your embarrassing statement last week to welcome Trident to Wales? What does this say about your ambition for Wales? Edinburgh gets the green investment bank and Pembrokeshire gets weapons of mass destruction. Is that now official policy of the Labour Cabinet and Labour's Assembly group? Is this Labour's vision for Wales?

**Arweinydd Plaid Cymru (Leanne Wood):** Brif Weinidog, rydym ni ym Mhlaid Cymru weithiau wedi eich beirniadu am eich diffyg syniadau newydd ar gyfer hybu economi Cymru a helpu i greu swyddi. Ai dyna a ysgogodd eich datganiad yr wythnos diwethaf i groesawu Trident i Gymru—datganiad a gododd gywilydd? Beth y mae hyn yn ei ddweud am eich uchelgais i Gymru? Cafodd Caeredin y banc buddsoddi gwyrdd ac mae Sir Benfro yn cael arfau distryw mawr. Ai dyma yw polisi swyddogol y Cabinet Llafur a'r grŵp Llafur yn y Cynulliad bellach? Ai dyma yw gweledigaeth Llafur ar gyfer Cymru?

**The First Minister:** I would take the criticism more seriously had it not come from a party with one idea, namely Build for Wales and nothing else, including any ideas to build the Welsh economy. Is the leader of Plaid Cymru saying that she does not welcome any defence jobs in Wales? If that is the case, does she want to see the closure of General Dynamics or indeed companies such as Cassidian? I am sure that the people of Wales would want to know. We will continue to look for ways to secure jobs for Wales in the future.

**Y Prif Weinidog:** Byddwn wedi cymryd y feirniadaeth yn fwy o ddifrif oni bai ei bod wedi dod oddi wrth blaid sydd ag un syniad, sef Adeiladu dros Gymru a dim byd arall, gan gynnwys unrhyw syniadau i adeiladu economi Cymru. A yw arweinydd Plaid Cymru yn dweud nad yw hi'n croesawu unrhyw swyddi amddiffyn yng Nghymru? Os felly, a hoffai weld General Dynamics neu gwmnïau fel Cassidian yn cau? Rwy'n siŵr y byddai pobl Cymru eisiau gwybod. Byddwn yn parhau i chwilio am ffyrdd i sicrhau swyddi i Gymru yn y dyfodol.

**Leanne Wood:** We have not stopped talking about jobs in this Chamber, First Minister. Over 1,200 people are already employed in the refineries and the LNG terminals at Milford Haven. This is more than the 1,109 people actually employed because of Trident in Scotland—a far cry from the 6,000 jobs that you stated. How many of the jobs currently at Milford Haven would be lost if a nuclear submarine base were to be built there? What effect would that have on attracting other jobs to the area? Is it not true, First Minister, that your discredited plan would cost Wales more jobs than it would create?

**Leanne Wood:** Nid ydym wedi peidio â siarad am swyddi yn y Siambr hon, Brif Weinidog. Mae dros 1,200 o bobl yn cael eu cyflogi eisoes yn y purfeydd a'r terfynfeydd LNG yn Aberdaugleddau. Mae hynny'n fwy na'r 1,109 a gyflogir o ganlyniad i Trident yn yr Alban—yn wahanol iawn i'r 6,000 o swyddi, fel y dywedasoch chi. Faint o'r swyddi sydd eisoes yn Aberdaugleddau fyddai'n cael eu colli petai canolfan llongau tanfor niwclear yn cael ei hadeiladu yno? Pa effaith y byddai hynny'n ei chael ar ddenu swyddi eraill i'r ardal? Onid yw'n wir, Brif Weinidog, y byddai eich cynllun, sydd wedi'i ddifrïo, yn costio mwy o swyddi i Gymru nag y byddai'n eu creu?

**The First Minister:** It is quite clear from the UK Government that the fleet will remain at Faslane, so the issue is now entirely academic. However, there are issues that the leader of Plaid Cymru needs to clarify for the people of Wales. First, does she agree with her colleague Bethan Jenkins that Martin McGuinness, the Deputy First Minister of Northern Ireland, is naive in shaking the Queen's hand? Secondly, she knows that the leader of her parliamentary party, Elfyn Llwyd, met Argentinian diplomats. I accept Elfyn Llwyd's explanation for why he met them, but does she support the right of the people of the Falkland islands to self-determination? She raises issues of defence; I am sure that there are issues in Plaid Cymru that would be very interesting for the people of Wales to have clarified.

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth y DU wedi ei gwneud yn eithaf clir y bydd y fflyd yn aros yn Faslane, felly mae'r mater erbyn hyn yn hollol academaidd. Fodd bynnag, mae angen i arweinydd Plaid Cymru egluro rhai materion i bobl Cymru. Yn gyntaf, a ydy hi'n cytuno â'i chyd-Aelod Bethan Jenkins fod Martin McGuinness, Dirprwy Brif Weinidog Gogledd Iwerddon, yn naïf wrth gytuno i ysgwyd llaw'r Frenhines? Yn ail, mae hi'n gwybod bod arweinydd ei phlaid seneddol, Elfyn Llwyd, wedi cwrdd â diplomyddion o'r Ariannin. Rwy'n derbyn esboniad Elfyn Llwyd am ei resymau dros gyfarfod â hwy, ond a yw hi'n cefnogi hawl pobl ynysoedd y Falkland i benderfynu drostynt eu hunain? Bu iddi godi materion ynglŷn ag amddiffyn; rwy'n siŵr bod materion ym Mhlaid Cymru y byddai'n ddiddorol iawn i bobl Cymru glywed eglurhad arnynt.

**Leanne Wood:** If it is an academic exercise, First Minister, why did you welcome Trident jobs to Wales last week? First Minister, the biggest concern for me is about values—your values. It is 31 years since Wales declared itself a nuclear weapons-free country. It is 31 years since a group of women from this country, including your Minister, Jane Hutt, began their march to Greenham Common. The Welsh bishops of the Catholic and Anglican churches, the leaders of the free churches, the Unite and Unison unions and the majority of people in Wales do not agree with you. They say that weapons of mass destruction have no place on Welsh soil or in Welsh waters. First Minister, you are meant to speak for Wales; is it not the case that, on this occasion, you were just speaking for yourself?

**Leanne Wood:** Os yw'n ymarferiad academaidd, Brif Weinidog, pam y gwnaethoch groesawu swyddi Trident i Gymru yr wythnos diwethaf? Brif Weinidog, y pryder mwyaf i mi yw gwerthoedd—eich gwerthoedd chi. Mae 31 mlynedd wedi mynd heibio ers i Gymru ddatgan ei bod yn wlad heb arfau niwclear. Mae 31 mlynedd ers i grŵp o fenywod o'r wlad hon, gan gynnwys eich Gweinidog, Jane Hutt, ddechrau eu gorymdaith i Gomin Greenham. Nid yw esgobion Cymru, rhai'r eglwysi Catholig ac Anglicanaidd, arweinwyr yr eglwysi rhydd, undebau Unite ac Unsain, na'r rhan fwyaf o bobl Cymru yn cytuno â chi. Maent yn dweud nad oes lle i arfau distryw mawr ar dir Cymru nac yn nyfroedd Cymru. Brif Weinidog, rydych i fod i siarad dros Gymru; onid yw'n wir eich bod, y tro hwn, yn siarad drosoch eich hun yn unig?

1.45 p.m.

**The First Minister:** She assumes that she has the support of the people of Wales, but I do not believe that she does. We have seen that in elections time and again. She has been offered the opportunity to clarify her party's position with regard to what her colleague said, but she has failed to do so. She has been offered the opportunity to clarify her party's position with regard to the right of the people of the Falkland islands to self-determination,

**Y Prif Weinidog:** Mae hi'n tybio bod pobl Cymru yn ei chefnogi, ond nid wyf yn credu eu bod. Rydym wedi gweld hynny mewn etholiadau dro ar ôl tro. Mae hi wedi cael cyfle i egluro safbwynt ei phlaid o ran yr hyn a ddywedodd ei chydweithiwr, ond mae hi wedi methu â gwneud hynny. Mae hi wedi cael cyfle i egluro safbwynt ei phlaid o ran hawl pobl ynysoedd y Falkland i benderfynu drostynt eu hunain, ac mae hi wedi methu â

and she has failed to do so. There are issues that Plaid Cymru needs to clarify urgently to the people of Wales in order for it to regain any credibility at all.

gwneud hynny. Mae angen i Blaid Cymru egluro rhai materion i bobl Cymru ar frys er mwyn iddi allu adennill unrhyw hygrededd o gwbl.

**Canlyniadau Iechyd**

**Health Outcomes**

***3. Paul Davies:*** *Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella canlyniadau iechyd i bobl Cymru. OAQ(4)0585(FM)*

***3. Paul Davies:*** *What is the Welsh Government doing to improve health outcomes for the people of Wales. OAQ(4)0585(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae ein cynlluniau a'n blaenoriaethau ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru gyfan i'w gweld yn ein rhaglen lywodraethu.

**The First Minister:** Our plans and priorities for the health service for the whole of Wales can be found in our programme for government.

**Paul Davies:** Fel rwy'n siŵr eich bod yn cytuno, mae'n hanfodol bod ysbytai a chlinigau yn cael eu staffio yn briodol i sicrhau bod cleifion yn derbyn y driniaeth sydd ei hangen arnynt. Yn ddiweddar, mae etholwyr wedi cysylltu â fi sy'n dioddef o arthritis gwynegol ac maen nhw wedi cael gwybod y bydd rhaid iddynt aros am gyfnod amhenodol am driniaeth oherwydd problemau staffio. Rwy'n siŵr bod y Prif Weinidog yn cytuno â fi bod hyn yn annerbyniol, ond a allai amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i recriwtio nyrsys arbenigol ar gyfer afiechydon fel arthritis gwynegol, fel y gall etholwyr gael y driniaeth y maent yn ei haeddu?

**Paul Davies:** As I am sure you would agree, it is essential that hospitals and clinics are appropriately staffed in order to ensure that patients receive the treatment that they need. Recently, constituents have contacted me who are suffering from rheumatoid arthritis and they have been told that they will have to wait for an unspecified period of time for treatment because of staffing problems. I am sure the First Minister agrees with me that this is unacceptable, but could he outline what the Welsh Government is doing to recruit specialist nurses for diseases such as rheumatoid arthritis, so that constituents can get the treatment that they deserve?

**Y Prif Weinidog:** Rydym wedi nodi bod problem yng Nghymru ynglŷn â recriwtio staff meddygol. Dyna pam wnaethom lansio ymgyrch i recriwtio staff at y dyfodol. Roeddwn i mewn achlysur neithiwr ac yr oedd hyn yn rhan bwysig ohono, er mwyn sicrhau bod meddygon ac eraill sy'n gweithio yn y sector meddygol yn gwybod bod Cymru yn lle da i weithio ac yn rhywle y gall pobl fod yn uchelgeisiol ynglŷn â'r triniaethau maen nhw eisiau eu creu.

**The First Minister:** We have noted that there is a problem in Wales in terms of recruiting medical staff. That is why we have launched a campaign to recruit staff for the future. Last night, I attended an event and this was an important part of that event, to ensure that doctors and others working in the medical sector know that Wales is a good place to work and a place where people can be ambitious in terms of the treatments that they want to create.

**Keith Davies:** With the listening and engagement process finishing earlier this year, Hywel Dda Local Health Board is set to consult on its plans in late summer. It concerns me that the Hywel Dda board intends to release its plans earlier than other health boards. It will have less time to engage with other boards on creating models that can

**Keith Davies:** Ar ôl i'r broses gwrando ac ymgysylltu orffen yn gynharach eleni, mae disgwyl i Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda ymgynghori ar ei gynlluniau ddiwedd yr haf. Mae'n peri pryder i mi fod bwrdd Hywel Dda yn bwriadu rhyddhau ei gynlluniau yn gynharach na'r byrddau iechyd eraill. Bydd ganddo lai o amser i ymgysylltu â byrddau

work together, and respondents will have less opportunity to consider other plans in their responses. Will the First Minister reiterate guidance to Hywel Dda health board that plans should be collaborative?

eraill ynghylch creu modelau sy'n gallu gweithio gyda'i gilydd, a bydd ymatebwyr yn cael llai o gyfle i ystyried cynlluniau eraill wrth ymateb. A wnaiff y Prif Weinidog bwysleisio'r arweiniad i fwrdd iechyd Hywel Dda y dylai cynlluniau gydweithio â'i gilydd?

**The First Minister:** I do not think that it is entirely fair to say that it has somehow tried to narrow the consultation process; it did start before anybody else. It is also right to say that formal, widespread public consultation will begin on 6 August and the health board has planned a series of consultation activities and events throughout the 12 weeks of August, September and October. I will, of course, expect it to be as thorough as possible in the consultation process.

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn credu ei bod yn gwbl deg dweud ei fod rywsut wedi ceisio cyfyngu'r broses ymgynghori; fe ddechreuodd cyn i neb arall wneud hynny. Mae hefyd yn iawn dweud y bydd ymgynghori cyhoeddus ffurfiol ac eang yn dechrau ar 6 Awst ac mae'r bwrdd iechyd wedi trefnu cyfres o weithgareddau a digwyddiadau ymgynghori drwy gydol y 12 wythnos ym mis Awst, Medi a Hydref. Byddaf, wrth gwrs, yn disgwyl iddo fod mor drylwyr â phosibl yn y broses ymgynghori

.

**Aled Roberts:** Brif Weinidog, wythnos diwethaf, cyhoeddwyd ffigurau yn y gogledd bod bron i 8,000 o bobl wedi cael eu gyrru adref o ysbytai rhwng 11 p.m. a 6 a.m., gan gynnwys 74 o unedau iechyd meddwl. A ydych yn credu bod hynny'n dderbyniol? A yw'n dderbyniol hefyd o ran diogelwch clinigol? Os yw'r ffigurau hyn yn gywir, beth y mae eich Llywodraeth yn ei wneud yn eu cylch? Mae rhai pobl yn dweud mai'r ffaith bod cyn lleied o welyau ysbyty yn y gogledd yw'r rheswm pam bod pobl yn cael eu gyrru adref o ysbytai yng nghanol y nos.

**Aled Roberts:** First Minister, last week, figures were published in north Wales stating that almost 8,000 people were sent home from hospitals between 11 p.m. and 6 a.m., including 74 from mental health units. Do you believe that that is acceptable? Also, is it acceptable from the point of view of clinical safety? If these figures are accurate, what is your Government doing about them? Some people are saying that the fact that there are so few hospital beds in north Wales is the reason why people are sent home from hospitals in the middle of the night.

**Y Prif Weinidog:** Bydd rhaid i ni egluro'r ffigur hwnnw. Mae'r Aelod ei hun wedi sôn nad yw'n siŵr a ydyw'r ffigur hwnnw yn hollol gywir. Gwnaf ysgrifennu ato u
nwaith y bydd y ffigur hwnnw wedi ei egluro.

**The First Minister:** That figure will need to be clarified. The Member himself mentioned that he is not certain whether that figure is completely accurate. I will write to him once that figure has been clarified.

**David Rees:** I have been informed by Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board that it is likely that it will fail to recruit the full quota of C2 doctors to cover all rotas of emergency medical admissions at Neath Port Talbot Hospital from 1 August. It tells me that it will probably be able to provide the services in the short term, but in the longer term it might not be achievable in terms of ensuring safe delivery. I commend the health board for the innovative way in which it is looking at recruitment, but could you make a statement on the progress being made on doctor recruitment in the Welsh

**David Rees:** Rwyf wedi cael gwybod gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ei bod yn debygol y bydd yn methu â recriwtio'r cwota llawn o feddygon C2 i fodloni holl rotas y derbyniadau meddygol brys yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot o 1 Awst. Mae'n dweud wrthyf y bydd yn debygol o allu darparu'r gwasanaethau yn y tymor byr, ond yn y tymor hwy efallai na fydd yn bosibl o ran sicrhau darpariaeth ddiogel. Cymeradwyaf y bwrdd iechyd am y ffordd arloesol y mae'n edrych ar recriwtio, ond a allwch roi datganiad am y cynnydd o ran recriwtio

NHS?

meddygon yn GIG Cymru?

**The First Minister:** Yes, as I mentioned earlier, we have a recruitment campaign that has been launched. It is right to say that there is a shortage of accident and emergency specialists, and that is true across the whole of the UK, not just in Wales. Given that situation, we need to make sure that we recruit enough A&E specialists to cover A&E services in Wales in the future.

**Y Prif Weinidog:** Gallaf, fel y soniais yn gynharach, rydym wedi lansio ymgyrch recriwtio. Mae'n wir dweud bod prinder arbenigwyr damweiniau ac achosion brys, ac mae hynny'n wir ar draws y DU gyfan, nid Cymru yn unig. O ystyried y sefyllfa honno, mae angen inni sicrhau ein bod yn recriwtio digon o arbenigwyr damweiniau ac achosion brys ar gyfer gwasanaethau damweiniau ac achosion brys yng Nghymru yn y dyfodol.

**Russell George:** First Minister, I have a constituent who cannot access NHS dental treatment in Newtown as there is no capacity. She has been given two options: to travel to Machynlleth or to Llanfair Caereinion, which are 50-mile round trips and she does not drive, which makes it a challenging journey just to access dental treatment. I also understand that there are no NHS dentists available in Welshpool. You have made a clear commitment in your programme for government to improve access and to increase the number of NHS dentists. What further representations can you make to Powys Teaching Local Health Board to ensure that these commitments are delivered in Montgomeryshire?

**Russell George:** Brif Weinidog, mae gennyf etholwr nad yw'n gallu cael triniaeth ddeintyddol GIG yn y Drenewydd oherwydd diffyg capasiti. Mae ganddi ddau ddewis: teithio i Fachynlleth neu i Lanfair Caereinion. Maent yn deithiau 50 milltir—mynd a dod—ac nid yw hi'n gyrru, felly mae'n daith heriol i gael triniaeth ddeintyddol. Rwyf yn cael ar ddeall hefyd nad oes deintyddion GIG ar gael yn y Trallwng. Rydych wedi gwneud ymrwymiad clir yn eich rhaglen lywodraethu i wella'r hawl i weld deintyddion GIG a chynyddu eu nifer. Pa sylwadau pellach y gallwch eu gwneud i Fwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys i sicrhau bod yr ymrwymiadau hyn yn cael eu cyflawni yn sir Drefaldwyn?

**The First Minister:** The situation regarding NHS dental services has improved markedly over the last few years, but if the Member wishes to write to me with the particular circumstances of his constituent's case, I would be pleased to investigate for him.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r sefyllfa o ran gwasanaethau deintyddol y GIG wedi gwella'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, ond os yw'r Aelod yn dymuno ysgrifennu ataf yn nodi amgylchiadau penodol achos ei etholwr, byddwn yn falch i ymchwilio i'r mater ar ei gyfer.

**Rebecca Evans:** People with learning disabilities have poorer health outcomes than the rest of the population. How is the Welsh Government ensuring that its public health advice and information is accessible to people with learning disabilities?

**Rebecca Evans:** Mae gan bobl ag anableddau dysgu ganlyniadau iechyd gwaeth na gweddill y boblogaeth. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ei chyngor a'i gwybodaeth am iechyd cyhoeddus ar gael i bobl ag anableddau dysgu?

**The First Minister:** We have produced an easy-read booklet, '4 Steps to Better Health', which is available on the Health Challenge Wales website. We have also modified the successful primary school physical activity programme, The Class Moves!, for use in special schools, and this has been distributed to those schools by local healthy schools co-

**Y Prif Weinidog:** Rydym wedi cynhyrchu llyfryn hawdd ei ddarllen, '4 Cam at Iechyd Gwell', sydd ar gael ar wefan Her Iechyd Cymru. Rydym hefyd wedi addasu'r rhaglen lwyddiannus ar gyfer gweithgarwch corfforol mewn ysgolion cynradd, Symud y Dosbarth!, i'w defnyddio mewn ysgolion arbennig, ac mae wedi'i dosbarthu i'r ysgolion hynny gan

ordinators. Other issues have been taken forward; for example, a consortium of learning disability organisations has been commissioned to develop an online accessibility initiative.

y cydlynwyr ysgolion iach lleol. Mae materion eraill wedi'u datblygu; er enghraifft, comisiynwyd consortiwm o sefydliadau anabledd dysgu i ddatblygu menter hygyrchedd ar-lein.

**The Deputy Presiding Officer:** Question 4, OAQ(4)0592(FM), has been withdrawn.

**Y Dirprwy Lywydd:** Tynnwyd cwestiwn 4, OAQ(4)0592(FM), yn ôl.

### Twf Economaidd yng Ngorllewin Cymru

### Economic Growth in West Wales

***5. Angela Burns:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddarparu manylion y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hybu twf economaidd yng ngorllewin Cymru. OAQ(4)0596(FM)*

***5. Angela Burns:*** *Will the First Minister provide details of measures the Welsh Government is taking to encourage economic growth in west Wales. OAQ(4)0596(FM)*

**The First Minister:** We are taking measures to encourage economic growth across Wales, including plans for strengthening the conditions for job creation and retention, and encouraging investment in infrastructure, skills and innovation.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn cymryd camau i annog twf economaidd ledled Cymru, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer cryfhau'r amodau ar gyfer creu swyddi a'u cadw, ac annog buddsoddiad mewn seilwaith, sgiliau ac arloesedd.

**Angela Burns:** Thank you for that response, First Minister. The Organisation for Economic Co-operation and Development has stated that small businesses play an important role in job creation, which is something that we all agree with around here. Princes Gate Spring Water in my constituency gained funds from the economic growth fund, which meant that it could cut its running costs and give the firm far more room for growth. As you know, First Minister, many businesses have failed to gain finance from the economic growth fund as a result of the vast number of applications. Which steps is your Government taking to support similar businesses in west Wales that wish to grow, expand and employ more people to help to fuel our economic renewal?

**Angela Burns:** Diolch am eich ymateb, Brif Weinidog. Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd wedi dweud bod busnesau bach yn chwarae rhan bwysig o ran creu swyddi, ac mae pawb yma yn cytuno â hynny. Cafodd Princes Gate Spring Water yn fy etholaeth arian gan y gronfa twf economaidd, a oedd yn golygu y gallai leihau ei gostau rhedeg ac a roddodd lawer mwy o le i'r cwmni dyfu. Fel y gwyddoch, Brif Weinidog, mae llawer o fusnesau wedi methu â chael cyllid gan y gronfa twf economaidd oherwydd bod cynifer o geisiadau. Pa gamau mae eich Llywodraeth yn eu cymryd i gefnogi busnesau tebyg yn y gorllewin sydd am dyfu, ehangu a chyflogi mwy o bobl i helpu i ysgogi ein hadnewyddiad economaidd?

**The First Minister:** As the Member said, Princes Gate Spring Water has received funding from the Government's economic growth fund. I believe that the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science has visited the company as well. Good luck to it in the future. The economic growth fund has offered a substantial amount of money around Wales and has safeguarded a substantial number of jobs. For example, in Carmarthenshire, it has created around 107 jobs and safeguarded some 353; in

**Y Prif Weinidog:** Fel y dywedodd yr Aelod, mae Princes Gate Spring Water wedi cael cyllid gan gronfa twf economaidd y Llywodraeth. Credaf fod y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth wedi ymweld â'r cwmni yn ogystal. Pob lwc iddo yn y dyfodol. Mae'r gronfa twf economaidd wedi cynnig swm sylweddol o arian ledled Cymru ac mae wedi diogelu nifer sylweddol o swyddi. Er enghraifft, yn sir Gaerfyrddin, mae wedi creu oddeutu 107 o swyddi ac wedi diogelu rhyw 353; yn sir

Pembrokeshire, some 65 new jobs have been created and a further 74 jobs have been safeguarded.

Benfro, mae tua 65 o swyddi newydd wedi'u creu ac mae 74 o swyddi eraill wedi'u diogelu.

**Rhodri Glyn Thomas:** Yng nghyd-destun swyddi yn y de-orllewin, pa gysylltiad a fu rhyngoch chi ac Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau a pherchnogion y cwmnïau olew a nwy yn Aberdaugleddau cyn ichi ddatgan eich bod yn croesawu arfau niwclear i'r porthladd, a beth oedd eu hymateb ynglŷn â'r swyddi a fyddai'n cael eu colli o ganlyniad i hynny?

**Rhodri Glyn Thomas:** In terms of jobs in the south-west, what contact had there been between you and the Milford Haven Port Authority and the owners of the oil and gas companies in Milford Haven before you made the statement that you would welcome nuclear arms to the port, and what was their response regarding the jobs that would be lost as a result?

**Y Prif Weinidog:** Mae'r cwmnïau sydd yn yr hafan yn Aberdaugleddau yn hollol hapus i weithio gyda Llywodraeth Cymru ac, wrth gwrs, maent yn gweld y gefnogaeth y mae'r Llywodraeth yn ei rhoi iddynt.

**The First Minister:** The companies in the haven in Milford Haven are perfectly happy to work with the Welsh Government and, of course, they see the support that the Government gives to them.

**Y Dirprwy Lywydd:** Tynnwyd cwestiwn 6, OAQ(4)0588(FM), yn ôl.

**The Deputy Presiding Officer:** Question 6, OAQ(4)0588(FM), has been withdrawn.

### Nifer y Bobl sy'n Ysmygu

### The Numbers of People who Smoke

***7. Jenny Rathbone:*** *Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i leihau nifer y bobl sy'n ysmygu. OAQ(4)0593(FM)*

***7. Jenny Rathbone:*** *What is the Welsh Government doing to reduce the numbers of people who smoke. OAQ(4)0593(FM)*

**The First Minister:** The tobacco control action plan for Wales aims to drive down smoking levels to 16% by 2020. Our current programme of measures, which includes ASSIST, Stop Smoking Wales and Smokers Helpline Wales, helps to discourage young people from starting to smoke and supports those who want to give up smoking.

**Y Prif Weinidog:** Nod y cynllun gweithredu i reoli tybaco yng Nghymru yw lleihau lefelau ysmygu i 16% erbyn 2020. Mae ein rhaglen gyfredol o fesurau, sy'n cynnwys Treial Rhoi'r Gorau i Ysmygu mewn Ysgolion, Dim Smygu Cymru a'r Llinell Gymorth i Smygwyr yng Nghymru, yn helpu i atal pobl ifanc rhag dechrau ysmygu ac yn cefnogi'r rhai sydd am roi'r gorau i ysmygu.

**Jenny Rathbone:** It remains the biggest cause of premature death among people in Wales and we know that over 5,000 people die prematurely of smoking-related causes each year. The UK Government is currently consulting on the possibility of introducing plain packaging so that the cigarette companies have less of an opportunity to market their cigarettes to capture young people early on. What possibility is there that the Welsh Government could fast forward that process, assuming that we have to wait for the UK Government to legislate on this matter?

**Jenny Rathbone:** Ysmygu sy'n achosi mwyaf o farwolaethau cyn pryd ymhlith pobl yng Nghymru o hyd, a gwyddom fod dros 5,000 o bobl yn marw cyn pryd o achosion sy'n gysylltiedig ag ysmygu bob blwyddyn. Mae Llywodraeth y DU ar hyn o bryd yn ymgynghori ar y posibilrwydd o gyflwyno pecynnu plaen fel bod llai o gyfle i'r cwmnïau sigaréts farchnata eu sigaréts i ddal pobl ifanc yn gynnar. A oes posibilrwydd y gallai Llywodraeth Cymru gyflymu'r broses honno, gan dybio y bydd rhaid aros i Lywodraeth y DU ddeddfu ar y mater hwn?

**The First Minister:** We are part of the process. We were involved in the work prior to the consultation being developed and we are participating in the UK-wide consultation. Certainly, we want to see these regulations being brought in as quickly as possible in order to deter more people from smoking.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn rhan o’r broses. Roeddem ynghlwm wrth y gwaith cyn datblygu’r ymgynghoriad ac rydym yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar draws y DU. Yn sicr, rydym eisiau gweld y rheoliadau hyn yn cael eu cyflwyno cyn gynted â phosibl i atal mwy o bobl rhag ysmygu.

**William Graham:** First Minister, you will be aware that the average age at which people in Wales start to smoke is between 11 and 12 years. Among Welsh 15-year-olds, 23% of girls and 12% of boys report regular smoking. It is known that tobacco use is responsible for the gap in life expectancy between the most advantaged and the most disadvantaged in our society. We are all aware of the concept of a no-smoking day. I wonder whether you might consider having a no-smoking month, particularly for those campaigning in schools. As you know, a month is a sufficient period of time to demonstrate measurable benefits to health and fitness and, of course, financial savings.

**William Graham:** Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol mai’r oedran y mae pobl yng Nghymru yn dechrau ysmygu, ar gyfartaledd, yw rhwng 11 a 12 oed. Ymhlith pobl 15 oed yng Nghymru, mae 23% o ferched a 12% o fechgyn yn dweud eu bod yn ysmygu’n rheolaidd. Mae’n hysbys mai defnyddio tybaco sy’n gyfrifol am y bwlch mewn disgwyliad oes rhwng y mwyaf breintiedig a’r mwyaf difreintiedig yn ein cymdeithas. Rydym oll yn ymwybodol o’r cysyniad o ddiwrnod dim ysmygu. Tybed a fyddech yn ystyried cael mis dim ysmygu, yn enwedig ar gyfer y rhai sy’n ymgyrchu mewn ysgolion? Fel y gwyddoch, mae mis yn gyfnod digonol o amser i ddangos y manteision mesuradwy i iechyd a ffitrwydd ac, wrth gwrs, yr arbedion ariannol.

**The First Minister:** The idea has merit in principle. I will look at the matter further with the Minister for Health and Social Services on the Member’s behalf to investigate the practicalities.

**Y Prif Weinidog:** Mae’n syniad da mewn egwyddor. Edrychaf ar y mater ymhellach gyda’r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ran yr Aelod i ymchwilio i’r ochr ymarferol.

**Jocelyn Davies:** First Minister, you are also committed to outlawing smoking in cars when children are present, to protect their health, if there is not a significant reduction in smoking in cars. How are you monitoring the level of this activity? What level is acceptable to your Government?

**Jocelyn Davies:** Brif Weinidog, rydych hefyd wedi ymrwymo i wahardd ysmygu mewn ceir pan fydd plant yn bresennol, i ddiogelu eu hiechyd, os na fydd gostyngiad sylweddol mewn ysmygu mewn ceir. Sut yr ydych yn monitro lefel y gweithgaredd hwn? Pa lefel sy’n dderbyniol i’ch Llywodraeth?

**The First Minister:** This policy is still in its early days. However, if we find that people are continuing to smoke in cars, legislation will be required. The health behaviour in school-aged children survey indicates that around a fifth of 11 to 16-year-olds in Wales report being exposed to second-hand smoke when they travelled last year. In terms of assessing the impact of the campaign, success would mean a significant decrease in exposure during the campaign. If a decision is made in future to consider introducing legislation to ban smoking in cars, a full

**Y Prif Weinidog:** Mae’n gynnar o hyd o ran y polisi hwn. Fodd bynnag, os byddwn yn gweld bod pobl yn parhau i ysmygu mewn ceir, bydd angen deddfwriaeth. Dangosodd yr arolwg i ymddygiad iechyd mewn plant oedran ysgol bod oddeutu un rhan o bump o blant rhwng 11 ac 16 oed yng Nghymru yn dweud eu bod wedi cael profiad o fwg ail law wrth deithio y llynedd. O ran asesu effaith yr ymgyrch, byddai llwyddiant yn golygu gostyngiad sylweddol o ran cael profiad o fwg ail law yn ystod yr ymgyrch. Os gwneir penderfyniad yn y dyfodol i ystyried

consultation exercise would be carried out.

cyflwyno deddfwriaeth i wahardd ysmygu mewn ceir, byddai ymgynghoriad llawn yn cael ei gynnal.

**Polisi Cynllunio**

**Planning Policy**

***8. William Powell****: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru. OAQ(4)0587(FM)*

***8. William Powell:*** *Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's planning policy for Mid and West Wales. OAQ(4)0587(FM)*

**The First Minister:** The Welsh Government's planning policy for Wales is set out in 'Planning Policy Wales'.

**Y Prif Weinidog:** Mae polisi cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru wedi'i nodi yn 'Polisi Cynllunio Cymru'.

**William Powell:** I thank the First Minister for that answer. My region is unique in Wales in that it encompasses all three of Wales's national parks. Given this, an equal divergence occurs in that planning policy resides with the national park, whereas responsibility for regeneration sits with the relevant principal local authorities. Naturally, this causes a degree of tension in respect of decision making, and can, on occasion, make it difficult for areas to build a cohesive planning and regeneration policy. I see the reaction of your Minister for Business, Enterprise, Technology and Science on this issue. I believe that this message is also coming through in the ministerial task and finish group for the Powys growth zones. With this in mind, what specific steps are you and your Government prepared to take to address this issue, particularly in the dire economic circumstances in which we find ourselves?

**William Powell:** Diolch i'r Prif Weinidog am ei ateb. Mae fy rhanbarth yn unigryw yng Nghymru gan ei fod yn cwmpasu tri pharc cenedlaethol Cymru. O ystyried hyn, mae dargyfeiriad cyfartal yn digwydd am fod polisi cynllunio yn gyfrifoldeb i'r parc cenedlaethol, tra bo adfywio yn gyfrifoldeb i'r prif awdurdodau lleol perthnasol. Yn naturiol, mae hyn yn achosi rhywfaint o densiwn o ran gwneud penderfyniadau, ac fe all, ar adegau, ei gwneud yn anodd i ardaloedd greu polisi cydlynol o ran cynllunio ac adfywio. Rwy'n gweld ymateb y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i'r mater hwn. Credaf fod y neges hon hefyd yn cael ei chyfleu yn y grŵp gorchwyl a gorffen gweinidogol ar gyfer parthau twf Powys. Gyda hyn mewn golwg, pa gamau penodol yr ydych chi a'ch Llywodraeth yn barod i'w cymryd i fynd i'r afael â'r mater hwn, yn enwedig o ystyried ein hamgylchiadau economaidd enbyd?

**The First Minister:** Once the task and finish group has reported, further consideration will be given to how to ensure that regeneration takes place appropriately in the different parts of the region that the Member represents. It is important that all planning authorities work together to provide social and economic sustainability for the communities that they represent.

**Y Prif Weinidog:** Ar ôl i'r grŵp gorchwyl a gorffen adrodd, bydd ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i sut i sicrhau bod adfywio yn digwydd yn briodol yn y gwahanol rannau o'r rhanbarth y mae'r Aelod yn ei gynrychioli. Mae'n bwysig bod pob awdurdod cynllunio yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu cynaladwyedd cymdeithasol ac economaidd ar gyfer y cymunedau y maent yn eu cynrychioli.

**Russell George:** I have been dealing with a number of constituents, whose properties are affected by section 106 agreements, hampering mortgage procurement and property sales. While those agreements are a tool to ensure that more affordable housing is

**Russell George:** Rwyf wedi bod yn delio â nifer o etholwyr yr effeithir ar eu heiddo gan gytundebau adran 106, sy'n rhwystro caffael morgeisi a gwerthiant eiddo. Er bod y cytundebau hynny yn arf i sicrhau bod mwy o dai fforddiadwy yn cael eu darparu, nid ydynt

delivered, the way in which they have been used has not been completely effective. I know that the Government is examining its section 106 guidance. What specific thinking has the Government undertaken on new guidance to operate on a more regional level rather than across the 22 local authorities?

wedi cael eu defnyddio mewn ffordd gwbl effeithiol. Gwn fod y Llywodraeth yn edrych ar ei ganllawiau adran 106. Pa fath o ganllawiau newydd y mae'r Llywodraeth wedi'u hystyried i weithredu ar lefel fwy rhanbarthol yn hytrach nag ar draws y 22 awdurdod lleol?

**The First Minister:** This matter is bound up in the planning Bill. It is open to the Assembly to amend or repeal section 106 agreements with the powers that we have. There are limitations, because of the community infrastructure levy, which does not give this Assembly the full power that it should have over the benefits that are outlined in section 106. These issues are being examined at the moment, with a view to looking at the planning Bill as the way forward for improving the planning system in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r mater hwn ynghlwm wrth y Bil cynllunio. Mae'r Cynulliad yn gallu diwygio neu ddiddymu cytundebau adran 106 gan ddefnyddio'r pwerau sydd gennym. Mae cyfyngiadau, oherwydd yr ardoll seilwaith cymunedol, am nad yw'n rhoi i'r Cynulliad y pŵer llawn a ddylai fod ganddo dros y buddion sydd wedi'u hamlinellu yn adran 106. Mae'r materion hyn yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd, gyda'r bwriad o edrych ar y Bil cynllunio fel y ffordd ymlaen ar gyfer gwella'r system gynllunio yng Nghymru.

**Simon Thomas:** Today, the Twitter account of your Minister with responsibility for planning tells us that there is an event in Pembroke Dock, looking at the sustainable development Bill for Wales, where we are imagining that it is 2032 and are looking back at the scale of challenges that we have faced. Could you set out for the Assembly the scale of planning challenges that you now face in changing Pembroke Dock and Milford Haven from being a hub for energy in Wales to a home for nuclear submarines?

**Simon Thomas:** Heddiw, mae cyfrif Twitter eich Gweinidog â chyfrifoldeb dros gynllunio yn dweud bod digwyddiad yn Noc Penfro, sy'n edrych ar y Bil datblygu cynaliadwy i Gymru, lle yr ydym yn dychmygu ei bod yn 2032 a'n bod yn edrych yn ôl ar faint yr heriau yr ydym wedi'u hwynebu. A allwch ddweud wrth y Cynulliad beth yw maint yr heriau cynllunio yr ydych bellach yn eu hwynebu o ran newid Doc Penfro ac Aberdaugleddau o fod yn ganolfan ar gyfer ynni yng Nghymru i fod yn gartref i longau tanfor niwclear?

**The First Minister:** It is always a giveaway with the Member when he rubs his hands before he asks a question; you know what is coming then. [*Laughter*.] I advise him not to do that. In answer to his question, there are no plans to change the haven as an energy hub for Wales. We want to see it prosper in the future and that is why an enterprise zone has been set up there.

**Y Prif Weinidog:** Mae bob amser yn amlwg pan fydd yr Aelod yn rhwbio ei ddwylo cyn gofyn cwestiwn; rydych yn gwybod beth sydd i ddod. [*Chwerthin*.] Rwy'n ei gynghori i beidio â gwneud hynny. Yr ateb i'w gwestiwn yw nad oes cynlluniau i newid y porthladd o fod yn ganolfan ynni i Gymru. Rydym am ei weld yn ffynnu yn y dyfodol, a dyna pam y sefydlwyd ardal fenter yno.

2.00 p.m.

### Salwch Meddwl

### Mental Ill health

***9. Rebecca Evans:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gymorth i bobl sydd â salwch meddwl. OAQ(4)0591(FM)*

***9. Rebecca Evans:*** *Will the First Minister make a statement on support for people with mental ill-health. OAQ(4)0591(FM)*

**The First Minister:** Our new draft strategy,

**Y Prif Weinidog:** Mae ein strategaeth ddrafft

‘Together for Mental Health’, recognises that a cross-Government approach is required to improve mental health and mental wellbeing.

newydd, ‘Law yn Llaw at Iechyd Meddwl’, yn cydnabod bod angen dull trawslywodraethol o weithredu er mwyn gwella iechyd meddwl a lles meddyliol pobl.

**Rebecca Evans:** First Minister, disability organisations—and, last week, job centre bosses also—have warned that benefit changes could have profound effects on vulnerable people. How is the Welsh Government ensuring that advice agencies in Wales are able to identify, support and signpost people whose mental health is suffering because of welfare reform?

**Rebecca Evans:** Brif Weinidog, mae sefydliadau anabledd—ac, yr wythnos diwethaf, penaethiaid canolfannau gwaith—wedi rhybuddio y gallai newidiadau i fudd-daliadau gael effaith ddwys ar bobl sy’n agored i niwed. Sut y mae Llywodraeth Cymru’n sicrhau bod asiantaethau cynghori yng Nghymru yn gallu canfod pwy yw’r rhaiobl y mae eu hiechyd meddwl yn dioddef oherwydd diwygio lles, ac yna yn eu cefnogi a’u cyfeirio?

**The First Minister:** We have serious reservations about the UK Government’s planned changes to the benefits system and their potential impacts. The ministerial task and finish group is assessing the cumulative impact of all the welfare changes and we will use its findings to help mitigate the negative implications.

**Y Prif Weinidog:** Mae gennym amheuon difrifol am newidiadau arfaethedig Llywodraeth y DU i’r system fudd-daliadau a’u heffeithiau posibl. Mae’r grŵp gorchwyl a gorffen gweinidogol yn asesu effaith gronnus yr holl newidiadau lles, a byddwn yn defnyddio ei ganfyddiadau i liniaru ar y goblygiadau negyddol hynny.

**Janet Finch-Saunders:** First Minister, I am in possession of a report by an esteemed expert in the field regarding ‘Together for Mental Health’. That report states that the Welsh measure is intensely committed to making services available through the medium of Welsh, if possible; it is also committed to personalised services. However, the only Welsh-speaking psychiatrist in north Wales left last year, dismayed at the disintegration of services in north-west Wales. His view is that, 10 years ago, the services were the best in Wales and a wonderful place to work, and that the decline has been unbearable to witness. Patients have also voiced complaints and written in with complaints about the disintegrating situation and how much this has become the antithesis of a personalised service. First Minister of Wales, how can you defend the fact that mental health services in north Wales are best described as ‘disintegrating’?

**Janet Finch-Saunders:** Brif Weinidog, mae gennyf adroddiad ar y strategaeth ‘Law yn Llaw at Iechyd Meddwl’ gan arbenigwr o fri yn y maes dan sylw. Mae’r adroddiad hwn yn nodi bod gan y mesur Cymreig hwn ymrwymiad dwys i sicrhau bod gwasanaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, os yn bosibl; mae’n cynnwys ymrwymiad hefyd i wasanaethau personol. Fodd bynnag, y llynedd, gadawodd yr unig seiciatrydd yn y gogledd a oedd yn siarad Cymraeg, gan ei fod yn siomedig bod gwasanaethau yng ngogledd-orllewin Cymru ar chwâl. Yn ei farn ef, 10 mlynedd yn ôl, dyma oedd y gwasanaethau gorau yng Nghymru, ac roedd y gogledd-orllewin yn lle gwych i weithio. Dywedodd fod gwylio’r dirywiad wedi bod yn broses annioddefol. Mae cleifion hefyd wedi lleisio cwynion a nodi eu cwynion yn ysgrifenedig am y dirywiad hwn, ac am y graddau y mae’r sefyllfa hon yn gwbl groes i’r cysyniad owasanaeth personol. Brif Weinidog, sut y gallwch chi amddiffyn y ffaith mai’r ffordd orau o ddisgrifio gwasanaethau iechyd meddwl yng ngogledd Cymru yw eu bod ‘ar chwâl’?

**The First Minister:** It is difficult for me to

**Y Prif Weinidog:** Mae’n anodd imi ymateb i

respond to an anonymous comment from an anonymous report from an anonymous expert. What I can say to the Member is that ring-fenced funding for mental health services has increased year on year, from £387.5 million in 2008-09 to £572.01 million in 2011-12. That ring fence represents the minimum amount that LHBs should spend on mental health services and efficiency savings must be reinvested. We have shown our commitment to mental health services by ring-fencing a minimum amount of spend so that they are adequate for the areas that they serve.

sylwadau dienw o adroddiad dienw gan arbenigwr dienw. Yr hyn y gallaf ei ddweud wrth yr Aelod yw bod y cyllid sydd wedi'i neilltuo ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, o £387.5 miliwn yn 2008-09 i £572.01 miliwn yn 2011-12. Mae'r cyllid sydd wedi'i neilltuo yn cynrychioli'r swm lleiaf y dylai byrddau iechyd lleol ei wario ar wasanaethau iechyd meddwl, ac mae'n rhaid iddynt ail-fuddsoddi arbedion effeithlonrwydd. Rydym wedi dangos ein hymrwymiad i wasanaethau iechyd meddwl drwy neilltuo isafswm cyllid, er mwyn sicrhau bod gan y gwasanaethau hyn ddigon o gyllid ar gyfer yr ardaloedd y maent yn eu gwasanaethu.

**Alun Ffred Jones:** Un garfan sylweddol sy'n llenwi ein llysoedd, ein carchardai a'n hunedau iechyd meddwl yw cyn-filwyr, yn enwedig y rhai sydd wedi bod mewn rhyfeloedd fel rhyfel anghyfreithlon Iraq, ac yn Afghanistan. Bydd llawer iawn o filwyr yn dychwelyd o Afghanistan dros y blynyddoedd nesaf a bydd llawer yn gadael y fyddin am resymau eraill. Pa gynlluniau sydd gan y Llywodraeth i sicrhau bod gofal iechyd meddwl ar gael i'r garfan hon, sydd wedi gwasanaethu ei gwlad ond sydd, oherwydd yr erchyllterau y maent wedi'i weld, yn wynebu problemau difrifol wrth geisio dod yn ôl yn aelodau o'u cymunedau?

**Alun Ffred Jones:** One significant cohort that fills our courts, prisons and our mental health units are veterans, particularly those who have been in wars such as the illegal Iraq war, and in Afghanistan. Many soldiers will return from Afghanistan over the next few years and many will leave the army for other reasons. What plans does the Government have to ensure that mental health care is available for this cohort, who have served their country but who, because of the horrors that they have witnessed, face serious problems in trying to return to being members of their communities?

**Y Prif Weinidog:** Mae cyllid blynyddol o £485,000 ar gael i gefnogi'r rhai sy'n dychwelyd o ryfeloedd—y *veterans.* Mae hyn yn unigryw yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n dangos pa mor ddifrifol yr ydym yn cymryd eu sefyllfa pan ddônt yn ôl.

**The First Minister:** Annual funding of £485,000 is available to support those returning from wars—the veterans. This is unique in the UK, and it demonstrates how seriously we take their situation when they return.

**Eluned Parrott:** First Minister, Wales is the only UK nation that does not have a residential care facility for veterans with post-traumatic stress disorder, or indeed, for personnel with PTSD in other emergency services. In its report, 'Healthcare and the Armed Forces Community in Wales', Healthcare Inspectorate Wales recommended that the Welsh Government should consider the utility of establishing a form of residential facility in Wales. Will you commit to doing just that, First Minister? Those affected do not understand why they should be the only people in the UK who do not have that kind

**Eluned Parrott:** Brif Weinidog, Cymru yw'r unig genedl yn y DU lle nad oes cyfleuster gofal preswyl ar gael ar gyfer cyn-filwyr sydd ag anhwylder straen wedi trawma, neu yn wir, ar gyfer personél yn y gwasanaethau brys eraill sydd ag anhwylder straen wedi trawma. Yn ei adroddiad, 'Gofal Iechyd a Chymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru', mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried pa mor ddefnyddiol fyddai sefydlu rhyw fath o gyfleuster preswyl yng Nghymru. A wnewch chi ymrwymo i wneud hynny, Brif Weinidog? Nid yw'r rhai yr effeithir

of access. Will you investigate the feasibility and ask your Minister to report back to the Assembly?

arnynt yn deall pam mai nhw yw'r unig bobl yn y DU nad oes ganddynt y math hwnnw o fynediad. A wnewch chi ymchwilio i ddichonoldeb y cynllun hwn, a gofyn i'ch Gweinidog adrodd yn ôl i'r Cynulliad?

**The First Minister:** I understand that the ministerial advisory group is looking at this issue, and I can report back to the Assembly once that investigation has taken place.

**Y Prif Weinidog:** Rwyf yn deall bod y grŵp cynghori gweinidogol yn edrych ar y mater hwn, a gallaf adrodd yn ôl i'r Cynulliad wedi i'r ymchwiliad hwnnw gael ei gwblhau.

### Datblygu Twf yn Aberafan

### Developing Growth in Aberavon

***10. David Rees:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu dull gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu twf yn Aberafan. OAQ(4)0590(FM)*

***10. David Rees:*** *Will the First Minister outline the Welsh Government's approach to developing growth in Aberavon. OAQ(4)0590(FM)*

**The First Minister:** Our approach to driving economic growth across Wales includes plans for strengthening the conditions for job creation and retention, and to invest in infrastructure, skills and innovation.

**Y Prif Weinidog:** Mae ein dull o ysgogi twf economaidd ledled Cymru yn cynnwys cynlluniau ar gyfer cryfhau'r amodau ar gyfer creu a chadw swyddi, ac ar gyfer buddsoddi mewn isadeiledd, sgiliau ac arloesedd.

**David Rees:** Thank you for that answer, First Minister. You have already alluded to the £800 million investment by Tata Steel today, and I am pleased to say that the £185 million rebuild of No. 4 blast furnace at the works in Port Talbot is already under way. Despite today's announcement regarding the possible delay in the relighting of that furnace, that should encourage other businesses by showing that the steel industry has a strong future in Wales and that growth can follow.

**David Rees:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Rydych eisoes wedi cyfeirio at y buddsoddiad o £800 miliwn a wnaed heddiw gan Tata Steel, ac rwyf yn falch o ddweud bod y cynllun i ailadeiladu ffwrnais chwyth rhif 4 yn y gwaith ym Mhort Talbot, sydd werth £185 miliwn, eisoes yn mynd rhagddo. Er gwaethaf y cyhoeddiad heddiw ynghylch yr oedi posibl yn y broses o aildanio'r ffwrnais honno, dylai'r buddsoddiad hwnnw annog busnesau eraill drwy ddangos iddynt fod gan y diwydiant dur ddyfodol cryf yng Nghymru, a bod twf yn gallu dilyn hynny.

However, energy costs are high for our energy-intensive industries, and, here in the UK, we are seeing disproportionate costs incurred compared to our European competitors, again, as the announcement highlights, in a very competitive European market. What discussions have you and your officials had with UK Government Ministers about creating an even playing field across Europe for energy prices for these industries, which will provide the backbone for growth in areas such as Aberavon?

Fodd bynnag, mae costau ynni yn uchel ar gyfer ein diwydiannau sy'n defnyddio llawer o ynni. Yn ogystal, yma yn y DU, rydym unwaith eto'n gweld costau anghymesur o'u cyymharu â'n cystadleuwyr Ewropeaidd, fel y dengys y cyhoeddiad, o fewn marchnad Ewropeaidd sy'n gystadleuol iawn. Pa drafodaethau yr ydych chi a'ch swyddogion wedi'u cael gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU am greu system deg ar draws Ewrop ar gyfer prisiau ynni ar gyfer y diwydiannau hyn, sef asgwrn cefn y broses o greu twf mewn ardaloedd fel Aberafan?

**The First Minister:** We have raised the issue of energy costs several times with UK

**Y Prif Weinidog:** Rydym wedi codi'r mater o gostau ynni nifer o weithiau gyda

Ministers. It is right to say that UK energy costs are a serious disadvantage when it comes to competition. It is not just Government saying that; businesses say it time after time. Indeed, this morning I had a meeting with a business that said the same thing again and which was concerned about UK energy prices. There is no doubt that there has to be a reduction in UK energy prices in order to ensure that we do not lose heavy manufacturing in the UK to countries where energy prices are lower.

Gweinidogion y DU. Mae'n wir i ddweud bod costau ynni yn y DU yn peri anfanteision difrifol o ran cystadlu. Nid y Llywodraeth yn unig sy'n dweud hynny; mae busnesau yn dweud hynny dro ar ôl tro. Yn wir, cefais gyfarfod y bore yma gyda busnes a ddywedodd yr un peth eto, ac a oedd yn pryderu am brisiau ynni yn y DU. Nid oes amheuaeth bod yn rhaid inni gael gostyngiad mewn prisiau ynni yn y DU er mwyn sicrhau nad ydym yn colli diwydiant gweithgynhyrchu trwm yn y DU i wledydd lle mae prisiau ynni yn is.

**Suzy Davies:** Aberavon remains one of the poorest constituencies in Europe, despite two rounds of structural funds. With West Wales and the Valleys due to receive a further round of EU funding, what kind of business activity do you expect either to create or attract to Aberavon, especially as it is some distance from the nearest enterprise zone?

**Suzy Davies:** Mae Aberafan yn parhau i fod yn un o etholaethau tlotaf Ewrop, er gwaethaf dau gylch o gronfeydd strwythurol. Gyda Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn disgwyl cael rownd arall o arian gan yr UE, pa fath o weithgarwch busnes yr ydych chi'n disgwyl ei greu yn Aberafan, neu'n disgwyl ei ddenu yno, yn enwedig o gofio ei fod ychydig o bellter o'r ardal fenter agosaf?

**The First Minister:** There are great opportunities for Aberavon and the surrounding area. For example, should the Atlantic Array go ahead, there will be opportunities for the port to be used in terms of, possibly, manufacturing, but certainly maintenance of the turbines out to sea. That, in turn, will, we hope, attract more businesses to the area that will wish to cluster around the businesses that will be created there. So, there are opportunities out to sea that would help to develop the port at Port Talbot and also to provide more jobs for the local community.

**Y Prif Weinidog:** Mae cyfleoedd gwych ar gael i Aberafan a'r ardal gyfagos. Er enghraifft, os bydd yr Atlantic Array yn mynd yn ei flaen, bydd cyfleoedd i ddefnyddio'r porthladd ar gyfer gweithgynhyrchu, o bosibl, ac yn sicr ar gyfer cynnal a chadw tyrbinau sydd ar y môr. Rydym yn gobeithio y bydd hynny, yn ei dro, yn denu mwy o fusnesau i'r ardal a fydd yn dymuno ymgasglu o amgylch y busnesau a fydd yn cael eu creu yno. Felly, mae cyfleoedd allan ar y môr a fyddai'n helpu'r broses o ddatblygu'r porthladd ym Mhort Talbot, a chreu mwy o swyddi ar gyfer y gymuned leol.

**Bethan Jenkins:** This morning, as has been mentioned, we learned that Tata Steel has announced that it may not relight No. 4 blast furnace at Port Talbot after it has undergone its £185 million rebuild, if the current levels of demand in world markets persist. Have you discussed this matter with Tata Steel and has the Welsh Government formulated any projections of what consequences such a move from Tata might have for the local economy?

**Bethan Jenkins:** Y bore yma, fel y crybwyllwyd eisoes, clywsom fod Tata Steel wedi cyhoeddi ei bod yn bosibl na fydd yn aildanio ffwrnais chwyth rhif 4 yn y gwaith ym Mhort Talbot ar ôl iddo gael ei ailadeiladu am gost o £185 miliwn, os bydd y lefelau presennol o alw ym marchnadoedd y byd yn parhau. A ydych chi wedi trafod y mater hwn gyda Tata Steel, ac a yw Llywodraeth Cymru wedi llunio unrhyw ragamcaniadau o'r canlyniadau y gallai penderfyniad o'r fath gan Tata ei gael ar yr economi leol?

**The First Minister:** The investment that

**Y Prif Weinidog:** Mae buddsoddiad Tata ym

Tata is putting into Port Talbot, in terms of rebuilding No. 4 blast furnace, indicates that it wants to use No. 4 blast furnace, otherwise it would not invest in it in the first place. From its point of view, it will need to test the market for steel when the work is completed in order to see when that blast furnace should come back on line. That is standard practice within the steel industry. I certainly welcome the substantial investment that is being put into rebuilding the furnace.

Mhort Talbot, o ran ailadeiladu ffwrnais chwyth rhif 4, yn dynodi bod y cwmni am ddefnyddio ffwrnais chwyth rhif 4. Fel arall, ni fyddai'n buddsoddi yn y ffwrnais yn y lle cyntaf. O safbwynt y cwmni, bydd angen iddo brofi'r farchnad dur pan fydd y gwaith yn cael ei gwblhau er mwyn gweld pryd y dylid aildanio'r ffwrnais chwyth honno. Mae'r arfer honno yn gyffredin yn y diwydiant dur. Yn sicr, rwyf yn croesawu'r buddsoddiad sylweddol sy'n cael ei wneud i ailadeiladu'r ffwrnais.

**Dyffryn Clwyd**

**The Vale of Clwyd**

***11. Ann Jones:*** *A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Dyffryn Clwyd. OAQ(4)0595(FM)*

***11. Ann Jones:*** *Will the First Minister provide an update on the Welsh Government's priorities for the Vale of Clwyd. OAQ(4)0595(FM)*

**The First Minister:** Yes, our priority for the Vale of Clwyd, as for other parts of Wales, is to implement the programme for government.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf. Ein blaenoriaeth ar gyfer Dyffryn Clwyd, ac ar gyfer rhannau eraill o Gymru, yw gweithredu'r rhaglen lywodraethu.

**Ann Jones:** Thank you very much for that, First Minister. The Taste Academy in my constituency is a social enterprise designed to give real-life work experience in the catering industry to the long-term unemployed. It has engaged with a significant number of learners, a third of whom have gone on to gain full employment. However, it now faces closure as its funding runs out. What more could the Welsh Government do to ensure that successful social enterprises such as this are fully supported and, when necessary, given help to find alternative funding?

**Ann Jones:** Diolch yn fawr iawn am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Mae'r Taste Academy yn fy etholaeth i yn fenter gymdeithasol a luniwyd er mwyn rhoi profiad gwaith go iawn yn y diwydiant arlwyo i bobl sy'n ddi-waith yn y tymor hir. Mae'r fenter wedi ymgysylltu â nifer sylweddol o ddysgwyr, ac mae traean ohonynt wedi mynd ymlaen i gael cyflogaeth lawn. Fodd bynnag, mae perygl bellach y bydd y fenter gorfod cau am fod ei chyllid yn dod i ben. Beth arall y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i sicrhau bod mentrau cymdeithasol llwyddiannus fel y fenter hon yn cael eu cefnogi'n llawn ac, yn ôl yr angen, yn cael cymorth ar gyfer dod o hyd i gyllid amgen?

**The First Minister:** We provide a variety of support to social enterprises, which includes funding of specialist business support and a representative voice for the sector through the Welsh Social Enterprise Coalition. Our commitment to the sector was set out in the 2009 social enterprise action plan, and we are continuing to implement that plan.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn darparu cymorth amrywiol i fentrau cymdeithasol, gan gynnwys cyllid ar gyfer cymorth busnes arbenigol a llais sy'n cynrychioli'r sector drwy Gynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru. Mae ein hymrwymiad i'r sector wedi'i nodi yng nghynllun gweithredu mentrau cymdeithasol 2009, ac rydym yn parhau i weithredu'r cynllun hwnnw.

**Antoinette Sandbach:** One matter of concern for constituents in the Vale of Clwyd, which was raised at a recent

**Antoinette Sandbach:** Un mater sy'n peri pryder i etholwyr yn Nyffryn Clwyd ac a godwyd mewn cyfarfod diweddar o'r cyngor

community health council meeting, is the quality of communications that should accompany patients being discharged from Ysbyty Glan Clwyd. In some instances local GPs are left waiting more than three months to receive essential information on treatment and medication for long-term care needs. What steps is your Government taking to ensure that care is not compromised by entirely preventable oversight, and how can patients in the Vale and across north Wales trust your Government to oversee the health board when simple and straightforward matters such as this are overlooked?

iechyd cymuned, yw ansawdd y cyfathrebu a ddylai fod ynghlwm â rhyddhau cleifion o Ysbyty Glan Clwyd. Mewn rhai achosion, mae meddygon teulu lleol yn gorfod aros mwy na thri mis i gael gwybodaeth hanfodol am driniaeth a meddyginiaeth ar gyfer anghenion gofal tymor hir. Pa gamau y mae eich Llywodraeth chi yn eu cymryd i sicrhau nad yw gofal yn cael ei beryglu drwy amryfusedd y gellir ei osgoi yn gyfan gwbl? Yn ogystal, sut y gall cleifion yn Nyffryn Clwyd ac ar draws gogledd Cymru ymddiried yn eich Llywodraeth i oruchwylio gwaith y byrddau iechyd pan fydd materion syml fel hyn yn cael eu hesgeuluso?

**The First Minister:** If the Member can produce any evidence to support what she is saying, I would be prepared to look at that evidence, but, given the absence of it at this stage, there is nothing further that I can add.

**Y Prif Weinidog:** Os gall yr Aelod gyflwyno unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r hyn y mae'n ei ddweud, byddwn yn barod i edrych ar y dystiolaeth honno. Serch hynny, yn absenoldeb y math hwnnw o dystiolaeth ar hyn o bryd, nid oes unrhyw beth arall y gallaf ei ychwanegu.

**Kenneth Skates:** First Minister, there are many historic sites in the Vale of Clwyd, and, on Friday, I hosted a conference in my constituency looking at the importance of local heritage to the culture and the visitor economy of north-east Wales. One of the issues to come out of the conference was the relative lack of participation by children and young adults in community and heritage schemes. A possible solution to this could be through creating community asset lists of local heritage sites and historic buildings. First Minister, will you look at how we can map our local heritage and ensure that we encourage the next generation to play its part in protecting and promoting Wales's historic community assets in the forthcoming heritage Bill?

**Kenneth Skates:** Brif Weinidog, mae llawer o safleoedd hanesyddol yn Nyffryn Clwyd. Ddydd Gwener, cynhaliais gynhadledd yn fy etholaeth a oedd yn edrych ar bwysigrwydd treftadaeth leol i ddiwylliant ac i economi ymwelwyr gogledd-ddwyrain Cymru. Un o'r materion a ddaeth i'r amlwg yn y gynhadledd oedd y diffyg cymharol o gyfranogiad a welwyd gan blant ac oedolion ifanc yn y gymuned ac yng nghynlluniau treftadaeth. Un ateb posibl i'r sefyllfa hon byddai creu rhestrau o asedau cymunedol a fyddai'n cynnwys safleoedd treftadaeth lleol ac adeiladau hanesyddol. Brif Weinidog, a wnewch chi edrych ar sut y gallwn fapio ein treftadaeth leol a sicrhau ein bod yn annog y genhedlaeth nesaf i chwarae ei ran wrth ddiogelu a hybu asedau hanesyddol cymunedau Cymru yn y Bil treftadaeth sydd ar y gweill?

**The First Minister:** The heritage Bill provides us with a once-in-a-generation opportunity to develop a suite of modern-day measures for the protection of the historic environment. I fully support the need to encourage greater participation by young people in local heritage, and the establishment of local or community heritage lists may provide one such mechanism for achieving this.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Bil treftadaeth yn rhoi cyfle unwaith mewn cenhedlaeth inni ddatblygu cyfres o fesurau modern ar gyfer gwarchod yr amgylchedd hanesyddol. Rwyf yn llwyr gefnogi'r angen i annog pobl ifanc i gymryd mwy o ran ym maes treftadaeth leol, a gallai creu rhestrau lleol neu gymunedol fod yn un dull o gyflawni'r nod hwn.

**Llyr Huws Gruffydd:** O ganlyniad i'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn torri £3 miliwn o'r arian sydd ar gael ar gyfer cymorthdaliadau i wasanaethau bysys, mae Cyngor Sir Dinbych yn ymgynghori ar hyn o bryd ar dorri hyd at £145,000 o'r gwasanaethau yn y sir honno, sydd yn cynnwys Dyffryn Clwyd, wrth gwrs. Felly, a ydych yn cytuno ei bod yn eironig bod eich rhaglen lywodraethu yn sôn am eich bwriad i wella gwasanaethau bysys a chryfhau trafnidiaeth gynaliadwy, tra bydd y toriadau arfaethedig hyn yn golygu bod mwy o geir ar y ffordd, mwy o allyriadau carbon a mwy o dlodi trafnidiaeth?

**Llyr Huws Gruffydd:** As a result of the fact that the Welsh Government is cutting £3 million from the money available for subsidies for bus services, Denbighshire County Council is consulting at the moment on cutting up to £145,000 from services in that county, which includes the Vale of Clwyd, of course. Therefore, do you agree that it is ironic that your programme for government mentions your intention to improve bus services and to strengthen sustainable transport, while the proposed cuts will mean that there are more cars on the road, greater carbon emissions, and more transport poverty?

**Y Prif Weinidog:** O ran hyn, mae'r Gweinidog wedi bod yn gweithio'n galed gyda'r rhai sy'n rhedeg y bysys ac awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn parhau, o gofio'r ffaith fod llai o arian ar gael yn awr nag oedd ar gael flynyddoedd yn ôl.

**The First Minister:** With regard to this, the Minister has been working hard with the people running the buses and local authorities to ensure that services continue, bearing in mind the fact that there is less money available now than was the case years ago.

### Cerdyn Adroddiad Diogelwch Plant

### The Child Safety Report Card

***12. William Graham:*** *Pa ystyriaeth y mae'r Prif Weinidog wedi'i rhoi i safle Cymru ar Gerdyn Adroddiad Diogelwch Plant yr UE. OAQ(4)0594(FM)*

1***2. William Graham***: *What consideration has the First Minister given to Wales' position on the EU's Child Safety Report Card. OAQ(4)0594(FM)*

**The First Minister:** I welcome the Welsh child safety report card. It shows that while good practice in Wales has resulted in improvements, there is still more that can be done and we look forward to further improvements.

**Y Prif Weinidog:** Rwyf yn croesawu cerdyn adroddiad diogelwch plant Cymru. Mae'n dangos, er bod arfer da yng Nghymru wedi arwain at welliannau, bod mwy y gellir ei wneud, ac rydym yn edrych ymlaen at welliannau pellach.

**William Graham:** I thank the First Minister for his answer, but he will know that Wales was twenty third out of the 31 countries covered by the report, scoring 31 out of a possible 60. The report highlighted that, if Wales were as safe as the Netherlands, 21 out of 57 child deaths during 2009 might have been prevented. Will the First Minister highlight what his administration is doing to improve child safety?

**William Graham:** Hoffwn ddiolch i'r Prif Weinidog am ei ateb. Fodd bynnag, bydd yn gwybod mai Cymru oedd rhif 23 ar y rhestr o'r 31 o wledydd yn yr adroddiad, gyda sgôr o 31 allan o 60 o farciau posibl. Roedd yr adroddiad yn amlygu'r ffaith y byddai modd arbed bywyd 21 plentyn o'r 57 a farwodd yn ystod 2009 pe bai Cymru mor ddiogel â'r Iseldiroedd. A wnaiff y Prif Weinidog dynnu sylw at yr hyn y mae ei weinyddiaeth yn ei wneud i wella diogelwch plant?

**The First Minister:** The child safety project, for example, which is funded by the Welsh Government through the Health Challenge Wales voluntary sector grant scheme,

**Y Prif Weinidog:** Un enghraifft yw'r prosiect diogelwch plant, sef prosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru drwy gynllun grantiau sector gwirfoddol Her

promotes and co-ordinates child safety work across Wales. The aim of that project was to bring together practitioners on a local level with policy makers on a national level to improve the practice of promoting child safety across Wales. That project will continue to receive funding to 2012-13.

Iechyd Cymru. Mae'r prosiect hwn yn hyrwyddo ac yn cydgysylltu gwaith diogelwch plant ledled Cymru. Nod y prosiect oedd dod ag ymarferwyr ar lefel leol ynghyd â llunwyr polisi ar lefel genedlaethol i wella arferion hyrwyddo diogelwch plant ledled Cymru. Bydd y prosiect yn parhau i gael cyllid hyd at 2012-13.

**Lindsay Whittle:** First Minister, once again, this report has highlighted the legislative weakness of this institution as being detrimental to an area that I think we can all agree should be a priority for any Welsh Government. The predictable response to some of the criticisms has been to blame the Government in England. First Minister, will you accept this report's findings and that, as the European Child Safety Alliance said, there is a clear need for the Welsh Government to seek further powers so that such a response is not an option for the current or any future Welsh Government? Also, will you reconsider your refusal to set targets?

**Lindsay Whittle:** Brif Weinidog, unwaith eto, mae'r adroddiad hwn wedi tynnu sylw at y ffaith bod gwendid deddfwriaethol y sefydliad hwn yn niweidiol i un maes a ddylai fod yn flaenoriaeth—fel y credaf y bydd pob un ohonom yn cytuno—i unrhyw Lywodraeth Cymru. Yr ymateb rhagweladwy i rai o'r beirniadaethau hyn oedd beio'r Llywodraeth yn Lloegr. Brif Weinidog, a wnewch chi dderbyn canfyddiadau'r adroddiad hwn, ac a wnewch chi dderbyn, fel y dywedodd Cynghrair Diogelwch Plant Ewrop, fod angen clir i Lywodraeth Cymru geisio pwerau pellach er mwyn sicrhau nad yw ymateb o'r fath yn opsiwn i'r Llywodraeth bresennol nac i unrhyw Lywodraeth Cymru yn y dyfodol? Hefyd, a wnewch chi ailystyried eich penderfyniad i wrthod gosod targedau?

**The First Minister:** I have not blamed any Government elsewhere as part of my answer to this question, nor have I done so at all today, which I am sure will be a first for some Members to notice. We understand that there is a need to improve child safety in Wales, and I have already mentioned one such project that aims to do that.

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf wedi beio unrhyw Lywodraeth mewn unrhyw fan arall fel rhan o'm hateb i'r cwestiwn hwn, ac nid wyf wedi gwneud hynny o gwbl heddiw. Rwyf yn siŵr bod rhai Aelodau wedi sylwi hynny am y tro cyntaf. Rydym yn deall bod angen gwella diogelwch plant yng Nghymru, ac rwyf eisoes wedi sôn am un prosiect o'r fath sy'n ceisio gwneud hynny.

### Diwydiant Ynni Dŵr

### Hydro Energy Industry

***13. Llyr Huws Gruffydd:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i hybu'r diwydiant ynni dwr. OAQ(4)0598(FM)*

***13. Llyr Huws Gruffydd:** Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's plans to promote the hydro energy industry. OAQ(4)0598(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth Cymru yn hybu gweithgareddau ynni dŵr yng Nghymru trwy'r rhaglen Ynni'r Fro.

**The First Minister:** The Welsh Government promotes hydro energy activity in Wales through the Ynni'r Fro programme.

**Llyr Huws Gruffydd:** Diolch i chi am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. A fyddech yn cytuno fod gofyniad Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ynglŷn â *flow splitting*, sy'n rhannu lefel y dŵr fel mai dim ond

**Llyr Huws Gruffydd:** Thank you for that response, First Minister. Would you agree that the requirement of the Environment Agency Wales with regard to flow splitting, which separates the flow of water so that only

hanner dŵr yr afon sy'n gallu cael ei ddefnyddio ar gyfer ynni hydro, yn rhy eithafol, yn enwedig o gofio nad yw Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr na'r Alban yn gofyn am yr un peth, a bod hynny felly yn golygu fod buddsoddi yn y sector yng Nghymru yn llai atyniadol ac yn tanseilio twf y sector o ganlyniad?

half of the river flow can be used for hydro energy, is too extreme, particularly bearing in mind that the Environment Agencies in England and Scotland do not make such a demand, and that that therefore makes investing in the sector in Wales less attractive and undermines the growth of the sector as a result?

2.15 p.m.

**Y Prif Weinidog:** Barn Asiantaeth yr Amgylchedd yw bod hwn yn ffordd mwy effeithiol o edrych ar y mater hwn. Mae'n bwysig dros ben bod pob cais sy'n ymwneud ag ynni dŵr yn cael ei ystyried yn unigol. Fodd bynnag, rydym eisiau sicrhau bod y corff sengl a ddaw i fodolaeth fis Ebrill nesaf yn edrych ar hwn mewn ffordd newydd i sicrhau bod gennym ffordd o hybu datblygiadau fel hyn yn y dyfodol gan gofio'r angen i sicrhau dyfodol yr amgylchedd.

**The First Minister:** The view of the Environment Agency is that this is a more effective way to approach the issue. It is very important that every application involving hydro energy be considered individually. However, we want to ensure that the single body, which will come into being next April, will consider this in a new way to ensure that we have a means of promoting such development in future, bearing in mind the need to safeguard the future of the environment.

### Gemau Olympaidd 2012

### The 2012 Olympic Games

***14. Keith Davies:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am rôl Cymru yng Ngemau Olympaidd 2012. OAQ(4)0583(FM)*

***14. Keith Davies:*** *Will the First Minister make a statement on Wales' role in the 2012 Olympic Games. OAQ(4)0583(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Llywodraeth Cymru sydd wedi arwain y gwaith o gydlynu a darparu'r cyfleoedd Olympaidd drwy Gymru gyfan. Mae cynllun gweithredu'r Llywodraeth, a gyhoeddwyd yn 2011, yn pwysleisio'r angen i wneud yn fawr o'r cyfleoedd sydd ar gael cyn, yn ystod, ac ar ôl y gemau.

**The First Minister:** It is the Welsh Government that has led the efforts to co-ordinate and deliver the Olympic Games' opportunities across Wales. The Government's action plan, published in 2011, focuses on maximising the opportunities before, during and after the games.

**Keith Davies:** Diolch am yr ateb, Brif Weinidog. Yn dilyn gweithred a chyffro y gemau, mae'n hanfodol eu bod yn gadael etifeddiaeth a theimlad o lwyddiant. Mae timau rhyngwladol wedi dewis Cymru yn fan hyfforddi, sydd nid yn unig yn creu cysylltiadau ond yn ysbrydoli plant Cymru. Beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau bod manteision y gemau yn cael eu gweld yng nghymunedau Cymru am flynyddoedd i ddod?

**Keith Davies:** Thank you for the response, First Minister. It is crucial that, following the occasion and excitement of the games, there be a legacy and an atmosphere of success. International teams have chosen Wales as a training location, which not only creates connections but inspires the children of Wales. What is the Government doing to ensure that the benefits of the games can be felt in the communities of Wales for years to come?

**Y Prif Weinidog:** Drwy sicrhau bod pobl yn chwarae rhan yn y Gemau Olympaidd a'u bod yn teimlo eu bod yn rhan o'r gemau ei hunain, er bod y rhan fwyaf o'r gweithgareddau yn Llundain. Gwn fod y

**The First Minister:** By ensuring that people participate in the Olympic Games and that they feel that they are part of the games themselves, although most of the activities will take place in London. I know that the

Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol wedi bod yn gweithio i sicrhau bod pobl yn cofio’r Gemau Olympaidd ar ôl iddynt fod ym Mhrydain Fawr, a bod etifeddiaeth, yn enwedig mewn rhai chwaraeon sydd heb lawer o chwaraewyr ar hyn o bryd. Felly, mae’n bwysig dros ben ein bod yn adeiladu ar yr etifeddiaeth honno yn y dyfodol.

International Olympic Committee has been working to ensure that people remember the Olympic Games after being in Great Britain, and to ensure that there is a legacy, particularly in some sports that are currently minority sports. Therefore, it is exceptionally important that that legacy be built on for the future.

**Mohammad Asghar:** First Minister, the opening and closing ceremonies of the Olympic Games will provide a once-in-a-lifetime opportunity to promote Wales to a worldwide audience. What is the Welsh Government doing to ensure that Wales will be effectively represented in these ceremonies so that we do not miss yet another opportunity to get the maximum benefit for Wales from the Olympic Games?

**Mohammad Asghar:** Brif Weinidog, bydd y seremonïau ar gyfer agor a chau’r Gemau Olympaidd yn gyfle unwaith mewn oes i hyrwyddo Cymru i gynulleidfa fyd-eang. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau y bydd Cymru’n cael ei chynrychioli’n effeithiol yn y seremonïau hyn, fel nad ydym yn colli cyfle arall i gael y budd mwyaf posibl i Gymru o’r Gemau Olympaidd?

**The First Minister:** We are working closely with UK Trade and Investment to promote Wales. We also have the office in London, which has been mentioned, which will act as a hub for Wales during the Olympics and, indeed, beyond. With regard to the opening ceremony, we still hope to be in a position where there will be some kind of event before the first event at the Millennium Stadium. Discussions are ongoing with the Olympic committee to ensure that that happens.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn gweithio’n agos gyda Masnach a Buddsoddi y DU i hyrwyddo Cymru. Yn ogystal mae gennym swyddfa yn Llundain, a grybwyllwyd eisoes, a fydd yn gweithredu fel canolbwynt ar gyfer Cymru yn ystod y Gemau Olympaidd ac, yn wir, y tu hwnt i hynny. O ran y seremoni agoriadol, rydym yn dal i obeithio y bydd rhyw fath o ddigwyddiad yn cael ei gynnal cyn y cynhelir y digwyddiad cyntaf yn Stadiwm y Mileniwm. Mae trafodaethau gyda’r pwyllgor Olympaidd yn parhau er mwyn sicrhau bod hynny’n digwydd.

**Bethan Jenkins:** Y bore yma, cefais gyfarfod â swyddogion Chwaraeon Cymru, ac roedd yn ddiddorol clywed am eu cynlluniau i ehangu ar y syniad o gemau stryd, sef menter i gynyddu cyfranogiad pobl ifanc o ardaloedd llai breintiedig mewn chwaraeon. A oes gan Lywodraeth Cymru gynlluniau i gynyddu ymwybyddiaeth chwaraeon a chyfranogiad mewn chwaraeon adeg y Gemau Olympaidd, yn enwedig ymhlith y grŵp penodol hwnnw o bobl ifanc?

**Bethan Jenkins:** This morning, I had a meeting with Sport Wales officials, and it was very interesting to hear about their plans to expand on the idea of street games, which is an initiative to increase participation in sport among young people from more disadvantaged areas. Does the Welsh Government have any plans to increase awareness of sport and participation in sport during the Olympic Games, particularly among that specific group of young people?

**Y Prif Weinidog:** Mae’r cyngor chwaraeon yn rhan o’r Llywodraeth, a’r cyngor sydd â’r cyfrifoldeb o hybu chwaraeon yng Nghymru. Mae’n bwysig dros ben bod pobl ifanc yn cael mynediad i chwaraeon yn y ffordd sydd rhwyddaf iddynt. Er enghraifft, gwn am gynlluniau gyda rygbi’r gynghrair ers blynyddoedd i helpu plant i chwarae gemau’r stryd, felly mae cyfle yno i’r cyngor

**The First Minister:** The sports council is part of the Government, and it has responsibility for promoting sport in Wales. It is exceptionally important that young people have access to sports in the easiest way for them. For example, with rugby league, I know of plans that have been in place for years to help children to play street games, so there is an opportunity there for the

chwaraeon sicrhau bod hwnnw'n parhau.

sports council to ensure that that continues.

**Simon Thomas:** Brif Weinidog, a ydych yn cefnogi'r alwad i'r arian sydd dros ben o'r Gemau Olympaidd ddod yn ôl i sawl cronfa'r loteri yn hytrach nag i Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol? A fyddech yn cefnogi'r alwad honno i sicrhau etifeddiaeth ar ffurf datblygu cynlluniau mwy lleol, megis y trac rhedeg yn Aberystwyth? Pa gamau ydych chi, fel Llywodraeth, yn eu cymryd i sicrhau ein bod ni, ar ôl y Gemau Olympaidd, yn elwa ar eu presenoldeb yn Llundain a sicrhau bod cynlluniau lleol i arian y loteri?

**Simon Thomas:** First Minister, do you support the call for any money left over from the Olympic Games to be returned to the several lottery funds rather than to the UK Government? Would you support that call to ensure a legacy by way of more localised plans, such as the running track in Aberystwyth? What steps are you, as a Government, taking to ensure that, after the Olympics, we benefit from the holding of the Olympics in London and that there are local plans for lottery funding?

**Y Prif Weinidog:** Yn gyntaf, dylem weld a oes arian ar gael. Rwy'n cytuno â'r Aelod ei fod yn bwysig dros ben bod cyfran deg o'r arian yn dod yn ôl i Gymru, efallai drwy'r loteri, neu efallai drwy ryw ffordd arall.

**The First Minister:** First, we should see whether any money is available. I agree with the Member that it is important for a fair share of that funding to come back to Wales, perhaps through the lottery or perhaps through other means.

**Amseroedd Aros ar gyfer Trin Canser**

**Waiting Times for Cancer Treatment**

***15. Peter Black:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am amseroedd aros ar gyfer trin canser. OAQ(4)0586(FM)*

***15. Peter Black:*** *Will the First Minister make a statement on waiting times for the treatment of cancer. OAQ(4)0586(FM)*

**The First Minister:** Improving cancer services is one of the Welsh Government's top priorities for the NHS in Wales. Clear targets are in place for treatment for cancer, and the vast majority of patients are being treated within those target times.

**Y Prif Weinidog:** Mae gwella gwasanaethau canser yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y GIG yng Nghymru. Mae targedau clir wedi'u pennu ar gyfer triniaeth canser, ac mae'r mwyafrif llethol o gleifion yn cael eu trin o fewn y cyfnod targed.

**Peter Black:** Thank you for that answer, First Minister. My health board and yours, namely Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board, is consistently among the worst-performing health boards in meeting targets on starting cancer treatment within 62 days of diagnosis. In fact, ABMU health board has consistently been among the worst performers for over a year. What are you doing to try to correct this situation?

**Peter Black:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Mae fy mwrdd iechyd i a'ch bwrdd iechyd chi, sef Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, yn gyson ymhlith y byrddau iechyd sy'n perfformio waethaf o ran cyrraedd targedau ar gyfer dechrau triniaeth canser o fewn 62 diwrnod i'r diagnosis. Yn wir, bu Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn gyson ymhlith y perfformwyr gwaethaf am dros flwyddyn. Beth ydych chi'n ei wneud i geisio unioni'r sefyllfa hon?

**The First Minister:** There will be differences in performance between different boards, that is correct, and where boards are falling below the target, I would expect them to improve. That is a clear message that I would send to them. As far as Wales is concerned, performance against the 31-day

**Y Prif Weinidog:** Mae'n wir dweud y bydd gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng gwahanol fyrddau, ac mewn achosion lle mae byrddau yn disgyn yn is na'r targed, byddwn yn disgwyl iddynt wella. Dyna'r neges glir y byddwn yn ei hanfon atynt. O ran Cymru, mae'r perfformiad yn erbyn y targed 31

target continues to be above the 90% target that we have set, achieving 98.2% in April. It is important that we continue with the good work that is being done, while ensuring that, where we fall below those targets, we rapidly catch up with them.

diwrnod yn parhau i fod yn uwch na'r targed o 90% a bennwyd gennym, a gyrhaeddodd 98.2% ym mis Ebrill. Mae'n bwysig ein bod yn parhau gyda'r gwaith da sy'n cael ei wneud, a hynny gan sicrhau ein bod—mewn achosion lle rydym yn syrthio o dan y targedau hynny—yn dal i fyny â'r targedau yn gyflym.

**Andrew R.T. Davies:** First Minister, I am a little surprised that you did not refer to the national cancer plan that was recently launched by your Government. I greatly welcome that, and we have debated it extensively in the Chamber. I suggest to you that one flaw in the cancer plan is the lack of an oncologist to monitor its outcomes and work with health boards across Wales to ensure that there is a uniform service. Will you please address that anomaly, as I see it, as do others in the Chamber, and appoint, as happens in other parts of the United Kingdom, an oncologist to work with the Government to drive up cancer services in unison with the national cancer plan that you have developed?

**Andrew R.T. Davies:** Brif Weinidog, rwyf yn synnu ychydig na chyfeiriasoch at y cynllun canser cenedlaethol a lansiwyd yn ddiweddar gan eich Llywodraeth. Rwyf yn croesawu'r cynllun hwnnw'n fawr, ac yr ydym wedi ei drafod yn helaeth yn y Siambr. Hoffwn awgrymu mai un o wendidau'r cynllun canser yw'r ffaith nad oes oncolegydd i fonitro ei ganlyniadau ac i weithio gyda byrddau iechyd ledled Cymru i sicrhau bod gwasanaeth unffurf yn cael ei ddarparu. A wnewch chi fynd i'r afael â'r sefyllfa hon, sy'n sefyllfa anghyson yn fy marn i ac ym marn eraill yn y Siambr, a phenodi oncolegydd, fel sy'n digwydd mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, i weithio gyda'r Llywodraeth i wella gwasanaethau canser, yn unol â'r cynllun canser cenedlaethol yr ydych wedi'i ddatblygu?

**The First Minister:** There will of course be proper monitoring of the national cancer plan. This is ultimately a matter for the Minister. If the Minister feels that there is a need to make such an appointment, I am sure that she will consider it.

**Y Prif Weinidog:** Wrth gwrs, bydd y cynllun cenedlaethol ar gyfer canser yn cael ei fonitro'n briodol. Yn y pen draw, mater i'r Gweinidog yw hwn. Os yw'r Gweinidog yn teimlo bod angen gwneud penodiad o'r fath, rwyf yn siŵr y bydd hi'n ystyried hynny.

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
## Business Statement and Announcement

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I have one change to report to this week's planned business: the Business Committee has agreed to postpone tomorrow's short debate. The business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

**Y Gweinidog dros Gyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Mae gennyf un newid i'w adrodd i fusnes yr wythnos hon. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno i ohirio'r ddadl fer yfory. Nodir y busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd ar gael ymhlith y papurau agenda sydd ar gael i Aelodau yn electronig.

**Antoinette Sandbach:** Minister, will you ask the Minister for Environment and Sustainable Development to make a statement on the outcome of the consultation on the natural environment framework? The Environment

**Antoinette Sandbach:** Weinidog, a wnewch chi ofyn i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy i wneud datganiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad ar y fframwaith amgylchedd naturiol? Gofynnwyd i'r

and Sustainability Committee is being asked to scrutinise an Order that sets up the body, without having the full details of the aims and outcomes of the consultation from the Minister or the precise criteria that the Minister is seeking to have that body deliver. Therefore, it makes scrutiny of that Order very difficult, if not impossible.

Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd graffu ar Orchymyn a fydd yn sefydlu'r corff hwn, a hynny heb gael y manylion llawn am nodau a chanlyniadau'r ymgynghoriad gan y Gweinidog, na'r meini prawf penodol y mae'r Gweinidog am i'r corff hwnnw eu cyflawni. Felly, mae'r sefyllfa hon yn gwneud y dasg o graffu ar y Gorchymyn hwnnw'n anodd iawn, os nad yn amhosibl.

**Jane Hutt:** I hope that I am correct in presuming that the Member is raising a question about 'A Living Wales', the natural environment framework for Wales. I reassure the Member that the consultation paper and the Green Paper outlined changes to the governance and delivery of the management and regulation of the environment in Wales. The consultation period closed on 31 May. The responses are now being considered with a view to publishing proposals in an environment Bill White Paper in 2013.

**Jane Hutt:** Gobeithiaf fy mod yn gywir i ragdybio bod yr Aelod yn gofyn cwestiwn am 'Cymru Fyw', sef y fframwaith amgylchedd naturiol i Gymru. Gallaf sicrhau'r Aelod fod y papur ymgynghori a'r Papur Gwyrdd yn amlinellu newidiadau i'r dull o lywodraethu a darparu'r drefn ar gyfer rheoli a rheoleiddio'r amgylchedd yng Nghymru. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 31 Mai. Mae'r ymatebion yn cael eu hystyried ar hyn o bryd, gyda golwg ar gyhoeddi cynigion mewn Papur Gwyn ar gyfer Bil ar yr amgylchedd yn 2013.

**Rhodri Glyn Thomas:** Weinidog, mewn datganiad gan y Prif Weinidog yr wythnos diwethaf, dywedodd ei fod yn croesawu arfau niwclear Trident i dde-orllewin Cymru. Erbyn hyn, mae'n dweud wrthym nad yw'n fwriad gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig symud y diwydiant hwnnw o'r Alban. O ystyried eich cefndir chi—a chyfeiriwyd at hynny y prynhawn yma, ac rwy'n ymwybodol iawn o'ch ymrwymiad i wrthwynebu arfau niwclear—onid ydych yn credu bod angen datganiad o leiaf yn y lle hwn os nad dadl lawn am bolisi Llywodraeth Cymru bellach? Rwy'n cymryd bod y Prif Weinidog yn mynegi dyhead Llywodraeth Cymru, beth bynnag fo penderfyniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Beth yw polisi Llywodraeth Cymru o ran arfau niwclear? A yw Llywodraeth Cymru yn croesawu arfau niwclear i dde-orllewin Cymru neu unrhyw ran arall o Gymru? A wnewch chi sicrhau ein bod yn cael datganiad o leiaf os nad dadl lawn am hyn cyn diwedd y tymor hwn?

**Rhodri Glyn Thomas:** Minister, in a statement made by the First Minister last week, he said that he would welcome Trident nuclear weapons to south-west Wales. Now, he tells us that the UK Government has no intention of moving that industry from Scotland. Given your background—and that was referred to this afternoon, and I am acutely aware of your commitment to opposing nuclear weapons—do you not think that we need a statement in this place at least, if not a full debate, about the Welsh Government's policy now? I assume that the First Minister is expressing the wishes of the Welsh Government, whatever the decision of the UK Government. What is the Welsh Government's policy with regard to nuclear weapons? Would the Welsh Government welcome nuclear weapons to south-west Wales or any other part of Wales? Will you ensure that we at least have a statement, if not a full debate, on this before the end of this term?

**Jane Hutt:** I believe that this issue has been aired sufficiently this afternoon. I do not think that there is anything that can usefully be added to what the First Minister said in response to his questions.

**Jane Hutt:** Credaf fod y mater hwn wedi cael ei wyntyllu'n ddigonol y prynhawn yma. Ni chredaf ei fod yn bosibl ychwanegu unrhyw beth defnyddiol at yr hyn a ddywedodd y Prif Weinidog wrth ateb ei gwestiynau ef.

**Kirsty Williams:** Minister, I wonder whether you are in a position this afternoon to give feedback on the requests that were made by me and other Members during the business statement last week for a statement on the Government's cancer plan. You will have heard the arguments last week that this is a long-awaited and significant policy announcement made by the Welsh Government, and it continues to be the subject of questions from Assembly Members across the piece. I wonder whether you have had time to reflect on those requests and whether you will be able to acquiesce. If that is not the case, why not?

**Kirsty Williams:** Weinidog, tybed a ydych mewn sefyllfa y prynhawn yma i roi adborth inni ar y ceisiadau a wnaed gennyf innau a chan Aelodau eraill yn ystod y datganiad busnes yr wythnos diwethaf am ddatganiad ar gynllun canser y Llywodraeth. Byddwch wedi clywed y dadleuon yr wythnos diwethaf am y ffaith bod y cyhoeddiad polisi hwn yn un hir-ddisgwyliedig a phwysig gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n parhau i fod yn destun cwestiynau gan Aelodau'r Cynulliad ar draws y Siambr. Tybed a ydych wedi cael amser i fyfyrio ar y ceisiadau hynny, ac ynghylch a fyddwch yn gallu ymateb yn gadarnhaol iddynt. Os na fyddwch yn gallu gwneud hynny, paham?

**Jane Hutt:** Usefully, the cancer delivery plan was also raised in questions to the First Minister this afternoon, and I know that Members will welcome that plan, as did the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies. 'Together for Health—Cancer Delivery Plan' focuses on the importance of early diagnosis, surgery and other proven effective treatments. There will be many opportunities not only to promote and publicise that and to scrutinise the Minister for health, but to monitor it. That was the important contribution during questions to the First Minister this afternoon.

**Jane Hutt:** Yn ddefnyddiol, cyfeiriwyd at y cynllun cyflawni ar gyfer canser yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog y prynhawn yma, a gwn y bydd yr Aelodau'n croesawu'r cynllun hwnnw, fel y gwnaeth arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies. Mae'r ddogfen 'Law yn Llaw at Iechyd—Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser' yn canolbwyntio ar bwysigrwydd diagnosis cynnar, llawdriniaeth a thriniaethau eraill y profwyd eu heffeithioldeb. Bydd nifer o gyfleoedd, nid yn unig i hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun hwnnw ac i graffu ar waith y Gweinidog iechyd, ond hefyd i fonitro'r cynllun. Dyna oedd y cyfraniad pwysig a wnaed yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog y prynhawn yma.

**Julie Morgan:** June is Gypsy Roma Traveller History Month, and I know that the Minister spoke at the excellent symposium organised at Cardiff City Hall by Isaac Blake last Friday, but could she find time to make a statement about the importance of the month in recognising the culture and heritage of these different communities, and also to assess what progress has been made in giving them equal rights in society in Wales?

**Julie Morgan:** Mis Mehefin yw Mis Hanes Sipsiwn Roma a Theithwyr, a gwn fod y Gweinidog wedi siarad yn y symposiwm ardderchog a drefnwyd yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd, gan Isaac Blake ddydd Gwener ddiwethaf. Fodd bynnag, a fyddai'n bosibl iddi ddod o hyd i amser i wneud datganiad am bwysigrwydd y mis o ran cydnabod diwylliant a threftadaeth y cymunedau gwahanol hyn, ac i asesu pa gynnydd a wnaed wrth roi hawliau cyfartal iddynt mewn cymdeithas yng Nghymru?

**Jane Hutt:** I thank the Member for Cardiff North for that question. I was delighted to join her at the symposium at City Hall last Friday, and I am happy to agree to give a statement as an update, not only on how the history month went—and Members will be

**Jane Hutt:** Diolch i'r Aelod dros Ogledd Caerdydd am y cwestiwn hwnnw. Roeddwn wrth fy modd i gael ymuno â hi yn y symposiwm yn Neuadd y Ddinas ddydd Gwener diwethaf, ac rwyf yn fodlon cytuno i wneud datganiad er mwyn rhannu'r

aware of events in their constituencies, such as the week of community events celebrating Gypsy traditions in Ceredigion and Pembrokeshire—but also on progress in delivering ‘Travelling to a Better Future’, which I launched last year. It is the first framework for action for Gypsies and Travellers in the UK. I also agreed to look specifically at the needs and interests of the Roma community in Wales.

wybodaeth ddiweddaraf, nid yn unig am sut yr aeth y mis hanes—a bydd Aelodau’n ymwybodol o’r digwyddiadau a gynhelir yn eu hetholaethau, fel yr wythnos o ddigwyddiadau cymunedol i ddathlu traddodiadau Sipsiwn yng Ngheredigion a Sir Benfro—ond hefyd am y cynnydd a wnaed wrth weithredu ‘Teithio at Ddyfodol Gwell’, sef cynllun a lansiwyd gennyf y llynedd. Dyma’r fframwaith gweithredu cyntaf ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn y DU. Rwyf hefyd yn cytuno i edrych yn benodol ar anghenion a buddiannau’r gymuned Roma yng Nghymru.

**Nick Ramsay:** Leader of the House, I wonder whether we could have an update from the Welsh Government on the proposed innovation strategy. I think that I am right in saying that we were originally expecting it in the spring but are now looking at the autumn. It is clearly an important development for the Welsh Government and for Wales in general. Although, in some areas, universities in Wales have been punching above their weight, there are real issues across the board. A proper hold is required on innovation problems in research and development, in universities and in business. It would be helpful if we had an outline of when we will get that strategy.

**Nick Ramsay:** Arweinydd y Tŷ, tybed a allem gael y newyddion diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ar y strategaeth arloesedd arfaethedig. Credaf fy mod yn iawn i ddweud ein bod, yn wreiddiol, wedi disgwyl cael y strategaeth hon yn y gwanwyn, ond, yn awr, rydym yn edrych ar yr hydref. Yn amlwg, mae hwn yn ddatblygiad pwysig i Lywodraeth Cymru ac i Gymru yn gyffredinol. Er y bu rhai prifysgolion yng Nghymru mewn rhai ardaloedd yn cyflawni’n well na’r disgwyl, mae materion o bwys yn bodoli drwyddi draw. Mae gwir angen mynd i’r afael â phroblemau arloesi ym maes ymchwil a datblygu, mewn prifysgolion ac mewn busnes. Byddai o gymorth pe bai gennym syniad pa bryd y byddwn yn cael y strategaeth honno.

**Jane Hutt:** I am certainly prepared to discuss with Ministers the need for an update on this important area of research and development and innovation.

**Jane Hutt:** Rwyf yn sicr yn barod i drafod gyda Gweinidogion yr angen am y wybodaeth ddiweddaraf am y maes pwysig hwn o ymchwil, datblygu ac arloesi.

**Peter Black:** Minister, you will be aware of the Wales Audit Office report that projected that local health boards would be facing a £200 million plus deficit at the end of this financial year—with the exception of ABMU, which, when it was asked, did not appear to know what it would face at the end of this year. Is it possible to have a statement on this before the end of term so that we can scrutinise the Minister for health on the issue, preferably before the health boards’ plans for the reconfiguration of services are published in the summer?

**Peter Black:** Weinidog, byddwch yn ymwybodol o’r adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru a ragwelodd y byddai byrddau iechyd lleol yn wynebu diffyg o £200 miliwn neu fwy ar ddiwedd y flwyddyn ariannol—ac eithrio Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Pan ofynnwyd i’r bwrdd hwnnw am y mater hwn, nid oedd yn ymddangos ei fod yn gwybod beth fyddai’n ei wynebu ar ddiwedd y flwyddyn hon. A fyddai’n bosibl inni gael datganiad ar y mater hwn cyn diwedd y tymor, er mwyn inni gael cyfle i graffu ar waith y Gweinidog iechyd, a hynny cyn y bydd cynlluniau’r byrddau iechyd ar gyfer ad-drefnu gwasanaethau yn cael eu cyhoeddi

yn yr haf?

**Jane Hutt:** There is a due process for managing and handling WAO reports, and I know that the Minister will want to respond accordingly.

**Jane Hutt:** Mae gennym drefn briodol ar gyfer rheoli ac ymdrin ag adroddiadau gan Swyddfa Archwilio Cymru, a gwn y bydd y Gweinidog yn awyddus i ymateb yn unol â'r drefn hon.

2.30 p.m.

**Simon Thomas:** I ask for a statement in Government time or, even better, a debate on the proposals for marine conservation zones and their highly protected status. We now know what the First Minister thinks about the rights of Falklands' fishermen. What about the rights of Welsh fishermen and fisherwomen from Pembrokeshire to Pwllheli to continue in their daily task and employment? It is not only the fishermen who are concerned about this consultation; many conservationists have also come out with their concerns and it seems increasingly likely that the Government has misjudged its consultation on this issue. The consultation closes at the end of this term and it would be good to have a debate or statement in Government time so that we can question the Minister and understand a little better why he has proposed the consultation in the way he has. In particular, why has he proposed 10 zones when he only wants to see three or four, and how are we actually going to make a decision about the right level of marine conservation and the right balance between protecting our fishermen and enabling the survivability of the marine environment?

**Simon Thomas:** Gofynnaf am ddatganiad yn amser y Llywodraeth neu—hyd yn oed yn well—ddadl ar y cynigion a wnaed ar gyfer parthau cadwraeth morol, a'u statws gwarchodedig iawn. Rydym bellach yn gwybod beth y mae'r Prif Weinidog yn ei feddwl am hawliau pysgotwyr Ynysoedd y Falkland. Beth am hawliau pysgotwyr Cymru o Sir Benfro i Bwllheli i barhau â'u tasg feunyddiol a'u cyflogaeth? Nid dim ond y pysgotwyr sy'n pryderu am yr ymgynghoriad hwn; mae nifer o gadwraethwyr hefyd wedi mynegi eu pryderon ac mae'n ymddangos yn fwyfwy tebygol bod y Llywodraeth wedi camfarnu ei ymgynghoriad ar y mater hwn. Daw'r ymgynghoriad i ben ar ddiwedd y tymor hwn a byddai'n dda cael dadl neu ddatganiad yn amser y Llywodraeth fel y gallwn ofyn cwestiynau i'r Gweinidog a deall ychydig yn well pam ei fod wedi cynnig ymgynghori yn y ffordd hon. Yn benodol, pam mae ef wedi cynnig 10 parth er ei fod am weld tair neu bedair yn unig, a sut rydym mewn gwirionedd yn mynd i wneud penderfyniad ar y lefel gywir o gadwraeth forol a'r cydbwysedd iawn rhwng amddiffyn ein pysgotwyr a galluogi'r amgylchedd morol i oroesi?

**Jane Hutt:** I know the Minister will be aware of these issues and will also be aware of the importance of reassuring our fishing community and industry. He will also be very aware of the importance of the objectives of the marine conservation zones and the consultation will enable him to respond effectively to those concerns.

**Jane Hutt:** Rwy'n gwybod y bydd y Gweinidog yn ymwybodol o'r materion hyn a bydd hefyd yn ymwybodol o bwysigrwydd tawelu meddyliau ein cymuned a diwydiant pysgota. Bydd hefyd yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd amcanion y parthau cadwraeth morol a bydd yr ymgynghoriad yn ei alluogi i ymateb yn effeithiol i'r pryderon hynny.

**Mark Isherwood:** I call for a Welsh Government statement on support for people with epilepsy. I asked for a statement four weeks ago following an Epilepsy Aware event at the Senedd, which I hosted. You replied that the Welsh Government was working to ensure not only prevention

**Mark Isherwood:** Galwaf am ddatganiad gan Lywodraeth Cymru ar gymorth i bobl sydd ag epilepsi. Gofynnais am ddatganiad bedair wythnos yn ôl wedi imi noddi digwyddiad yn y Senedd i godi ymwybyddiaeth am epilepsi. Eich ymateb chi oedd bod Llywodraeth Cymru yn gweithio i

awareness, but engagement with those affected. Further to that, there was an event in the Senedd last week, hosted by your colleague Keith Davies with Epilepsy Action Cymru, which called for action on epilepsy in education, epilepsy in employment and epilepsy in social aspects, particularly health aspects and the service development directive for epilepsy. We were told that although this outlined a vision where the boundaries between primary, community and secondary care services are broken down, and where partnerships are strengthened between health, social care and the voluntary sector, this was not happening and that people with epilepsy are waiting months, not weeks, to see a consultant neurologist and to have tests. Given these two significant events, which were well supported by members of all parties, and the range of issues raised, I think the Assembly would welcome a Welsh Government statement on the provision of services for people with epilepsy and their families and those who care for them.

sicrhau nid yn unig ymwybyddiaeth o sut i atal epilepsi, ond ymgysylltiad a'r rhai yr effeithiwyd arnynt. Yn ogystal â hynny, cynhaliwyd digwyddiad Epilepsy Action Cymru yn y Senedd yr wythnos diwethaf, a noddwyd gan eich cydweithiwr, Keith Davies, a alwodd am weithredu ar epilepsi mewn addysg a chyflogaeth ac o ran agweddau cymdeithasol, yn enwedig agweddau iechyd a'r gyfarwyddeb datblygu gwasanaeth ar gyfer epilepsi. Dywedwyd wrthym, er bod hyn yn amlinellu gweledigaeth lle mae'r ffiniau rhwng gwasanaethau gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd yn cael eu diddymu, a lle mae partneriaethau rhwng iechyd, gofal cymdeithasol a'r sector gwirfoddol yn cael eu cryfhau, nid oedd hyn yn digwydd ac mae pobl ag epilepsi yn aros misoedd, nid wythnosau, i weld niwrolegydd ymgynghorol ac i gael profion. O ystyried y ddau ddigwyddiad pwysig hyn, a gefnogwyd yn dda gan aelodau o bob plaid, a'r ystod o faterion a godwyd, credaf y byddai'r Cynulliad yn croesawu datganiad gan Lywodraeth Cymru ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl sydd ag epilepsi a'u teuluoedd a'r rhai sy'n gofalu amdanynt.

*Daeth Peter Black i'r Gadair am 2.32 p.m.*
*Peter Black took the Chair at 2.32 p.m.*

**Jane Hutt:** As Mark Isherwood is aware, the Welsh Government responds to the representations that are made at these very important events, hosted by Assembly Members across the Chamber, particularly relating to conditions where there is a need for cross-sectoral and cross-Governmental response. I know that the Ministers concerned will take this into account in relation to epilepsy services.

**Jane Hutt:** Fel y gŵyr Mark Isherwood, mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r sylwadau a wneir yn y digwyddiadau pwysig hyn, a noddir gan Aelodau Cynulliad o bob plaid, yn enwedig mewn perthynas ag amodau lle mae angen ymateb ar draws sectorau a'r Llywodraeth. Gwn y bydd y Gweinidogion dan sylw yn ystyried hyn mewn perthynas â gwasanaethau epilepsi.

## Datganiad: Lansio'r Ymgynghoriad ar Ddiwygio'r Fframwaith Deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig
## Statement: Launch of the Consultation on Reform of the Legislative Framework for Special Educational Needs

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** I am pleased to announce that pre-legislative consultation begins today on how the Welsh Government intends to reform the law that currently applies to learners with special educational

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Rwy'n falch o gyhoeddi bod ymgynghoriad cyn y broses ddeddfu yn dechrau heddiw ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu diwygio'r gyfraith bresennol ar gyfer dysgwyr ag anghenion

needs, including disabilities. The consultation document is entitled 'Forward in Partnership for Children and Young People with Additional Needs'. This was chosen to reflect the cross-cutting approach that the Minister for Health and Social Services and I agreed to support children, young people and their families who frequently rely on help from more than one agency. For those with the most severe and/or complex needs, this may include education, social services, health and the third sector. While the current system has undoubted strengths, it has been criticised as being too complex, bureaucratic and costly, and as insufficiently child-centred or user-friendly. We therefore wish to utilise the unique opportunity to build on the best of the existing arrangements to develop a truly person-centred system, with the child, young person and their parents or carers as partners in the process. These proposals also build on the principles set out in the social services Bill consultation, which recently concluded.

addysgol arbennig, gan gynnwys anableddau. Teitl y ddogfen ymgynghori yw 'Ymlaen mewn Partneriaeth dros Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Ychwanegol'. Dewiswyd hyn i adlewyrchu'r ymagwedd drawsbynciol y mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a minnau wedi ei gymeradwyo er mwyn cefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd sy'n aml yn dibynnu ar gymorth gan fwy nag un asiantaeth. Ar gyfer y rhai sydd â'r anghenion mwyaf difrifol a/neu gymhleth, gall hyn gynnwys addysg, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a'r trydydd sector. Er nad oes amheuaeth bod gan y system bresennol gryfderau, fe'i beirniadwyd am fod yn rhy gymhleth, biwrocrataidd a chostus, am beidio â chanolbwyntio'n ddigonol ar y plentyn ac am ei bod yn anodd i'w defnyddio. Felly, dymunwn ddefnyddio'r cyfle unigryw hwn i ddatblygu'r trefniadau presennol gorau er mwyn datblygu system sy'n wirioneddol ganolbwyntio ar y person, gyda'r plentyn, y person ifanc a'u rhieni neu ofalwyr fel partneriaid yn y broses. Mae'r cynigion hyn hefyd yn datblygu'r egwyddorion a nodir yn yr ymgynghoriad ar y Bil gwasanaethau cymdeithasol a ddaeth i ben yn ddiweddar.

We also want to strengthen existing partnerships between education, health and social services. Where this works well now, children and young people are able to receive person-centred support close to home, instead of being placed outside their home authority. We also propose that, wherever possible, there should be an integrated approach to assessment for children and young people and one plan, known as the individual development plan, to replace or integrate the range of plans that a child might otherwise receive. While this may present challenges for organisations and agencies to work more effectively, I am sure you will agree that it is a prize well worth winning. Vulnerable learners and their families should not have to repeat their story to numerous agencies as happens now. We need to ensure better involvement of all interested parties, including schools, local authority education and social services departments, the health service, third sector agencies, parents or carers and, most importantly, the children or young people themselves.

Rydym hefyd am gryfhau'r partneriaethau sy'n bodoli eisoes rhwng addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Lle mae hwn yn gweithio'n dda yn awr, gall plant a phobl ifanc gael cymorth sy'n canolbwyntio ar unigolion yn agos at eu cartrefi, yn hytrach na'u bod yn cael eu lleoli y tu allan i ardal eu hawdurdodau eu hunain. Rydym hefyd yn cynnig, lle bynnag y bo modd, y dylid cael dull integredig o asesu plant a phobl ifanc ac un cynllun, a elwir yn gynllun datblygu unigol, i gymryd lle neu integreiddio'r ystod o gynlluniau y gallai plentyn eu cael fel arall. Er y gall hyn gyflwyno heriau ar gyfer sefydliadau ac asiantaethau i weithio'n fwy effeithiol, rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno ei bod yn wobr sy'n werth ei hennill. Ni ddylai dysgwyr sy'n agored i niwed a'u teuluoedd orfod ailadrodd eu stori i nifer o asiantaethau gwahanol, fel sy'n digwydd nawr. Mae angen inni sicrhau bod pob cyfranogydd yn chwarae mwy o ran yn y broses, gan gynnwys ysgolion, awdurdodau addysg lleol ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol, y gwasanaeth iechyd, asiantaethau'r trydydd sector, rhieni neu ofalwyr ac, yn bwysicaf oll,

y plant a'r bobl ifanc eu hunain.

The responsibility for making connections between agencies has been on the shoulders of parents and carers for too long. What we are proposing, especially for those with the most severe and/or complex needs, is that multi-agency assessment planning should be in place as soon as needs are identified. A panel made up of the relevant agencies will consider how the individual's needs are to be met and who has the responsibility for ensuring that it happens. This will place an ongoing requirement on agencies to work to an integrated assessment and individual development plan for the child or young person.

Mae'r cyfrifoldeb dros wneud cysylltiadau rhwng asiantaethau wedi cael ei ysgwyddo gan rieni a gofalwyr yn rhy hir. Yr hyn yr ydym yn ei gynnig, yn enwedig i'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf difrifol a/neu gymhleth, yw y dylai'r broses o gynllunio ar gyfer asesiad aml-asiantaeth fod ar waith cyn gynted ag y nodir yr anghenion. Bydd panel o'r asiantaethau perthnasol yn ystyried sut y bydd anghenion yr unigolyn yn cael eu bodloni a phwy sy'n gyfrifol am sicrhau ei fod yn digwydd. Bydd hyn yn gosod gofyniad parhaus ar asiantaethau i weithio yn unol ag asesiad integredig a chynllun datblygu unigol ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc.

Previous policies have set the direction of travel, but we are now at a milestone in taking forward the reform of the legislative framework for additional needs. Many of the proposals contained within the consultation document have been developed in pilot projects. This process is still ongoing in eight local authorities, which are working with families that have agreed to be part of the trials. I express my thanks to those families in particular for their input in taking this agenda forward and to SNAP Cymru for its support to the families involved.

Mae polisïau blaenorol wedi nodi i ba gyfeiriad yr ydym yn teithio, ond rydym yn awr wedi cyrraedd carreg filltir o ran bwrw ymlaen â diwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer anghenion ychwanegol. Mae nifer o'r cynigion a gynhwysir yn y ddogfen ymgynghori wedi cael eu datblygu mewn prosiectau peilot. Mae'r broses hon yn mynd rhagddi o hyd mewn wyth awdurdod lleol, sy'n gweithio gyda theuluoedd sydd wedi cytuno i fod yn rhan o'r treialon. Hoffwn fynegi fy niolch i'r teuluoedd hynny yn arbennig am eu mewnbwn wrth fwrw ymlaen â'r agenda hon ac i SNAP Cymru am ei gefnogaeth i'r teuluoedd a gymerodd ran.

The changes envisaged in the consultation document will require further work to make them a reality and to develop an implementation plan. For some agencies, the changes will be small, as they are already working in a highly effective multi-agency way. For others, it will require a change management process. However, there is not anything in the document that we think cannot be achieved. We propose that implementation be introduced on a phased basis. Once complete, we hope to achieve the more effective use of existing resources across the whole system.

Bydd angen gwneud rhagor o waith i wneud y newidiadau a ragwelir yn y ddogfen ymgynghori ac i ddatblygu cynllun gweithredu. I rai asiantaethau, bydd y newidiadau yn fach, gan eu bod eisoes yn gweithio gyda nifer o asiantaethau mewn ffordd hynod effeithiol. I eraill, bydd angen proses reoli newydd. Fodd bynnag, nid oes unrhyw beth yn y ddogfen y credwn na ellir ei gyflawni. Rydym yn cynnig y dylid gweithredu hyn fesul cam. Ar ôl ei gwblhau, rydym yn gobeithio gwneud defnydd mwy effeithiol o'r adnoddau presennol ar draws y system gyfan.

I believe that the reforms will lead to increased trust and confidence on the part of children, parents and carers in the system, provide greater consistency between schools

Credaf y bydd y diwygiadau yn arwain at fwy o ymddiriedaeth a hyder gan blant, rhieni a gofalwyr yn y system, yn sicrhau mwy o gysondeb rhwng ysgolion ac awdurdodau

and local authorities, and foster more effective partnerships between agencies. The reforms should remove duplication for agencies and the parents or carers and make the journey smoother for the child or young person.

lleol, ac yn arwain at feithrin partneriaethau mwy effeithiol rhwng asiantaethau. Dylai'r diwygiadau ddileu unrhyw ddyblygu ar gyfer asiantaethau a rhieni neu ofalwyr a gwneud y daith yn fwy llyfn ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc.

We know the importance that parents attach to the security of being able to take a case to the Special Educational Needs Tribunal for Wales. It is vital that they have confidence in the proposed statutory framework to replace statements. The proposals will therefore allow continued rights of appeal to the tribunal for those with a level of need that currently brings entitlement to a statement. In addition, to reflect the greater emphasis on multi-agency working, we intend to explore the possibility of broadening the remit of the present SEN Tribunal for Wales to include health and social care, subject to appropriate safeguards for issues of clinical judgment of need. We are also developing a twenty-first century solution for the creation of an individual development plan. Work is ongoing to ensure a web-based option is deliverable, acceptable, cost-effective and secure.

Rydym yn gwybod pa mor bwysig yw i rieni eu bod yn gallu mynd ag achos i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Mae'n hanfodol bod ganddynt hyder yn y fframwaith statudol arfaethedig a fydd yn cymryd lle datganiadau. Bydd y cynigion felly yn rhoi hawl parhaus i'r rhai sydd ag anghenion sy'n caniatáu iddynt hawlio datganiad ar hyn o bryd i apelio i'r tribiwnlys. Yn ogystal, er mwyn adlewyrchu'r cynnydd yn y pwyslais ar gydweithio rhwng nifer o asiantaethau, rydym yn bwriadu edrych ar y posibilrwydd o ehangu cylch gwaith Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru i gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, yn amodol ar fesurau diogelu priodol ar gyfer materion yn ymwneud â barn glinigol ar anghenion. Rydym hefyd yn datblygu ateb ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain ar gyfer creu cynllun datblygu unigol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau y gellir cynnig opsiwn ar y we sy'n dderbyniol, yn gost-effeithiol ac yn ddiogel.

Everyone involved in the development of this web-based approach has recognised the potential this would bring, giving parents or carers a real-time view of the situation and of who has done what and why. Access to a web-based plan would remove barriers so that parents and carers do not have to make numerous phone calls, perhaps, to see whether an appointment with a specialist has been made or who is responsible for doing what.

Mae pawb sy'n rhan o ddatblygu'r dull hwn ar y we wedi cydnabod ei botensial, gan y byddai'n rhoi golwg cyfredol i rieni neu ofalwyr ar y sefyllfa ac yn dangos pwy sydd wedi gwneud beth a pham. Byddai mynediad at gynllun ar y we yn cael gwared ar rwystrau fel nad yw rhieni a gofalwyr yn gorfod gwneud sawl galwad ffôn, efallai, er mwyn gweld a oes apwyntiad wedi cael ei wneud gydag arbenigwr neu bwy sy'n gyfrifol am wneud beth.

Workforce implications across the sectors will be further considered during and after the consultation process, and engagement with the various sectors will be an ongoing strand of development work. The vision is that there will be benefits to the existing workforce, with reduced pressures to attend multiple planning meetings. This is reflected in the consultation document.

Ystyrir y goblygiadau i'r gweithlu ar draws y sectorau ymhellach yn ystod y broses ymgynghori ac wedi iddi ddod i ben, a bydd y broses o ymgysylltu â'r gwahanol sectorau yn elfen barhaus o'r gwaith datblygu. Y weledigaeth yw y bydd manteision i'r gweithlu presennol, gyda llai o bwysau i fynd i fwy nag un cyfarfod cynllunio. Adlewyrchir hyn yn y ddogfen ymgynghori.

I believe that these developments represent a

Credaf fod y datblygiadau hyn yn dangos

made-in-Wales approach to developing our framework for supporting those with additional needs and are another example of our placing the citizen at the centre of our programme of government. The consultation exercise will run until October. I look forward to a constructive engagement.

ymateb Cymreig i ddatblygu ein fframwaith ar gyfer cefnogi'r rhai sydd ag anghenion ychwanegol ac maent yn enghraifft arall sy'n dangos mai'r dinesydd yw canolbwynt ein rhaglen lywodraethu. Bydd yr ymgynghoriad yn parhau tan fis Hydref. Edrychaf ymlaen at ymgysylltiad adeiladol.

**Angela Burns:** Well, Minister, you and the Minister for Health and Social Services are in severe danger of getting two cheers from me today over this consultation. I am delighted to see it and wholeheartedly welcome it because it is an area that I know many Members will have dealt with time and again through casework. It is terribly distressing and limiting in terms of the positives that can be had from life, for so many children. It is confusing and bureaucratic and I must say that, since I took up this post, I have been surprised at how many agencies there are out there that are involved in this field, and how disconnected a great many of them are. I therefore welcome this consultation very much.

**Angela Burns:** Wel, Weinidog, rydych chi a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perygl difrifol o gael dwy fonllef gennyf fi heddiw oherwydd yr ymgynghoriad hwn. Rwy'n falch iawn o'i weld ac yn ei groesawu yn frwd gan ei fod yn faes y mae nifer o Aelodau wedi ymdrin ag ef dro ar ôl tro yn eu gwaith achos. Mae'n peri gofid ac yn gyfyngol o ran y pethau cadarnhaol y mae nifer o blant yn gallu eu profi mewn bywyd. Mae'n ddryslyd ac yn fiwrocrataidd ac mae'n rhaid imi ddweud, ers imi gymryd y swydd hon, rwyf wedi synnu faint o asiantaethau sy'n gweithio yn y maes hwn, a pha mor ddigyswllt yw nifer fawr ohonynt. Felly, rwy'n croesawu'r ymgynghoriad hwn yn fawr iawn.

I have had a first pass over the document itself; I will be looking at it in greater detail and submitting a response, but I have a couple of comments that I would like to make now. First, could you confirm that, until the proposed reforms are in place, the current system stands? I have seen a number of cases not just in my own constituency, but from other authorities, and I have seen commentary from organisations about other authorities saying that, because everybody knows that this whole area is being looked at, the statementing process is being sidelined, and statements are not being issued in a timely fashion for children. I am concerned that they will fall through the gap.

Rwyf wedi darllen y ddogfen yn fras; byddaf yn edrych arni'n fanylach ac yn cyflwyno ymateb, ond mae gennyf un neu ddau o sylwadau yr hoffwn eu gwneud yn awr. Yn gyntaf, a allwch gadarnhau y bydd y system bresennol yn parhau nes y bydd y diwygiadau arfaethedig yn eu lle? Rwyf wedi gweld nifer o achosion, nid yn unig yn fy etholaeth i, ond mewn awdurdodau eraill, ac rwyf wedi gweld sylwadau gan gyrff am awdurdodau eraill yn dweud, oherwydd bod pawb yn gwybod bod y maes cyfan yn cael ei ystyried, fod y broses ddatganiadau yn cael ei gwthio i'r neilltu, ac nid yw datganiadau yn cael eu cyhoeddi yn brydlon ar gyfer plant. Rwy'n poeni y byddant yn syrthio drwy'r bwlch.

I am also pleased to see that additional needs are now included. I note that you are trying to be very clear about what an additional need is and how you define the different levels of such need. However, I would like to seek clarity on what additionality is and whether we can assume, when we look at these needs here, that we are not just talking about a child with a specific educational need, but a child who has a need that impacts upon their ability to access education. I will stop there, because I want you to answer that.

Rwyf hefyd yn falch o weld bod anghenion ychwanegol yn cael eu cynnwys yn awr. Sylwaf eich bod yn ceisio bod yn glir iawn ynghylch beth yw angen ychwanegol a sut rydych yn diffinio'r gwahanol lefelau o angen o'r fath. Fodd bynnag, hoffwn ofyn am eglurhad o ychwanegedd ac os gallwn gymryd yn ganiataol, wrth edrych ar yr anghenion hyn, nad ydym yn sôn am blentyn sydd ag anghenion addysgol penodol, ond plentyn sydd ag angen sy'n effeithio ar ei allu i gael mynediad at addysg. Dof i ben ar y

pwynt hwnnw oherwydd fy mod am ichi ateb hynny.

However, would you also be able to give us some clarification as to how you will assess the cut-off points? I know that you have published a list of what you think would be an additional need, but I am looking for a culture of positive discretion; rather than saying, 'This is a borderline child, so we will shove them down a level so that we can put less effort and less funding into them', we should have a culture of discretion that pushes a child up. This is something that we need to push out to local authorities. So, basically, what is an additional need? How will we define all of those different levels? How will we pick up a child who does not display any additional needs at present, but may develop them later in life? The Children and Young People Committee is doing an inquiry into adoption at present, and one of the things that has come out is that some children who are adopted, and some who are looked after, will develop needs when they are 7 or 8, or as they hit puberty. There is an issue as to how we pick them up.

Fodd bynnag, a allwch hefyd roi rhywfaint o eglurhad ynghylch sut y byddwch yn asesu'r terfynau? Gwn eich bod wedi cyhoeddi rhestr o'r hyn y credwch a fydd yn cyfrif fel angen ychwanegol, ond rwy'n edrych am ddiwylliant o ddisgresiwn cadarnhaol; yn hytrach na dweud, 'Mae'r plentyn hwn ar y ffin, felly fe'i gwthiwn i lawr lefel fel y gallwn wneud llai o ymdrech a rhoi llai o arian ar ei gyfer', dylai fod gennym ddiwylliant o ddisgresiwn sy'n gwthio plentyn i fyny. Mae hyn yn rhywbeth y mae angen ei wthio allan i awdurdodau lleol. Felly, yn y bôn, beth yw angen ychwanegol? Sut y byddwn yn diffinio'r holl lefelau gwahanol? Sut y gallwn adnabod plentyn nad oes ganddo unrhyw anghenion ychwanegol amlwg ar hyn o bryd, ond efallai y bydd yn eu datblygu yn nes ymlaen mewn bywyd? Mae'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn cynnal ymchwiliad i fabwysiadu ar hyn o bryd, ac un o'r pethau sydd wedi codi yw bod rhai plant sy'n cael eu mabwysiadu, a rhai sy'n derbyn gofal, yn datblygu anghenion pan fyddant yn 7 neu 8 oed, neu wrth iddynt aeddfedu. Mae problem o ran sut yr ydym yn eu hadnabod.

I am very pleased about the extended age range, but again, I have a real worry about the application of that and how you will monitor and control the outcomes for those children, because you are basically putting it, as I see it, into local authority hands. As with anything where we end up relying on local authorities to deliver, I would like to see how we will control that effectively and ensure that they employ a culture of positive discretion. I am delighted to see that we may have an end to local authorities going around employing very skilled barristers to bash parents into the ground. I would like to see more details on that.

Rwy'n falch iawn ynghylch yr ystod oedran estynedig ond, eto, rwy'n pryderu'n fawr am y ffordd y gweithredir hynny a sut y byddwch yn monitro a rheoli'r canlyniadau ar gyfer y plant hynny, oherwydd, yn y bôn, hyd y gwelaf fi, rydych yn ei adael yn nwylo awdurdodau lleol. Fel yn achos unrhyw beth lle rydym yn dibynnu ar awdurdodau lleol i ddarparu, hoffwn weld sut y byddwn yn rheoli hynny'n effeithiol a sicrhau eu bod yn defnyddio disgresiwn cadarnhaol. Rwyf yn falch iawn o weld diwedd posibl ar y sefyllfa lle mae awdurdodau lleol yn cyflogi bargyfreithwyr medrus iawn i fwrw rhieni i mewn i'r ddaear. Hoffwn weld mwy o fanylion am hynny.

I also notice that, in paragraph 10.1, you talk about post-16 specialist placements and say that you might look at developing centralised provision so that children do not have to go out of county or out of country. I will take this opportunity to make the point that some such provision is available now, but what

Rwyf hefyd yn sylwi, ym mharagraff 10.1, eich bod yn sôn am leoliadau arbenigol ôl-16 ac yn dweud y byddwch efallai yn edrych ar ddatblygu darpariaeth ganolog fel nad oes yn rhaid i blant fynd y tu allan i'r sir neu allan o'r wlad. Cymeraf y cyfle hwn i wneud y pwynt bod rhywfaint o ddarpariaeth o'r fath

happens is that local authorities choose not to use it for a variety of reasons, even though they have been passed by all of the statutory bodies and are very often cheaper than the local authority putting those children into its own facilities. I would really like to have your view on that.

ar gael yn awr, ond bod awdurdodau lleol yn dewis peidio â'i ddefnyddio am amryw resymau, er eu bod wedi cael eu pasio gan yr holl gyrff statudol ac er ei bod yn aml yn rhatach iddynt eu defnyddio na phe bai'r awdurdod lleol yn rhoi rhai plant yn ei gyfleusterau ei hun. Byddwn yn wir yn hoffi clywed eich barn am hynny.

2.45 p.m.

You make the comment that you think that this will be cost neutral. I would, again, like to have an understanding from you as to how that can really be so. You want to extend the age range to 25, but there is an acceptance by a great many of us, and a great many committees, that children are already not getting the additional needs provision that they require. Therefore, there will be a cost associated with having an extra speech therapist, or whatever it may be. How can it possibly end up being cost neutral and how will you ensure that local authorities will put some of their budget towards this excellent piece of work? I have lots more questions, but I do not want the acting Deputy Presiding Officer to get cross with me, so I will come back to you on this.

Rydych yn dweud_eich bod yn credu y bydd hyn yn niwtral o ran cost. Byddwn, unwaith eto, yn hoffi i chi esbonio sut y gallai hynny fod yn wir. Rydych am ehangu'r ystod oed i 25, ond mae llawer iawn ohonom yn derbyn, a llawer iawn o bwyllgorau hefyd, nad yw plant eisoes yn cael y ddarpariaeth anghenion ychwanegol sydd ei hangen arnynt. Felly, bydd cost yn gysylltiedig â chael therapydd lleferydd ychwanegol, neu beth bynnag y bo. Sut yn y byd gall hynny fod yn niwtral o ran cost a sut y byddwch yn sicrhau y bydd awdurdodau lleol yn rhoi rhan o'u cyllideb tuag at y gwaith ardderchog hwn? Mae gen i lawer mwy o gwestiynau, ond nid wyf am i'r Dirprwy Lywydd dros dro wylltio gyda mi, byddaf yn dod yn ôl atoch ar hyn.

I genuinely welcome this consultation, because, without a doubt, some of the most distressing pieces of casework that come to me are about people who have to fight so incredibly hard to ensure the best opportunities for the child whom they love. We all want that for our children. I definitely give two cheers to the Minister, but I will be back to ensure that you live up to the promise of this consultation document.

Rwyf wirioneddol yn croesawu'r ymgynghoriad hwn, oherwydd, heb os nac oni bai, mae'r gwaith achos sy'n peri'r gofid mwyaf i mi yn ymwneud â phobl sydd wedi gorfod ymladd yn anhygoel o galed i sicrhau'r cyfleoedd gorau ar gyfer y plentyn maent yn ei garu. Rydym oll yn dymuno hynny ar gyfer ein plant. Rwy'n bendant yn rhoi dwy fonllef i'r Gweinidog, ond byddaf yn dychwelyd i sicrhau eich bod yn cyflawni addewid y ddogfen ymgynghori hon.

**Leighton Andrews:** There is always a sting in the tail from the Member, is there not? I welcome her two cheers today. She is absolutely right; all of us as constituency Members have taken through a number of cases that have come up against bureaucratic obstruction, if I can put it that way, to the opportunities for young people and parents struggling to address those issues. I know that I have come up against that in my own constituency, as I am sure have most Members.

**Leighton Andrews:** Mae tro yng nghynffon yr Aelod bob amser, onid oes? Rwy'n croesawu ei dwy fonllef heddiw. Mae hi'n hollol gywir; mae pob Aelod etholaeth wedi ymdrin â nifer o achosion lle bu rhwystr biwrocrataidd, os gallaf ei roi felly, i'r cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc a'r rhieni sy'n ei chael hi'n anodd mynd i'r afael â'r materion hynny. Rwyf wedi profi hynny yn fy etholaeth fy hun, fel y rhan fwyaf o Aelodau rwy'n siŵr.

What we are seeking to do in this consultation is to move to a more child-centred approach. I confirm to the opposition spokesperson that, of course, the current system still stands and that we must be clear about that until the legislation goes through. If there are examples of local authorities that are causing unnecessary delays in the process of statementing, they need to be brought to our attention. The Member will be aware of the work that has been done by the president of the Special Educational Needs Tribunal for Wales in this area. There are many lessons to learn from her annual reports and I commend the work that is being done on that.

Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn ceisio symud at ddull sy’n canolbwyntio mwy ar y plentyn. Rwy’n cadarnhau i lefarydd yr wrthblaid fod y system bresennol, wrth gwrs, yn parhau a bod yn rhaid inni fod yn glir am hynny hyd nes bydd y ddeddfwriaeth yn mynd trwyddo. Os oes enghreifftiau o awdurdodau lleol yn achosi oedi diangen yn y broses o gael datganiad, mae angen iddynt gael eu dwyn i’n sylw. Bydd yr Aelod yn gwybod am waith llywydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn y maes hwn. Mae llawer o wersi i’w dysgu o’i hadroddiadau blynyddol ac rwy’n cymeradwyo’r gwaith sy’n cael ei wneud ar hynny.

In terms of additional needs, on page 15 of the consultation document, we have set out a long list that outlines the different groups that may have additional learning needs. During the process of this consultation, it will be open to people to come back to us with any other issues that they wish to raise. I can certainly say to the Member that it is not just educational need, but that, yes, we are considering other factors that bear on the education of the young person.

O ran anghenion ychwanegol, ar dudalen 15 o’r ddogfen ymgynghori, rydym wedi nodi rhestr hir sy’n amlinellu’r gwahanol grwpiau a allai fod ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn ystod yr ymgynghoriad, bydd yn agored i bobl ddod yn ôl atom gydag unrhyw faterion eraill y maent yn dymuno eu codi. Gallaf ddweud yn sicr wrth yr Aelod na fydd yn ymwneud ag anghenion addysgol yn unig, ond y byddwn yn ystyried ffactorau eraill sy’n dylanwadu ar addysg y person ifanc.

I welcome what she said on the need for a culture of positive discretion. I think that I know what she means by that. That is the kind of climate that we want to engender.

Rwy’n croesawu’r hyn a ddywedodd am yr angen am ddiwylliant o ddisgresiwn cadarnhaol. Credaf fy mod yn gwybod beth mae’n ei olygu wrth hynny. Dyna’r math o hinsawdd yr ydym am ei feithrin.

In respect of the costings, we believe that, where best practice is applied and where effective collaboration is taking place, it is a more cost-effective process over the lifetime of the needs of the children. Therefore, if best practice is spread, we should be able to address this in the way that we have set out. However, again, this is a consultation, and there will be an opportunity over the next three months for people to bring forward their own assessments of what we have said in the document. We look forward to receiving those.

O ran y costau, credwn fod y broses, pan fydd arfer gorau yn cael ei gymhwyso a phan fydd cydweithio effeithiol yn digwydd, yn fwy cost-effeithiol dros yr holl adeg y mae gan y plant anghenion. Felly, os caiff arfer gorau ei ledaenu, dylem allu ymdrin â hyn yn y ffordd yr ydym wedi’i nodi. Fodd bynnag, unwaith eto, ymgynghoriad yw hwn, a bydd cyfle yn ystod y tri mis nesaf i bobl gyflwyno eu hasesiadau hwy o’r hyn yr ydym wedi’i ddweud yn y ddogfen. Rydym yn edrych ymlaen at eu cael.

I take very much the point that she makes about out-of-county and out-of-country provision. I do not think that we have got that right in Wales. There is significantly further to go, and that will require further collaboration between local authorities. We

Rwy’n derbyn ei phwynt am y ddarpariaeth y tu allan i’r sir a thu allan i’r wlad yn llwyr. Nid ydym wedi llwyddo gyda hynny yng Nghymru. Mae llawer pellach i fynd, a bydd angen mwy o gydweithio rhwng awdurdodau lleol ar hynny. Rydym wedi gweld

have seen examples in the past where provision has not been fully supported by local authorities in other parts of Wales.

enghreifftiau yn y gorffennol lle na chafodd darpariaeth gefnogaeth lawn gan awdurdodau lleol mewn rhannau eraill o Gymru.

Therefore, there are lessons that we are aware of, but, as I say, this is a consultation and I look forward to receiving the responses.

Felly, rydym yn ymwybodol o'r gwersi, ond, fel y dywedais, ymgynghoriad yw hwn ac edrychaf ymlaen at gael yr ymatebion.

**Simon Thomas:** Hoffwn innau ychwanegu bonllef at ddwy fonllef Angela Burns a chroesawu'r datganiad heddiw a lansio'r ymgynghoriad hwn. Croesawaf a chefnogaf yr egwyddorion sy'n sail i'r ymgynghoriad. Yn arbennig, rwy'n croesawu'r hyn a ddywedodd y Gweinidog ynglŷn â helpu teuluoedd i beidio â gorfod dweud eu stori dro ar ôl tro wrth wahanol asiantaethau, oherwydd, yn fy mhrofiad o weithio gydag etholwyr, un o'r pethau sydd fwyaf o fwrn a thraul ar deuluoedd yw gorfod mynd o le i le yn dweud yr un stori, a chael gwahanol wrandawiad i'r stori honno o bryd i'w gilydd. Rwy'n croesawu hynny ac yn edrych ymlaen at wneud y broses yn llawer mwy agored er mwyn i deuluoedd reoli a goruchwylio eu hunain, yn enwedig o ran yr hyn roedd y Gweinidog yn ei ddweud am y system ar-lein. Gobeithiaf y bydd hwn hefyd yn ysgogiad i awdurdodau lleol i wneud eu gwaith yn llawer mwy effeithiol. Un o'r problemau rydym yn eu hwynebu fel Aelodau Cynulliad yw delio ag awdurdodau lleol nad ydynt yn dod i ben â gwneud y gwaith hwn mewn da bryd, gan adael teuluoedd yn aros am ddatganiad neu am gefnogaeth i'w plant.

**Simon Thomas:** I would like to add a cheer to Angela Burns's two cheers and welcome today's statement and the launching of this consultation. I welcome and support the principles that underpin the consultation. I particularly welcome what the Minister had to say on assisting families not to have to repeat their stories time and again for different agencies, because, in my experience of working with constituents, the greatest burden for families is having to go from place to place telling the same story time and again, with it being given a different hearing on occasion. I welcome that and look forward to seeing the process being made much more open for families to manage themselves and to oversee themselves, especially in terms of what the Minister had to say about the online system. I hope that this will also be an incentive for local authorities to work much more effectively. One of the problems that we all face as Assembly members is dealing with local authorities that do not carry out this work in good time, thereby leaving families waiting for a statement or for support for their children.

Hoffwn godi tri mater penodol sy'n deillio o'r hyn a ddywedodd y Gweinidog heddiw. Yn gyntaf, o ran y datganiad, rwy'n deall eich bod yn ymgynghori ar y newidiadau hyn, ond rwy'n gweld gwahaniaeth mawr ar hyn o bryd rhwng gwahanol siroedd o ran sut y maent yn gwneud datganiad. Mae oedi yn y system, fel y dywedodd Angela Burns. Mae rhai siroedd, fel sir Benfro, lle mae rhieni'n dweud wrthyf nad yw'r sir yn cefnogi gwneud datganiad i blentyn o gwbl os yw hynny'n bosibl. Hoffwn sicrhau bod cysondeb yn y system newydd, nad oes modd i wahanol siroedd amrywio sut y maent yn gweithredu a bod dim ffordd i blant sydd â'r un anghenion gael gwahanol ddarpariaeth a gwahanol gefnogaeth yn dibynnu ar lle maent yn byw. Mae hynny'n sicr yn digwydd ar hyn

I would like to raise three specific issues emanating from what the Minister has said today. First, on statementing, I understand that you are consulting on these changes, but the way in which different counties deal with the statementing varies a great deal. There are delays in the system, as Angela Burns said. There are certain areas, like Pembrokeshire, where parents tell me that the county does not support statementing if at all possible. I would like to ensure that there is consistency in the new system, that counties cannot vary how they operate and that children with the same needs cannot receive differing services depending on where they live. That certainly happens at the moment, and I would hope that there was an opportunity here to legislate and to consult on this issue in order to

o bryd, a gobeithiaf fod cyfle yma i ddeddfu ac ymgynghori ar y mater hwn er mwyn gwneud pethau'n well ac yn fwy cyson ar lefel genedlaethol.

improve the situation and to work more consistently at a national level.

Yn ail, hoffwn ofyn cwestiwn i'r Gweinidog am yr iaith Gymraeg. Nid oes sôn eto sut mae'r Gweinidog yn bwriadu delio â hawl plentyn a rhieni i gael cefnogaeth anghenion arbennig drwy'r iaith Gymraeg. Mae therapi lleferydd, er enghraifft, wedi bod yn broblem yng Nghymru ers degawdau, bellach, ac mae methiant wedi bod o ran darparu therapi lleferydd yn y Gymraeg. Edrychaf ymlaen at weld yr ymgynghoriad, a chyfrannu ato o ran sut y gallwn sicrhau hawl i bobl gael cefnogaeth yn yr iaith Gymraeg ar gyfer anghenion arbennig. Gobeithiwn fod modd gosod rhyw hawl cyfreithiol yn y cyd-destun hwn. Rwyf hefyd yn gobeithio bod yr hawl gyfreithiol honno'n ymestyn i bob iaith, i ddweud y gwir, a bod modd i'r Llywodraeth ystyried sut y gallwn sicrhau bod yr hawl hon yn cael ei hadlewyrchu. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn seilio'r datganiad hwn ar yr egwyddorion ynghylch hawliau sydd gan y Llywodraeth mewn gwahanol agweddau ar ei gwaith cymdeithasol. Rwyf felly'n edrych ymlaen at sut y bydd hynny'n cael ei adlewyrchu yn y cynlluniau.

Secondly, I would like to ask the Minister about the Welsh language. There has been no mention yet of how the Minister intends to deal with the rights of children or parents to receive special needs assistance through the medium of Welsh. Speech therapy, for example, has been a problem in Wales for decades, and there has been a failure to provide Welsh-medium speech therapy. I look forward to seeing the consultation and to feed into the consultation on how we can ensure the right for people to have their needs addressed through the medium of Welsh. I would hope that there would be a means of providing a legal right in that regard. I also hope that that legal right would extend across all languages and that it would be possible for the Government to consider how we can ensure that this right is reflected. The Minister did say that he was basing this on the Government's rights agenda on different aspects of its social work. I look forward to seeing how this is reflected in the plans.

Yn olaf, hoffwn ofyn cwestiwn am awtistiaeth yn arbennig, oherwydd rwy'n meddwl bod problem arbennig mewn perthynas â'r mater hwn yng Nghymru. Bydd y Gweinidog yn ymwybodol o broblemau, eto yn sir Benfro, fel y mae'n digwydd, lle rwyf wedi cwrdd â rhieni sydd wedi aros am saith blynedd i gael diagnosis ar gyfer eu plentyn. Yn y cyd-destun hwnnw, yr hyn a oedd fwyaf poenus oedd nad oedd darpariaeth yn y cyfamser; wrth aros i lywodraeth leol benderfynu ar y gefnogaeth, dylai fod rhywbeth ar gael i gefnogi anghenion yn y cyfamser. Pan ddaeth yr achos hwnnw'n gyhoeddus yn ystod yr wythnos diwethaf, dywedodd y Dirprwy Weinidog bod angen cefnogaeth wrth aros am ddiagnosis yn achos awtistiaeth. Rwy'n meddwl ei bod yn eithriadol o bwysig fod y broses newydd hon yn fwy o broses, yn fwy o sbectrwm ac yn fwy effeithiol wrth adnabod y gwahanol raddfeydd. Rwy'n hynod o awyddus fod y system newydd hon yn sicrhau nad oes rhaid aros am ddiagnosis

Finally, I would like to ask a question specifically about autism, because I think that there is a particular problem in Wales with regard to autism. The Minister will be aware of problems, again in Pembrokeshire, as it happens, where I have met parents who have waited seven years to have their child diagnosed. In that context, what was most concerning was that there was no provision in the meantime; while you are waiting for local government to make a decision on the support available, there should be something available in the interim. When that case came to the public's attention over the last few weeks, the Deputy Minister said that support was needed while people were waiting for a diagnosis in the case of autism. I think that it is exceptionally important that this new process is more of a process, more of a spectrum and more effective in recognising the various degrees. I am very keen that the new system ensures that people do not have to wait for a medical diagnosis before support is provided for a child with special needs.

meddygol cyn rhoi cefnogaeth i blentyn sydd ag anghenion arbennig.

Gyda hynny, croesawaf yr ymgynghoriad a'r egwyddorion sydd yma, gan edrych ymlaen at graffu ar gynlluniau terfynol y Llywodraeth.

With those few words, I welcome the consultation and the principles involved, and look forward to scrutinising the Government's final proposals.

**Leighton Andrews:** I thank the Member for his comments. He has also welcomed the proposals that we are putting forward. He is right to make the point that key to this is the importance of ensuring that parents, carers and young people do not have to repeat the same story to a number of different agencies. We hope that the online assessment tools will contribute to that in how these things are taken forward. He is also right to stress the importance of collaboration between local authorities.

**Leighton Andrews:** Diolch i'r Aelod am ei sylwadau. Mae hefyd wedi croesawu'r cynigion yr ydym yn eu cyflwyno. Mae'n iawn i nodi bod y pwysigrwydd o sicrhau nad yw rhieni, gofalwyr a phobl ifanc yn gorfod ailadrodd yr un stori i nifer o asiantaethau gwahanol yn allweddol. Gobeithiwn y bydd y dulliau asesu ar-lein yn cyfrannu at hynny wrth i bethau gael eu datblygu. Mae hefyd yn iawn i bwysleisio pwysigrwydd cydweithio rhwng awdurdodau lleol.

In respect of the three specific points that he made, we have set out in the consultation document the plans to move from the statementing process to individual development plans. That is key to what we are suggesting. We have given some context in the document about how we are developing these plans based on the experience of the pilot schemes, and based on the work of the Education, Lifelong Learning and Skills Committee, chaired by the acting Deputy Presiding Officer in a previous Assembly. There has been a significant amount of material on which we have been able to draw.

O ran y tri phwynt penodol a wnaeth, rydym wedi nodi'r cynlluniau ar gyfer symud o'r broses ddatganiadau i gynlluniau datblygu unigol yn y ddogfen ymgynghori. Mae hynny'n allweddol i'r hyn yr ydym yn ei awgrymu. Rydym wedi rhoi rhywfaint o gyd-destun yn y ddogfen am y ffordd yr ydym yn datblygu'r cynlluniau hynny'n seiliedig ar brofiad y cynlluniau peilot, ac yn seiliedig ar waith y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, a gafodd ei gadeirio gan y Dirprwy Lywydd dros dro mewn Cynulliad blaenorol. Rydym wedi gallu defnyddio cryn dipyn o ddeunydd i'n cynorthwyo.

In respect of the Welsh language, he will be aware that there has recently been a consultation on Welsh-language services within the healthcare sector. We are conscious of the shortages in certain professions in respect of the Welsh language. I am certain that this is an area in which the Welsh Language Commissioner will want to take an interest in due course. We have the framework in place to address some of these issues, but there are going to be issues of supply in particular professions. Again, I would welcome input during the consultation on these issues from Members and from people outside the Assembly.

O ran yr iaith Gymraeg, bydd yn ymwybodol y bu ymgynghoriad diweddar ar wasanaethau Cymraeg yn y sector gofal iechyd. Rydym yn ymwybodol bod prinder mewn rhai proffesiynau o ran yr iaith Gymraeg. Rwy'n sicr y bydd Comisiynydd y Gymraeg am gymryd diddordeb yn hynny maes o law. Mae gennym fframwaith ar waith i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn, bydd problemau cyflenwi mewn rhai proffesiynau. Unwaith eto, byddwn yn croesawu mewnbwn ar y materion hyn gan yr Aelodau a chan y bobl y tu allan i'r Cynulliad yn ystod yr ymgynghoriad.

In respect of autism, we all saw the coverage of the family in Pembrokeshire at the end of

O ran awtistiaeth, gwelodd pawb y sylw a gafodd y teulu yn sir Benfro ddiwedd yr

last week. We have the autism action plan in place, on which my colleague the Deputy Minister for Children and Social Services leads. I am pleased that the consultation that we are announcing today has been conducted on a cross-departmental basis between my department and the department of the Minister for Health and Social Services. There is significant co-operation here; we have both put our names to this document, and any specific challenges in particular areas are ones that we would want to see addressed during this consultation process. There are very specific issues in respect of autism that we will no doubt return to. We have been through a series of discussions within the Assembly on issues in respect of autism, and I know that these matters are being taken forward by the Deputy Minister for Children and Social Services.

wythnos ddiwethaf. Mae gennym gynllun gweithredu ar gyfer awtistiaeth ar waith, sy'n cael ei arwain gan fy nghyd-Weinidog, y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol. Rwy'n falch bod yr ymgynghoriad yr ydym yn ei gyhoeddi heddiw wedi cael ei drefnu ar y cyd rhwng fy adran i ac adran y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae cydweithio sylweddol yma; mae'r ddau ohonom wedi rhoi ein henwau ar y ddogfen hon, a hoffwn weld unrhyw heriau penodol mewn meysydd penodol yn cael sylw yn ystod y broses ymgynghori. Mae yna faterion penodol iawn yn ymwneud ag awtistiaeth y byddwn yn sicr o ddychwelyd atynt. Rydym wedi cael cyfres o drafodaethau yn y Cynulliad ar faterion yn ymwneud ag awtistiaeth, a gwn fod y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol yn bwrw ymlaen â'r materion hyn.

**Aled Roberts:** I am sure that everyone here today will welcome the fact that there is movement to address this particular issue. The matter has been the subject of various committee reports going back as far as 2005. The fact that the Government is now moving forward on this agenda is to be welcomed. We have seen a lengthy period of demand by various bodies that want progress on this issue, and while you talk about implementation progressing on a phased basis, Minister—I understand the reasons for that—it would be helpful if some indication could be given of likely timelines. I have been unable today to obtain any information with regard to progress on the pilot schemes, which I think go back to the suggestion being given Royal Assent in 2009 and moneys being put to one side. There is reference in the statement to eight pilot schemes, but I am unclear whether those schemes will report by the end of the consultation period so that lessons learned can be fed into the process.

**Aled Roberts:** Rwy'n siŵr bod pawb yma heddiw yn croesawu'r ffaith bod symud tuag at ymdrin â'r mater penodol hwn. Mae'r mater wedi bod yn destun adroddiadau pwyllgor amrywiol yn mynd yn ôl cyn belled â 2005. Mae'r ffaith bod y Llywodraeth yn awr yn symud ymlaen â'r agenda hon i'w groesawu. Rydym wedi gweld cyfnod hir o alw gan wahanol gyrff sydd eisiau cynnydd ar y mater hwn, ac er eich bod yn siarad am weithredu yn symud ymlaen yn raddol, Weinidog—rwy'n deall y rhesymau am hynny—byddai o gymorth i gael rhywfaint o syniad am yr amserlen debygol. Heddiw, rwyf wedi methu â chael gafael ar unrhyw wybodaeth am gynnydd y cynlluniau peilot, y credaf sy'n mynd yn ôl at yr awgrym yn cael Cydsyniad Brenhinol yn 2009 ac arian yn cael ei roi i un ochr. Ceir cyfeiriad yn y datganiad at wyth cynllun peilot, ond nid yw'n glir a fydd y cynlluniau hynny yn adrodd erbyn diwedd y cyfnod ymgynghori fel y gellir bwydo'r gwersi a ddysgwyd i mewn i'r broses.

3.00 p.m.

I welcome the fact that the consultation will involve the Government listening to views on the number of agencies and professionals involved in the delivery of services to these youngsters. In my time in Wrexham, I was astounded in one case to be told that there

Croesawaf y ffaith y bydd yr ymgynghoriad yn cynnwys y Llywodraeth yn gwrando ar farn y nifer o asiantaethau a gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r bobl ifanc. Yn ystod fy nghyfnod yn Wrecsam, cefais fy synnu i

were 60 professionals working with one child in a high school who had very specific needs. That was dealt with through a lead professional being appointed across the county, but the one problem that we came across then was that, even though the agencies were working together, they were unwilling to share information, on occasions, because of their own internal protocols. So, I think that there is a need for the Government, as part of this process, to outline, for example, why assessments are carried out by the NHS on youngsters up to the age of five and then completely new assessments are needed because the NHS is unwilling to pass those assessments on to local authorities. In 2012, surely, that cannot be a proper way of dealing with matters.

glywed, mewn un achos, bod 60 o weithwyr proffesiynol yn gweithio gydag un plentyn mewn ysgol uwchradd oedd ag anghenion penodol iawn. Aethpwyd i'r afael â hynny drwy benodi gweithiwr proffesiynol arweiniol i weithio ar draws y sir. Fodd bynnag, un broblem a ddaeth i'n sylw bryd hynny oedd y ffaith bod yr asiantaethau, er eu bod yn gweithio gyda'i gilydd, yn amharod i rannu gwybodaeth ar adegau, yn sgîl eu protocolau mewnol. Felly, fel rhan o'r broses hon, credaf fod angen i'r Llywodraeth amlinellu, er enghraifft, pam mae'r GIG yn cynnal asesiadau ar blant hyd at bump oed, ond yna mae angen asesiadau cwbl newydd oherwydd bod y GIG yn amharod i rannu'r asesiadau hynny ag awdurdodau lleol. Yn sicr, yn 2012, nid yw hon yn ffordd briodol o ymdrin â materion.

I have also looked at the situation, and you mentioned workforce development in your statement. I was interested to note that the Enterprise and Learning Committee in 2008 and the Leader of the House, in her response to the report of the committee, looked at the establishment of a task group to review teacher training, as far as special educational needs were concerned. There was an announcement regarding the appointment of a secondee from Bangor University. Again, I have not been able to obtain any information with regard to any recommendations arising out of that particular task group.

Soniasoch am ddatblygu'r gweithlu yn eich datganiad, ac rwyf hefyd wedi edrych ar y sefyllfa hon. Roedd yn ddiddorol nodi bod y Pwyllgor Menter a Dysgu yn 2008, yn ogystal ag Arweinydd y Tŷ, yn ei hymateb i adroddiad y pwyllgor, wedi edrych ar sefydlu grŵp gorchwyl i adolygu hyfforddiant athrawon, mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig. Cafwyd cyhoeddiad ynghylch penodi rhywun ar secondiad o Brifysgol Bangor. Unwaith eto, nid wyf wedi gallu cael dim gwybodaeth ynglŷn ag unrhyw argymhellion a ddeilliodd o'r grŵp gorchwyl penodol hwnnw.

As far as schools are concerned, I think that there is a need for special schools to understand how they will be part of this process, given that there is currently no common assessment framework to enable them to provide data to the Government to monitor progression of students who are in their care.

Cyn belled ag y mae ysgolion yn y cwestiwn, credaf fod angen i ysgolion arbennig ddeall sut y byddant yn rhan o'r broses hon, o ystyried y ffaith nad oes fframwaith asesu cyffredin ar hyn o bryd i'w galluogi i ddarparu data i'r Llywodraeth i fonitro cynnydd y myfyrwyr sydd yn eu gofal.

Finally, I wonder whether we could hear your views on what provision you envisage will be made for children in mainstream classes, who, with the proposals with regard to numeracy and literacy tests being introduced, may not be eligible to sit those same tests. How will those proposals tie into this particular statement today?

Yn olaf, tybed a fyddai modd inni glywed eich barn am yr hyn y rhagwelwch y bydd yn cael ei ddarparu ar gyfer plant mewn dosbarthiadau prif ffrwd? Yn sgîl y cynigion a wnaed o ran cyflwyno profion rhifedd a llythrennedd, mae'n bosibl na fydd y plant hynny'n gymwys i sefyll y profion hynny. Sut y bydd y cynigion hynny'n cyd-fynd â'r datganiad penodol hwn heddiw?

I would support Simon Thomas's views with

Cefnogaf farn Simon Thomas o ran

regard to provision in the Welsh language. In my area, you are unable to obtain infant-age provision through the medium of Welsh for additional or special needs. The report that was referred to in the *Dragon's Eye* programme last week, with regard to autism, made quite stark reading. Despite the action plan, the reality is that there is a postcode lottery with regard to the provision of services. A damning remark made in the report noted that if you move from one part of Wales to the other, you cannot be assured of continuity of service, even if you have been successful in achieving that service in one particular area.

darpariaeth yn yr iaith Gymraeg. Yn fy ardal i, nid yw'n bosibl cael darpariaeth oedran babanod drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer anghenion ychwanegol neu anghenion arbennig. Roedd darllen yr adroddiad y cyfeiriwyd ato ar raglen *Dragon's Eye* yr wythnos diwethaf, mewn perthynas ag awtistiaeth, yn brofiad eithaf annymunol. Er gwaethaf y cynllun gweithredu, y gwir amdani yw bod loteri cod post o ran darparu gwasanaethau. Yn ôl un sylw damniol a wnaed yn yr adroddiad, os byddwch yn symud o un rhan o Gymru i ran arall, ni allwch fod yn sicr o barhad y gwasanaeth yr ydych yn ei gael, hyd yn oed os ydych wedi bod yn llwyddiannus wrth geisio sicrhau'r gwasanaeth hwnnw mewn un ardal benodol.

Overall, I welcome the report. It shows a positive approach as far as the Government is concerned, and the devil is in the detail.

Ar y cyfan, rwyf yn croesawu'r adroddiad. Mae'n dangos ymagwedd gadarnhaol ar ran y Llywodraeth, a'r manylion sy'n bwysig.

**Leighton Andrews:** We have obviously had some success today in attracting support from all the opposition parties in respect of the broad direction of travel. This is a consultation exercise and an opportunity for people to give us further views, to submit further evidence, to assess how they think our proposals will work in practice, and we look forward to receiving input from all sides.

**Leighton Andrews:** Yn amlwg, rydym wedi llwyddo heddiw i ennyn rhywfaint o gefnogaeth gan yr holl wrthbleidiau mewn perthynas â chyfeiriad cyffredinol y daith hon. Ymgynghoriad yw hwn, ac mae'n gyfle i bobl gyflwyno sylwadau pellach, cyflwyno rhagor o dystiolaeth, ac asesu sut y bydd ein cynigion yn gweithio yn ymarferol. Edrychwn ymlaen at gael mewnbwn o bob tu.

In respect of the pilots, the eight pilots are described in the consultation document. They have been through their development phase. Work is being evaluated at present, and we will obviously draw on that work as we move forward into legislation. In respect of the individual development plans, they are set out in some detail on pages 18 to 19 of the consultation document, as to how we see those working.

O ran y cynlluniau peilot, amlinellir yr wyth cynllun peilot yn y ddogfen ymgynghori. Maent wedi bod drwy gyfnod datblygu. Mae'r gwaith yn cael ei werthuso ar hyn o bryd. Yn amlwg, byddwn yn defnyddio'r gwaith hwnnw wrth inni symud ymlaen i ddeddfwriaeth. O ran y cynlluniau datblygu unigol, maent wedi'u nodi'n fanwl ar dudalennau 18 a 19 yn y ddogfen ymgynghori, o ran sut yr ydym yn eu gweld yn gweithio.

The Member is right to raise the question of the effective sharing of information between different agencies, including the NHS, and the Minister for Health and Social Services and I have discussed that, and that is why we have been able to bring forward this document jointly today. I think that we have made significant progress in that area.

Mae'r Aelod yn iawn wrth godi'r cwestiwn yn ymwneud â rhannu gwybodaeth yn effeithiol rhwng asiantaethau gwahanol, gan gynnwys y GIG, ac mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a minnau wedi trafod y mater hwnnw. Dyna sut yr oedd yn bosibl inni gyflwyno'r ddogfen hon ar y cyd heddiw. Credaf ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol yn y maes hwnnw.

In respect of the issues that he raised on the Welsh language and autism, I have responded to those in answer to the questions from the Plaid Cymru spokesperson. On the numeracy and literacy issues, I think that those are separate matters for another day.

O ran y materion a godwyd ganddo ynghylch yr iaith Gymraeg ac awtistiaeth, rwyf wedi ymateb iddynt wrth ateb y cwestiynau a ofynnwyd gan lefarydd Plaid Cymru. Credaf fod y materion sy'n ymwneud â rhifedd a llythrennedd yn faterion ar wahân ar gyfer diwrnod arall.

**Christine Chapman:** First, I thank the Minister for his statement today, and I echo the sentiments of other Members. I think that this is a welcome statement today, and that the person-centred approach is the right one, given the discussions that I have had with many parents over the years, and that I know that other Assembly Members will have had. I know how desperate parents of children with special educational needs can be, and how much they have had to battle to be heard in a complex system to get adequate and appropriate help for their children and, quite often, that help is still not forthcoming. Therefore, as I said, I am pleased that this statement is being made today.

**Christine Chapman:** Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw, ac rwyf yn adleisio'r teimladau a fynegwyd gan Aelodau eraill. Credaf fod hwn yn ddatganiad i'w groesawu heddiw, a chredaf hefyd mai canolbwyntio ar yr unigolyn yw'r dull cywir o weithredu, o ystyried y trafodaethau yr wyf wedi'u cael gyda nifer o rieni dros y blynyddoedd. Gwn y bydd Aelodau eraill wedi cael y trafodaethau hyn hefyd. Gwn mor anobeithiol y gall y sefyllfa sy'n wynebu rhieni sydd â phlant ag anghenion addysgol arbennig fod, a gwn hefyd sut y maent wedi gorfod brwydro i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed o fewn system gymhleth, a hynny er mwyn cael cymorth digonol a phriodol ar gyfer eu plant. Yn aml iawn, nid yw'r cymorth hwnnw'n dod. Felly, fel y dywedais, rwyf yn falch bod y datganiad hwn wedi'i wneud heddiw.

One of the things that parents feel is important is early diagnosis and support, because they feel that this is critical to the future wellbeing of their child. They say that time is always important because, every day that goes by, the problem gets worse. That leads to great fears about what help can be given and what the potential could be for their child, so time is important in this regard. I know that a number of parents who cannot afford it feel that they have been forced to pay privately for a diagnosis, which is totally unacceptable. I would be keen to hear your comments on that as well.

Un o'r pethau y mae rhieni'n teimlo ei fod yn bwysig yw cael diagnosis a chymorth cynnar, gan eu bod yn teimlo bod hyn yn ffactor hanfodol i les eu plentyn yn y dyfodol. Maent yn dweud bod yr amser hwnnw bob amser yn bwysig oherwydd bod y broblem yn gwaethygu gyda phob dydd sy'n mynd heibio. Mae'r sefyllfa hon yn arwain at ofnau mawr ynghylch y cymorth y gellir ei roi a'r hyn a allai ddigwydd o ran eu plentyn. Felly, mae amser yn bwysig yn hyn o beth. Gwn fod nifer o rieni nad ydynt yn gallu fforddio talu am ddiagnosis preifat yn teimlo eu bod wedi cael eu gorfodi i wneud hynny, ac mae hynny'n gwbl annerbyniol. Byddwn yn awyddus i glywed eich sylwadau ar y mater hwnnw hefyd.

This is a significant development, Minister, so how will you access the views of parents in this consultation? I know that you will be talking to what we would call the usual suspects—the organisations that are well set up to respond—but I am keen for you to talk to those parents who are at the sharp end of this. Frankly, at the moment, most of them

Mae hwn yn ddatblygiad sylweddol, Weinidog. Felly, sut y byddwch yn cael barn rhieni yn yr ymgynghoriad hwn? Gwn y byddwch yn siarad â'r enwau arferol—y sefydliadau hynny sydd wedi'u strwythuro'n dda ar gyfer ymateb—ond rwyf yn awyddus ichi siarad â'r rhieni hynny sydd yn y sefyllfa waethaf. A dweud y gwir, ar hyn o bryd,

feel quite powerless in this situation.

mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo'n ddi-rym yn wyneb y sefyllfa hon.

Last week, I attended a meeting of parents of children with attention deficit hyperactivity disorder and autism. On ADHD, to the uninformed it is a condition that is not well understood, and many assumptions can be made by professionals that children are simply badly behaved. Again, a lot of information needs to be discussed in this regard. These parents were telling me about the lack of support for their children on occasion, which was sometimes put down to a lack of awareness on the part of some teachers and others, and inconsistent strategies to deal with this.

Yr wythnos diwethaf, bûm mewn cyfarfod o rieni plant sydd ag anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd ac awtistiaeth. O ran anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd, i'r anwybodus mae'n gyflwr nad oes neb yn ei ddeall yn dda, a gall llawer o ragdybiaethau gael eu gwneud gan weithwyr proffesiynol, sef bod plant yn ymddwyn yn wael. Unwaith eto, mae angen trafod llawer o wybodaeth yn y cyswllt hwn. Roedd y rhieni hyn yn dweud wrthyf am y diffyg cefnogaeth ar gyfer eu plant ar adegau, a hynny'n deillio weithiau o ddiffyg ymwybyddiaeth ar ran rhai athrawon a phobl eraill, ac o strategaethau anghyson i ymdrin â'r mater hwn.

Finally, Minister, you referred in your statement to workforce issues that the new framework will include. Will it also include an element of training for health and education professionals, because I know that this is a great source of frustration and worry for many parents? As I said, I welcome this statement and I look forward to further debates on it.

Yn olaf, Weinidog, yn eich datganiad, cyfeiriasoch at y materion sy'n ymwneud â'r gweithlu y bydd y fframwaith newydd yn eu cynnwys. A fydd y fframwaith hefyd yn cynnwys elfen o hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym meysydd iechyd ac addysg, gan fy mod yn ymwybodol bod hyn yn esgor ar gryn rwystredigaeth a phryder i lawer o rieni? Fel y dywedais, rwyf yn croesawu'r datganiad hwn ac rwyf yn edrych ymlaen at drafodaethau pellach arno.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 3.08 p.m.*
*The Deputy Presiding Officer took the Chair at 3.08 p.m.*

**Leighton Andrews:** I thank the Member for Cynon Valley for what she said. She is right to stress the change to the person-centred approach being right at the centre of this document. Like many of us, she has been in the position of giving support to parents who are battling for assessments, as she put it, and she is right to raise the whole issue of the need for early diagnosis. That is something that we are all well aware of and committed to. I agree with her on everything she said about parents who have felt that they have been forced to pay privately for assessments. I have had similar cases.

**Leighton Andrews:** Diolch i Aelod Cwm Cynon am yr hyn a ddywedodd hi. Mae hi yn llygad ei lle wrth bwysleisio'r ffaith bod newid i ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn elfen ganolog o'r ddogfen hon. Fel llawer ohonom, mae hi wedi bod yn rhoi cymorth i rieni sy'n brwydro i gael asesiadau, fel y dywedodd hi, ac mae hi'n iawn wrth godi'r holl gwestiwn yn ymwneud â'r angen am ddiagnosis cynnar. Rydym i gyd yn ymwybodol o'r angen hwnnw, ac wedi ymrwymo iddo. Cytunaf â phopeth a ddywedodd hi am rieni sy'n teimlo eu bod wedi cael eu gorfodi i dalu am asesiadau preifat. Rwyf wedi cael achosion tebyg.

I pay tribute to the work of Snap Cymru in supporting many parents through this whole process. Its contribution to this consultation has been important.

Hoffwn dalu teyrnged i waith Snap Cymru, sy'n cefnogi llawer o rieni drwy'r holl broses hon. Mae cyfraniad y sefydliad hwnnw i'r ymgynghoriad hwn wedi bod yn bwysig.

She asked about ensuring as wide as possible inputs. We will be making the document widely available and consulting with appropriate stakeholders, but I would also encourage Assembly Members to share the document with groups of parents in their own constituencies, to carry out local consultations and bring forward any views that local groups may have to us, as a Government. We would be very pleased to hear about them.

Gofynnodd yr Aelod inni sicrhau bod y mewnbynnau'n dod o ffynonellau sydd mor eang â phosibl. Byddwn yn sicrhau bod y ddogfen hon ar gael yn eang, a byddwn yn ymgynghori â'r rhanddeiliaid priodol. Fodd bynnag, anogaf Aelodau'r Cynulliad i rannu'r ddogfen â grwpiau o rieni yn eu hetholaethau, i gynnal ymgyngoriadau lleol, ac i gyflwyno unrhyw farn sydd gan y grwpiau lleol hyn i ni, fel Llywodraeth. Byddem yn falch iawn o glywed amdanynt.

In respect of the workforce issues, we will be looking at the whole issue of training, and workforce issues will be considered during and after the consultation process. Part of the development work for this will be about engagement with the different workforces as we take this forward. Our view is that there will be significant benefits to existing practitioners. For example, there should be less of a need for them to attend multiple planning meetings if we can get the person-centred approach right, and that is one of our aims.

O ran y materion sy'n ymwneud â'r gweithlu, byddwn yn edrych ar yr holl gwestiwn yn ymwneud â hyfforddi, a bydd materion ynglŷn â'r gweithlu yn cael eu hystyried yn ystod ac ar ôl y broses ymgynghori. Bydd rhan o'r gwaith datblygu cysylltiedig yn ymwneud ag ymgysylltu â'r gwahanol weithluoedd wrth inni fwrw ymlaen â'r cynllun hwn. Ein barn ni yw y bydd manteision sylweddol i ymarferwyr presennol. Er enghraifft, dylai fod llai o angen iddynt fynychu nifer o gyfarfodydd cynllunio os gallwn sicrhau bod y dull o ganolbwyntio ar yr unigolyn yn gweithio'n iawn, a dyna un o'n hamcanion.

**Jenny Rathbone:** I would like to give the Government three cheers on this one, unreservedly. Like Angela Burns, I have been rather disturbed by some of the evidence we have heard in the adoption inquiry. Specifically, last week, we heard representatives of social workers saying that they often had battles with the health service over who was going to pay for counselling services for adopted children, as the impact of their interrupted attachment was not evident until they were in adolescence, by which time the original authority in whose area they used to live was in the mists of history. Clearly, adoptive families should not have to go through that sort of agony, having to navigate between different public services. However, I am sure that that will not be happening if we have this sort of framework.

**Jenny Rathbone:** Hoffwn roi tair bloedd i'r Llywodraeth ar y mater hwn, a hynny'n ddiamod. Fel Angela Burns, mae rhannau o'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chlywed yn ystod yr ymchwiliad i fabwysiadu wedi peri pryder imi. Yn benodol, yr wythnos diwethaf, clywsom gan dystion a oedd yn cynrychioli gweithwyr cymdeithasol. Dywedasant eu bod yn aml yn gorfod brwydro â'r gwasanaeth iechyd ynghylch pwy oedd yn mynd i dalu am wasanaethau cwnsela i blant a fabwysiadwyd, gan nad oedd effaith eu hymlyniad bylchog yn amlwg hyd nes eu bod yn eu llencyndod, ac, erbyn hynny, roedd yr awdurdod gwreiddiol a oedd yn gyfrifol am yr ardal lle yr oeddent yn arfer byw wedi diflannu i niwloedd hanes. Yn amlwg, ni ddylai teuluoedd sy'n mabwysiadu orfod dioddef y math hwn o ofid, sef symud rhwng gwasanaethau cyhoeddus gwahanol. Fodd bynnag, rwyf yn siŵr na fydd hynny'n digwydd os bydd gennym y math hwn o fframwaith.

I am sure that having an IT system that allows everyone, including the parents, to

Rwyf yn siŵr y bydd cael system technoleg gwybodaeth sy'n caniatáu i bawb, gan

look up who is doing what and by when it should be done will be excellent. However, some families will rely on a key worker to help them to navigate their way through the system. I wonder whether those with IDPs would always have a named key worker who would obviously be the most appropriate person, depending on the individual child's needs.

gynnwys rhieni, chwilio am bwy sy'n gwneud beth, ac chanfod erbyn pryd y dylid cwblhau'r tasgau hyn, yn rhagorol. Fodd bynnag, bydd rhai teuluoedd yn dibynnu ar weithiwr allweddol i'w helpu i symud drwy'r system. Tybed a fydd y rhai sydd â chynllun datblygu unigol bob amser yn defnyddio gweithiwr allweddol a enwir, sef y person mwyaf priodol, yn amlwg, yn ddibynnol ar anghenion y plentyn unigol?

Turning to my other question, how well do you think this joined-up person-centred support close to home is going to shift the focus of education authorities to ensure that disabled access in schools is a bit higher up the agenda, specifically in secondary schools, where the norm is for students to move around between lessons for different subjects? The challenge of making secondary schools accessible for disabled people is therefore that much greater, but hugely important for the young person who wants to have the option of being able to go to the same school as their peers from primary school.

Gan droi at fy nghwestiwn arall, pa mor llwyddiannus y bydd y dull cydgysylltiedig hwn o ddarparu cymorth yn agos i'r cartref, a hynny mewn modd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, o ran symud ffocws awdurdodau addysg er mwyn sicrhau bod hygyrchedd adeiladau ysgolion i bobl anabl ychydig yn uwch ar yr agenda, yn benodol mewn ysgolion uwchradd, lle y mae'n arferol i fyfyrwyr symud o gwmpas rhwng gwersi ar gyfer pynciau gwahanol? Mae'r her o sicrhau bod ysgolion uwchradd yn hygyrch i bobl anabl yn llawer mwy, felly, ond mae'n hynod o bwysig i berson ifanc sydd am gael yr opsiwn o allu mynychu'r un ysgol â'i gyfoedion o'r ysgol gynradd.

**Leighton Andrews:** To respond to those three issues, I hear what the Member for Cardiff Central says about the whole issue of families in the circumstances of adoption. Sections 8.3 and 8.4 of the consultation document set out how the existing SEN code of practice would be revised. In that revision, we will be looking in detail at the roles and responsibilities of local authorities, schools and the third sector. It is our ambition to develop a charter of rights, roles and responsibilities that will apply to young people, parents, carers and others in respect of services from local authorities and other agencies. There is an opportunity there to open up further consideration of the issue she raises.

**Leighton Andrews:** Byddaf yn ymateb i'r tri mater hynny. Clywais yr hyn a ddywedodd yr Aelod dros Ganol Caerdydd am deuluoedd sydd yn ymwneud â'r broses fabwysiadu. Mae adrannau 8.3 a 8.4 yn y ddogfen ymgynghori yn nodi sut y byddai'r cod ymarfer presennol ar gyfer anghenion addysgol arbennig yn cael ei adolygu. Yn yr adolygiad hwnnw, byddwn yn edrych yn fanwl ar rolau a chyfrifoldebau awdurdodau lleol, ysgolion a'r trydydd sector. Ein huchelgais yw datblygu siarter ar gyfer hawliau, rolau a chyfrifoldebau a fydd yn berthnasol i bobl ifanc, rhieni, gofalwyr ac eraill, mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill. Dyma gyfle i ystyried y materion a godwyd ganddi ymhellach.

I welcome her support for what we are seeking to do with the online provision of information. She is right to say that some families will access information via a key worker. I see no reason why we would want to make any change to that arrangement. If she has views specifically on how we might take that forward, I would welcome hearing

Croesawaf ei chefnogaeth i'r hyn yr ydym yn ceisio ei wneud o ran darparu gwybodaeth ar-lein. Mae hi'n iawn wrth ddweud y bydd rhai teuluoedd yn cael mynediad at wybodaeth drwy weithiwr allweddol. Ni welaf ddim rheswm pam y byddem yn dymuno newid y drefn honno o gwbl. Os oes ganddi farn benodol ar sut y gallem fwrw ymlaen â

from her.

hynny, hoffwn glywed ganddi.

I am not certain that this document itself will shift the approach of local authorities in respect of disabled access in, for example, secondary schools. However, I hope that it will set a climate and a very clear sense of how local authorities need to make better provision for pupils with additional needs very much a core part of their overall approach to planning provision for the future. I think that we are talking about cultural change and, as we all know, that does not happen overnight. This is part of the process of seeking to achieve that.

Nid wyf yn sicr y bydd y ddogfen ei hun yn newid dulliau awdurdodau lleol o weithredu mewn perthynas â sicrhau hygyrchedd i bobl anabl, er enghraifft, mewn ysgolion uwchradd. Fodd bynnag, gobeithio y bydd y cynllun hwn yn creu hinsawdd arbennig ac ymdeimlad clir iawn ynghylch sut y bydd angen i awdurdodau lleol sicrhau gwell darpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol, a bod hynny'n rhan greiddiol o'u hymagwedd gyffredinol tuag at gynllunio darpariaeth ar gyfer y dyfodol. Credaf ein bod yn sôn am newid diwylliannol ac, fel y gwyddom, nid yw hynny'n digwydd dros nos. Mae'r mater hwn yn rhan o'r broses o geisio cyflawni hynny.

**The Deputy Presiding Officer:** Finally, for a focused question, I call Mark Isherwood.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yn olaf, galwaf Mark Isherwood i ofyn cwestiwn mwy penodol.

**Mark Isherwood:** I speak both as someone who sat on the committee that carried out the special needs review in the second Assembly and as a parent who, twelve years ago, was battling to get a statement, without which a child of mine would not have had the early intervention he ultimately received—thanks only to the statement—and which has led to him now being a hugely successful young man with a string of academic qualifications and life experiences behind him. However, so many parents find themselves in that position.

**Mark Isherwood:** Siaradaf fel rhywun a oedd yn eistedd ar y pwyllgor a gynhaliodd yr adolygiad o anghenion arbennig yn yr ail Gynulliad. Siaradaf hefyd fel rhiant a frwydrodd, 12 mlynedd yn ôl, i gael datganiad. Pe na fyddwn wedi llwyddo yn y frwydr honno, ni fyddai un o'm plant wedi cael yr ymyrraeth gynnar a gafodd yn y pen draw—diolch, yn unig, i'r datganiad hwnnw. Yn sgîl yr ymyrraeth hon, mae'n ddyn ifanc hynod o lwyddiannus erbyn hyn, ac wedi cael llu o gymwysterau academaidd a phrofiadau mewn bywyd. Fodd bynnag, mae cynifer o rieni'n wynebu'r sefyllfa honno.

3.15 p.m.

How will you address the concern that, in moving from statements to a different statutory framework and to individual development plans, you will not simply replicate the problems with new labels? The statement or individual plan should not be a certificate of entitlement, but should only be a safety net. However, as Aled Roberts highlighted from the report on diagnostic services, which was made public last week, although dated December 2010, there is a lack of understanding by the senior management in those key partnerships that you are referring to. How, also, would you address the concern identified in that committee report over how to define severe

Sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r pryder y byddwch, drwy symud o ddatganiadau i fframwaith statudol gwahanol a chynlluniau datblygu unigol, yn ailadrodd y problemau gyda labeli newydd yn unig? Ni ddylai'r datganiad neu gynllun unigol fod yn dystysgrif o hawl, ond yn rhwyd achub yn unig. Fodd bynnag, fel y bu i Aled Roberts bwysleisio ynghylch yr adroddiad ar wasanaethau diagnostig, a gafodd ei gyhoeddi'r wythnos diwethaf er ei fod yn ddyddiedig mis Rhagfyr 2010, mae diffyg dealltwriaeth ar ran yr uwch-reolwyr yn y partneriaethau allweddol yr ydych yn cyfeirio atynt. Sut, hefyd, y byddech yn mynd i'r afael â'r pryder a nodwyd yn yr adroddiad

and complex needs? There is a danger that that, again, could be used as a means for rationing, rather than expanding, early intervention services.

pwyllgor hwnnw ynglŷn â sut i ddiffinio anghenion difrifol a chymhleth? Mae perygl, unwaith eto, y gallai hynny gael ei ddefnyddio fel modd i gyfyngu ar wasanaethau ymyrraeth cynnar, yn hytrach na'u hehangu.

**Leighton Andrews:** The Member for North Wales speaks with great insight into these issues and from his experience in this area and I know that he was a member of a committee in the past that looked into this in some detail. What we are seeking to do is to effect a cultural change in respect of a move to better integration of provision and a plan centred on the child. That is the whole point of the individual development plan, which has a sense, I suppose, of giving impetus to the needs of the child, rather than a rather more bureaucratic approach, which may be adopted in local circumstances in some areas at the present time.

**Leighton Andrews:** Mae'r Aelod dros Ogledd Cymru yn siarad yn graff ynghylch y materion hyn ac o'i brofiad yn y maes hwn a gwn y bu'n aelod o bwyllgor yn y gorffennol a edrychodd ar hyn yn fanwl. Yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud yw sicrhau newid diwylliannol mewn perthynas â symud at integreiddio'r ddarpariaeth a chael cynllun sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Dyna holl bwynt y cynllun datblygu unigol, sydd, am wn i, yn ymwneud â blaenoriaethu anghenion y plentyn, yn hytrach na dull ychydig yn fwy biwrocrataidd, sydd efallai yn cael ei fabwysiadu mewn amgylchiadau lleol mewn rhai ardaloedd ar hyn o bryd.

As I said in answer to my colleague the Member for Cardiff Central, I do not think that you achieve cultural change overnight. What we are seeking to do here is to put in place a framework of legislation that makes very clear to all agencies involved in addressing the needs of a particular child what their responsibilities will be. As we revise the SEN code, that may give us the opportunity to address some of the points that the Member has made. I would certainly encourage him to make his views clear in the consultation. If he has particular questions arising from his experience, or from the experience of others, we would obviously want to hear them.

Fel y dywedais wrth ateb fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Ganol Caerdydd, nid wyf yn credu eich bod yn cyflawni newid diwylliannol dros nos. Yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud yma yw sefydlu fframwaith o ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn glir iawn i'r holl asiantaethau sy'n ymwneud â chwrdd ag anghenion plentyn penodol beth fydd eu cyfrifoldebau. Wrth inni adolygu'r cod AAA, efallai y bydd gennym gyfle i fynd i'r afael â rhai o'r pwyntiau y mae'r Aelod wedi eu gwneud. Rwy'n sicr yn ei annog i gyfleu ei farn yn glir yn yr ymgynghoriad. Os oes ganddo gwestiynau penodol sy'n deillio o'i brofiad, neu o brofiad pobl eraill, byddem yn amlwg yn awyddus i'w clywed.

## Datganiad: Hygyrchedd i Gyfreithiau Cymru a Datblygu Llyfr Statud i Gymru—Y Wybodaeth Ddiweddaraf
## Statement: Access to Welsh Laws and Developing a Welsh Statute Book —An Update

**The Counsel General (Theodore Huckle):** Good afternoon, everyone. Last autumn, I spoke about some of the challenges faced by you, our legislators and the new guardians of what is a substantial part of the statute book of England and Wales. I referred to the need for our laws to be accessible and the importance of them being intelligible, clear and predictable in their effect. I highlighted

**Y Cwnsler Cyffredinol (Theodore Huckle):** Prynhawn da, bawb. Hydref diwethaf, bu imi siarad am rai o'r heriau sy'n eich wynebu chi, ein deddfwyr a gwarcheidwaid newydd rhan sylweddol o lyfr statud Cymru a Lloegr. Cyfeiriais at yr angen i'n cyfreithiau fod yn hygyrch a'i bod yn bwysig eu bod yn ddealladwy, yn glir ac yn rhagweladwy o ran eu heffaith. Tynnais sylw

three issues that militate against this aim.

at dri mater sy'n llesteirio'r nod hwn.

The first is the volume of legislation, with its plethora of interconnecting provisions, which, at the moment, create a patchwork of law affecting Wales. The second is the process of devolution itself, which can make legislation within the devolved areas more complex than would otherwise be the case. The third is the extent to which legislation in its updated form, in other words incorporating amendments made to existing legislation, is readily available to the public.

Y cyntaf yw faint o ddeddfwriaeth sydd, gyda'i llu o ddarpariaethau cysylltiol, sydd, ar hyn o bryd, yn creu clytwaith o gyfraith sy'n effeithio ar Gymru. Yr ail yw'r broses ddatganoli ei hun, sy'n gallu gwneud deddfwriaeth o fewn y meysydd datganoledig yn fwy cymhleth nag y byddai fel arall. Y trydydd yw i ba raddau y mae deddfwriaeth sydd wedi'i ddiwygio, neu sydd, mewn geiriau eraill, yn cynnwys diwygiadau a wnaed i'r ddeddfwriaeth bresennol, ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd.

I spoke also of the limitations to what can be done to remedy these issues, both constitutional and practical, but said that much could be achieved. I wish, therefore, to update Members on what has already been done in the few months that have passed since that time.

Soniais hefyd am y cyfyngiadau o ran yr hyn y gellir ei wneud i ddatrys y materion hyn, yn gyfansoddiadol ac yn ymarferol, ond dywedais y gellir cyflawni llawer. Hoffwn, felly, roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am yr hyn sydd eisoes wedi'i wneud yn ystod yr ychydig fisoedd a aeth heibio ers hynny.

In my previous statement, I expressed the view that updated legislation should be available free of charge to the public, and, given that both language versions are equal in law, and as a matter of principle, I believe that it should be available in Welsh as well as in English. Whatever they do, the people of Wales have a right to easy access in readily understandable form to the laws that govern their lives.

Yn fy natganiad blaenorol, mynegais fy marn y dylai deddfwriaeth sydd wedi'i diweddaru fod ar gael yn rhad ac am ddim i'r cyhoedd, ac, o ystyried bod y fersiynau yn y ddwy iaith yn gyfartal yn y gyfraith, ac fel mater o egwyddor, credaf y dylai fod ar gael yn y Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg. Beth bynnag y maent yn ei wneud, mae gan bobl Cymru'r hawl i gael mynediad rhwydd at y deddfau sy'n rheoli eu bywydau ar ffurf sy'n hawdd i'w deall.

Since then, progress has been made to improve the legislation.gov.uk website. This is being done in three separate ways. First, two new officials have recently been recruited by the Welsh Government to begin the process of updating Welsh provisions on that website. I expect that, within the near future, the major part of Welsh legislation will be available in its updated form. Secondly, at our behest, the National Archives has begun a process of signposting the territorial application of statutory provisions. The intention is that the reader will be assisted in identifying whether a provision applies, for example, to Wales only, to England only, or to England and Wales. This is a significant point in what is a complex system of dual legislatures. Thirdly, the legislation.gov.uk team recently came to Cardiff to test new functionality for its site,

Ers hynny, gwnaed cynnydd o ran gwella gwefan legislation.gov.uk. Mae hyn yn cael ei wneud mewn tair ffordd wahanol. Yn gyntaf, mae dau swyddog newydd wedi cael eu recriwtio yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru i ddechrau ar y broses o ddiweddaru'r darpariaethau Cymreig ar y wefan. Rwy'n disgwyl, yn y dyfodol agos, y bydd y rhan fwyaf o ddeddfwriaeth Gymreig ar gael wedi'i diweddaru. Yn ail, ar ein cais ni, mae'r Archifau Cenedlaethol wedi dechrau'r broses o gyfeirio gweithrediad tiriogaethol darpariaethau statudol. Y bwriad yw y bydd y darllenydd yn cael cymorth o ran nodi a yw darpariaeth yn cael ei gweithredu, er enghraifft, yng Nghymru yn unig, yn Lloegr yn unig, neu yng Nghymru a Lloegr. Mae hwn yn bwynt pwysig mewn system gymhleth o ddeddfwrfeydd deuol. Yn drydydd, daeth tîm legislation.gov.uk i

including an option to navigate the site in Welsh and to access and view both language versions of Welsh legislation side by side. This will, we are assured, be available soon.

Gaerdydd yn ddiweddar i brofi swyddogaethau newydd ar gyfer ei safle, gan gynnwys opsiwn i symud o gwmpas y safle yn Gymraeg ac i weld y ddwy fersiwn o ddeddfwriaeth Gymreig yn y ddwy iaith ochr yn ochr. Cawsom sicrwydd y byddai hyn ar gael yn fuan.

I spoke also of my intention to develop an explanatory narrative of Welsh legislation—in effect, an encyclopaedia of Welsh law, helpful to lawyers and non-lawyers alike. I am pleased to make a significant announcement in this respect, as the Government has now begun a process of collaborating with Westlaw, one of the UK's main legal publishers, with a view to developing an online service. The intention is to develop a new website that will be available free of charge to the public. It remains early days, but this is, we think, a very exciting development.

Soniais hefyd am fy mwriad i ddatblygu naratif esboniadol o ddeddfwriaeth Gymreig—i bob pwrpas, gwyddoniadur o gyfraith Gymreig, a fydd yn ddefnyddiol i gyfreithwyr a'r rheini nad ydynt yn gyfreithwyr fel ei gilydd. Rwy'n falch o wneud cyhoeddiad arwyddocaol yn hyn o beth, gan fod y Llywodraeth nawr wedi dechrau'r broses o gydweithio gyda Westlaw, un o brif gyhoeddwyr cyfreithiol y DU, er mwyn ceisio datblygu gwasanaeth ar-lein. Y bwriad yw datblygu gwefan newydd a fydd ar gael yn rhad ac am ddim i'r cyhoedd. Mae'n gynnar eto, ond credwn fod hwn yn ddatblygiad cyffrous iawn.

In the previous statement, I spoke also of how access to the law could be improved significantly through an approach to legislation that incorporates more Wales-only text in Wales-only Acts in order to move gradually towards free-standing Welsh legislation—or a Welsh statute book, as it has been referred to on occasion. This would involve revising, codifying and consolidating the law. To the extent that it is possible, Welsh laws should be drafted afresh, instead of amending existing provisions—a practice that also prevents the development of Welsh-language texts, because, as things stand, most of the existing text of legislation that can be amended is in English only.

Yn y datganiad blaenorol, soniais hefyd am sut y gellid gwella mynediad at y gyfraith yn sylweddol drwy ddull o ymdrin â deddfwriaeth sy'n cynnwys mwy o destun i Gymru'n unig mewn Deddfau i Gymru'n unig er mwyn symud yn raddol tuag at gael deddfwriaeth Gymreig annibynnol—neu lyfr statud Cymreig, fel y'i gelwir weithiau. Byddai hyn yn golygu adolygu, cyfundrefnu a chydgrynhoi'r gyfraith. I'r graddau y mae hynny'n bosibl, dylid drafftio cyfreithiau Cymreig o'r newydd, yn hytrach na diwygio darpariaethau presennol—arfer sydd hefyd yn atal datblygiad testunau Cymraeg, oherwydd, ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o destun presennol deddfwriaeth y gellir ei ddiwygio ar gael yn Saesneg yn unig.

I also stated that, where practicable, new legislation in Cardiff should be drafted in a way that simplifies the statute book by consolidating Welsh legislation and separating it from legislation that also applies to England. I am pleased to say that this has indeed been a feature of a number of the Bills that the Government has introduced or is consulting upon and this approach permeates the drafting method applied by office of the legislative counsel of the Welsh Government. The Schools Standards and Organisation (Wales) Bill, for example, as well as

Bu imi ddatgan hefyd, lle y mae'n ymarferol gwneud hynny, y dylai deddfwriaeth newydd yng Nghaerdydd gael ei drafftio mewn ffordd sy'n symleiddio'r llyfr statud, drwy gydgrynhoi deddfwriaeth Gymreig a'i gwahanu oddi wrth ddeddfwriaeth sydd hefyd yn berthnasol i Loegr. Rwy'n falch o ddweud bod hyn yn wir am nifer o'r Biliau y mae'r Llywodraeth wedi eu cyflwyno neu yn ymgynghori arnynt ac mae'r dull hwn yn treiddio drwy'r dull drafftio a ddefnyddir gan swyddfa cwnsler deddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, yn

reforming the law on intervention in schools and local authorities and school organisation, brings together a number of provisions currently found in several existing statutes.

ogystal â diwygio'r gyfraith ar ymyrraeth mewn ysgolion ac awdurdodau lleol a threfniadaeth ysgolion, mae'r Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) yn dwyn ynghyd nifer o ddarpariaethau sydd ar gael ar hyn o bryd mewn sawl statud sy'n bodoli eisoes.

The policy goals behind the local government bye-laws and human transplantation Bills could have been achieved by amending existing legislation applicable to England and Wales, and, in the latter case, Northern Ireland. However, wherever possible, we prefer to make stand-alone provision for Wales and this is what has been done in both those cases.

Gallai'r nodau polisi y tu ôl i'r Biliau is-ddeddfau llywodraeth leol a thrawsblannu dynol fod wedi cael eu cyflawni drwy ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr, ac, yn yr achos olaf, Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, lle bynnag y bo'n bosibl, mae'n well gennym wneud darpariaeth annibynnol ar gyfer Cymru a dyma sydd wedi cael ei wneud yn y ddau achos hynny.

I stated also that I was to begin assessing the feasibility of developing a separate fast-track consolidation programme to run alongside the main legislative programme. If such a programme is to succeed, we need also to develop an institutional infrastructure to facilitate the development and fast-tracking of Bills that simply clarify and consolidate rather than change the law. These initiatives would accelerate the development of a substantial stand-alone body of Welsh law.

Bu imi ddatgan hefyd fy mod ar fin dechrau asesu ymarferoldeb datblygu rhaglen gydgrynhoi llwybr carlam ar wahân i redeg ochr yn ochr â'r brif raglen ddeddfwriaethol. Os yw rhaglen o'r fath yn mynd i lwyddo, mae angen datblygu seilwaith sefydliadol hefyd i hwyluso datblygiad Biliau sy'n egluro a chydgrynhoi yn hytrach na newid y gyfraith, a'r dull o'u rhoi ar lwybr carlam. Byddai'r mentrau hyn yn cyflymu datblygiad corff sylweddol o gyfraith annibynnol i Gymru.

This aspect of the access-to-legislation initiative remains at a very early stage, but officials have been in contact with officials in Commonwealth countries who have extensive experience of such systems. I hope to make further progress on this over the coming summer months. I have recently written to the Presiding Officer about this and am consulting with Assembly officials in considering this important issue. We hope that this is an area of legal development in which Wales will be seen to lead the way in the United Kingdom. I have also recently met the chair of the Law Commission, Lord Justice Sir James Munby, and his fellow commissioner Frances Patterson Queen's Counsel in Cardiff to explore ways in which we could work more closely together.

Rydym yn gynnar iawn yn y broses o ddatblygu'r agwedd hon ar y fenter i ddarparu mynediad at ddeddfwriaeth, ond bu swyddogion mewn cysylltiad â swyddogion yng ngwledydd y Gymanwlad sydd â phrofiad helaeth o systemau o'r fath. Rwy'n gobeithio gwneud cynnydd pellach ar hyn yn ystod misoedd yr haf. Rwyf wedi ysgrifennu at y Llywydd am hyn yn ddiweddar ac rwy'n ymgynghori â swyddogion y Cynulliad wrth ystyried y mater pwysig hwn. Rydym yn gobeithio bod hwn yn faes o ddatblygu cyfreithiol lle y bydd Cymru yn arwain y ffordd yn y Deyrnas Unedig. Rwyf hefyd wedi cyfarfod yn ddiweddar â chadeirydd Comisiwn y Gyfraith, Arglwydd Ustus Syr James Munby, a'i gyd-gomisiynydd Frances Patterson Cwnsler y Frenhines yng Nghaerdydd i archwilio ffyrdd y gallem weithio'n agosach gyda'n gilydd.

To conclude, good progress has, we think, been made, but much more needs to be done

I gloi, credwn fod cynnydd da wedi cael ei wneud, ond mae angen gwneud llawer mwy i

to promote clarity and improve access to the law. As I have said before, accessing the law is an essential part of the democratic process. It is vital to the people of Wales's understanding of the huge impact that work done here in Cardiff on their behalf by you, our legislature, already has and will increasingly have on the things that most matter to them in their daily lives: their health, environment, homes, education, local administration and so on. I will make a further statement at the end of this year to outline what further progress has been made in these areas.

hyrwyddo eglurder a gwella mynediad at y gyfraith. Fel y dywedais o'r blaen, mae cael mynediad at y gyfraith yn rhan hanfodol o'r broses ddemocrataidd. Mae'n hanfodol i ddealltwriaeth pobl Cymru o'r effaith enfawr y mae'r gwaith yr ydych chi, ein deddfwrfa, yn ei wneud yma yng Nghaerdydd ar eu rhan yn ei chael yn barod a'r effaith y bydd yn ei chael yn y dyfodol ar y pethau pwysicaf iddynt yn eu bywydau bob dydd: eu hiechyd, yr amgylchedd, tai, addysg, gweinyddiaeth leol, ac yn y blaen. Gwnaf ddatganiad arall ar ddiwedd y flwyddyn hon i amlinellu pa gynnydd pellach a wnaed yn y meysydd hyn.

**Suzy Davies:** Thank you, Counsel General, for your statement and for updating the Assembly. It is certainly of some interest to those of us on the Constitutional and Legislative Affairs Committee, as we are looking at this in the context of a separate Welsh legal jurisdiction. I think that you have made good progress—I remember that you promised Julie James a lot of progress by the time we saw you next, and I note that some of the proposals are in their early stages, but, nevertheless, they are very welcome.

**Suzy Davies:** Diolch, Gwnsler Cyffredinol, am eich datganiad ac am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad. Mae'n sicr o ddiddordeb i'r rhai ohonom sy'n aelodau o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, gan ein bod yn edrych ar hyn yng nghyd-destun sefydlu awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân i Gymru. Credaf eich bod wedi gwneud cynnydd da—cofiaf ichi addo i Julie James y byddai llawer o gynnydd erbyn y tro nesaf y byddwn yn eich gweld, a nodaf fod rhai o'r cynigion yn eu camau cynnar, ond, serch hynny, mae croeso mawr iddynt.

I have a few questions for you, and, while you may not be able to answer them in full, because some of your proposals are at an early stage, I would be grateful for any answers that you can give.

Mae gennyf ychydig o gwestiynau i chi, ac, er efallai na fyddwch yn gallu eu hateb yn llawn, gan fod rhai o'ch cynigion ar gam cynnar, byddwn yn ddiolchgar am unrhyw atebion y gallwch eu rhoi.

My first query is with regard to the cost implications of some of these proposals. Clearly, there will be some. I am thinking in particular of the appointment of the new officials and any potential contracts with Westlaw and legislation.gov.uk. I was particularly glad to hear what you have told us today about the ability to engage with that website through the medium of Welsh—that is a big step forward.

Mae fy ymholiad cyntaf yn ymwneud â goblygiadau cost rhai o'r cynigion hyn. Yn amlwg, bydd rhai goblygiadau. Rwy'n meddwl yn benodol am benodiad y swyddogion newydd ac unrhyw gytundebau posibl gyda Westlaw a legislation.gov.uk. Roeddwn yn arbennig o falch o glywed yr hyn yr ydych wedi ei ddweud wrthym heddiw am y gallu i ymgysylltu â'r wefan hwnnw drwy gyfrwng y Gymraeg—mae hynny'n gam mawr ymlaen.

The second query concerns your work with the National Archives. I appreciate what you said in your statement, but, if resources were less of an issue, would the path that you are taking with the National Archives be easier to follow if we had a separate national archive in Wales? Perhaps you would like to consider

Mae'r ail gwestiwn yn ymwneud â'ch gwaith gyda'r Archifau Cenedlaethol. Rwy'n gwerthfawrogi'r hyn a ddywedasoch yn eich datganiad, ond, pe bai adnoddau yn llai o broblem, a fyddai'r llwybr yr ydych yn ei gymryd gyda'r Archifau Cenedlaethol yn haws i'w ddilyn pe bai gennym archif

that in your response.

cenedlaethol ar wahân yng Nghymru? Efallai yr hoffech ystyried hynny yn eich ymateb.

The potential relationship with Westlaw is a very exciting development. Are you able to tell us anything at this stage about the possible contributors to the commentary that you referred to? I remember that, back in October last year, you talked about the potential of having a 'wiki' way forward. Is that still your thinking, or do you have something a little more formal in mind?

Mae'r berthynas bosibl gyda Westlaw yn ddatblygiad cyffrous iawn. A allwch ddweud unrhyw beth wrthym ar hyn o bryd am y cyfranwyr posibl at y sylwebaeth y cyfeiriasoch ato? Rwy'n cofio, yn ôl ym mis Hydref y llynedd, y bu ichi sôn am y posibilrwydd o gael ffordd ymlaen drwy ddefnyddio 'wiki'. A ydych yn dal i gredu hynny, neu a oes gennych rywbeth sydd ychydig yn fwy ffurfiol mewn golwg?

Finally, on the point about consolidating law and fresh law, I look forward to hearing from you later in the year about progress on the consolidation of laws. Do you agree that with regard to Bills such as the School Standards and Organisation (Wales) Bill, it needs to be completely clear where a Bill is consolidating and where it is amending or creating new law? Does that need to be completely clear? Also, with regard to fresh law, you say that you

Yn olaf, ar y pwynt am gydgrynhoi'r gyfraith a chael cyfraith newydd, edrychaf ymlaen at glywed gennych yn ddiweddarach yn y flwyddyn am y cynnydd a wnaed o ran cydgrynhoi cyfreithiau. A ydych yn cytuno, o ran Biliau fel y Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru), bod angen iddo fod yn gwbl glir lle mae Bil yn cydgrynhoi cyfreithiau a lle mae'n diwygio'r gyfraith neu'n creu cyfraith newydd? A oes angen i hynny fod yn gwbl glir? Hefyd, o ran cyfraith newydd, dywedwch fod yn well gennych

'prefer to make stand-alone provision for Wales'

'wneud darpariaeth annibynnol ar gyfer Cymru'

and that

ac y

'Welsh laws should be drafted afresh, instead of amending existing provisions'.

'dylid drafftio cyfreithiau Cymreig o'r newydd, yn hytrach na diwygio darpariaethau presennol'.

Could you venture an opinion on whether that principle should also apply to Orders consequent on existing UK law, rather than amending existing UK law? They are different, but I wonder whether you would say that the principle applies to both. I am thinking particularly of the Orders consequent on the Public Bodies Act 2011.

A allwch chi fentro rhoi barn ar p'un a ddylai'r egwyddor honno hefyd fod yn berthnasol i Orchmynion sy'n deillio o gyfraith y DU sy'n bodoli eisoes, yn hytrach na newid cyfraith y DU sy'n bodoli eisoes? Maent yn wahanol, ond tybed a fyddech yn dweud bod yr egwyddor yn gymwys i'r ddau. Rwy'n meddwl yn benodol am y Gorchmynion sy'n deillio o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011.

**Theodore Huckle:** Thank you for those five sets of questions. Last week, I was unable, although helped by one of the Members of the Assembly, to give any details about costings. I am in a position now to say a bit about that. Members may be aware that the office of Counsel General does not have a budget as such—it is not a ministerial

**Theodore Huckle:** Diolch ichi am y pum cyfres o gwestiynau hynny. Yr wythnos diwethaf, nid oeddwn yn gallu rhoi unrhyw fanylion am gostau, er fy mod wedi cael cymorth gan un o Aelodau'r Cynulliad. Rwyf mewn sefyllfa yn awr i ddweud ychydig am hynny. Efallai bod Aelodau'n ymwybodol nad oes gan swydd y Cwnsler Cyffredinol

portfolio. The position as far as these initiatives are concerned is this: I am told that from about 1999, that is, from the outset, about £20,000 was allowed out of the available funds to establish the Wales Legislation Online website. Then, when the Assembly and Government were split, from 2007, match funding of £20,000 from each was agreed.

gyllideb fel y cyfryw—nid yw'n bortffolio gweinidogol. Y sefyllfa o ran y mentrau hyn yw: dywedwyd wrthyf mai'r sefyllfa o tua 1999, hynny yw, o'r cychwyn cyntaf, yw bod tua £20,000 wedi cael ei ganiatáu o'r arian sydd ar gael i sefydlu gwefan Deddfwriaeth Cymru Ar-lein. Yna, pan rannwyd y Cynulliad a'r Llywodraeth, o 2007, cytunwyd y byddai'r ddau yn cyfrannu arian cyfatebol o £20,000 yr un.

As I have indicated before, and as you may already be aware, the Wales Governance Centre requested an increase in those match funds to £50,000 each. I think that I did say at one stage in my statement that concerns were expressed before I came into post that that website was not delivering what people needed, broadly. There were consultations about that, but they did not achieve the progress that the Assembly Commission wanted, with the result that the Assembly Commission—I do not criticise—ceased the original match funding. The result of that was that the Wales Governance Centre decided that its priorities lay elsewhere.

Fel y dywedais o'r blaen, ac efallai eich bod yn ymwybodol o hyn, gofynnodd Ganolfan Llywodraethu Cymru am gynnydd yn yr arian cyfatebol i £50,000 yr un. Credaf fy mod wedi dweud ar un pwynt yn fy natganiad y mynegwyd pryderon cyn imi ddechrau yn y swydd nad oedd y wefan yn cyflawni'r hyn yr oedd pobl ei angen, ar y cyfan. Roedd ymgynghoriadau am hynny, ond nid oedd llwyddiant o ran sicrhau'r cynnydd yr oedd Comisiwn y Cynulliad am ei weld, felly bu i Gomisiwn y Cynulliad—ac nid wyf yn beirniadu—roi diwedd ar yr arian cyfatebol gwreiddiol. Canlyniad hynny oedd penderfyniad gan Ganolfan Llywodraethu Cymru bod ganddo flaenoriaethau eraill.

3.30 p.m.

The Welsh Government was then left in this position. We believe strongly in the points that I have made and the initiatives that I have taken forward, and we have sought, particularly given the current economic climate, to do this in as cost-effective a way as we can. The position is that the Welsh Government was prepared, subject to clarification and improvement of the services made available, to agree to that overall figure of £50,000, which comes out of general administrative budgets and the Legal Services budget, rather than portfolio budgets. That is the amount of money that we are currently working with, which is intended to cover the cost of the two new officials, whose salaries are approximately £20,000 each. The remaining £10,000 of that notionally allocated figure is intended to cover the Welsh Government costs in establishing a free-standing website to develop the 'encyclopaedia', for want of a better expression.

Cafodd Llywodraeth Cymru ei gadael yn y sefyllfa hon. Credwn yn gryf yn y pwyntiau yr wyf wedi'u gwneud a'r mentrau yr wyf wedi'u datblygu, ac rydym wedi ceisio gwneud hynny yn y ffordd fwyaf costeffeithiol sy'n bosibl, yn enwedig o ystyried yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Roedd Llywodraeth Cymru, yn amodol ar egluro a gwella'r gwasanaethau sydd ar gael, yn barod i gytuno ar £50,000, sy'n dod o gyllidebau gweinyddol cyffredinol a chyllideb y Gwasanaethau Cyfreithiol yn hytrach na chyllidebau portffolios. Dyna'r swm yr ydym yn gweithio gydag ef ar hyn o bryd, a bwriedir iddo dalu am gost y ddau swyddog newydd, y mae eu cyflogau tua £20,000 yr un. Y bwriad ar gyfer y £10,000 sy'n weddill o'r ffigur hwnnw, sydd wedi'i ddyrannu mewn egwyddor, yw talu am gostau Llywodraeth Cymru wrth sefydlu gwefan annibynnol i ddatblygu'r 'gwyddoniadur', yn niffyg gair gwell i'w gyfleu.

The way this works is that Westlaw UK, with

Dyma sut y bydd yn gweithio: mae Westlaw

whom we are entering collaboration, is itself in the process of establishing a similar encyclopaedia arrangement for the whole of its service across the UK. It has agreed to work with us so that it can provide services of that kind in relation to Welsh law and Welsh provisions, but we can also have the content managed by it in conjunction with us available on a separate free-standing website of our own. There is no final decision yet on whether that is to be done as an immediate part of the Welsh Government website, or whether it would be a completely free-standing website, linked from the Welsh Government website—and elsewhere, I am sure. Therefore, that is the general arrangement and I have, so far, not had to go to Cabinet to ask for any further funding. However, I do not rule out the possibility that I will have to, and if I do, as usual, a business case will be prepared and a request will be made. I do not know whether the £20,000 formerly contributed by the Assembly Commission might be available if we need additional funds to promote these initiatives, but we will see what happens.

UK, y byddwn yn cydweithio ag ef, yn y broses o sefydlu gwyddoniadur tebyg ar gyfer ei holl wasanaeth ar draws y DU. Mae wedi cytuno i weithio gyda ni i ddarparu gwasanaethau o'r fath ar gyfer cyfraith a darpariaethau Cymru, ond gall hefyd reoli'r cynnwys ar y cyd â ni, ar wefan annibynnol ar wahân  gennym ni. Nid oes penderfyniad terfynol eto ynghylch a fydd hynny'n rhan uniongyrchol o wefan Llywodraeth Cymru, neu a fydd yn wefan gwbl annibynnol, gyda chyswllt iddi o wefan Llywodraeth Cymru—ac o fannau eraill, rwy'n siŵr. Felly, dyna'r trefniant cyffredinol ac nid wyf, hyd yma, wedi gorfod gofyn i'r Cabinet am ragor o gyllid. Fodd bynnag, nid wyf yn diystyru'r posibilrwydd y bydd yn rhaid imi wneud hynny, ac os byddaf yn gwneud hynny, bydd achos busnes yn cael ei baratoi, fel arfer, a chais yn cael ei wneud. Ni wn a fydd yr £20,000 a gyfrannwyd yn flaenorol gan Gomisiwn y Cynulliad ar gael os bydd angen cyllid ychwanegol i hyrwyddo'r mentrau hyn, ond cawn weld beth fydd yn digwydd.

That is the general structure. There is no specific allocated budget, but that is the amount of money that I am currently working with, and we do think that we can achieve what we need to in the first two parts of the threefold initiative, if I can put it that way, with that sort of money. As you will appreciate, it means achieving an awful lot for a very small, relatively speaking, amount. Nevertheless, contrary to what may have been implied recently, I know that the Welsh Government takes very seriously, as do I, the need not to spend money that does not need to be spent. That is the position.

Dyna'r strwythur cyffredinol. Nid oes cyllideb benodol wedi'i dyrannu, ond dyna'r swm yr wy'n gweithio gydag ef ar hyn o bryd, ac rydym yn credu y gallwn gyflawni'r hyn sydd ei angen yn nwy ran gyntaf y fenter driphlyg, os gallaf ei gyfleu felly, gyda'r arian hwnnw. Fel y byddwch yn sylweddoli, mae'n golygu cyflawni llawer iawn gyda swm cymharol fychan o arian. Serch hynny, yn groes i'r hyn a awgrymwyd yn ddiweddar efallai, gwn fod Llywodraeth Cymru yn cymryd o ddifrif calon, fel fi, yr angen i beidio â gwario arian nad oes angen ei wario. Dyna'r sefyllfa.

Should we have a separate national archive, completely separate from the legislation.gov.uk/National Archives arrangements? It would be nice but, again, the considerations as to the available resources apply, and while we have concerns and need to work with the National Archives to ensure that the legislation.gov.uk site works properly to provide, bilingually and cross-referably, the legislation emanating from here, we accept that the National Archives has a great deal of expertise in providing these services. From our point of

A ddylem gael archif genedlaethol ar wahân, a fyddai'n gwbl ar wahân i drefniadau legislation.gov.uk/Archifau Gwladol? Byddai hynny'n braf ond, unwaith eto, mae ystyriaethau o ran yr adnoddau sydd ar gael, ac er bod gennym bryderon a bod angen inni weithio gyda'r Archifau Gwladol i sicrhau bod safle legislation.gov.uk yn gweithio'n iawn wrth ddarparu, yn ddwyieithog a chyda ffordd i groesgyfeirio, y ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r lle hwn, rydym yn derbyn bod gan yr Archifau Gwladol lawer iawn o arbenigedd o ran darparu'r gwasanaethau

view, it is far more cost-effective, as things presently stand, to improve upon that service rather than to run one of our own completely separately. That is the line that we currently take on that.

hyn. O'n safbwynt ni, mae'n llawer mwy costeffeithiol, fel y mae pethau ar hyn o bryd, gwella'r gwasanaeth hwnnw yn hytrach na sefydlu ein gwasanaeth ein hun yn gwbl ar wahân. Dyna ein safbwynt ar hynny.

Just to be specific about it, although based in Cardiff, the two officials are being employed by Welsh Government to work specifically with the National Archives and for no other work, so that is very much a dedicated provision of manpower—or womanpower.

Yn benodol, er y bydd y ddau swyddog wedi'u lleoli yng Nghaerdydd, byddant wedi'u cyflogi gan Lywodraeth Cymru i weithio'n benodol gyda'r Archifau Gwladol ac nid ar unrhyw waith arall, felly bydd y gweithlu wedi'i ddarparu'n benodol.

Can I tell you about the contributors to the online encyclopaedia? The answer is 'no'. I have personally made certain approaches. I know that Westlaw UK obviously has access to a large number of people within the legal community of England and Wales generally, which will include people who have the requisite skills and expertise applicable to the laws of Wales. No final decisions have been made about any of that, and we are in the process of working together to agree the specific practical arrangements for how the website will work. However, it is very much intended that the work of contributors will take place at the end of this year, to provide a service beginning during the course of next year.

A allaf ddweud wrthych am y cyfranwyr i'r gwyddoniadur ar-lein? Yr ateb yw 'na allaf'. Rwyf wedi cysylltu â rhai'n bersonol. Gwn fod Westlaw UK, yn amlwg, yn gallu cysylltu â nifer fawr o bobl yng nghymuned y gyfraith yng Nghymru a Lloegr yn gyffredinol, a fydd yn cynnwys pobl sy'n meddu ar y sgiliau angenrheidiol a'r arbenigedd sy'n berthnasol i gyfreithiau Cymru. Nid oes penderfyniadau terfynol wedi'u gwneud ar hynny, ac rydym yn y broses o weithio gyda'n gilydd i gytuno ar y trefniadau ymarferol penodol ar gyfer sut bydd y wefan yn gweithio. Fodd bynnag, y bwriad yw y bydd gwaith y cyfranwyr yn digwydd ddiwedd y flwyddyn, er mwyn dechrau darparu'r gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf.

On consolidation, I think your question was on whether we can have clarity in the Bills coming forward now, in Cardiff, as to what is new law and what is consolidated. I think that that was what you meant, and I hope that we can. To be honest, I have not been asked about that before, and I have not really considered the mechanics of it, but I am rather assuming that, by methods of explanatory notes and so on, explanations are given as to which parts of a Bill are new and which are intended to bring in-house what is already there. This brings in the issue of a mechanism for simple consolidation. The difficulty with consolidation always is that bringing a Bill before a legislature means that it will be considered by a committee and debated, and that process, as you all know, takes time. If you are simply seeking to restate existing provisions, perhaps because time does not allow or the policy agenda is not present to look at them again substantively, obviously that system does not

O ran cydgrynhoi, rwy'n meddwl bod eich cwestiwn ynghylch a allwn gael eglurder yn y Biliau sy'n cael eu cyflwyno, yng Nghaerdydd, ynghylch beth sy'n gyfraith newydd a beth sydd wedi'i gydgrynhoi. Rwy'n meddwl mai hynny yr oeddech yn ei olygu, a gobeithio y gallwn. A bod yn onest, nid wyf wedi cael fy holi am hyn o'r blaen, ac nid wyf wedi ystyried o ddifrif sut y byddai'n gweithio, ond rwy'n tybio y bydd esboniadau yn cael eu rhoi, drwy nodiadau esboniadol ac yn y blaen, ynghylch pa rannau o Fil sy'n newydd a pha rannau y bwriedir iddynt fewnoli'r hyn sy'n bodoli eisoes. Yr hyn sy'n codi yn sgîl hyn yw dull ar gyfer cydgrynhoi syml. Yr anhawster gyda chydgrynhoi bob tro yw bod dod â Bil gerbron deddfwrfa'n golygu y bydd yn cael ei ystyried gan bwyllgor ac yn cael ei drafod, ac mae'r broses honno, fel y gwyddoch, yn cymryd amser. Os mai'r cyfan yr ydych yn ei wneud yw ceisio ailddatgan darpariaethau sy'n bod yn barod, efallai oherwydd nad oes

work particularly well to enable that simple method of restating existing provisions. So, the issue is whether we can develop something to enable that to be done in the particular circumstances where there are all these separate provisions in among statutes issuing from Westminster, which, frankly, confuse the picture enormously. As to the mechanism of identifying which draft provisions in a Bill are consolidation provisions and which are new provisions, I suppose that that is a matter for the management of the Bills rather than for me, strictly. However, I can ask about it if you would like me to.

amser neu nad yw'r agenda bolisi yn bodoli i edrych arnynt eto o ddifrif, mae'n amlwg nad yw'r system honno'n gweithio'n arbennig o dda o ran galluogi'r dull syml hwnnw o ailddatgan darpariaethau sy'n bod yn barod. Felly, y cwestiwn yw a oes modd inni ddatblygu rhywbeth i alluogi gwneud hynny yn yr amgylchiadau penodol pan fydd llawer o ddarpariaethau ar wahân ymhlith statudau sy'n dod o San Steffan, sydd, a bod yn onest, yn ddryslyd iawn. O ran y mecanwaith ar gyfer nodi pa ddarpariaethau drafft mewn Bil sy'n ddarpariaethau cydgrynhoi a pha rai sy'n ddarpariaethau newydd, rwy'n cymryd mai mater i reolwyr y Biliau yw hynny yn hytrach na mater i mi, a bod yn fanwl gywir. Fodd bynnag, gallaf holi ynghylch hynny os hoffech i mi wneud hynny.

The last question was about whether the principles could be extended to ministerial Orders. Strictly, no, I think, because ministerial Orders work under whatever powers have been granted to Ministers—and I am very much focusing here on legislation. Clearly, where secondary legislation is issued or made which impacts on previously existing provisions, one would hope that that is acknowledged and dealt with in some way. Again, I suppose that the same issues arise about identifying what the other relevant provisions are, dealing with the field in question, and if necessary making some provision to change, modify or remove them. It is a different issue because the ministerial Orders operate at the secondary level, while what we are trying to ensure that we get right is the new area, which is the full legislative competence and powers of the Assembly, and the way in which that new law is accessed by the public.

Roedd y cwestiwn olaf ynghylch a ellir ehangu'r egwyddorion i Orchmynion gweinidogol. A bod yn fanwl gywir, credaf nad oes modd, oherwydd mae Gorchmynion gweinidogion yn gweithio o dan ba bwerau bynnag sydd wedi'u rhoi i Weinidogion—ac rwy'n canolbwyntio ar ddeddfwriaeth yma. Yn amlwg, pan fydd is-ddeddfwriaeth yn cael ei chyhoeddi neu'n cael ei gwneud sy'n effeithio ar ddarpariaethau a oedd yn bod eisoes, byddai rhywun yn gobeithio y byddai hynny'n cael ei gydnabod ac y byddid yn ymdrin â hynny rywfodd. Unwaith eto, rwy'n tybio bod yr un materion yn codi ynghylch nodi beth yw'r darpariaethau perthnasol eraill, ymdrin â'r maes dan sylw, ac—os bydd angen—gwneud rhywfaint o ddarpariaeth i'w newid, i'w haddasu neu i'w dileu. Mae'n fater gwahanol gan fod y Gorchmynion gweinidogol yn gweithredu ar lefel eilaidd, ond yr hyn yr ydym ni'n ceisio sicrhau ein bod yn ei wneud yn iawn yw'r maes newydd, sef cymhwysedd a phwerau deddfwriaethol llawn y Cynulliad, a'r ffordd y mae'r gyfraith newydd honno'n cael ei defnyddio gan y cyhoedd.

**Simon Thomas:** Hoffwn ddweud wrth y Cwnsler Cyffredinol i ddechrau fy mod yn siŵr ei fod yn siom nad oes cyllideb ganddo, ond mae bathodyn arian braf i wneud i fyny am hynny. Mae'n siŵr ei fod yn ddiolchgar am hynny.

**Simon Thomas:** First of all, I want to say to the Counsel General that I am sure that he is disappointed that he does not have a budget, but he does have a wonderful silver badge to make up for it. I am sure that he is very grateful for that.

Diolchaf iddo am ei ddatganiad a'r hyn a oedd ganddo i'w ddweud heddiw. Mae

I thank him for his statement and for what he has had to say today. There has been progress

cynnydd wedi bod ac rwy’n croesawu hynny. Agwedd Plaid Cymru yw y byddai awdurdodaeth ar wahân i Gymru yn helpu yn y broses hon gan symleiddio sawl agwedd ar y gymysgfa sy’n bodoli yma ar hyn o bryd o ran sefydlu llyfr statud i Gymru. Gan fod y Llywodraeth ond newydd gau ei hymgynghoriad ar yr awdurdodaeth, hoffwn glywed, os yw’n bosibl, beth yw’r camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw. Nid wyf yn disgwyl ateb am y penderfyniad, ond beth sy’n digwydd nesaf gan fod yr ymgynghoriad wedi cau a nifer fawr o bobl wedi ymateb iddo? Mae ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yr wyf yn aelod ohono wedi ennyn tipyn o ddiddordeb yn y cwestiwn hwn.

and I welcome that. Plaid Cymru’s approach is that a separate jurisdiction for Wales would assist in this process as it would simplify many aspects of the confusion that currently exists in respect of establishing a statute book for Wales. As the Government has only just concluded its consultation on such a jurisdiction, I want to hear from him if possible what the next steps are following that consultation. I do not expect an answer about the decision, but I would like to know what happens next given that the consultation has closed and very many people have responded to it. The inquiry by the Constitutional and Legislative Affairs Committee, of which I am a member, has sparked a great deal of interest in this question.

Hoffwn droi at yr Archifau Gwladol a chroesawu’r penodiadau a wnaed a’r camau positif sydd wedi’u cymryd i wneud pethau’n fwy hygyrch. Mae o leiaf un Aelod Cynulliad a fyddai’n croesawu mynediad at ddeddfwriaeth Gymreig sy’n fwy diweddar. Rwy’n croesawu hynny, felly, er ein lles ni i gyd. A yw’r Cwnsler Cyffredinol yn cytuno bod angen gwneud rhywbeth tebyg o ran y llysoedd yng Nghymru yn y pen draw—ac yn Lloegr hefyd, a dweud y gwir? Un broblem yw adnabod y gyfraith, a derbyniaf mai sôn am y llyfr statud y mae’r Cwnsler Cyffredinol heddiw, ond mae gweddill y gyfraith ar faterion Cymreig, penderfyniadau’r barnwyr ac ati, sydd hefyd yn bwysig iawn, yn cael ei greu, yn aml iawn, yn Llundain. Byddai modd o olrhain y rheini drwy’r system, fel y gwneir gan yr Archifau Gwladol, o help yn y pen draw i weld y corpws llawn o gyfreithiau sy’n effeithio ar bobl yng Nghymru.

I will turn to the National Archives and welcome the appointments made and the positive steps taken to make things more accessible. There is at least one Assembly Member who would welcome access to Welsh legislation that is more up-to-date. I welcome that, therefore, for the benefit of us all. Does the Counsel General agree that something similar needs to be done with the courts in Wales, ultimately—and in England as well, to be honest? One problem is identifying the law, and I accept that the Counsel General is talking about the statute book today, but the rest of the law on Welsh issues, including decisions taken by judges and so on, which are also very important, is formulated, very often, in London. A way of tracing those through the system, as is done by the National Archives, would be of assistance in seeing the full corpus of laws that have an impact on the people of Wales.

Croesawaf yr hyn a ddywedodd am gydweithredu â Westlaw UK. Hoffwn fod yn glir ar hynny, gan i Suzy Davies a chithau sôn am y dull ‘wiki’posibl. Ai sylwebaeth gyfreithiol lawn fyddai honno yn y pen draw? Croesawaf y ffaith y bydd yn agored i’r cyhoedd, ond a fydd yn gwneud y gwaith o wasanaethu’r proffesiwn? Mae hynny’n hynod bwysig, ac, yn y cyd-destun hwn, rwy’n meddwl am y gwaith o dan y rhaglen SLS yng Ngogledd Iwerddon, gan wasanaethu’r proffesiwn a bod ar gael i’r cyhoedd hefyd.

I welcome what he said about collaboration with Westlaw UK. I want to be clear on that, as Suzy Davies and you mentioned the possible ‘wiki’method. Are we talking here about full legal commentary here, ultimately? I welcome the fact that it is to be open to the public, but will it do the job of serving the legal profession? That is extremely important and, in this context, I am thinking of the work done under the SLS programme in Northern Ireland, which serves the profession as well as being made available to the public.

Wrth sôn am y datblygiadau hyn, ac am eich awydd fel cwnsler i weld adolygu, cyfansoddi a sefydlu’r gyfraith, rydych, i bob pwrpas, yn sôn am waith comisiwn y gyfraith—a nodaf eich bod newydd gyfarfod â Chomisiwn y Gyfraith i Gymru a Lloegr. A welwch yn y pen draw y bydd angen rhyw fath o gorff, megis Comisiwn y Gyfraith i Ogledd Iwerddon neu Gomisiwn y Gyfraith i Gymru a Lloegr, a fydd yn gallu goruchwylio’r broses o adolygu a diwygio’r gyfraith, a hefyd i ddod â’r gyfraith ynghyd mewn ffordd gyfansawdd? Mae honno’n agwedd bwysig.

In mentioning these developments, and your desire as Counsel General to see the revision, constitution and establishment of the law, you are, to all intents and purposes, talking about the work of a law commission—and I note that you have just met the Law Commission for England and Wales. Do you foresee that some sort of body will ultimately be required, similar to the Law Commission for Northern Ireland or the Law Commission for England and Wales, to oversee the process of reviewing and amending, and also consolidating the law? That is a very important aspect.

Croesawaf yr agwedd yn eich datganiad bod angen i’r lle hwn gyfreitha lle bynnag y bo’n bosibl. Byddem yn dymuno gweld yr un agwedd tuag at gyfreitha gan bob Gweinidog, er efallai y gwelwn yn nes ymlaen nad yw hynny’n hollol wir. Beth bynnag am hynny, croesawaf eich agwedd, a gobeithio y bydd yr agwedd honno’n treiddio’n ddyfnach drwy’r Llywodraeth.

I welcome the approach in your statement to the need for this place to legislate whenever possible. I would like to see every Minister having the same attitude towards law making, although we may see later on that that is not entirely the case. Regardless of that, I certainly welcome your stance on that, and I hope that that will permeate through Government more deeply.

Yn olaf, hoffwn sôn am y cyfeiriad yn eich datganiad at edrych a thrafod gyda’r Llywydd, rwy’n cymryd, ynghylch sut y gallwn ni yn y fan hon hwyluso’r broses o ddod â chyfreithiau ynghyd—o gyfansoddi cyfreithiau. Fel y dywedasoch gynnau fach, nid yw hynny’n golygu cyfreithiau newydd, ond dod â gwahanol statudau ynghyd, fel bod pethau’n haws i’r cyhoedd a chyfreithwyr hefyd eu deall. Credaf fy mod yn iawn i ddweud bod gan Gynulliad Gogledd Iwerddon y dull hwn o hwyluso’r broses hon yn benodol. Mae’n sicr yn bodoli mewn ambell aelod-wlad o’r Gymanwlad. A oes gennych chi fwy i’w ddweud am y dull y byddech yn dymuno ei weld, a sut y gallai hynny gael ei ymgorffori yn ein Rheolau Sefydlog yma gan gyfoethogi’r gwaith yr ydym yn ei wneud wrth graffu ar y Llywodraeth yn gyffredinol?

Finally, I want to talk about the reference in your statement to looking at and discussing with the Presiding Officer, I take, how we here can facilitate the process of consolidating legislation—of constituting laws. As you said a little earlier, that does not necessarily mean passing new legislation, but consolidating various statutes, so that things are more easily understood by the public and lawyers as well. I think that I am right in saying that the Northern Ireland Assembly uses this method of facilitating this specific process. It certainly exists in certain member countries of the Commonwealth. Do you have anything further to say about the approach that you would like to see taken, and how that could be incorporated in our Standing Orders, enhancing the work that we do in scrutinising the Government more generally?

**Mr Huckle:** Let me make one thing clear: this very nice silver badge was bought for me by my wife.

**Mr Huckle:** Gadewch i mi wneud un peth yn glir: fy ngwraig a brynodd y bathodyn arian hyfryd hwn imi.

**Simon Thomas:** It was not that one I was referring to. [*Laughter.*]

**Simon Thomas:** Nid at hwnnw yr oeddwn yn cyfeirio. [*Chwerthin.*]

**Mr Huckle:** I think that you had six

**Mr Huckle:** Credaf fod gennych chwe

questions in all. First, you have raised the issue of the consultation. I am not sure that this is the time to go into that, but, as far as the next steps in the process are concerned, they are the normal ones. The consultation responses are now in, and we are delighted with the number of responses. Officials, particularly in Legal Services, and I will engage in the process of analysing and considering what advice it is appropriate to give, particularly to the First Minister, who co-led the launch of the consultation with me—is that the right way around? I co-led it with him; let us put it that way—regarding what policy the Welsh Government will arrive at on this issue. The context for all of us, as you will know from membership of the committee, is the approach to part 2 of the Silk commission; I do not think that I can usefully say any more about that.

chwestiwn i gyd. Yn gyntaf, sonioch am yr ymgynghoriad. Nid wyf yn siŵr ai dyma'r adeg i fanylu am hynny, ond, y camau nesaf yn y broses yw'r rhai arferol. Rydym wedi cael yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac wrth ein bodd gyda nifer yr ymatebion. Byddaf i a swyddogion, o'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn benodol, yn rhan o'r broses o ddadansoddi ac ystyried pa gyngor y mae'n briodol ei roi, yn enwedig i'r Prif Weinidog, a gydarweiniodd lansiad yr ymgynghoriad gyda mi—ai dyna'r drefn gywir? Bu imi ei gyd-arwain gydag ef; gadewch i ni ddweud hynny—ynglŷn â'r polisi y bydd Llywodraeth Cymru'n ei ddatblygu ar y mater hwn. Y cyd-destun i ni i gyd, fel y gwyddoch o ganlyniad o fod yn aelod o'r pwyllgor, yw'r dull yr ydym yn trin rhan 2 o gomisiwn Silk; Nid wyf yn meddwl y gallaf ddweud mwy am hynny fydd o ddefnydd i chi.

3.45 p.m.

You asked about the work of the National Archives and whether similar work could be done in relation to court decisions. Perhaps it is my fault for not being clear enough about this matter. The work of the National Archives is directed simply at the publication of the legislative provisions in a readily accessible, bilingual and cross-referred way. The idea of the online encyclopaedia is not to replicate that in any way, but to provide a mechanism by which commentary on those provisions and other provisions that relate to them in the given fields, principally in the devolved fields, but it need not be restricted to those, must include revision, assessment and commentary on the judicial decisions that have flowed from the legislative provisions. So, that comes in under this area.

Gofynasoch am waith yr Archifau Cenedlaethol ac a allai gwaith tebyg gael ei wneud mewn perthynas â phenderfyniadau llys. Efallai mai fi sydd ar fai am beidio â bod yn ddigon clir am y mater hwn. Gwaith yr Archifau Cenedlaethol yn syml yw cyhoeddi'r darpariaethau deddfwriaethol mewn ffordd hygyrch, ddwyieithog wedi ei groesgyfeirio. Nid dyblygu hynny yw'r syniad y tu ôl i'r gwyddoniadur ar-lein, ond darparu mecanwaith sy'n meddwl bod yn rhaid i sylwebaeth ar y darpariaethau hynny a darpariaethau eraill sy'n berthnasol iddynt yn y meysydd a roddir, yn bennaf yn y meysydd datganoledig, ond nid oes rhaid ei gyfyngu i'r rheini, gynnwys adolygu, asesu a sylwebaeth ar y penderfyniadau barnwrol a ddeilliodd o ddarpariaethau deddfwriaethol. Felly, mae hynny'n dod o dan y maes hwn.

In your third question, you reminded me quite rightly about the use of the expression 'wiki'. I think that that was intended to indicate that we will be looking—this is a standard model in legal services or in the legal world, if I can put it that way, in the United Kingdom—for contributors who will not be expecting to be paid, as I would put it, for reasons on which I have already touched. I am afraid that the funds are not there to pay a substantial amount of money to legal

Yn eich trydydd cwestiwn, bu ichi fy atgoffa yn gwbl briodol am y defnydd o'r ymadrodd 'wiki'. Credaf mai'r bwriad oedd nodi y byddwn yn edrych—a mae hwn yn fodel safonol o ran gwasanaethau cyfreithiol neu yn y byd cyfreithiol, os gallaf ei roi felly, yn y Deyrnas Unedig—am gyfranwyr nad ydynt yn disgwyl cael eu talu, fel y byddwn i yn ei ddweud, am y rhesymau yr wyf wedi sôn amdanynt eisoes. Mae arnaf ofn nad yw'r arian ar gael i dalu swm sylweddol o arian i

academics or practising lawyers to join with us in this effort. However, we do not think that that will be necessary because the current model is that practicing lawyers—and I am one of them—are content, for profiling reasons, to provide content and that they like to be seen as the person who is the authoritative commentator in their field of law. That is not an unusual thing. That is where I was heading with the use of the expression 'wiki'. Obviously, we will not be allowing—how can I put this without appearing rude, because that is not my intention—just anybody to put their thoughts on the Welsh statute book onto a website; that is not the purpose. It will have to be properly overseen and edited, and the first step of the process is to identify appropriate general editors, overall editors and sub-editors to ensure the quality of what is published. That is an important aspect of this matter. It is intended that it will be authoritative and a resource that is easily accessible to the public, but also to the legal community. It has to be good enough for that purpose; to be used as a reference work in court proceedings, for example.

academyddion cyfreithiol neu gyfreithwyr i ymuno â ni yn yr ymdrech hon. Fodd bynnag, nid ydym yn credu y bydd hynny'n angenrheidiol oherwydd mai'r model presennol yw bod cyfreithwyr—ac rwy'n un ohonynt—yn fodlon, am resymau proffilio, i ddarparu cynnwys a'u bod yn hoffi cael eu gweld fel y sylwebydd awdurdodol yn eu maes hwy o'r gyfraith. Nid yw hynny'n beth anghyffredin. Dyna lle yr oeddwn yn mynd â'r defnydd o'r ymadrodd 'wiki'. Yn amlwg, ni fyddwn yn caniatáu—sut y gallaf ddweud hyn heb ymddangos yn anghwrtais, oherwydd nid hynny yw fy mwriad—i unrhyw un i roi eu barn ar lyfr statud Cymru ar wefan; nid dyna yw'r pwrpas. Bydd yn rhaid iddo gael ei oruchwylio yn briodol a'i olygu, a cham gyntaf y broses yw dod o hyd i olygyddion cyffredinol priodol, golygyddion gyda throsolwg o'r cwbl ac is-olygyddion i sicrhau ansawdd yr hyn sy'n cael ei gyhoeddi. Mae hynny'n agwedd bwysig ar y mater hwn. Y bwriad yw y bydd yn awdurdodol ac yn adnodd sy'n hygyrch i'r cyhoedd, ond hefyd i'r gymuned gyfreithiol. Rhaid iddo fod yn ddigon da at y diben hwnnw; i gael ei ddefnyddio fel cyfeirlyfr mewn achosion llys, er enghraifft.

Turning to the issue of consolidation, I mentioned the Law Commission, and you rightly identify that the way that fast-track consolidation systems tend to work is that some form of commission is established to consider what provisions could be consolidated in that way. It is undoubtedly the case that whatever you call it, it would be something of that kind. It is not quite part of what the Law Commission, as currently constituted for England and Wales, and the other law commissions do. However, concentrating on the Law Commission for England and Wales, in recent years, it has not done much of this. I think that 2001 or 2002 was the last time that it proposed a consolidation Act, for example, because no doubt it has been busy considering law reform, which is the other main aspect of this matter. We do not want to go into issues of law reform by these methods, because that is more to do with Government policy, private Member's Bills and debate in the Chamber in the ordinary way. We are simply concentrating on the possibility of some speeding-up of a consolidation process. That

Gan droi at y mater o gydgrynhoi, soniais am Gomisiwn y Gyfraith, ac rydych yn iawn i nodi mai'r ffordd y mae systemau cydgrynhoi llwybr carlam yn tueddu i weithio yw bod rhyw fath o gomisiwn yn cael ei sefydlu i ystyried pa ddarpariaethau a allai gael eu cydgrynhoi yn y ffordd honno. Mae'n sicr, beth bynnag yr ydych yn ei alw, y byddai'n rhywbeth o'r fath. Ar hyn o bryd, nid yw'n rhan o'r hyn y mae Comisiwn y Gyfraith, yn ôl ei gyfansoddiad presennol ar gyfer Cymru a Lloegr, a'r comisiynau gyfraith eraill yn ei wneud, yn hollol. Fodd bynnag, gan ganolbwyntio ar Gomisiwn y Gyfraith ar gyfer Cymru a Lloegr, yn y blynyddoedd diwethaf, nid yw wedi gwneud llawer o'r gwaith hwn. Credaf mai yn 2001 neu 2002 oedd y tro diwethaf y bu iddo gynnig Deddf cydgrynhoi, er enghraifft, oherwydd, heb amheuaeth, roedd yn brysur yn ystyried diwygio'r gyfraith, sef prif agwedd arall y mater hwn. Nid ydym am ddechrau trafod materion yn ymwneud â diwygio'r gyfraith drwy'r dulliau hyn, gan fod gan hynny fwy i'w wneud â pholisi'r Llywodraeth, Biliau Aelod preifat a dadleuon yn y Siambr yn y

would, of course, involve amending the Standing Orders in some way. However, first, we have to identify what would be a practical and efficient system by which to do this, and then look at how Standing Orders ought to be amended to reflect that and facilitate it.

ffordd arferol. Rydym, yn syml, yn canolbwyntio ar y posibilrwydd o gyflymu'r broses o gydgrynhoi. Byddai hynny, wrth gwrs, yn golygu newid y Rheolau Sefydlog mewn rhyw ffordd. Fodd bynnag, yn gyntaf, mae'n rhaid i ni ddod o hyd i system ymarferol ac effeithlon i wneud hyn, ac yna edrych ar sut y dylai'r Rheolau Sefydlog gael eu diwygio i adlewyrchu hynny a'i hwyluso.

As far as fresh law is concerned, I think that your comment was that it would be good if Ministers saw it in the same way. As I understand it, Ministers do see it in the same way. The drafting policy of the Office of Welsh Legislative Counsel of the Welsh Government is very much along these lines, that, wherever possible, new Bills coming through will be used, at least in part, to consolidate relevant provisions touching upon the same area of activity, whether it is health, education or whatever. A health Bill coming through dealing with certain things does not mean that that is an opportunity to consolidate the whole of health law. That would not be possible or realistically feasible. The resources of this Assembly are an important consideration apart from specific financial resources. I have encountered no resistance in the Cabinet to the principle that, wherever possible, Bills coming through should be seen as an opportunity to clarify, simplify and consolidate existing provisions in that area of law. That is the policy of the drafters and, as I understand it, all Ministers are very much on board with that.

Cyn belled ag y mae cyfraith newydd yn y cwestiwn, credaf eich bod wedi dweud y byddai'n dda pe bai Gweinidogion yn ei weld yn yr un ffordd. Fel y deallaf i hi, mae Gweinidogion yn gweld hynny yn yr un ffordd. Polisi drafftio Swyddfa Cwnsleriaid Deddfwriaethol Cymru Llywodraeth Cymru, i raddau helaeth a lle bynnag y bo'n bosibl, yw y bydd Biliau newydd sy'n cael eu cyflwyno yn cael eu defnyddio, yn rhannol o leiaf, i gydgrynhoi darpariaethau perthnasol sy'n cyffwrdd ar yr un maes o weithgarwch, boed yn iechyd, addysg neu beth bynnag. Nid yw Bil iechyd sy'n ymdrin â maes arbennig yn golygu bod cyfle i gydgrynhoi holl gyfraith iechyd. Ni fyddai hynny'n bosibl nac yn realistig. Mae adnoddau'r Cynulliad hwn yn ystyriaeth bwysig ar wahân i adnoddau ariannol penodol. Nid wyf wedi dod ar draws unrhyw wrthwynebiad yn y Cabinet i'r egwyddor, lle bynnag y bo'n bosibl, y dylai Biliau gael eu gweld fel cyfle i egluro, symleiddio a chydgrynhoi darpariaethau sy'n bodoli eisoes yn y maes hwnnw o'r gyfraith. Dyna yw polisi'r drafftwyr ac, fel y deallaf i hi, mae'r holl Weinidogion yn cytuno â hynny.

As far as the actual system for potential consolidation is concerned, I note your reference to Northern Ireland. We see the Commonwealth models as probably better ones and we are investigating those with enthusiasm.

Cyn belled ag y mae'r system ar gyfer cydgrynhoi posibl yn y cwestiwn, nodaf eich cyfeiriad at Ogledd Iwerddon. Rydym yn gweld modelau'r Gymanwlad fel rhai sydd efallai yn well ac rydym yn ymchwilio i'r rheini gyda brwdfrydedd.

**Peter Black:** I welcome this statement and the advance made on the previous statement on 4 October. As I understand it, the Wales Legislation Online website that was managed by Cardiff University received about £200,000 over the last four years from the Commission, compared to £80,000 from the Welsh Government. When you made your statement on 4 October, you referred to developing the website by

**Peter Black:** Rwy'n croesawu'r datganiad a'r cynnydd a wnaed ers y datganiad blaenorol ar 4 Hydref. Fel y deallaf i hi, derbyniodd gwefan Deddfwriaeth Cymru Ar-lein a reolwyd gan Brifysgol Caerdydd tua £200,000 dros y pedair blynedd diwethaf gan y Comisiwn, o'i gymharu â £80,000 gan Lywodraeth Cymru. Pan wnaethoch eich datganiad ar 4 Hydref, bu ichi gyfeirio at ddatblygu'r wefan drwy

'adding narrative, explanation and analysis, with the goal of creating an encyclopaedia of Welsh law that is helpful to lawyers and non-lawyers alike.'

ychwanegu naratif, eglurhad a dadansoddiad, gyda'r nod o greu gwyddoniadur o gyfraith Cymru fydd yn ddefnyddiol i gyfreithwyr a'r rheini nad ydynt yn gyfreithwyr fel ei gilydd.

I also understand that the subsequent Cardiff University assessment of the cost of doing that was somewhere between £1 million and £1.5 million, with an annual revenue cost of around £125,000, which is a huge amount of money and clearly outside the resources that you have available. Given that, it seems to me that, even with volunteers, you will be stretched to meet your aspirations with the resources that you have available. I would be interested to know exactly what proper assessments you have made of the resources needed for this project and, in particular, how you will ensure that there is quality control in relation to the 'wiki' website referred to.

Deallaf hefyd bod asesiad Prifysgol Caerdydd o'r gost o wneud hynny rywle rhwng £1 miliwn a £1.5 miliwn, gyda chost refeniw blynyddol o tua £125,000, sy'n swm enfawr o arian ac yn amlwg y tu hwnt i'r adnoddau sydd ar gael i chi. O ystyried hynny, mae'n ymddangos i mi, hyd yn oed gyda gwirfoddolwyr, y byddwch yn ei chael yn anodd i gwrdd â'ch dyheadau gyda'r adnoddau sydd ar gael i chi. Hoffwn wybod yn union pa asesiadau priodol yr ydych wedi eu gwneud o'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer y prosiect hwn ac, yn arbennig, sut y byddwch yn sicrhau safon y wefan 'wiki' y bu ichi gyfeirio ato.

I have a number of questions in relation to your statement. You said that the National Archives has begun a process of signposting the territorial application of statutory provisions. How comprehensive is that process going to be, and how far back will it go in terms of existing legislation? You said that you are looking to have a bilingual site for www.legislation.gov.uk. Maintaining a bilingual website of this nature is very time consuming; my wife used to do it for the Land Registry. What resources are available to maintain it in a bilingual format and who is supplying those resources? In relation to the website on which you are collaborating with Westlaw, will that website be bilingual and how is the quality of that website going to be maintained given its collaborative nature?

Mae gen i nifer o gwestiynau mewn perthynas â'ch datganiad. Dywedasoch fod yr Archifau Cenedlaethol wedi dechrau'r broses o gyfeirio gweithrediad tiriogaethol darpariaethau statudol. Pa mor gynhwysfawr fydd y broses honno a pha mor bell yn ôl bydd yn mynd o ran deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes? Dywedasoch eich bod eisiau safle dwyieithog ar gyfer www.legislation.gov.uk. Mae cynnal gwefan ddwyieithog o'r fath yn cymryd llawer o amser; roedd fy ngwraig yn arfer gwneud hynny ar gyfer y Gofrestrfa Tir. Pa adnoddau sydd ar gael i'w chynnal mewn fformat dwyieithog a phwy sy'n darparu'r adnoddau i wneud hynny? O ran y wefan rydych yn cydweithio â Westlaw arni, a fydd y wefan honno yn ddwyieithog a sut y caiff ansawdd y wefan ei gynnal o ystyried ei natur gydweithredol?

In relation to the exercise of revising, codifying and consolidating the law, will secondary legislation be brought into that? You say that you do not want to duplicate English legislation, which has long been the practice for secondary legislation; the Welsh Government effectively takes the English guidelines, tweaks them a bit and reintroduces them in Wales. Is that the intention, and will secondary legislation be incorporated in that codification process? Again, you say that new legislation should be drafted in a way that simplifies the statute

O ran yr ymarfer i adolygu, codeiddio a chydgrynhoi'r gyfraith, a fydd is-ddeddfwriaeth yn rhan o'r gwaith hwnnw? Rydych wedi dweud nad ydych am ddyblygu deddfwriaeth Lloegr, sef y ffordd arferol o weithredu ers talwm ar gyfer is-ddeddfwriaeth; mae Llywodraeth Cymru yn cymryd canllawiau Lloegr, eu newid ychydig a'u hailgyflwyno yng Nghymru. Ai dyna'r bwriad, ac a fydd is-ddeddfwriaeth yn cael ei gynnwys yn y broses honno o godeiddio? Unwaith eto, rydych yn dweud y dylai deddfwriaeth newydd gael ei drafftio mewn

book by consolidating Welsh legislation separate from legislation that applies to England. I very much welcome that process. Will that be highlighted in the explanatory memoranda that come with that legislation? Finally, on the separate consolidation programme to run alongside the main legislative programme, have you had discussions with the Business Committee on how that process is going to be scrutinised? There is a danger that when you are consolidating legislation, small changes are slipped in, and I am sure that we do not want that to happen.

ffordd sy'n symleiddio'r llyfr statud drwy gydgrynhoi deddfwriaeth Gymreig ar wahân i ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i Loegr. Rwy'n croesawu'r broses honno yn fawr. A fydd hynny'n cael ei bwysleisio yn y memoranda esboniadol sy'n dod gyda'r ddeddfwriaeth honno? Yn olaf, ar y rhaglen gydgrynhoi ar wahân fydd yn rhedeg ochr yn ochr â'r brif raglen ddeddfwriaethol, a ydych wedi cael trafodaethau gyda'r Pwyllgor Busnes ar sut y creffir ar y broses honno? Mae perygl, pan fyddwch yn cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth, y bydd newidiadau bach yn cael eu cynnwys, ac rwy'n siŵr nad ydym am i hynny ddigwydd.

**Theodore Huckle:** I think there were eight points there. You started off with an assertion about how much the Commission had contributed. I will not stand here and argue with you; I had understood that it was a match funding arrangement and that it continued until the arrangements with the Wales Governance Centre fell down, if I can put it that way. However, that is probably a matter of record and can be checked in due course. I do not have that information available to you immediately.

**Theodore Huckle:** Credaf fod wyth pwynt yna. Bu ichi ddechrau gyda honiad ynghylch faint y mae'r Comisiwn wedi ei gyfrannu. Nid wyf am sefyll yma a dadlau gyda chi; roeddwn wedi deall mai trefniant ariannu cyfatebol oedd hi a'i bod wedi parhau nes i'r trefniadau gyda Chanolfan Llywodraethiant Cymru gwympo, os gallaf ei roi felly. Fodd bynnag, mae hynny siŵr o fod wedi'i gofnodi a gellir ei wirio maes o law. Nid oes gennyf y wybodaeth honno i'w roi ichi yn awr.

Secondly, as far as the costs are concerned: can we do it? We think that we can do it. The millions of pounds that were mooted were never acceptable, and for the reasons that I have highlighted, it is not the practice within the legal community to pay authoritative contributors very much. I am not saying that they are not paid anything, but they are certainly not paid very much to write authoritative tracts on legal issues. So, subject to the administrative costs associated with running websites and the like, we do not see that that needs to be a hugely expensive operation. That is the point of working in collaboration with one of the three main legal publishers in the country, who we expect to know their business, and they do not see a problem. That is not to say, as I made clear earlier, that I do not allow for the possibility that I will have my cap out in due course to ask for more money, but we will see, and, if I do, I will have to make a business case, particularly these days.

Yn ail, cyn belled ag y mae'r costau yn y cwestiwn: a allwn wneud hynny? Credwn y gallwn ei wneud. Nid oedd y miliynau o bunnoedd a grybwyllwyd byth yn dderbyniol, ac am y rhesymau yr wyf wedi eu nodi, y traddodiad yn y gymuned gyfreithiol yw peidio â thalu llawer i gyfranwyr awdurdodol. Nid wyf yn dweud nad ydynt yn cael eu talu o gwbl, ond yn sicr nid ydynt yn cael eu talu llawer iawn i ysgrifennu darnau awdurdodol ar faterion cyfreithiol. Felly, yn amodol ar y costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â rhedeg gwefannau ac ati, nid ydym yn gweld bod angen i hynny fod yn rhywbeth drud iawn. Dyna bwrpas cyd-weithio gydag un o dri phrif gyhoeddwyr cyfreithiol y wlad, ac rydym yn disgwyl iddynt wybod eu busnes, ac nid ydynt yn rhagweld y bydd problem. Wedi dweud hynny, fel yr eglurais yn gynharach, nid yw hynny'n meddwl nad wyf yn ystyried y posibilrwydd y byddaf yn ôl maes o law i ofyn am fwy o arian, ond cawn weld, ac, os byddaf yn gwneud hynny, bydd yn rhaid i mi wneud achos busnes, yn enwedig y dyddiau hyn.

Thirdly, on signposting, I do not know the detail. I know how it is intended to work. It is intended to work by identifying, in provisions, their territorial application. So, that would be by use of 'E' for England, 'W' for Wales and 'E and W' for England and Wales. I would anticipate that it is very much intended to do that exercise for all of the law that is applicable to Wales. Otherwise, as you imply, it would be a patchwork and not a comprehensive process, and that is not what we are about.

Will the website be bilingual? At this stage, probably not, partly because we are having, for reasons that we have already identified, to work in conjunction with an established publisher. However, I would hope that, in due course, we will be able to do that, obviously, but the priority for us is to ensure that the legislation, at the very least, that emanates from Cardiff is readily available in a cross-referred way in both languages. That is our immediate priority.

I am not quite sure how I should respond to the question about adoption of secondary legislation by tweaking what has emanated from England. That may well be the most effective way of doing it. If it is done, then being adopted in this Assembly by either the affirmative or negative process means that it will have to be in Welsh as well. So, that deals with that aspect, I think, wherever the text of the secondary legislation is derived from.

You touched on the same point as an earlier question in relation to ongoing consolidation with Bills coming forward and whether explanatory memoranda will identify what is consolidation and what is not. I can only say that I hope so, and I would urge those drafting the explanatory memoranda to make it as clear as possible. However, in order that undue time is not taken in debate, it will have to be identified to Members that there is nothing new in this provision and can we please pass it without having a big debate about it. So, it almost deals with itself, I expect, to some extent. Certainly, from the

Yn drydydd, o ran cyfeirio, nid wyf yn gwybod y manylion. Rwy'n gwybod sut y bwriedir iddo weithio. Bwriedir iddo weithio drwy nodi, mewn darpariaethau, eu cymhwysiad tiriogaethol. Felly, byddai hynny'n cael ei wneud drwy ddefnyddio 'Ll' ar gyfer Lloegr, 'C' ar gyfer Cymru ac 'C a Ll' ar gyfer Cymru a Lloegr. Rwy'n rhagweld y caiff hwn ei wneud ar gyfer yr holl gyfraith sy'n berthnasol i Gymru. Fel arall, fel yr ydych yn awgrymu, byddai'n glytwaith, nid proses gynhwysfawr, ac nid ydym am weld hynny.

A fydd y wefan yn ddwyieithog? Ar hyn o bryd, ni fydd yn ddwyieithog, yn ôl pob tebyg, yn rhannol oherwydd bod yn rhaid inni, am y rhesymau a nodwyd gennym eisoes, weithio ar y cyd gyda chyhoeddwr sefydledig. Fodd bynnag, gobeithiaf, maes o law, y gallwn wneud hynny, yn amlwg, ond y flaenoriaeth yw i ni sicrhau bod y ddeddfwriaeth, o leiaf, sy'n deillio o Gaerdydd ar gael yn rhwydd wedi ei drawsgyfeirio ac yn y ddwy iaith. Dyna yw ein blaenoriaeth gyntaf.

Nid wyf yn hollol siŵr sut y dylwn ymateb i'r cwestiwn am fabwysiadu is-ddeddfwriaeth gan gyflwyno ychydig o newidiadau i'r hyn sy'n deillio o Loegr. Mae'n ddigon posibl mai dyna'r ffordd fwyaf effeithiol o wneud hynny. Pe bai hynny'n digwydd ac yna'n cael ei fabwysiadu yn y Cynulliad hwn naill ai drwy'r broses gadarnhaol neu negyddol, bydd yn rhaid iddo fod yn Gymraeg hefyd. Felly, credaf fod hynny'n ymdrin â'r agwedd hwnnw, o ble bynnag y daw testun yr is-ddeddfwriaeth.

Cyfeiriasoch at yr un pwynt â chwestiwn cynharach mewn perthynas â chydgrynhoi parhaus gyda'r Biliau sy'n cael eu cyflwyno ac a fydd memoranda esboniadol yn nodi lle mae deddfwriaeth yn cael ei gydgrynhoi ai peidio. Ni allaf ond ddweud fy mod yn gobeithio y bydd hynny'n digwydd, a byddwn yn annog y rhai sy'n drafftio'r memoranda esboniadol i'w wneud mor glir â phosibl. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau nad oes gormod o amser yn cael ei gymryd yn y ddadl, mae angen ei wneud yn glir i Aelodau nad oes dim byd newydd yn y ddarpariaeth hon a gallwn, felly, ei basio heb gael dadl

point of view of preparation for debates, it would certainly be an excellent idea if the explanatory memoranda made it as clear as possible what was new and what was simply a matter of consolidation.

fawr am y peth. Felly, mae'n delio â'i hunan, i ryw raddau. Yn sicr, o safbwynt paratoi ar gyfer dadleuon, byddai'n syniad gwych pe bai'r memoranda esboniadol yn ei wneud mor glir â phosibl beth sy'n newydd a beth oedd yn fater syml o gydgrynhoi.

As far as the separate consolidation programme is concerned—I am really sorry, but I have noted the issue of the separate consolidation programme and cannot remember what the question was.

Cyn belled ag y mae'r rhaglen gydgrynhoi annibynnol yn y cwestiwn—mae'n wir ddrwg gennyf, ond rwyf wedi nodi'r mater o raglen gydgrynhoi annibynnol, ond nid wyf yn cofio beth oedd y cwestiwn.

**Peter Black:** What will the scrutiny be?

**Peter Black:** Beth fydd natur y gwaith craffu?

4.00 p.m.

**Theodore Huckle:** I have not, as yet, had any discussion with the Business Committee or with the Minister about that, because that is the third area on which we are in the early stages of trying to work out what the best system could be. The time to discuss how it will work on the ground and how it would be scrutinised in this Chamber will probably be after having thought about it and come up with a proposal.

**Theodore Huckle:** Nid wyf, hyd yma, wedi cael unrhyw drafodaeth gyda'r Pwyllgor Busnes neu gyda'r Gweinidog am hynny, oherwydd dyna'r trydydd maes lle rydym yn cymryd y camau cynnar o geisio gweithio allan beth fyddai'r system orau. Mae'n debyg mai'r amser i drafod sut bydd y system hon yn gweithio ar lawr gwlad a sut y byddai'r Siambr hon yn craffu arni fydd ar ôl inni feddwl am y peth a llunio cynnig.

**Julie Morgan:** Most of my questions have been answered in the large number of questions that have been put to you. I strongly welcome the progress that has been made. I have a question on the encyclopaedia. Would this contain examples of decisions made in contentious cases, which would help to guide the public or anyone else that was looking at it?

**Julie Morgan:** Cafodd y rhan fwyaf o'm cwestiynau eu hateb wrth ichi ymateb i'r nifer fawr o gwestiynau a ofynnwyd ichi eisoes. Croesawaf yn fawr y cynnydd a wnaed. Mae gen i gwestiwn ar y gwyddoniadur. A fydd yn cynnwys enghreifftiau o benderfyniadau a wnaed mewn achosion cynhennus, sef enghreifftiau a fyddai'n rhoi arweiniad i'r cyhoedd neu unrhyw un arall sy'n eu darllen?

**Theodore Huckle:** The short answer is 'yes'. To add to that, for those who are not used to dealing with these sorts of legal books, it is a necessary part of the process when describing what the law is in a given area and how it will affect persons subject to it to identify, on the one hand, what statutory provisions apply and, on the other hand, what common law court decisions govern or partly govern the situation, and how they inter-relate. It is a necessary part of any encyclopaedia dealing with legal issues to identify not just the contentious cases, but even the non-contentious case that provide authority for a legal proposition.

**Theodore Huckle:** Yr ateb byr yw 'bydd'. Hoffwn ychwanegu at hynny. O ran y rhai nad ydynt yn gyfarwydd ag ymdrin â'r math hwn o lyfr cyfreithiol, mae'n rhan angenrheidiol o'r broses o ddisgrifio'r gyfraith mewn maes penodol, a sut bydd yn effeithio ar y bobl sy'n ddarostyngedig iddo, er mwyn nodi, ar y naill law, pa ddarpariaethau statudol sy'n berthnasol ac, ar y llaw arall, pa benderfyniadau llys, o ran y gyfraith gyffredin, sy'n rheoli'r sefyllfa, boed yn rhannol neu beidio, a sut y maent yn cydblethu. Rhan angenrheidiol o unrhyw wyddoniadur sy'n ymdrin â materion cyfreithiol yw nodi nid yn unig yr achosion

cynhennus, ond yr achosion nad ydynt yn gynhennus sy'n rhoi awdurdod i gynnig cyfreithiol hefyd.

## Rheoliadau Seibiannau i Ofalwyr Plant Anabl (Cymru) 2012
## Breaks for Carers of Disabled Children (Wales) Regulations 2012

*Cynnig NDM5019 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:*

*Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Seibiannau i Ofalwyr Plant Anabl (Cymru) 2012 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Mai 2012.*

*Motion NDM5019 Jane Hutt*

*To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 27.5:*

*Approves that the draft The Breaks for Carers of Disabled Children (Wales) Regulations 2012 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 29 May 2012.*

**Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Cynigiaf y cynnig.

**The Deputy Minister for Children and Social Services (Gwenda Thomas):** I move the motion.

Diwygiwyd Deddf Plant 1989 gan Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 er mwyn rhoi cyfnodau seibiant byr i ofalwyr plant anabl ar sail statudol am y tro cyntaf. Mae'r rheoliadau hyn yn cael eu gwneud er mwyn rhoi mwy o fanylion i awdurdodau lleol ynghylch sut mae cyflawni'r ddyletswydd dan sylw. Maent yn nodi'n glir y cyfnodau seibiant byr mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu cynnig ac yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried anghenion gwahanol fathau o ofalwyr a sicrhau bod y wybodaeth honno ar gael i rieni a gofalwyr.

The Children Act 1989 was amended by the Children and Young Persons Act 2008 to make the provision of short breaks for the carers of disabled children a statutory requirement for the first time. These regulations are being made in order to provide further detail for local authorities on how that duty must be fulfilled. They clearly set out the short break provision that local authorities must offer and require that local authorities consider the needs of different kinds of carers, ensuring that that information is available to parents and carers.

Short breaks do not, of course, just provide parents and carers with a chance to have some time to do something else; they can also provide an opportunity for disabled children and young people to spend time with a different adult or with children of their own age, helping them to feel more independent or to learn something new. That is why we have been clear in these regulations that short breaks should be offered to parents not just as an emergency intervention when there might be a crisis, but as a way of providing support more generally as part of a package of things to improve quality of life.

Wrth gwrs, nid yn unig yw seibiant byr yn rhoi cyfle i rieni a gofalwyr gael ychydig o amser i wneud rhywbeth arall; gall hefyd roi cyfle i blant a phobl ifanc anabl dreulio amser gydag oedolyn gwahanol neu gyda phlant sydd yr un oed â nhw, gan roi cyfle iddynt deimlo'n fwy annibynnol neu ddysgu rhywbeth newydd. Dyna pam yr ydym wedi bod yn glir yn y rheoliadau hyn am y ffaith y dylai seibiannau byr gael eu cynnig i rieni, nid yn unig fel ymyriadau brys mewn achosion posibl o argyfwng, ond hefyd fel ffordd o ddarparu cefnogaeth fwy cyffredinol fel rhan o becyn o bethau ar gyfer gwella ansawdd bywyd.

I am sure that Members will agree that the

Rwyf yn siŵr y bydd Aelodau'n cytuno y

service would be meaningless without the flexibility for breaks to be matched to the needs of families in a local authority area. I believe that, in most areas, parents are beginning to have more of a say about the kind of breaks that really make a difference for them and, crucially, their children, with the result that we are seeing the introduction of all sorts of new breaks. This is one reason why we have said that we want local authorities to provide information to parents about the services available and to consult them about those services.

byddai'r gwasanaeth hon yn ddiystyr heb gael hyblygrwydd i sicrhau bod seibiannau'n cyfateb ag anghenion teuluoedd mewn ardal awdurdod lleol. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd, credaf fod rhieni'n dechrau cael mwy o gyfle i fynegi barn am y math o seibiant sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn iddynt hwy a hefyd, yn hollbwysig, i'w plant. O ganlyniad, rydym yn gweld pob math o seibiannau newydd yn cael eu cyflwyno. Dyma un rheswm pam yr ydym wedi dweud ein bod am weld awdurdodau lleol yn darparu gwybodaeth i rieni am y gwasanaethau sydd ar gael, ac yn ymgynghori â nhw am y gwasanaethau hynny.

The short breaks services statement will mean that many more parents can see what is on offer, and challenge their local authority where they do not think that the offer is good enough. In providing a short breaks services statement, local authorities will need to make an assessment of local needs, in line with what we want to achieve through the range of provisions in the forthcoming social services Bill. We know that the opportunities and offers will be different in different areas, and we want local authorities to continue reflecting this in what they offer to disabled children and their parents.

Bydd y datganiad gwasanaethau seibiannau byr yn golygu y gall llawer mwy o rieni weld yr hyn sydd ar gael, a herio eu hawdurdod lleol mewn achosion lle nad ydynt yn credu bod y cynnig yn ddigon da. Wrth ddarparu datganiad gwasanaethau seibiannau byr, bydd angen i awdurdodau lleol wneud asesiad o anghenion lleol, yn unol â'r hyn yr ydym am ei gyflawni drwy'r ystod o ddarpariaethau yn y Bil gwasanaethau cymdeithasol sydd ar ddod. Gwyddom y bydd y cyfleoedd a'r cynigion yn wahanol mewn gwahanol ardaloedd, ac rydym am weld awdurdodau lleol yn parhau i adlewyrchu'r sefyllfa hon yn yr hyn y maent yn ei gynnig i blant anabl a'u rhieni.

I believe that these regulations will help to ensure that short breaks services are an important part of the support available to carers and parents of disabled children.

Credaf y bydd y rheoliadau hyn yn helpu'r broses o sicrhau bod gwasanaethau seibiannau byr yn rhan bwysig o'r cymorth sydd ar gael i ofalwyr a rhieni plant anabl.

**Kirsty Williams:** I will begin by saying that the Welsh Liberal Democrats will be supporting these regulations. However, I would like to raise a number of issues with the Deputy Minister. As she says, breaks for carers are a vital component of the support that allows parents and relatives to carry on caring. As stated in the explanatory memorandum, a short break is the service most requested by families caring for a disabled child. However, although these regulations require the council to provide information and a range of options for short breaks, they do not provide carers with a legal entitlement to short breaks. The regulations fall short of enshrining that right in law.

**Kirsty Williams:** Rwyf am ddechrau drwy ddweud y bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi'r rheoliadau hyn. Fodd bynnag, hoffwn godi nifer o faterion gyda'r Dirprwy Weinidog. Fel y mae hi'n ei ddweud, mae seibiannau i ofalwyr yn elfen hanfodol o'r gefnogaeth sy'n caniatáu i rieni a pherthnasau barhau i ddarparu gofal. Fel y nodwyd yn y memorandwm esboniadol, y gwasanaeth seibiant byr yw'r gwasanaeth y mae teuluoedd sy'n gofalu am blentyn anabl yn gwneud y nifer fwyaf o geisiadau amdano. Fodd bynnag, er bod y rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol ar y cyngor i ddarparu gwybodaeth ac ystod o opsiynau ar gyfer seibiannau byr, nid ydynt yn rhoi'r hawl gyfreithiol i ofalwyr gael seibiannau byr.

Mae'r rheoliadau hyn yn syrthio'n fyr o ymgorffori'r hawl honno yn y gyfraith.

The explanatory memorandum goes on to say that these breaks will be available to those in most need of them. I would like to ask the Deputy Minister what the definition of 'those in most need' is and who will decide which families in a local authority area are in the most need. What will the eligibility criteria be for qualifying for funding for a short break? Could she also outline how the aspiration in these regulations to afford families respite care marries with the social services White Paper given that, if it becomes a Bill, it will set out national eligibility criteria? What if a local authority or an individual family fall short of the national eligibility criteria? How will the aspiration of breaks for carers be realised?

Mae'r memorandwm esboniadol yn mynd ymlaen i ddweud y bydd y seibiannau hyn ar gael i'r bobl sydd eu hangen fwyaf. Hoffwn ofyn i'r Dirprwy Weinidog beth yw diffiniad 'y rhai sydd â'r angen mwyaf' , a phwy fydd yn penderfynu pa deuluoedd mewn ardal awdurdod lleol sydd â'r angen mwyaf. Beth fydd y meini prawf cymhwyster ar gyfer bod yn gymwys i gael arian ar gyfer seibiant byr? A all y Dirprwy Weinidog hefyd amlinellu sut y mae'r dyhead yn y rheoliadau hyn i sicrhau gofal seibiant i deuluoedd yn cyd-fynd â'r Papur Gwyn ar wasanaethau cymdeithasol, o gofio, os bydd yn dod yn Fil, y bydd yn nodi meini prawf cymhwyster cenedlaethol? Beth os bydd awdurdod lleol neu deulu unigol yn syrthio'n fyr o'r meini prawf cymhwyster cenedlaethol? Sut y bydd y dyhead i ddarparu seibiannau byr i ofalwyr yn cael ei wireddu?

The explanatory memorandum also says that the breaks that will be available for families with disabled children will have to reflect the funding available. Can the Deputy Minister outline what happens to breaks for families when funding runs out during the financial year? What resources will be available to fund such breaks? Previously, circa 2008, grants for breaks were ring-fenced, and they now form part of the revenue support grant, although I understand that the Deputy Minister intends that some of the £3 million attached to the disabled strand of Families First will be used to provide this particular function. I would be grateful if she could outline what she expects the level of expenditure to be when these regulations are rolled out. The explanatory memorandum actually says that, if this legislation goes forward, the costs are expected to be minimal. Therefore, although people may be expecting a step change in the services available as a result of these regulations, it seems that, by the Government's own admission in its explanatory memorandum, it is not expecting local authorities to spend any more with regard to this provision.

Mae'r memorandwm esboniadol hefyd yn dweud y bydd yn rhaid i'r seibiannau a fydd ar gael i deuluoedd sydd â phlant anabl adlewyrchu'r cyllid sydd ar gael. A all y Dirprwy Weinidog egluro beth fydd yn digwydd i'r seibiannau hyn pan fydd yr arian yn dod i ben yn ystod y flwyddyn ariannol? Pa adnoddau fydd ar gael i ariannu seibiannau o'r fath? Yn flaenorol, tua 2008, roedd grantiau ar gyfer seibiannau wedi'u neilltuo, ac maent bellach yn rhan o'r grant cynnal refeniw, er fy mod yn deall bod y Dirprwy Weinidog yn bwriadu sicrhau bod rhan o'r £3 miliwn sydd ynghlwm wrth yr elfen anabl o'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei ddefnyddio i ddarparu'r swyddogaeth benodol hon. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Dirprwy Weinidog amlinellu lefel y gwariant disgwyliedig pan fydd y rheoliadau'n cael eu cyflwyno. Yn ôl y memorandwm esboniadol, os bydd y ddeddfwriaeth hon yn mynd yn ei flaen, bydd y costau disgwyliedig yn isel iawn. Felly, er y bydd pobl, o bosibl, yn disgwyl newid sylweddol i'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt yn sgîl y rheoliadau hyn, mae'r Llywodraeth ei hun fel petai'n cyfaddef yn y memorandwm esboniadol nad yw'n disgwyl i awdurdodau lleol wario mwy o arian ar y ddarpariaeth hon.

**Ann Jones:** I welcome the Welsh Government’s introduction of breaks for families with disabled children, the best practice guide and, indeed, the emphasis on local authority provision. This is an important step forward for carers and disabled children. I am sure that these regulations will be welcomed by those feeling the mounting pressures associated with raising a family with a disabled child. We should be proud that these regulations recognise that short breaks avert disaster, and we should not wait for families to find themselves in a crisis before they qualify for a short break. I want to praise the work of Contact a Family Wales. It has repeatedly exposed the extent of the plight of carers. Isolation, depression and financial and social deprivation are all things that carers experience when they need respite. I welcome the fact that local authorities are to make explicit agreements with carers to state exactly what a family should expect, and the support that will be provided by removing uncertainty will mean that the carer and the disabled child should benefit from short breaks.

**Ann Jones:** Croesawaf y ffaith fod Llywodraeth Cymru’n cyflwyno seibiannau i deuluoedd gyda phlant anabl, y canllaw ar gyfer arfer gorau ac, yn wir, y pwyslais ar ddarpariaeth awdurdodau lleol. Mae hwn yn gam pwysig ymlaen ar gyfer gofalwyr a phlant anabl. Rwyf yn siŵr y bydd y rheoliadau’n cael eu croesawu gan y rhai sy’n teimlo’r pwysau cynyddol sy’n gysylltiedig â chodi teulu gyda phlentyn anabl. Dylem fod yn falch bod y rheoliadau hyn yn cydnabod bod seibiannau byr yn fodd o osgoi trychinebau, ac ni ddylem aros i deuluoedd gael eu hunain i sefyllfaoedd argyfyngus cyn sicrhau eu bod yn gymwys i gael seibiant byr. Hoffwn ganmol y gwaith a wneir gan Cyswllt Teulu Cymru. Dro ar ôl tro, mae’r sefydliad hwn wedi tynnu sylw at sefyllfa eithafol gofalwyr. Mae’r teimlad o fod yn ynysig, iselder, ac amddifadedd ariannol a chymdeithasol i gyd yn bethau y mae gofalwyr yn eu profi pan fydd angen gofal seibiant arnynt. Croesawaf y ffaith y bydd awdurdodau lleol yn gwneud cytundebau penodol gyda gofalwyr i nodi’n union yr hyn y dylai teulu ei ddisgwyl. Bydd y cymorth a fydd yn cael ei ddarparu, a hynny gan gael gwared ag ansicrwydd, yn golygu y dylai’r gofalwr a’r plentyn anabl elwa o seibiant byr.

However, I echo Kirsty Williams’s words on the ring-fencing issues. Do we have enough evidence that, when the ring fencing stopped and this was rolled into the RSG, this money was used to provide breaks for carers? I have some casework that goes to prove that, in Denbighshire, this has not totally been the case.

Fodd bynnag, rwyf yn adleisio geiriau Kirsty Williams ar y materion sy’n ymwneud ag arian sydd wedi’i neilltuo. A oes gennym ddigon o dystiolaeth bod yr arian hwn, pan ddaeth y broses o’i neilltuo i ben a phan gafodd yr arian ei gynnwys yn y grant cynnal refeniw, wedi cael ei ddefnyddio i ddarparu seibiannau i ofalwyr? Mae gennyf rywfaint o waith achos sy’n dangos nad yw hyn wedi bod yn gwbl wir yn Sir Ddinbych.

It is testament to the values and the priorities of this Labour Government that we are introducing this at a time of shrinking budgets, with the Tory and Lib Dem coalition Government slashing the Welsh Government’s funding by £1.8 billion in real terms over the course of this Assembly. The Deputy Minister is to be congratulated for bringing this forward and for helping the plight of those families raising disabled children.

Mae’r ffaith ein bod yn cyflwyno’r cynllun hwn ar adeg pan fydd cyllidebau’n crebachu yn dystiolaeth o werthoedd a blaenoriaethau’r Llywodraeth Lafur hon. Mae Llywodraeth glymblaid y Torïaid a’r Democratiaid Rhyddfrydol yn torri cyllideb Llywodraeth Cymru o £1.8 biliwn mewn termau real dros dymor y Cynulliad hwn. Dylid llongyfarch y Dirprwy Weinidog am gyflwyno’r cynllun hwn ac am helpu sefyllfa teuluoedd sy’n magu plant anabl.

**The Deputy Minister for Children and Social Services (Gwenda Thomas):** In

**Y Dirprwy Weinidog dros Blant a Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwenda**

response to Kirsty Williams's first point, I will read the explanatory note of the regulations:

'These Regulations are the first regulations to be made in relation to Wales under paragraph 6 of Schedule 2 to the Children Act 1989, which imposes duties on local authorities, as part of the range of services they provide to families, to provide breaks from caring to assist parents and others who provide care for disabled children'.

If there is another interpretation of what Kirsty Williams says, I will write to the Member. There is a link with the social services White Paper and the reference to national eligibility criteria. You will know that we have consulted widely on the Bill and that we are intending to move to national eligibility. We will see that developing with the regulations that will follow from the Bill. We have done a lot of work and there is a lot of consensus on achieving national eligibility.

**Thomas):** Wrth ymateb i bwynt cyntaf Kirsty Williams, byddaf yn darllen nodyn esboniadol y rheoliadau:

'Y Rheoliadau hyn yw'r rheoliadau cyntaf i gael eu gwneud o ran Cymru o dan baragraff 6 o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989, sy'n gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol, fel rhan o'r ystod o wasanaethau y maent yn eu darparu i deuluoedd, i ddarparu seibiannau oddi wrth ofalu i gynorthwyo rhieni ac eraill sy'n darparu gofal ar gyfer plant anabl.'

Os oes dehongliad arall o'r hyn a ddywedodd Kirsty Williams, byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod. Mae yna gysylltiad â'r Papur Gwyn ar wasanaethau cymdeithasol a'r cyfeiriad at feini prawf cymhwysedd cenedlaethol. Byddwch yn gwybod ein bod wedi ymgynghori'n eang ar y Bil, ac rydym yn bwriadu symud i gymhwysedd cenedlaethol. Byddwn yn gweld y system honno'n datblygu gyda'r rheoliadau a fydd yn dilyn y Bil. Rydym wedi gwneud llawer o waith, ac mae llawer o gonsensws o ran sicrhau cymhwysedd cenedlaethol.

**Kirsty Williams:** I am grateful to the Deputy Minister for giving way. I will read paragraph 4.9 of the explanatory memorandum, which is in the electronic documents that have been laid for today's debate:

'The 2012 Regulations do not provide carers with an entitlement to a service, but are intended to ensure that those who are most in need are able to access the support they need'.

This is not a legal right. I asked the Deputy Minister for a definition of what constitutes 'most in need' and who decides which families in which local authorities are in most need.

**Kirsty Williams:** Rwyf yn ddiolchgar i'r Dirprwy Weinidog am ildio. Byddaf yn darllen paragraff 4.9 o'r memorandwm esboniadol, sydd yn y dogfennau electronig a osodwyd ar gyfer y drafodaeth heddiw:

Nid yw Rheoliadau 2012 yn rhoi'r hawl i ofalwyr gael gwasanaeth, ond y bwriad yw sicrhau bod y rhai sydd â'r angen mwyaf yn gallu manteisio ar y cymorth sydd ei angen arnynt.

Nid yw hon yn hawl gyfreithiol. Gofynnais i'r Dirprwy Weinidog am ddiffiniad o'r hyn a olygir gan y 'rhai sydd â'r angen mwyaf', a phwy sy'n penderfynu pa deuluoedd ym mha awdurdodau lleol sydd â'r angen mwyaf.

**Gwenda Thomas:** I take the point that you make. However, again, I read the regulation itself as placing duties on local authorities. The statement that is required under regulation 5 stipulates that a statement has to be prepared and agreed with carers of children. If there is an anomaly in the wording here, I will certainly come back to you. My understanding is as set out in that regulation.

**Gwenda Thomas:** Rwyf yn derbyn y pwynt a wnaethpwyd gennych. Fodd bynnag, unwaith eto, rwyf yn dehongli'r rheoliad ei hun fel un sy'n gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol. Mae'r datganiad sy'n ofynnol o dan reoliad 5 yn nodi bod yn rhaid i'r datganiad gael ei baratoi a'i gytuno gyda gofalwyr plant. Os oes anghysondeb yn y geiriad hwn, byddaf yn sicr o ddod yn ôl atoch. Mae fy nealltwriaeth o'r mater hwn yn

unol â'r hyn a amlinellir yn y rheoliad hwnnw.

With regard to funding, it is difficult to estimate the cost to cover all the services that would be provided, because there will be a whole range of different kinds of short breaks. With regard to the funding for local authorities, from 2007-08, the Welsh Government has provided over £1.5 million per year in specific short-break grants to local authorities throughout Wales. From 2010, that funding has been supplied through the revenue support grant. The original allocation of money to meet the requirements arising from the 2008 Act was a total of £4.5 million, recurrent from 2011-12. There is no intention to revise that current level of £4.5 million, even though there are reduced requirements. I also take the point that you made about Families First and the ring-fencing of the £300,000. We are receiving plans from local authorities to take forward the Families First programme.

O ran cyllid, mae'n anodd amcangyfrif y gost o gwmpasu'r holl wasanaethau a fyddai'n cael eu darparu, oherwydd bydd amrywiaeth eang o wahanol fathau o seibiannau byr. O ran y cyllid sydd ar gael i awdurdodau lleol, ers 2007-08, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu dros £1.5 miliwn y flwyddyn i awdurdodau lleol ledled Cymru ar ffurf grantiau penodol ar gyfer seibiannau. Ers 2010, mae'r arian hwnnw wedi cael ei ddarparu drwy'r grant cynnal refeniw. Roedd y dyraniad gwreiddiol o arian a wnaed i fodloni'r gofynion a gododd yn sgîl Ddeddf 2008 yn gyfanswm o £4.5 miliwn, sy'n swm rheolaidd o 2011-12 ymlaen. Nid oes unrhyw fwriad i newid y lefel bresennol o £4.5 miliwn, er bod llai o ofynion. Rwyf hefyd yn derbyn y pwynt a wnaethoch am Teuluoedd yn Gyntaf, ac am neilltuo swm o £300,000. Rydym yn cael cynlluniau gan awdurdodau lleol i fwrw ymlaen â'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.

I thank Ann Jones for her positive remarks. This has been long awaited. It is a positive development with regard to the provision of short breaks, which make so much difference to families, carers and, of course, children themselves.

Diolch i Ann Jones am ei sylwadau cadarnhaol. Mae'r datblygiad hwn wedi bod yn un hir-ddisgwyliedig. Mae'n ddatblygiad cadarnhaol o ran darparu seibiannau byr, sy'n gwneud cymaint o wahaniaeth i deuluoedd, i ofalwyr ac, wrth gwrs, i'r plant eu hunain.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there are no objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, mae'r cynnig wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

## Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Cyllid Llywodraeth Leol
## Legislative Consent Motion on the Local Government Finance Bill

*Cynnig NDM5002 Carl Sargeant*

*Motion NDM5002 Carl Sargeant*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai darpariaethau'r Bil Cyllid Llywodraeth Leol i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael eu hystyried gan*

*To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6, agrees that the provisions of the Local Government Finance Bill in so far as they fall within legislative competence of the National Assembly for Wales should be considered by*

*Senedd y DU.*

*the UK Parliament.*

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** I move the motion.

**Y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Cynigiaf y cynnig.

4.15 p.m.

**Janet Finch-Saunders:** While there is some support for the aims of the legislative consent motion in principle, it is fair to say that the process prior to bringing it forward today has been somewhat vague. Our concerns centre chiefly on the Minister's failure to provide us with enough information and detail at the committee stage, and it is fair to say that that was raised then. Crucially, the word 'explanatory' was out of context with regard to the explanatory memorandum of this particular LCM. While taking questions from the Communities, Equality and Local Government Committee, the Minister stated that he has,

**Janet Finch-Saunders:** Er bod rhywfaint o gefnogaeth i amcanion y cynnig cydsyniad deddfwriaethol mewn egwyddor, mae'n deg dweud bod y broses cyn ei gyflwyno heddiw wedi bod braidd yn annelwig. Mae ein pryderon, yn bennaf, yn ymwneud â methiant y Gweinidog i ddarparu digon o wybodaeth a manylder i ni yn ystod y cam pwyllgor, ac mae'n deg dweud y codwyd y pwynt hwnnw bryd hynny. Yn hanfodol, roedd y gair 'esboniadol' allan o gyd-destun o ran y memorandwm esboniadol ar gyfer y cynnig cydsyniad deddfwriaethol penodol hwn. Wrth gymryd cwestiynau gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, dywedodd y Gweinidog nad oedd

'never been shy of providing information to any committee in order to provide full detail to facilitate transparency.'

erioed wedi osgoi darparu gwybodaeth i unrhyw bwyllgor er mwyn rhoi manylion llawn i hwyluso tryloywder.

However, I think that, in this instance—some of my fellow Members might agree—the transparency and detail needed to ensure full and effective scrutiny of the proposed motion has been somewhat lacking. I remind the Minister that there are 60 Members of this National Assembly, all of whom have the right to be consulted and to be able to scrutinise this in a well-informed manner. It is fair to say that he has his job to do, but so do we. I therefore ask the Minister whether he intends to reflect upon his department's recent attempts in drawing up the explanatory memorandum to this LCM and what lessons he can draw from this experience. I also ask, as this is an example of legislation under the affirmative procedure, how will we, as Members, be able to scrutinise the regulations prior to the decision-making process.

Fodd bynnag, credaf, yn yr achos hwn—ac efallai y bydd rhai o fy nghyd-Aelodau yn cytuno—nad ydym wedi gweld y tryloywder a'r manylion sydd eu hangen i sicrhau craffu llawn ac effeithiol ar y cynnig arfaethedig. Atgoffaf y Gweinidog fod 60 o Aelodau yn y Cynulliad Cenedlaethol, a bod gan bob un ohonynt yr hawl i fynnu ymgynghoriad ac i allu craffu ar hwn gyda'r holl wybodaeth sydd ar gael. Mae'n deg dweud bod yn rhaid iddo wneud ei swydd, ond mae'r un peth yn wir amdanom ni. Felly, gofynnaf i'r Gweinidog a yw'n bwriadu ystyried ymdrechion diweddar ei adran i lunio memorandwm esboniadol i'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol a pha wersi y gall eu dysgu o'r profiad hwn. Gofynnaf hefyd, gan fod hon yn enghraifft o ddeddfwriaeth o dan y weithdrefn gadarnhaol, sut y byddwn ni, fel Aelodau, yn gallu craffu ar y rheoliadau cyn y broses o wneud penderfyniadau.

**The Deputy Presiding Officer:** I apologise to the Chair of the Communities, Equality and Local Government Committee for not

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwy'n ymddiheuro i Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol am beidio

calling her first and now call her to speak.

â'i galw yn gyntaf ond rwy'n ei galw yn awr.

**Ann Jones:** Thank you, Deputy Presiding Officer. You owe me one; in fact, you owe me a long length of time when I am running out of time. [*Laughter*.]

**Ann Jones:** Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rydych yn ddyledus i mi; yn wir, bydd yn rhaid ichi roi amser hir i mi pan fyddaf yn mynd yn brin o amser. [*Chwerthin*.]

The committee does not have an awful lot to say on this issue. We support the LCM. There are some issues around timetabling, but that is a Westminster issue, as the LCM seeks our consent for it to put forward legislation on our behalf. Its timetabling perhaps is not the same as ours. Perhaps there could have been a better system, but I appreciate that the Minister and the Government have brought it forward as soon as possible.

Nid oes gan y pwyllgor lawer iawn i'w ddweud ar y mater hwn. Rydym yn cefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Mae rhai materion yn ymwneud ag amserlennu, ond mae hynny'n fater i San Steffan, gan fod y cynnig yn ceisio ein caniatâd i gyflwyno deddfwriaeth ar ein rhan. Efallai nad yw ei amserlennu yr un peth â'n un ni. Efallai y byddai wedi bod yn bosibl cael system well, ond rwy'n gwerthfawrogi bod y Gweinidog a'r Llywodraeth wedi ei gyflwyno cyn gynted ag y bo modd.

On the issue of the information contained in the memorandum, there is an issue about how Standing Orders can be subjectively interpreted, and I will write to the Business Committee with the views of the committee about how Standing Orders cannot be interpreted differently to stifle scrutiny.

O ran y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y memorandwm, mae cwestiwn am y modd y gellir dehongli'r Rheolau Sefydlog yn oddrychol, a byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i fynegi barn y pwyllgor na ellir dehongli'r Rheolau Sefydlog mewn ffordd wahanol i atal gwaith craffu.

The committee realised that the LCM is the route that the Government has chosen on this occasion and, therefore, we have no reason other than to support the Government in its attempts to get this issued from the Local Government Finance Bill.

Sylweddolodd y pwyllgor mai'r cynnig yw'r llwybr yr oedd y Llywodraeth wedi ei ddewis y tro hwn ac, felly, nid oes gennym unrhyw reswm dros beidio â chefnogi'r Llywodraeth yn ei hymdrechion i gael hwn o ganlyniad i'r Bil Cyllid Llywodraeth Leol.

**Simon Thomas:** I want to persuade my fellow Assembly Members to reject this LCM today. I hope that my colleague will help in that regard. I believe that this is a misuse of the LCM process and a failure by the Government to legislate when it should take legislation forward. It is ironic that I welcomed that the Counsel General stated earlier this afternoon that,

**Simon Thomas:** Rwyf am ddarbwyllo fy nghyd-Aelodau Cynulliad i wrthod y cynnig hwn heddiw. Gobeithiaf y bydd fy nghydweithiwr yn helpu yn hynny o beth. Credaf fod hwn yn gamddefnydd o'r broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol ac yn fethiant ar ran y Llywodraeth i ddeddfu pan ddylai gyflwyno deddfwriaeth. Mae'n eironig fy mod wedi croesawu'r ffaith bod y Cwnsler Cyffredinol wedi nodi yn gynharach y prynhawn yma

'wherever possible, we prefer to make stand-alone provision for Wales and this is what has been done in both those cases.'

lle bynnag y bo'n bosibl, mae'n well gennym wneud darpariaeth annibynnol ar gyfer Cymru a dyma sydd wedi cael ei wneud yn y ddau achos hynny.

He was referring to the Local Government Byelaws (Wales) Bill and the human transplantation Bill. Here, we are looking at

Roedd yn cyfeirio at Fil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) a'r Bil trawsblannu dynol. Yma, rydym yn edrych ar

something that is very local to Wales, which affects all our communities and the most vulnerable members of our communities as well. When the people of Wales voted for us to have full legislative powers last year, this is precisely the sort of situation that many of them had in mind: a Westminster Government taking a decision with which the majority of people in Wales do not agree; a Westminster Government cutting the money provided to some of the most vulnerable in our communities; and a Westminster Government saying to Wales, 'Go on then, you, the Welsh Government and the National Assembly, do what you can now to protect your communities'. What we can do to protect our communities is to formulate legislation that delivers a council tax benefit system that is equitable throughout Wales, that ensures that no areas are favoured above others and that our most vulnerable citizens are protected, and that we have full scrutiny of the process here.

rywbeth sydd yn lleol iawn i Gymru, sy'n effeithio ar ein holl gymunedau ac aelodau mwyaf bregus ein cymunedau hefyd. Pan bleidleisiodd pobl Cymru i ni gael pwerau deddfu llawn y llynedd, dyma'n union y math o sefyllfa a oedd gan nifer ohonynt mewn golwg: Llywodraeth San Steffan yn gwneud penderfyniad nad yw'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru yn cytuno ag ef; Llywodraeth San Steffan yn torri'r arian a ddarperir i rai o'r bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau; a Llywodraeth San Steffan yn dweud wrth Gymru, 'Dewch ymlaen, Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol, gwnewch yr hyn a allwch yn awr i ddiogelu eich cymunedau'. Yr hyn y gallwn ei wneud i ddiogelu ein cymunedau yw llunio deddfwriaeth sy'n cyflwyno system budd-daliadau treth gyngor deg ledled Cymru, sy'n sicrhau na chaiff rhai ardaloedd eu ffafrio yn fwy nag eraill a bod ein dinasyddion sydd fwyaf agored i niwed yn cael eu diogelu, a'n bod yn craffu'n llawn ar y broses hon.

We have a full year to do this and we would have had longer, if time had not been wasted, because the Government decided several months ago that we would go down the Westminster route. That is very unfortunate, because we will not have just one set of regulations to deal with this, but two or three sets of regulations, and not all of them will be dealt with by the affirmative procedure. I daresay that some will be brought to us at a very late stage and we will be told to accept them or Mrs Jones in Ely Terrace will not get her council tax rebate. That is no way to scrutinise and no way to do legislation. This is our opportunity to put forward a Bill that has been properly scrutinised, properly consulted upon with the people of Wales, and done properly by the Government. I think that the Government has missed an opportunity to stand up for Wales in the way it says it wants to.

Mae gennym flwyddyn gyfan i wneud hyn a byddem wedi cael mwy o amser, pe na bai amser wedi cael ei wastraffu, oherwydd bod y Llywodraeth wedi penderfynu sawl mis yn ôl y byddem yn dilyn llwybr San Steffan. Mae hynny'n anffodus iawn, oherwydd nid un set o reoliadau yn unig a fydd gennym i ymdrin â hyn, ond dau neu dri set o reoliadau, ac nid ymdrinnir â phob un ohonynt drwy'r weithdrefn gadarnhaol. Mae'n debygol iawn y bydd rhai yn dod atom yn hwyr iawn gyda'r cyfarwyddyd i'w derbyn neu ni fydd Mrs Jones yn Nheras Trelái yn cael ei had-daliad treth gyngor. Nid dyna'r ffordd i graffu ar ddeddfwriaeth na'i llunio. Dyma ein cyfle ni i gyflwyno Bil y craffwyd arno'n briodol, ac yr ymgynghorwyd arno'n briodol â phobl Cymru, ac i'r Llywodraeth wneud hynny'n iawn. Credaf fod y Llywodraeth wedi colli cyfle i gefnogi Gymru yn y ffordd y dywed ei fod am wneud.

It is not that we do not trust the Government on this; we do not have anything on which to base our trust. It has not brought forward any policy proposals, and the fact that the Minister simply moved this formally shows that he has nothing to say on the matter. I therefore think that we should legislate. I think that this is a clear case where we should

Nid mater o beidio ag ymddiried yn y Llywodraeth yw hyn; nid oes gennym unrhyw beth i'n gwneud yn ffyddiog. Nid yw wedi cyflwyno unrhyw gynigion polisi, ac mae'r ffaith bod y Gweinidog dim ond wedi cynnig hwn yn ffurfiol yn dangos nad oes ganddo ddim i'w ddweud ar y mater. Felly, credaf y dylem ddeddfu. Credaf fod hwn yn

stand up as a legislature and work across the parties to defend our communities. This is a clear case in which we have the time and the will to legislate. If the Government is saying that it does not have the capacity, then that says more about the Government than it does about us. We have the capacity; I am ready to legislate on this, and I want the Government to legislate on this. I will not support this attempt to get Westminster to legislate when we can and should do so.

achos clir lle y dylem sefyll i fyny fel deddfwrfa a gweithio ar draws y pleidiau i amddiffyn ein cymunedau. Mae hwn yn achos clir lle mae gennym yr amser a'r ewyllys i ddeddfu. Os yw'r Llywodraeth yn dweud nad oes ganddi'r capasiti, yna mae hynny'n dweud mwy am y Llywodraeth nag amdanom ni. Mae gennym y capasiti; rwy'n barod i ddeddfu ar hyn, ac rwyf am i'r Llywodraeth ddeddfu ar hyn. Ni chefnogaf yr ymgais hwn i San Steffan ddeddfu pan fo'n bosibl i ni wneud hynny a phan ddylem ni wneud hynny.

**Peter Black:** The Welsh Liberal Democrats tend to agree with Simon Thomas on this matter. We are very concerned indeed at how this legislation is being put forward without proper scrutiny on our part, and there is the fact that this very important scheme, which will have a huge impact throughout Wales, will not be scrutinised properly here in the Assembly. We will not have an opportunity to amend it or sufficient time to deal with it because, as Simon Thomas said, it is likely to be put to us at the last minute, with a take-it-or-leave-it attitude.

**Peter Black:** Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn tueddu i gytuno â Simon Thomas ar y mater hwn. Rydym yn bryderus iawn ynglŷn â'r ffaith bod y ddeddfwriaeth hon yn cael ei chyflwyno heb i ni graffu arni'n iawn, ac na fydd y Cynulliad yn craffu'n iawn ar y cynllun pwysig hwn, a fydd yn cael effaith enfawr ledled Cymru. Ni fydd gennym gyfle i'w diwygio na digon o amser i ymdrin â hi oherwydd, fel y dywedodd Simon Thomas, mae'n debygol o gael ei rhoi inni ar y funud olaf, gyda'r agwedd ddi-hid o 'cymerwch hwn neu beidio'.

I have to disagree with some of the things that the Chair of the committee said. I think that we could have had much longer to look at this legislative competence Order and memorandum. Clearly, in Scotland, they do have longer to look at these memoranda, as they are introduced very early on and a proper scrutiny process takes place. That does not happen here in Wales and it should, so that we can look at them in detail.

Rhaid i mi anghytuno â rhai o'r pethau a ddywedwyd gan Gadeirydd y pwyllgor. Credaf y gallem fod wedi cael llawer mwy o amser i edrych ar y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol a'r memorandwm. Yn amlwg, yn yr Alban, mae ganddynt fwy o amser i edrych ar y memoranda hyn, gan eu bod yn cael eu cyflwyno yn gynnar iawn ac mae proses graffu briodol. Nid yw hynny'n digwydd yma yng Nghymru, a dylai hwn ddigwydd, fel y gallwn edrych arnynt yn fanwl.

**Ann Jones:** I think the Bill came out on 29 May. It is now 26 June—a month later. Taking the committee structure into account and the fact that there was a week's recess in the middle of all this, which you know about as well as I do, I think that we have done quite well.

**Ann Jones:** Credaf y cyhoeddwyd y Bil ar 29 Mai. Mae hi bellach yn 26 Mehefin—fis yn ddiweddarach. Gan ystyried strwythur y pwyllgorau a'r ffaith bod wythnos o doriad yng nghanol hyn i gyd, fel y gwyddoch cystal â mi, credaf ein bod wedi gwneud yn eithaf da.

**Peter Black:** It was not a criticism of the committee timetable, Ann, or of the committee, but of the fact that the LCM was introduced to the Assembly very late on. If the practice followed in Scotland had been used, it could have been introduced much

**Peter Black:** Nid oedd yn feirniadaeth o amserlen y pwyllgor, Ann, na'r pwyllgor, ond y ffaith bod y cynnig cydsyniad deddfwriaethol wedi'i gyflwyno i'r Cynulliad yn hwyr iawn. Pe baem wedi dilyn yr arfer yn yr Alban, gallai fod wedi cael ei gyflwyno'n

earlier, which would have given the committee longer to look at it and Members of the Assembly longer to scrutinise it properly. That is a model that has been pressed for before, and we want to continue pressing for it.

llawer cynt, a fyddai wedi caniatáu mwy o amser i'r pwyllgor edrych arno ac wedi rhoi mwy o amser i Aelodau'r Cynulliad craffu arno'n iawn. Mae rhai wedi galw am y model hwn o'r blaen, ac rydym am barhau i alw amdano.

The committee report refers to a number of criticisms of the way in which this LCM has been handled, particularly in relation to the explanatory memorandum. As Janet Finch-Saunders pointed out, there is an issue here of transparency and accountability. The committee was critical of the fact that the explanatory memorandum did not set out whether the secondary legislation arising from this LCM would follow the affirmative or the negative procedure. I understand that the majority of it will be dealt with by the affirmative procedure, but that has not been set out in the explanatory memorandum at all.

Mae adroddiad y pwyllgor yn cyfeirio at sawl beirniadaeth o'r ffordd y mae'r cynnig hwn wedi cael ei drin, yn enwedig mewn perthynas â'r memorandwm esboniadol. Fel y dywedodd Janet Finch-Saunders, mae tryloywder ac atebolrwydd yn
broblem fan hyn. Roedd y pwyllgor yn feirniadol o'r ffaith nad oedd y memorandwm esboniadol yn nodi a fyddai'r is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r cynnig hwn yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol neu negyddol. Deallaf y bydd y rhan fwyaf ohono yn cael ei drin gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol, ond nid yw hynny wedi cael ei nodi yn y memorandwm esboniadol o gwbl.

Clearly, there was no proper explanation as to why the Government was seeking to do it in this way. I happen to think that the way in which the explanatory memorandum was drafted is contemptible—it shows contempt for us as intelligent scrutineers of Government legislation. It is important that when Government brings forward legislation, it is as fulsome as possible in its explanation as to why it is doing something and how it proposes to do it. Hiding behind Standing Orders is inappropriate. Standing Orders set out the bare minimum that the Government must do, but the Government relied on that bare minimum, instead of going that extra step and saying, 'In this particular instance, we want to be open and transparent and accountable'. I am concerned that, after that criticism was made, the Minister did not come forward with an alternative explanatory memorandum, but continued to rely on the one presented to the Assembly. It seems to me, in that regard, that the Government's approach to this has been woeful and unsatisfactory.

Yn amlwg, nid oedd esboniad priodol ynghylch pam yr oedd y Llywodraeth yn ceisio ei wneud yn y ffordd hon. Yn fy marn i, mae'r ffordd y cafodd y memorandwm esboniadol ei ddrafftio yn warthus—mae'n ein dibrisio ni fel craffwyr deallus o ddeddfwriaeth y Llywodraeth. Mae'n bwysig, pan fydd y Llywodraeth yn cyflwyno deddfwriaeth, ei fod mor llawn ag y bo modd yn ei esboniad ynghylch pam y mae'n gwneud rhywbeth a sut y mae'n bwriadu ei wneud. Mae cuddio y tu ôl i'r Rheolau Sefydlog yn amhriodol. Mae'r Rheolau Sefydlog yn nodi'r isafswm y mae'n rhaid i'r Llywodraeth ei wneud, ond dibynnodd y Llywodraeth ar y lleiafswm hynny, yn hytrach na chymryd cam ychwanegol a dweud, 'Yn yr achos penodol hwn, rydym am fod yn agored ac yn dryloyw ac yn atebol'. Rwy'n pryderi, yn dilyn y feirniadaeth honno, na chyflwynodd y Gweinidog femorandwm esboniadol arall, gan barhau i ddibynnu ar yr un a gyflwynwyd i'r Cynulliad. Mae'n ymddangos i mi, yn hynny o beth, fod agwedd y Llywodraeth at hyn wedi bod yn druenus ac yn anfoddhaol.

On the substantial point, I agree with Simon Thomas. We have a year to do this and it is important that we get this scheme right and have an opportunity to scrutinise it in some

Ar y pwynt sylweddol, cytunaf â Simon Thomas. Mae gennym flwyddyn i wneud hyn ac mae'n bwysig bod y cynllun yn iawn a bod gennym gyfle i graffu arno'n fanwl iawn

detail to make sure that it is right. In that regard, we would prefer the legislation to be brought to the Assembly rather than relying on Westminster to do it on our behalf, which means that we, as Assembly Members, will not have an opportunity to scrutinise it.

er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn gywir. Yn hynny o beth, byddai'n well gennym pe bai'r ddeddfwriaeth yn cael ei chyflwyno i'r Cynulliad yn hytrach na dibynnu ar San Steffan i'w gwneud ar ein rhan, sy'n golygu na fydd gennym ni, fel Aelodau Cynulliad, gyfle i graffu arni.

**Mike Hedges:** I am bemused, because I thought all this came from Conservative-Liberal Democrat policy at Westminster. I thought that that is what we were talking about. [*Interruption*.] My point is that I thought you belonged to a national party—

**Mike Hedges:** Rwy'n synnu at hynny, am fy mod yn meddwl bod hyn oll wedi deillio o bolisi'r Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan. Roeddwn yn meddwl mai dyna yr oeddem yn ei drafod. [*Torri ar draws*.] Fy mhwynt yw fy mod yn meddwl eich bod yn perthyn i blaid genedlaethol—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. When I call speakers, we all listen to the speaker whom I have called. We do not enter into a conversation across the Chamber with that speaker.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Pan fyddaf yn galw siaradwyr, byddwn i gyd yn gwrando ar y siaradwr yr wyf wedi ei alw. Ni fyddwn yn dechrau sgwrs ar draws y Siambr gyda'r siaradwr hwnnw.

**Mike Hedges:** Again, I am bemused because I thought that the leader of the Liberal Democrats in Wales went from Cardiff up to London to vote for the coalition with the Conservatives. Sorry, I might have got that wrong as well. I do not like where we are at the moment, but we are here because of what happened at Westminster. If we do not agree this today, what happens? People can say that we have until next May, or next April, but local authorities have got to do things during that time.

**Mike Hedges:** Eto, rwy'n synnu oherwydd roeddwn yn meddwl bod arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghymru wedi mynd i fyny o Gaerdydd i Lundain i bleidleisio dros y glymblaid gyda'r Ceidwadwyr. Mae'n ddrwg gen i, efallai fy mod wedi camddeall hynny hefyd. Nid wyf yn hoff o'n sefyllfa bresennol, ond rydym yn y sefyllfa hon oherwydd yr hyn a ddigwyddodd yn San Steffan. Os nad ydym yn cytuno ar hyn heddiw, beth fydd yn digwydd? Gall pobl ddweud bod gennym tan fis Mai nesaf, neu fis Ebrill nesaf, ond mae'n rhaid i awdurdodau lleol wneud pethau eraill yn ystod y cyfnod hwnnw.

**Peter Black:** We are discussing Welsh provisions and Welsh legislation and that is the job of the National Assembly. Interested as I am in your argument for abolishing the Assembly, I think that, in this instance, we are arguing about how we should do things in Wales, not about what happens in Westminster.

**Peter Black:** Rydym yn trafod darpariaethau Cymreig a deddfwriaeth Gymreig a swydd y Cynulliad Cenedlaethol yw hynny. Er mor ddiddorol yw eich dadl dros ddiddymu'r Cynulliad, yn fy marn i, yn yr achos hwn, rydym yn dadlau ynghylch sut y dylem wneud pethau yng Nghymru, nid am yr hyn sy'n digwydd yn San Steffan.

**Mike Hedges:** I am glad to know that the Liberal Democrats in Wales now have nothing to do with the Liberal Democrats in Westminster and are now a separate political party. I am sure that when I visit the Electoral Commission website, I will find that they are registered as a party separate to that in

**Mike Hedges:** Rwy'n falch o wybod nad oes gan y Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghymru ddim i'w wneud â'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan a'i bod bellach yn blaid wleidyddol ar wahân. Rwy'n siŵr, pan edrychaf ar wefan y Comisiwn Etholiadol, y byddaf yn canfod ei bod wedi

England. [*Interruption.*] I am glad that I managed to get the Liberal Democrats excited—all five of them. That is interesting.

cofrestru fel plaid ar wahân i'r un yn Lloegr. [*Torri ar draws*.] Rwy'n falch fy mod wedi llwyddo i gynhyrfu'r Democratiaid Rhyddfrydol—y pump ohonynt. Mae hynny'n ddiddorol.

The point that I am trying to make is that we have to take this forward. The thing that is most useful is that we, in Wales, have had some influence over this legislation and will have the opportunity to ensure that all Welsh local authorities act in the same way, as opposed to what happens in England, where you have a postcode lottery.

Y pwynt yr wyf yn ceisio ei wneud yw bod yn rhaid inni fwrw ymlaen â hyn. Y peth mwyaf defnyddiol yw ein bod ni, yng Nghymru, wedi cael rhywfaint o ddylanwad dros y ddeddfwriaeth hon a byddwn yn cael y cyfle i sicrhau bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn gweithredu yn yr un modd, yn wahanol i'r sefyllfa yn Lloegr, lle mae gennych loteri cod post.

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae ychydig yn anodd dilyn hynny, ond hwyrach mai'r peth gorau i'w wneud yw dychweled at y pwnc dan sylw.

**Rhodri Glyn Thomas:** It is a little difficult to follow that, but perhaps the best thing to do would be to return to the issue that we are discussing.

Mae mater o egwyddor yn y fan hon, Weinidog. Nid wyf yn credu ein bod yn gwahaniaethu barn ar yr egwyddor, sef mater i Gynulliad Cenedlaethol Cymru benderfynu arno yw hwn, a dylai fod cyfle inni drafod y mater yn llawn, scrwtineiddio'r Llywodraeth yn llawn, a sicrhau bod pob un o'r materion hyn yn cael eu trafod yn llawn ar lawr y Senedd hon. Nid wyf yn credu bod y Gweinidog yn anghytuno â hynny. Roeddwn braidd yn siomedig ei fod wedi gwneud y cynnig yn ffurfiol. Roedd cyfle ganddo i esbonio yn llawn safbwynt y Llywodraeth ar y mater hwn a dewisodd beidio gwneud hynny, ac mae hynny'n anffodus.

There is a matter of principle here, Minister. I do not think that we diverge in our opinions on the principle, that is, that this is a matter for the National Assembly for Wales to determine, and there should be an opportunity for us to discuss the matter fully, to scrutinise the Government fully, and to ensure that each of these issues is discussed properly on the floor of this Senedd. I do not think that the Minister would disagree with that. I was a little disappointed that he moved the motion formally. That was his opportunity to explain the Government's stance on this issue, but he chose not to do that and that is unfortunate.

Beth bynnag, yr hyn sy'n bwysig yw, os yw'r Gweinidog yn dweud bod hwn yn cael ei orfodi arno gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, pam nad yw'n gwneud safiad yn y fan hon ac yn dweud, 'Na, nid yw hyn yn dderbyniol; wnawn ni ymdrin â hwn fel Bil yng Nghymru o fewn y flwyddyn yr ydych chi wedi ei rhoi inni'? A yw'n barod i aros nes bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cyflwyno pethau inni ar y funud olaf, ac fel sydd wedi cael ei ddweud, yn dweud wrthym, 'Os nad ydych chi'n derbyn y rhain fel y maen nhw'—ac rydym wedi bod yn y sefyllfa hon yn y gorffennol gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn y 13 blynedd diwethaf—'bydd pobl ar eu colled yng Nghymru'?

However, what is important is, if the Minister is saying that this is being forced upon him by the UK Government, why does he not take a stand and say, 'No, this is not acceptable; we will deal with this as a Bill in Wales within the year time frame that you have given us'? Is he willing to wait until the UK Government presents things to us at the last moment, and, as has been said, tells us, 'If you don't accept these as they are'—and we have been in this situation with the UK Government in the past, during the last 13 years—'people in Wales will lose out'?

4.30 p.m.

Dyma gyfle i Lywodraeth Cymru sefyll lan i Lywodraeth y Deyrnas Unedig a dweud, 'Na. Rydym yn mynd i gael trafodaeth lawn'. Mae'r Gweinidog yn gwybod ein bod eisoes wedi cael trafodaeth ynghylch budd-daliadau'r dreth gyngor. Unwaith eto, ni chredaf fod gwahaniaeth, o ran egwyddor, o ran safbwynt y Gweinidog a'm safbwynt i. Rydym yn teimlo ei fod yn annheg. Nid yw'n glir o hyd beth yn union fydd y ganran o fwlch pan fydd y materion hyn yn cael eu datganoli. Fodd bynnag, unwaith eto, dyma gyfle i sefyll lan i Lywodraeth y Deyrnas Unedig a dweud wrthi ein bod eisiau gwybod beth yn union yw'r sefyllfa er mwyn inni gael trafodaeth lawn ar hyn yng Nghymru.

This is an opportunity for the Welsh Government to stand up to the UK Government and say, 'No. We are going to have a full discussion'. The Minister knows that we have already had a discussion about council tax benefits. Once again, I do not think that there is a difference, in terms of principle, between the Minister's view and my view. We feel that it is unfair. It is still not clear exactly what the percentage gap will be when these matters are devolved. However, once again, this is an opportunity to stand up to the UK Government and tell it that we want to know exactly what the situation is so that we can have a full discussion on this in Wales.

Ofnaf, Weinidog, eich bod wedi rhoi eich hun mewn sefyllfa lle gall Llywodraeth y Deyrnas Unedig ddweud wrthych beth yw'r agenda a'r amserlen ar gyfer hyn, ac ni allwch wneud dim ond ymateb ac adweithio i'r hyn a gyflwynir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Roedd cyfle inni osod yr agenda ac, o fewn blwyddyn—a derbyniaf fod hynny'n dynn—gosod yr amserlen a diogelu buddiannau pobl Cymru. Rwyf innau hefyd yn siomedig nad ydych wedi dewis gwneud hynny. Ni fydd gennyf, ychwaith, unrhyw opsiwn ond pleidleisio yn erbyn hyn.

I fear, Minister, that you have put yourself in a situation in which the UK Government can tell you what the agenda and timetable for this is, and you can do nothing but respond and react to what is being introduced by the UK Government. There was an opportunity for us to set the agenda, and, within a year—and I accept that that is tight—set the timetable and safeguard the interests of the people of Wales. I am also disappointed that you have chosen not to do that. I, too, will have no option but to vote against this.

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** I am grateful for the opportunity to respond to some of the concerns raised by Members today. I welcome the comments made by Members.

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i ymateb i rai o'r pryderon a godwyd gan Aelodau heddiw. Rwy'n croesawu sylwadau'r Aelodau.

I want to pick up on the issues that have been raised in relation to timing and the interpretation of Standing Orders. The Deputy Presiding Officer will be aware of a letter that I wrote to him in relation to the timescale for the LCM and the process of laying LCMs. However, the point seems to have been missed by Members; in relation to the timescale within which we were able to table this, I believe that we acted promptly. The technical amendments to the Local Government Finance Bill were tabled on 14 May, other amendments were not laid until 17 May, and the last set of amendments were not finalised until 21 May in Westminster.

Rwyf eisiau trafod y materion a godwyd mewn perthynas ag amseru a dehongli'r Rheolau Sefydlog. Bydd y Dirprwy Lywydd yn ymwybodol o'r llythyr a ysgrifennais ato ynghylch yr amserlen ar gyfer y cynnig cydsyniad deddfwriaethol a'r broses o osod cynigion o'r fath. Fodd bynnag, mae'n ymddangos nad yw Aelodau wedi deall y mater; o ran yr amserlen a oedd gennym i'w gyflwyno, credaf ein bod wedi gweithredu'n brydlon. Cafodd y gwelliannau technegol i'r Bil Cyllid Llywodraeth Leol eu cyflwyno ar 14 Mai, gosodwyd gwelliannau eraill ar 17 Mai, ac ni chyrhaeddodd y set olaf o welliannau eu ffurf derfynol tan 21 Mai yn

That was due, in part, to negotiations in the Whitehall department, and therefore we tabled the LCM at the earliest opportunity after that. Therefore, I do not accept that we did not act appropriately in terms of laying the LCM at an appropriate time, given the constraints of the Westminster Government timetable and the appropriate actions in relation to that.

San Steffan. Roedd hynny, yn rhannol, oherwydd trafodaethau yn yr adran yn Whitehall, ac felly gwnaethom gyflwyno'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol mor fuan â phosibl ar ôl hynny. Felly, nid wyf yn derbyn inni fethu â chyflwyno'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar adeg briodol, o ystyried y cyfyngiadau o ran amserlen Llywodraeth San Steffan a'r camau priodol mewn perthynas â hynny.

I welcome the comments of the committee Chair in relation to the interpretation of Standing Orders. I would take guidance from you, Deputy Presiding Officer, in that I believe that we did comply with the Standing Orders as laid out by this Assembly. I would welcome, therefore, the Chair's response regarding the interpretation of Standing Orders. Members will all have a view on what the interpretation could or should be, but I believe that we complied with Standing Orders.

Croesawaf sylwadau Cadeirydd y pwyllgor ynghylch dehongli'r Rheolau Sefydlog. Derbyniaf arweiniad oddi wrthych, Ddirprwy Lywydd, am fy mod yn credu ein bod wedi cydymffurfio â Rheolau Sefydlog y Cynulliad. Byddwn, felly, yn croesawu ymateb y Cadeirydd ynghylch dehongli'r Rheolau Sefydlog. Bydd gan bob Aelod farn ynghylch beth allai neu beth ddylai'r dehongliad fod, ond credaf ein bod wedi cydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog.

**Jocelyn Davies:** I take your point that you complied with Standing Orders and that you had a short timescale within which to table the legislative consent motion. However, all of that is, in a way, a side issue, because the central point is this: why are you asking us to consent that you should make regulations, rather than this Assembly pass legislation?

**Jocelyn Davies:** Derbyniaf eich pwynt eich bod wedi cydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog ac mai amserlen fer a oedd gennych i gyflwyno'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Fodd bynnag, mae hynny oll, mewn ffordd, yn fater ymylol, oherwydd y pwynt canolog yw hyn: pam yr ydych yn gofyn i ni am gydsyniad i wneud rheoliadau, yn hytrach na gofyn i'r Cynulliad basio deddfwriaeth?

**Carl Sargeant:** I am grateful for the Member's support of me in saying that I did comply with Standing Orders. Moving on to the issue that she raises in relation to the legislative process, and whether the legislation should be made in England or in Wales, I accept the Member's concerns around this issue. I believe that the issue here is about the scale of the transfer of functions from Westminster. I was very clear in saying to the UK Government that, in relation to council tax benefit, we do not want to be a partner in this. This is a Westminster duty being transferred to Wales. Through that debate, it was made clear to us that the transfer of functions would come to Wales.

**Carl Sargeant:** Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod am fy nghefnogi wrth imi ddweud fy mod wedi cydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog. O ran ei phwynt am y broses ddeddfwriaethol, ac a ddylai'r ddeddfwriaeth gael ei gwneud yn Lloegr neu yng Nghymru, rwy'n derbyn ei phryderon. Credaf fod y broblem yn ymwneud â graddfa'r trosglwyddo swyddogaethau o San Steffan. Roeddwn yn glir iawn pan ddywedais wrth Lywodraeth y DU, o ran budd-dal y dreth gyngor, nad ydym eisiau bod yn bartner yn hyn. Dyletswydd San Steffan yw hyn, sy'n cael ei throsglwyddo i Gymru. Drwy'r ddadl honno, gwnaed yn glir i ni y byddai'r swyddogaethau'n cael eu trosglwyddo i Gymru.

As I explained in committee, there are still many unanswered questions about the consequences of this. We still do not know,

Fel yr eglurais yn y pwyllgor, mae llawer o gwestiynau heb eu hateb o hyd ynghylch canlyniadau hyn. Ni wyddom o hyd, er

despite my meeting with Lord Freud and Iain Duncan Smith only last week, the amount of core funding that will be available for the scheme—whether it is a 10% reduction or a further reduction. We also do not know what the administrative burden will be on Wales in terms of taking this forward. We are unlikely to know that until after October or November. That gives us around five months to deliver a scheme in Wales for which we do not know the quantum or the mechanism for delivery, and we have to legislate around that to provide a service for the most vulnerable in our communities. The Government and I believe that amending the English Bill is the most appropriate vehicle for doing that.

gwaethaf fy nghyfarfod â'r Arglwydd Freud ac Iain Duncan Smith yr wythnos diwethaf, faint o gyllid craidd fydd ar gael ar gyfer y cynllun—a fydd yn ostyngiad o 10% neu fwy. Ni wyddom chwaith beth fydd y baich gweinyddol ar Gymru o ran rhoi hyn ar waith. Mae'n debyg y cawn wybod hynny ar ôl mis Hydref neu fis Tachwedd. Mae hynny'n rhoi tua phum mis i ni gyflwyno cynllun yng Nghymru heb wybod y cwantwm na'r mecanwaith ar gyfer ei gyflwyno, ac mae'n rhaid inni ddeddfu ynghylch hynny i ddarparu gwasanaeth ar gyfer y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Mae'r Llywodraeth a minnau'n credu mai diwygio Bil Lloegr yw'r ffordd fwyaf addas o wneud hynny.

**Rhodri Glyn Thomas:** Carl, will you give way? [*Interruption*.] Sorry, I should have referred to you as 'Minister'; I have just been reprimanded by the party whip for that. I will try to remember in future. The point that I was making is that you have outlined the pressure that is on you time-wise. How, within that very confined timeframe, are you going to allow us to scrutinise properly every element of this? You are talking now about a five-month process once you have the full information.

**Rhodri Glyn Thomas:** Carl, a wnewch ildio? [*Torri ar draws*.] Mae'n ddrwg gennyf, dylwn fod wedi eich galw yn 'Weinidog'; rwyf newydd gael fy ngheryddu gan chwip y blaid am hynny. Ceisiaf gofio yn y dyfodol. Y pwynt yr oeddwn yn ei wneud yw eich bod wedi nodi'r pwysau sydd arnoch o ran amser.O fewn yr amser cyfyng iawn hwnnw, sut y byddwch yn caniatáu inni graffu'n briodol ar bob elfen o hyn? Rydych bellach am sôn am broses a gymer bum mis ar ôl ichi gael y wybodaeth lawn.

**Carl Sargeant:** I thank the Member for his intervention. I have said throughout this process that this is a very difficult scheme for us to administer in Wales. I am not yet convinced, given that we still require data from Westminster, that we will be able to complete a scheme working with local government. There is still a huge risk to the people of Wales in relation to delivering a scheme that can operate at the beginning of next year.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am ei ymyrraeth. Rwyf wedi dweud drwy gydol y broses hon ei fod yn gynllun anodd iawn ei weinyddu yng Nghymru. Nid wyf wedi fy argyhoeddi eto, o gofio bod angen data o San Steffan arnom o hyd, y byddwn yn gallu cwblhau cynllun gan weithio gyda llywodraeth leol. Mae risg fawr i bobl Cymru o hyd o ran cyflwyno cynllun i'w roi ar waith ddechrau'r flwyddyn nesaf.

Let me mention to Members the difficulty surrounding the LCM process. With regard to Members not supporting this motion today, I was interested in the fact that Simon Thomas mentioned the issue of a national scheme, because it is my intention to introduce a national scheme. If the motion is not agreed, that will prohibit me from introducing a national scheme in Wales. I also remind Members that almost 328,000 households in Wales—roughly one in four—receive some form of support for council tax bills. We will

Rwyf am sôn wrth yr Aelodau am yr anhawster ynglŷn â phroses y cynnig cydsyniad deddfwriaethol. O ran diffyg cefnogaeth yr Aelodau i'r cynnig hwn heddiw, roedd yn ddiddorol clywed Simon Thomas yn sôn am gynllun cenedlaethol, oherwydd fy mwriad yw cyflwyno cynllun cenedlaethol. Os na fydd y cynnig yn cael ei dderbyn, bydd hynny'n fy atal rhag cyflwyno cynllun cenedlaethol yng Nghymru. Rwyf hefyd yn atgoffa Aelodau fod bron 328,000 o aelwydydd yng Nghymru—tua un o bob

not be able to introduce a consistent scheme in Wales that supports communities, including the very people that the Member claims to support, if this motion is not agreed. I am concerned that the Member is simply concerned with the process. I understand the issues that he raises, but my concern is about the vulnerable people of Wales, who will need a scheme to be delivered in April next year. That may be compromised by virtue of the administration in Westminster not providing us with sufficient detail to create a scheme and by the short-sightedness of Members if they do not support an option and legislation to allow us to take through a scheme that can be delivered.

pedair yn fras—yn cael rhyw fath o gymorth ar gyfer biliau'r dreth gyngor. Ni fyddwn yn gallu cyflwyno cynllun cyson yng Nghymru sy'n cefnogi cymunedau, gan gynnwys yr union bobl y mae'r Aelod yn honni ei fod yn eu cefnogi, os na chaiff y cynnig hwn ei dderbyn. Rwy'n poeni bod yr Aelod yn poeni am y broses yn unig. Rwy'n deall y materion a gododd, ond rwyf i'n poeni am y bobl yng Nghymru sy'n agored i niwed y bydd arnynt angen cynllun a fydd ar waith fis Ebrill y flwyddyn nesaf. Gallai hynny gael ei beryglu pe na bai gweinyddiaeth San Steffan yn rhoi digon o fanylion inni i greu cynllun, a chan agwedd gibddall yr Aelodau os nad ydynt yn cefnogi opsiwn a deddfwriaeth i ganiatáu inni ddatblygu cynllun y gellir ei gyflwyno.

**The Deputy Presiding Officer:** I confirm to the Assembly that Standing Orders have been met. If they had not been met, the Presiding Officer or I would have made a ruling to that effect. On the strict matter of explanatory memoranda, Standing Orders set out a minimum requirement of what they may contain. That requirement has clearly been met. However, Ministers are at liberty to provide more information than what is set out as a minimum in Standing Orders if they so wish and if they believe that it helps the Assembly in deliberating on any particular matter. I hope that that clarifies the situation.

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwy'n cadarnhau i'r Cynulliad fod y Rheolau Sefydlog wedi'u bodloni. Pe na fyddai hynny wedi digwydd, byddai'r Llywydd neu fi wedi gwneud dyfarniad i'r perwyl hwnnw. O ran memoranda esboniadol yn benodol, mae'r Rheolau Sefydlog yn nodi gofyniad sylfaenol o ran yr hyn y gallent ei gynnwys. Mae'n amlwg bod y gofyniad hwnnw wedi'i fodloni. Fodd bynnag, mae Gweinidogion yn rhydd i ddarparu mwy o wybodaeth na'r hyn sydd wedi'i nodi fel lleiafswm yn y Rheolau Sefydlog os ydynt yn dymuno, ac os ydynt yn credu y byddai'n helpu'r Cynulliad i drafod unrhyw fater penodol. Gobeithio bod hynny'n egluro'r sefyllfa.

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there are objections, therefore I defer voting on this item until voting time.

Y cynnig yw  derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad; felly, gohiriaf y pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus
## Public Service Reform

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendments 1, 2, 3 and 4 in the name of William Graham, amendments 5 and 6 in the name of Aled Roberts and amendment 7 in the name of Jocelyn Davies.

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliannau 1, 2, 3 a 4 yn enw William Graham, gwelliannau 5 a 6 yn enw Aled Roberts a gwelliant 7 yn enw Jocelyn Davies.

*Cynnig  NDM5018 Jane Hutt*

*Motion NDM5018 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Yn nodi Agenda Diwygio'r Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru.*

*Notes the Public Service Reform Agenda in Wales.*

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** I move the motion.

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Cynigiaf y cynnig.

Every day, our public services in Wales are helping to save lives and change them for the better. We firmly believe in the value of public services. That is why we are working to make public services the best that they can be. They need to adapt to the challenging fiscal situation and growing needs and expectations; for example, those arising from an ever-ageing population. Our programme for government sets out our aim to support the delivery of effective and efficient services that meet the needs of the people of Wales. We have a consistent approach to reform across public services to achieve this. It focuses on three strands—collaboration not competition, simplification not complexity, and accountability for what we do, leading to true democracy. We have already been working to protect front-line services as best we can, despite the cuts in funding from the UK Government. However, we have to be prepared for more to come—a lot more. The Institute for Fiscal Studies has estimated that 94% of UK Government cuts to current spending have yet to take place. Our main aim is to protect and improve the quality of public services for the people of Wales. I will therefore support amendment 4 in the name of William Graham. I will also support amendment 7 in the name of Jocelyn Davies, as we very much look forward to working towards a distinct and joined-up Welsh public service.

Bob dydd, mae ein gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn helpu i achub bywydau a'u newid er gwell. Credwn yn gryf yng ngwerth gwasanaethau cyhoeddus. Dyna pam yr ydym yn gweithio i sicrhau mai'r gwasanaethau cyhoeddus yw'r rhai gorau y gellir eu cael. Mae angen iddynt addasu i'r sefyllfa ariannol heriol ac anghenion a disgwyliadau cynyddol; er enghraifft, y rhai sy'n deillio o boblogaeth sy'n heneiddio. Mae ein rhaglen lywodraethu yn amlinellu ein nod i gefnogi darparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon sy'n diwallu anghenion pobl Cymru. Mae gennym ymagwedd gyson tuag at ddiwygio ar draws y gwasanaethau cyhoeddus i gyflawni hyn. Mae'n canolbwyntio ar dri maes—cydweithio nid cystadlu, symleiddio nid cymhlethu, ac atebolrwydd am yr hyn yr ydym yn ei wneud, gan arwain at wir ddemocratiaeth. Rydym eisoes wedi gweithio i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen gystal ag y gallwn, er gwaethaf toriadau cyllid Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, rhaid inni baratoi am ragor—llawer rhagor. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi amcangyfrif bod 94% o doriadau Llywodraeth y DU yn y gwariant presennol heb eu gwneud eto. Ein prif nod yw diogelu a gwella ansawdd gwasanaethau cyhoeddus i bobl Cymru. Felly, byddaf yn cefnogi gwelliant 4 yn enw William Graham. Byddaf hefyd yn cefnogi gwelliant 7 yn enw Jocelyn Davies, am ein bod yn edrych ymlaen yn fawr at weithio tuag at wasanaeth cyhoeddus penodol a chydgysylltiedig i Gymru.

The Public Accounts Committee has recognised that good things are happening in Welsh public services. We need to increase the pace and scale of change. The public service workforce is critical in taking forward this change and the workforce partnership council is very much at the heart of this agenda, working with the aim of avoiding compulsory redundancies. We have also set

Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi cydnabod bod pethau da'n digwydd yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru. Mae angen inni gynyddu cyflymder a graddfa'r newid. Mae gweithlu'r gwasanaethau cyhoeddus yn hanfodol wrth fwrw ymlaen â'r newid ac mae cyngor partneriaeth y gweithlu wrth wraidd yr agenda hon, yn gweithio gyda'r nod o osgoi diswyddiadau gorfodol.

up a leadership academy to improve management and leadership skills across the Welsh public service and to work collaboratively and across the traditional boundaries that we are familiar with. On collaboration, it would be naïve to believe that, in these times of fiscal challenge, every public service organisation can singlehandedly provide the full range of services without having regard to its neighbours or public service partners. I have a simple test for collaboration: does it save money or does it provide a better service? If the answer is 'yes', it should happen. I have put in place strong new arrangements to support that. I provide leadership to local government when it asks for clarity by setting out consistent areas for public service collaboration. That gives a framework for local decision making, provides stability and reduces complexity for public services and the public. I am pleased that the recent changes in Supporting People, local safeguarding boards and the Independent Commission on Social Services in Wales have all been based on these areas.

Rydym hefyd wedi sefydlu academi arweinyddiaeth i wella sgiliau rheoli ac arwain ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru ac i weithio ar y cyd ac ar draws y ffiniau traddodiadol yr ydym yn gyfarwydd â hwy. O ran cydweithio, byddai'n naïf credu, yn y cyfnod ariannol heriol hwn, y gallai pob sefydliad gwasanaeth cyhoeddus ar ei ben ei hun ddarparu ystod lawn o wasanaethau heb ystyried ei gymdogion neu ei bartneriaid gwasanaeth cyhoeddus. Mae gen i brawf syml ar gyfer cydweithio: a yw'n arbed arian neu a yw'n darparu gwasanaeth gwell? Os mai'r ateb yw 'ydy', dylai ddigwydd. Rwyf wedi creu trefniadau newydd cryf i gefnogi hynny. Rwy'n rhoi arweiniad i lywodraeth leol pan fydd yn gofyn am eglurhad drwy nodi meysydd cyson ar gyfer cydweithredu gan wasanaethau cyhoeddus. Mae hynny'n rhoi fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau'n lleol, yn darparu sefydlogrwydd ac yn lleihau cymhlethdod ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a'r cyhoedd. Rwy'n falch bod y newidiadau diweddar yn Cefnogi Pobl, y byrddau diogelu lleol a'r Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru oll wedi bod yn seiliedig ar y meysydd hyn.

This is not just about local authorities. Services to meet people's needs must work across organisations, ranging from the police to health and social services. I will support amendment 1 in the name of William Graham, as all public services need to work in partnership with other sectors to deliver efficient services. My programme of reform and regional public services is being driven by the public services leadership group, which brings together strong executive leadership from public services across Wales. There have already been significant successes as a result of the work of this group, improving services for the victims of domestic abuse, transforming our approach to missing persons, developing proposals for a national procurement system and implementing the Simpson compact. For example, the 10000 Safer Lives project has proven that, by working together, we can provide a better and more effective service for the victims of domestic abuse and start to tackle the causes and prevent further violence. Last week, I wrote to the local service boards to ensure that this work is

Nid yw hyn yn ymwneud ag awdurdodau lleol yn unig. Rhaid i wasanaethau i ddiwallu anghenion pobl weithio ar draws sefydliadau, yn amrywio o'r heddlu i wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Byddaf yn cefnogi gwelliant 1 yn enw William Graham, am fod angen i'r holl wasanaethau cyhoeddus weithio mewn partneriaeth â sectorau eraill i ddarparu gwasanaethau effeithlon. Mae fy rhaglen ddiwygio a gwasanaethau cyhoeddus rhanbarthol yn cael eu hysgogi gan grŵp arwain y gwasanaethau cyhoeddus, sy'n dwyn ynghyd arweinyddiaeth weithredol gref o wasanaethau cyhoeddus ledled Cymru. Mae llwyddiannau sylweddol wedi bod eisoes o ganlyniad i waith y grŵp hwn: gwella gwasanaethau i ddioddefwyr cam-drin domestig, trawsnewid ein dull o ymdrin â phobl sydd ar goll, datblygu cynigion ar gyfer system gaffael genedlaethol a gweithredu compact Simpson. Er enghraifft, mae'r prosiect 10,000 o Fywydau Diogelach wedi profi y gallwn, drwy gydweithio, ddarparu gwasanaeth gwell a mwy effeithiol i ddioddefwyr cam-drin domestig a dechrau mynd i'r afael â'r achosion ac atal rhagor o

adopted widely and improves the lives of victims of domestic abuse in their areas.

drais. Yr wythnos diwethaf, ysgrifennais at y byrddau gwasanaethau lleol i sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei fabwysiadu yn eang ac yn gwella bywydau dioddefwyr cam-drin domestig yn eu hardaloedd.

Local government and the Welsh Government have signed a historic agreement, 'A Compact for Change', which formalises the partnership approach across a range of authority areas and which will work locally, regionally and nationally to improve services, delivering improved outcomes or making savings. The compact contains an agreed aim to reduce the number of ring-fenced grants, and therefore I will support amendment 5 in the name of Aled Roberts.

Mae llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru wedi arwyddo cytundeb hanesyddol, 'Compact ar gyfer Newid', sy'n ffurfioli'r dull partneriaeth ar draws ystod o ardaloedd awdurdodau a fydd yn gweithio yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i wella gwasanaethau, sicrhau canlyniadau gwell neu arbed arian. Mae'r compact yn cynnwys nod y cytunwyd arno i leihau nifer y grantiau sydd wedi'u neilltuo, ac felly byddaf yn cefnogi gwelliant 5 yn enw Aled Roberts.

In terms of the potential of the complicated world of public services delivery, we must all be champions of simplification, challenging any unnecessary processes and duplication. Good governance is important, but that does not mean driving the innovation and ambition out of public service management by wrapping them in blankets of bureaucracy. That is why, as part of my simplification agenda, I have agreed and published final guidance on the new way of planning and delivering better outcomes for local people. The development and implementation of a single plan, rather than a multitude of unconnected plans and strategies, removes a significant barrier and bureaucracy for local partners. I urge Members to encourage your constituents and other stakeholders to feed in their views and contribute to democratic accountability.

O ran potensial byd cymhleth darparu gwasanaethau cyhoeddus, mae'n rhaid inni oll fod yn hyrwyddwyr symleiddio, gan herio unrhyw brosesau a dyblygu diangen. Mae llywodraethu da yn bwysig, ond nid yw hynny'n golygu dileu arloesedd ac uchelgais o ran rheoli gwasanaethau cyhoeddus drwy eu lapio mewn blancedi o fiwrocratiaeth. Dyna pam, fel rhan o fy agenda symleiddio, yr wyf wedi cytuno ar ganllawiau terfynol ar y ffordd newydd o gynllunio a darparu gwell canlyniadau i bobl leol, ac wedi'u cyhoeddi. Mae datblygu a gweithredu cynllun unigol, yn hytrach na nifer fawr o gynlluniau a strategaethau nad ydynt yn gysylltiedig, yn dileu rhwystr a biwrocratiaeth sylweddol i bartneriaid lleol. Rwy'n annog Aelodau i annog eu hetholwyr a rhanddeiliaid eraill i gyflwyno eu barn a chyfrannu at atebolrwydd democrataidd.

While I have stated my support for the amendments I have mentioned up to now, I cannot support amendment 2 in the name of William Graham, because I think that it is either from cloud-cuckoo-land or just bare-faced cheek. His party's Government in Westminster is slashing our budget by £1.7 billion. That is equivalent to me saying to 13 of our local authorities this year that they are not getting any money. It is equivalent to over half of the local authorities in Wales not getting money, because of the funding that the party opposite in Westminster has not delivered.

Er fy mod wedi datgan fy nghefnogaeth i'r gwelliannau yr wyf wedi sôn amdanynt hyd yn hyn, ni allaf gefnogi gwelliant 2 yn enw William Graham, gan fy mod yn meddwl ei fod yn naill ai â'i ben yn y cymylau neu'n ddigywilydd. Mae Llywodraeth ei blaid yn San Steffan yn cwtogi £1.7 biliwn ar ein cyllideb. Mae hynny yr un peth â phe bawn i'n dweud wrth 13 o'n hawdurdodau lleol eleni nad ydynt yn cael dim arian. Mae yr un peth â phe na bai dros hanner yr awdurdodau lleol yng Nghymru yn cael arian, oherwydd yr arian nad yw'r blaid gyferbyn yn San Steffan wedi'i ddarparu.

**Andrew R.T. Davies:** You often refer to

**Andrew R.T. Davies:** Rydych yn aml yn

Westminster and the constraints that the Chancellor has put on the public sector and financing, but your own frontbench Treasury team has endorsed the measures that he has taken, so where would you find the extra money, which your Government squandered when in office for 13 years?

cyfeirio at San Steffan a'r cyfyngiadau y mae'r Canghellor wedi'u rhoi ar y sector cyhoeddus ac ar ariannu, ond mae tîm y Trysorlys sydd gennych ar y fainc flaen wedi cymeradwyo'r camau a gymerodd, felly ble y byddech yn dod o hyd i'r arian ychwanegol, y gwnaeth eich Llywodraeth ei wastraffu pan oedd mewn grym am 13 blynedd?

4.45 p.m.

**Carl Sargeant:** I should have known what the intervention would be. The fact of the matter is that your Government in Westminster, alongside the Liberal Democrats, is cutting £1.7 billion, which is the equivalent of 13 local authorities having no money this year. You explain that to those delivering public services across Wales. As leader of the opposition, you should probably be ashamed of that statement.

**Carl Sargeant:** Dylwn fod wedi gwybod beth fyddai'r ymyrraeth. Y gwir amdani yw bod eich Llywodraeth yn San Steffan, ochr yn ochr â'r Democratiaid Rhyddfrydol, yn torri tua £1.7 biliwn, sy'n gyfwerth â chael 13 awdurdod lleol heb arian eleni. Eglurwch hynny i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru. Fel arweinydd yr wrthblaid, dylai'r datganiad hwnnw godi cywilydd arnoch.

I move on to the issue of accountability and democracy. Collective monitoring and accountability is vital to improving services. Good scrutiny means good services, and it is an essential contribution to transparency. Again, I support William Graham's amendment 3 on this aspect. The partnership council of Ministers and local authority leaders is being refreshed to provide collective political leadership to make those changes.

Symudaf ymlaen at y mater o atebolrwydd a democratiaeth. Mae monitro ar y cyd ac atebolrwydd yn elfennau hanfodol o wella gwasanaethau. Mae gwaith craffu da yn golygu gwasanaethau da, ac mae'n gwneud cyfraniad hanfodol i dryloywder. Unwaith eto, rwyf yn cefnogi gwelliant 3, a gynigwyd yn enw William Graham ar yr agwedd hon. Mae'r cyngor partneriaeth, sy'n cynnwys Gweinidogion ac arweinwyr awdurdodau lleol, yn cael ei adnewyddu er mwyn darparu arweinyddiaeth wleidyddol ar y cyd i wneud y newidiadau hynny.

I have outlined the work under way locally, regionally and nationally to improve public services through simplification, collaboration and strengthening the democratic process. Together, we and our public services partners across Wales can and must make a difference, but we must act now.

Rwyf wedi amlinellu'r gwaith sydd ar y gweill yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i wella gwasanaethau cyhoeddus drwy symleiddio, cydweithio a chryfhau'r broses ddemocrataidd. Gyda'n gilydd, gallwn ni a'n partneriaid gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru wneud gwahaniaeth, ac mae'n rhaid inni wneud hynny, ond mae'n rhaid inni weithredu yn awr.

*Gwelliant 1 William Graham*

*Amendment 1 William Graham*

*Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn cydnabod y pwysigrwydd bod Awdurdodau Lleol yn ymgysylltu â'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector*

*Acknowledges the importance of Local Authorities engaging with the public, private and third sectors to further advance quality,*

*i hybu ymhellach y broses o gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy, effeithlon ac o ansawdd, sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr ledled Cymru.*

*sustainable and efficient user-led public service delivery across Wales.*

*Gwelliant 2 William Graham*

*Amendment 2 William Graham*

*Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn cydnabod y manteision o symleiddio gwasanaethau cyhoeddus o dan un cynllun integredig, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau nad yw darpariaeth gwasanaeth yn cael ei lleihau na'i hisraddio drwy'r broses hon.*

*Acknowledges the benefits of streamlining public services under a single integrated plan, and calls on the Welsh Government to ensure no service provision is reduced or downgraded through this process.*

*Gwelliant 3 William Graham*

*Amendment 3 William Graham*

*Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gydnabod pwysigrwydd tryloywder ac atebolrwydd ym mhob agwedd ar gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.*

*Calls on the Welsh Government to recognise the importance of transparency and accountability in all aspects of public service delivery in Wales.*

*Gwelliant 4 William Graham*

*Amendment 4 William Graham*

*Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio dulliau o gynyddu hyder y cyhoedd yng nghyswllt cyflenwi holl ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus Cymru.*

*Calls on the Welsh Government to examine ways of increasing public confidence in the delivery of all Welsh public service provision.*

**Janet Finch-Saunders:** I move amendments 1, 2, 3 and 4 in the name of William Graham AM.

**Janet Finch-Saunders:** Cynigiaf welliannau 1, 2, 3 a 4 yn enw William Graham AC.

I thank the Minister for this debate today. It is particularly pertinent following figures last week that showed a 13% increase in complaints about public services since 2010-11, which is a total of 1,900. That excludes those registered at a local government individual level.

Diolch i'r Gweinidog am y ddadl hon heddiw. Mae'n arbennig o berthnasol yn sgîl y ffigurau a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf, a oedd yn dangos cynnydd o 13% yn nifer y cwynion a wnaed am wasanaethau cyhoeddus ers 2010-11, sef cyfanswm o 1,900. Mae'r cyfanswm hwnnw'n hepgor y cwynion a gofrestrwyd ar lefel unigol llywodraeth leol.

I also welcome the leadership academy initiative. That is a process that I have certainly been through, along with Aled Roberts—and I nearly said 'Councillor Aled

Rwyf hefyd yn croesawu'r fenter academi arweinyddiaeth. Yn sicr, mae hon yn broses y bûm drwyddi, ynghyd ag Aled Roberts—bu bron imi ddweud 'y Cynghorydd Aled

Roberts' then. I endorse that scheme as one of great benefit to councillors across local authorities, aiding a true balance of what local government is all about.

Roberts'. Cefnogaf y cynllun hwnnw fel un sydd o fudd mawr i gynghorwyr ar draws awdurdodau lleol, gan gynorthwyo cydbwysedd cywir o'r hyn y mae llywodraeth leol yn ei olygu.

Last week, I welcomed the streamlining of local government bureaucracy, as outlined in the Minister's statement on integrated planning and delivery. Today, I would like to continue on that theme, looking specifically at amendment 1, and emphasising the need for local authorities to engage not only with the Welsh Government, as is so succinctly outlined in the compact for change document, but with the private and third sectors and the general public—that is, our service users.

Yr wythnos diwethaf, croesawais yr ymgais i symleiddio biwrocratiaeth llywodraeth leol, fel yr amlinellwyd yn natganiad y Gweinidog ar gynllunio integredig a chyflenwi. Heddiw, hoffwn barhau ar y thema hon, gan edrych yn benodol ar welliant 1, a phwysleisio'r angen i awdurdodau lleol ymgysylltu nid yn unig â Llywodraeth Cymru, yn y modd sydd wedi'i hamlinellu mor gryno yn y compact ar gyfer newid, ond hefyd gyda'r sector preifat, y trydydd sector a'r cyhoedd yn gyffredinol—hynny yw, ein defnyddwyr gwasanaeth.

The Public Services Ombudsman for Wales has seen consistently high numbers of complaints against county and borough councils, and alongside amendment 1 there are a number of points that I would like to raise with regard to the 'Shared Purpose—Shared Delivery' document. While the need to engage citizens is recognised, and we really welcome that, the planning process includes listening to service users and citizen engagement. I am concerned that that responsibility lies too heavily with the third sector, and I would like to see a more even approach to this.

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi gweld niferoedd uchel a chyson o gwynion yn erbyn cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol. Ochr yn ochr â gwelliant 1, mae nifer o bwyntiau yr hoffwn eu codi mewn perthynas â'r ddogfen 'Cydamcanu—Cydymdrechu'. Er bod yr angen i ymgysylltu â dinasyddion yn cael ei gydnabod, a chroesawn hynny, mae'r broses gynllunio'n cynnwys gwrando ar ddefnyddwyr gwasanaeth ac ymgysylltu â dinasyddion. Pryderaf fod baich y cyfrifoldeb yn rhy drwm ar y trydydd sector, a hoffwn weld dull mwy cyson o ymdrin â'r sefyllfa hon.

I commend local authorities and the Welsh Government because they must be listening to service users, as the Wales Audit Office highlighted earlier this month, but they must not just rely on the third sector for this information if they are to build on the compact's commitment to the strengthening of democracy. With this must come a commitment to value for money and the reduction of bureaucratic red tape within local government, as has been mentioned, which is now long overdue.

Cymeradwyaf awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru, oherwydd mae'n rhaid eu bod yn gwrando ar ddefnyddwyr gwasanaeth, fel y nododd Swyddfa Archwilio Cymru yn gynharach yn y mis. Serch hynny, ni ddylent ddibynnu ar y trydydd sector i ddarparu'r wybodaeth hon os ydynt am adeiladu ar ymrwymiad y compact i gryfhau democratiaeth. Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid cael ymrwymiad i sicrhau gwerth am arian ac i leihau tâp coch biwrocrataidd o fewn llywodraeth leol, fel y crybwyllwyd eisoes. Mae'n hen bryd gwneud hynny.

Amendments 2 and 5 in the name of my colleague, Aled Roberts, acknowledge this, and while I welcome the streamlining of processes within local government, I do not want to see the streamlining of processes that would see any downgrading or decreasing of

Mae gwelliannau 2 a 5, a gynigwyd yn enw fy nghydweithiwr, Aled Roberts, yn cydnabod y sefyllfa hon. Er fy mod yn croesawu'r ymgais i symleiddio prosesau o fewn llywodraeth leol, nid wyf am weld yr ymdrech i symleiddio prosesau yn arwain ar

service provision, and I would certainly not want to see a reduction of engagement with other sectors.

israddio neu leihau'r ddarpariaeth o wasanaethau mewn unrhyw ffordd, ac, yn sicr, nid wyf am weld llai o ymgysylltu â sectorau eraill.

With health being the main subject of issues raised with the ombudsman, it seems increasingly important that local authorities' funding be less hypothecated so that they can spend to provide services where needed, especially in light of the cuts to the health budget, which will impact upon our social services delivery.

Iechyd yw prif bwnc y materion a godwyd gyda'r ombwdsmon, ac mae'n ymddangos yn gynyddol bwysig bod llai o'r cyllid sydd ar gael i awdurdodau lleol yn cael ei glustnodi, fel y gallant wario'r arian hwn ar ddarparu gwasanaethau lle bo angen, yn enwedig yn wyneb y toriadau yn y gyllideb iechyd, a fydd yn effeithio ar ein darpariaeth o wasanaethau cymdeithasol.

Moving on to amendment 3, I would like to see a stronger commitment to the values of transparency and openness with regard to the accountability of local service board members, and clear guidance on that. Integrated planning must be delivered in line with a localism agenda, with a citizen-focused approach. I welcome the high-intensity, high-impact engagement attitude of 'Shared Purpose—Shared Delivery' and encourage the roll-out of this with complete openness and transparency of process. I am most keen to see what accountability mechanisms will complement the statutory consultee status of Welsh Ministers, with regard to the development of single integrated plans.

Gan symud ymlaen at welliant 3, o ran gwerthoedd, hoffwn weld ymrwymiad cryfach i dryloywder a gweithredu agored, mewn perthynas ag atebolrwydd aelodau byrddau gwasanaethau lleol, a chanllawiau clir ar hynny. Rhaid cyflwyno system o gynllunio integredig yn unol ag agenda brogarwch, gyda dull o weithredu sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion. Croesawaf agwedd 'Cydamcanu—Cydymdrechu' tuag at ymgysylltu, sy'n ddwys ac effeithiol iawn, ac rwyf yn annog cyflwyno'r system hon drwy ddefnyddio proses gwbl agored a thryloyw. Rwyf yn awyddus i weld pa ddulliau i sicrhau atebolrwydd fydd yn ategu statws ymgynghorai statudol Gweinidogion Cymru, o ran datblygu cynlluniau integredig sengl.

While I welcome amendment 6 in the name of Aled Roberts, I would like assurances that Welsh Government support will not unduly increase Welsh Government interference.

Er fy mod yn croesawu gwelliant 6, a gynigwyd yn enw Aled Roberts, hoffwn gael sicrwydd na fydd cefnogaeth Llywodraeth Cymru yn cynyddu ymyrraeth Llywodraeth Cymru yn ormodol.

I have concerns that the programme for government outcomes has been cited as having particular significance for LSBs, yet for education and early years, there are few definitive figures; for poverty, there are no new figures and poor results; and for health, service targets have actually been missed and there has been little improvement. Furthermore, 'Shared Purpose—Shared Delivery' refers to the need for the Welsh Government and its partners to have a shared understanding of priority outcomes, yet I see no local targets being set.

Pryderaf fod canlyniadau'r rhaglen lywodraethu wedi cael eu nodi fel rhai sydd ag arwyddocâd arbennig i fyrddau gwasanaethau lleol, ond, eto, ychydig o ffigurau pendant sydd ar gael ar gyfer addysg a'r blynyddoedd cynnar; o ran tlodi, nid oes ffigurau newydd ac mae'r canlyniadau'n wael; ac, o ran iechyd, methwyd â chyrraedd y targedau gwasanaeth ac ni chafwyd llawer o welliant. Ar ben hynny, mae 'Cydamcanu—Cydymdrechu' yn cyfeirio at yr angen i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid gael dealltwriaeth gyffredin o ganlyniadau y rhoddir blaenoriaeth iddynt, ond, eto, ni welaf unrhyw dargedau lleol yn

cael eu pennu.

Additionally, with regard to measuring effectiveness, I would like to see fully transparent processes for analysing evidence, and full and proper input from elected councillors and local government officials.

Yn ogystal, o ran mesur effeithiolrwydd, hoffwn weld prosesau sy'n gwbl dryloyw ar gyfer dadansoddi tystiolaeth, a chyfraniad llawn a phriodol gan gynghorwyr etholedig a swyddogion llywodraeth leol.

To increase public confidence, as called for in amendment 4, we need to engage the public fully and deliver real improvements to service provision against measurable targets.

Er mwyn cynyddu hyder y cyhoedd, fel y mae gwelliant 4 yn ei arddel, mae angen inni ymgysylltu â'r cyhoedd yn llawn a sicrhau gwir welliannau i ddarpariaeth gwasanaethau yn erbyn targedau mesuradwy.

I look forward to receiving updates on a number of elements of the compact for change in September, and, above all, I look forward to local authorities across Wales working with the Assembly, the Welsh Government, other public bodies and the voluntary and private sectors to deliver top-quality, reliable and sustainable services in a fully transparent and accountable manner for the people of Wales.

Edrychaf ymlaen at gael y wybodaeth ddiweddaraf ar nifer o elfennau o'r compact ar gyfer newid ym mis Medi. Yn anad dim, rwyf yn edrych ymlaen at weld awdurdodau lleol ledled Cymru yn gweithio gyda'r Cynulliad, Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus eraill a'r sectorau gwirfoddol a phreifat i ddarparu gwasanaethau dibynadwy a chynaliadwy o'r ansawdd gorau, a hynny mewn modd sy'n gwbl dryloyw ac atebol i bobl Cymru.

*Gwelliant 5 Aled Roberts*

*Amendment 5 Aled Roberts*

*Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i leihau nifer y grantiau sydd wedi'u neilltuo ac i drosglwyddo'r cyllid hwn i'r Grant Cymorth Refeniw ar gyfer awdurdodau lleol fel rhan o'i Hagenda Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus.*

*Calls on the Welsh Government to reduce the number of ring-fenced grants and to transfer this funding into the Revenue Support Grant for local authorities as part of its Public Service Reform Agenda.*

*Gwelliant 6 Aled Roberts*

*Amendment 6 Aled Roberts*

*Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y costau i gyflenwi'r Compact ar gyfer Newid yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru ac nid gan awdurdodau lleol.*

*Calls on the Welsh Government to ensure that the costs of delivering the Compact for Change will be borne by the Welsh Government and not local authorities.*

**Peter Black:** I move amendments 5 and 6 in the name of Aled Roberts.

**Peter Black:** Cynigiaf welliannau 5 a 6 yn enw Aled Roberts.

The Minister said, quite rightly, in his speech that Wales has lost out by £1.7 billion over a three or four-year period. He knows the reasons why that is, and he also knows that,

Dywedodd y Gweinidog yn ei araith, yn gwbl briodol, fod Cymru wedi colli allan ar £1.7 biliwn dros gyfnod o dair neu bedair blynedd. Mae'n ymwybodol o'r rhesymau am hynny,

had we followed the plans of Alistair Darling, we would have had even less money because of the protection that the current UK Government has put in place for health and education at an English level, which has had a knock-on effect on the Barnett formula for Wales.

ac mae'n ymwybodol hefyd, pe byddem wedi dilyn cynlluniau Alistair Darling, byddem wedi cael llai o arian hyd yn oed. Mae hynny oherwydd y mesurau diogelu y mae Llywodraeth bresennol y DU wedi'u rhoi ar waith ar gyfer iechyd ac addysg yn Lloegr, sydd wedi cael effaith ganlyniadol ar fformiwla Barnett, mewn perthynas â Chymru.

We all regret the fact that times are tight, that we are in a difficult financial situation, and that everyone has to live within their means. Rather than using the Chamber for sloganising, we should really be looking at how we can deal with that, and I welcome the fact that the Minister has introduced this reform of public services and is looking to make sure that people work together to try to deliver a more collaborative agenda, which will give better value for public services. However, the question that we have to ask is whether that better value for public services has a cost, whether that cost is one of their accountability and transparency, whether it is a cost of the Welsh Government dictating to local government on how it delivers services, and what the balance is between those particular issues.

Rydym i gyd yn gresynu at y ffaith bod pethau'n anodd, ein bod mewn sefyllfa ariannol anodd, a bod yn rhaid i bawb dorri eu côt yn ôl y brethyn. Yn hytrach na defnyddio'r Siambr i gyhoeddi sloganau, dylem fod yn edrych ar sut y gallwn fynd i'r afael â hynny. Croesawaf y ffaith bod y Gweinidog wedi cyflwyno'r cynllun hwn i ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus, a'i fod am sicrhau bod pobl yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni agenda mwy cydweithredol, a fydd yn rhoi gwell gwerth am arian o ran ein gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni ofyn a fydd cost ynghlwm wrth sicrhau gwell gwerth am arian yn ein gwasanaethau cyhoeddus, a fydd y gost honno'n ymwneud ag atebolrwydd a thryloywder, a yw'n gost o gael Llywodraeth Cymru yn pregethu i lywodraeth leol ynghylch sut y mae'n darparu gwasanaethau, a beth yw'r cydbwysedd rhwng y materion penodol hynny.

It seems to me that the onus is always on local government to take the lead on co-operation and collaboration. That is not a bad thing, but, for once, I would like to see a local health board or some other public body directly accountable to a Government Minister taking the lead and the initiative on this agenda, rather than relying on local government to do so. It seems to me that it is always local government taking the hit, when we need to get a much more cross-cutting agenda across Government to try to break down the silos between the other bodies that the Government sponsors.

Mae'n ymddangos i mi fod baich y cyfrifoldeb bob amser ar lywodraeth leol, o ran cymryd yr awenau ar gydweithredu a chydweithio. Nid yw hynny'n beth drwg, ond, am unwaith, hoffwn weld bwrdd iechyd lleol neu gorff cyhoeddus arall sy'n uniongyrchol atebol i un o Weinidogion y Llywodraeth yn arwain ac yn cymryd yr awenau ar yr agenda hwn, yn hytrach na dibynnu ar lywodraeth leol i wneud hynny. Mae'n ymddangos i mi mai llywodraeth leol sydd bob amser ar ei cholled, a hynny pan fo angen inni gael agenda llawer mwy trawsbynciol ar draws y Llywodraeth er mwyn ceisio chwalu'r seilos sy'n bodoli rhwng y cyrff eraill y mae'r Llywodraeth yn eu noddi.

The Government's public service agenda is not simply about efficiency and money saving, as has typically been the case when co-operation is talked about. It is clearly this

Nid yw agenda gwasanaethau cyhoeddus y Llywodraeth yn ymwneud ag effeithlonrwydd ac arbed arian yn unig, sef yr elfennau sydd fel arfer yn nodweddu

Government's vision to encourage more and more local authorities to work together, as a set of centrally set objectives. It is still unclear what the ultimate goal of this public service reform project will be. Are we laying the foundation for a general merger of councils at some point in the future, or is this a genuine collaborative agenda in which local government has a say and a choice as to how and when it collaborates, and the circumstances under which that collaboration takes place? Since the public services reform agenda is focused on central priorities, it leads me to conclude that the Government is seeking to tell local government how it should run its affairs, rather than letting local government be democratically accountable to its electorate.

trafodaethau ar gydweithio. Yn amlwg, mae gan y Llywodraeth hon y weledigaeth i annog nifer gynyddol o awdurdodau lleol i weithio gyda'i gilydd, yn unol â rhestr o amcanion a bennir yn ganolog. Mae'n parhau i fod yn aneglur beth fydd nod y prosiect hwn i ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus yn y pen draw. A ydym yn gosod y sylfaen ar gyfer cynllun cyffredinol i uno cynghorau rhywbryd yn y dyfodol, neu a yw'r agenda hwn yn un sy'n wir gydweithredol, lle mae gan lywodraeth leol gyfle i fynegi barn ac opsiynau o ran sut a phryd y dylid cydweithio, ac o dan ba amgylchiadau y bydd cydweithio'n digwydd? Gan fod yr agenda ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus yn canolbwyntio ar flaenoriaethau canolog, mae hynny'n fy arwain at y casgliad bod y Llywodraeth yn ceisio dweud wrth lywodraeth leol sut y dylai redeg ei busnes, yn hytrach na gadael i lywodraeth leol fod yn atebol yn ddemocrataidd i'w hetholwyr.

The Welsh Liberal Democrats have talked in the past about ring-fenced grants, and we have consistently highlighted the money that could be saved if those grants were abolished and the money given to local councils to decide for themselves how it is spent. I accept that, as the Minister has outlined, some of those ring-fenced grants have been reduced in number, but we need to go further in that regard and be clear that it is better for local authorities to determine their own spending priorities by having those unhypothecated resources. As a result, we believe that significant savings will be made from the administration of those grants, which local authorities can then put into front-line services. The compact talks about how reforms will be brought in, which will undoubtedly have an effect on the work of local councils and local councillors. Local councils will obviously have to ensure that they administer those reforms, and I am sure that there will be additional administrative burdens as part of that, which, again, will be a cost to local government.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi siarad yn y gorffennol am grantiau sydd wedi'u clustnodi. Yn gyson, rydym wedi tynnu sylw at yr arian y gellid ei arbed pe byddai'r grantiau hynny'n cael eu diddymu a phe byddai'r arian yn cael ei roi i gynghorau lleol, er mwyn iddynt gael cyfle i benderfynu eu hunain sut i'w wario. Derbyniaf fod nifer llai o rai o'r grantiau hynny a glustnodwyd, fel yr amlinellodd y Gweinidog, ond mae angen inni fynd ymhellach yn y cyswllt hwnnw, a bod yn glir ei bod yn well i awdurdodau lleol bennu eu blaenoriaethau gwario eu hunain drwy gael adnoddau nad ydynt wedi'u clustnodi. O ganlyniad, credwn y bydd arbedion sylweddol yn cael eu gwneud o ran gweinyddu'r grantiau hynny, a gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r arbedion hyn ar wasanaethau rheng flaen. Mae'r compact yn sôn am sut y bydd diwygiadau'n cael eu cyflwyno a fydd, heb os, yn cael effaith ar waith cynghorau lleol a chynghorwyr lleol. Yn amlwg, bydd yn rhaid i gynghorau lleol sicrhau eu bod yn gweinyddu'r diwygiadau hyn, ac rwyf yn siŵr y bydd beichiau gweinyddol ychwanegol yn rhan o'r broses honno. Unwaith eto, bydd y rhain yn golygu cost i lywodraeth leol.

There is a lack of accountability and oversight. The Government claims that a

Mae diffyg atebolrwydd a goruchwyliaeth. Mae'r Llywodraeth yn honni y bydd

robust monitoring and reporting framework will be established to support the delivery of the compact. Despite the emphasis placed on scrutiny at the start of the compact, there is little actual evidence to show that effective scrutiny arrangements have been put in place. I attended a scrutiny committee yesterday in Swansea council, where the brief from the officials to councillors was that they are able to summon anybody who levies a precept. However it did not say anything about the many other bodies that form part of local service boards or children's partnerships, for example, which are clearly taking a much more important role in the delivery of services. It must be made clear to local councils that, if they are to work collaboratively and deliver this agenda in that way, there must be better scrutiny and they must be able to bring before the scrutiny committees the bodies that they are working with to deliver that agenda.

fframwaith adrodd a monitro cadarn yn cael ei sefydlu i gefnogi'r broses o gyflwyno'r compact. Er gwaethaf y pwyslais a roddir ar graffu ar ddechrau'r compact, prin yw'r dystiolaeth i ddangos bod trefniadau craffu effeithiol wedi'u rhoi ar waith. Euthum i bwyllgor craffu yng nghyngor Abertawe ddoe. Y wybodaeth a roddwyd gan swyddogion i gynghorwyr oedd bod ganddynt yr hawl i wysio unrhyw gorff sy'n codi praesept. Fodd bynnag, ni roddwyd unrhyw wybodaeth am nifer y cyrff eraill sy'n rhan o fyrddau gwasanaeth lleol neu bartneriaethau plant, er enghraifft, sy'n amlwg yn chwarae rhan llawer mwy pwysig o ran darparu gwasanaethau. Rhaid ei gwneud yn glir i gynghorau lleol, os ydynt am weithio ar y cyd a chyflawni'r agenda hon yn y modd hwnnw, bod yn rhaid cael gwaith craffu gwell a bod yn rhaid sicrhau bod gan gynghorau'r hawl i ddod â'r cyrff y maent yn gweithio gyda hwy i gyflawni'r agenda gerbron y pwyllgorau craffu.

*Gwelliant 7 Jocelyn Davies*

*Amendment 7 Jocelyn Davies*

*Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio tuag at sefydlu gwasanaeth cyhoeddus penodol i Gymru.*

*Calls on the Welsh Government to work towards establishing a distinct Welsh public service.*

**Rhodri Glyn Thomas:** Cynigiaf welliant 7 yn enw Jocelyn Davies.

**Rhodri Glyn Thomas:** I move amendment 7 in the name of Jocelyn Davies.

Rwy'n falch iawn o gynnig y gwelliant hwn, ac rwy'n ddiolchgar iawn i'r Gweinidog, sydd eisoes wedi dweud ei fod yn ei dderbyn, ac felly hefyd yn derbyn yr alwad ar y Llywodraeth i symud i'r cyfeiriad hwn. Ar sail hynny, hoffwn ei holi ryw gymaint i ba raddau y mae'n barod i symud i'r cyfeiriad hwnnw. A ydym yn gytûn, Weinidog, ein bod yn sôn am wasanaeth cyhoeddus cynhwysfawr i Gymru sy'n ymwneud â holl elfennau gwasanaethau yng Nghymru? Sylwais ym maniffesto'r Blaid Lafur yn 2011 fod ymrwymiad i adolygu'r gwasanaeth sifil yng Nghymru ac i symud tuag at greu gwasanaeth sifil Cymreig a oedd yn gwbl atebol i Lywodraeth Cymru. Cymeraf fod yr ymrwymiad hwnnw yn cynnwys hynny a'r gwahanol elfennau o wasanaethau yng Nghymru. A yw'n mynd cyn belled â sôn am

I am very pleased to move this amendment, and I am grateful to the Minister, who has already said that he accepts it and therefore also accepts the call for the Government to move in this direction. On that basis, I would like to question him a little on the extent to which he is prepared to move in that direction. Are we in agreement, Minister, that we are talking about a comprehensive public service for Wales that involves all the elements of services in Wales? I noticed in the Labour Party manifesto in 2011 that there was a commitment to review the civil service in Wales and to move towards creating a Welsh civil service that would be completely accountable to the Welsh Government. I take it that that commitment includes that and the varying elements of services in Wales. Does it go as far as talking about creating a legal

greu system gyfreithiol i Gymru yn rhan o'r gwasanaeth hwnnw? Nid wyf yn gosod unrhyw amserlen na gofyn ichi wneud hyn o fewn unrhyw gyfnod penodol. Rwy'n chwilio'n fwy am yr egwyddor sylfaenol a ydym yn gallu cytuno ar hyn o beth. Os gallwn gytuno ar yr elfennau hynny i gyd, bydd lle mawr gennym i weithredu ar y cyd yma i greu'r gwasanaeth cynhwysfawr hwn i Gymru.

system for Wales as a part of that service? I am not imposing any timetable here or asking you to do this within any specific timeframe. I am looking rather for the general principle of whether we can agree in that respect. If we can agree on all those elements, we will have plenty of room to work together here to create this comprehensive service for all of Wales.

Mae'n eironig, Weinidog, fod eich cynnig un llinell sy'n galw arnom i nodi yn gyffredinol yr agenda adolygu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru wedi esgor ar saith gwelliant. Rhaid cyfeirio atynt, felly. Buoch yn hael iawn wrth dderbyn mwyafrif o welliannau'r Ceidwadwyr. Ni allaf fod mor hael â chi, oherwydd mae arnaf ofn mai'r hyn sydd y tu ôl iddynt yw'r syniad o'r gymdeithas fawr. Sylwais fod llefarwyr y Ceidwadwyr wedi osgoi defnyddio'r term hwnnw, ond wrth wrando ar y cyflwyniad i'r gwelliannau, mae'n amlwg mai dyna sydd y tu ôl i hyn i gyd, sef y weledigaeth amwys o gymdeithas fawr, sy'n golygu mewn gwirionedd fod y Torïaid am dorri yn ôl ar yr adnoddau a fydd ar gael i lywodraeth leol ac eraill sy'n darparu gwasanaethau yng Nghymru, a dibynnu, mewn rhyw ffordd annelwig nad yw wedi'i hesbonio i ni eto, ar y sector preifat ac ar unigolion i wneud hynny. Yr ydym ni fel plaid yn ymwrthod—

It is ironic, Minister, that your one-line motion calling on us to note generally the agenda for public service reform in Wales has given rise to seven amendments. They must be spoken to, therefore. You were very generous in accepting the majority of the Conservatives' amendments. I cannot be as generous as you because I fear that what lies behind them is this idea of the big society. I noticed that the Conservative spokespeople avoided using that term, but listening to the introduction to the amendments, it was obvious that that was what is behind all this, namely that ambiguous vision of a big society, which really just means that the Tories want to cut back on the resources that would be available to local government and others who deliver services in Wales and instead, in some vague way that has not yet been explained to us, depend on the private sector and on individuals to provide those services. As a party, we reject—

**Andrew R.T. Davies:** I am grateful to the Plaid Cymru spokesman for taking an intervention. I appreciate that he is doing his best to pad out a very poor speech, but what is wrong with the big society and empowering people to take responsibility and have pride in their local communities? Surely, that is the ethos of civic society.

**Andrew RT Davies:** Rwyf yn ddiolchgar i lefarydd Plaid Cymru am ildio. Rwyf yn sylweddoli ei fod yn gwneud ei orau i lenwi araith wael iawn, ond beth sydd o'i le ar y gymdeithas fawr a grymuso pobl i gymryd cyfrifoldeb ac i ymfalchïo yn eu cymunedau lleol? Yn sicr, dyna yw ethos cymdeithas ddinesig.

5.00 p.m.

**Rhodri Glyn Thomas:** When I want lessons on padding out a poor speech, Andrew, I will know where to turn to, because you are a past master at it. [*Laughter.*] With regard to these amendments, I was dealing in detail with your amendments. Perhaps the details passed you by, which I have noticed tends to happen on occasions with you in this Chamber. I am saying that the principle that you have put forward of the big society is something that

**Rhodri Glyn Thomas:** Pan fyddaf eisiau gwersi ar ymestyn araith wael, Andrew, byddaf yn gwybod lle i droi, oherwydd rydych yn feistr arno. [*Chwerthin.*] O ran y gwelliannau hyn, roeddwn yn ymdrin â'ch gwelliannau chi yn fanwl. Efallai nad ydych wedi dilyn y manylion, ac rwyf wedi sylwi bod hynny'n tueddu i ddigwydd i chi ar adegau yn y Siambr hon. Rwy'n dweud bod yr egwyddor yr ydych wedi ei gyflwyno o'r

we are totally opposed to. Therefore, the only amendment from the Welsh Conservatives that we will be supporting is amendment 3.

gymdeithas fawr yn rhywbeth yr ydym yn ei wrthwynebu'n llwyr. Felly, yr unig welliant gan y Ceidwadwyr Cymreig y byddwn yn ei gefnogi yw gwelliant 3.

I turn to amendments that have a little more substance to them, which are amendments 5 and 6, tabled in the name of Aled Roberts. I listened carefully to Peter Black as he proposed these amendments. We, as a party, have some sympathy for the amendments. We can support amendment 5. There are cases where money should be ring-fenced, but they should be reviewed carefully, and we should look critically at this. If we can work with local government to ensure that money is spent effectively, there should be flexibility there.

Trof at welliannau sydd ag ychydig mwy o sylwedd iddynt, sef gwelliannau 5 a 6, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Gwrandewais yn ofalus ar Peter Black wrth iddo gynnig y gwelliannau hyn. Mae gennym ni, fel plaid, rywfaint o gydymdeimlad â'r gwelliannau. Gallwn gefnogi gwelliant 5. Mae yna achosion lle y dylai arian gael ei neilltuo, ond dylid eu hystyried yn ofalus, a dylem edrych yn feirniadol ar hyn. Os gallwn weithio gyda llywodraeth leol i sicrhau bod yr arian hwn yn cael ei wario'n effeithiol, dylid cael hyblygrwydd.

I have a little more difficulty with amendment 6 in the sense that if the compact can be delivered more efficiently with central and local government money being put together, I do not think that we should rule that out. This amendment is in danger of ruling that out. I do not want to pass on the burden of financial needs to local government, but I want to leave the flexibility of the Minister being able to work with local government to ensure that this compact is delivered as efficiently as possible. If that can be done by putting together money from local government and central Government, we should not create a situation where we cannot move in that area.

Rwy'n cael ychydig mwy o drafferth gyda gwelliant 6 oherwydd os gall y compact gael ei ddarparu'n fwy effeithlon drwy gyfuno arian llywodraeth ganolog a llywodraeth leol, nid wyf yn meddwl y dylem ddiystyru hynny. Mae'r gwelliant hwn mewn perygl o ddiystyru hynny. Nid wyf am drosglwyddo'r baich o anghenion ariannol i lywodraeth leol, ond rwyf am adael yr hyblygrwydd sy'n caniatáu i'r Gweinidog weithio gyda llywodraeth leol i sicrhau bod y compact yn cael ei weithredu mor effeithlon ag y bo modd. Os gellir gwneud hynny drwy gyfuno arian gan lywodraeth leol a Llywodraeth ganolog, ni ddylem greu sefyllfa lle nad oes modd i ni symud yn y maes hwnnw.

**Jenny Rathbone:** I attended the recent conference laid on by the Auditor General for Wales on improving public services. In a workshop, I heard the Welsh Government's director of finance describe the challenge that we face: that we will be facing not just one or two years, but seven years of reductions in public spending. That is the menu that the UK Government is dishing up for us. The idea, as the Tories describe, that we must ensure that no service provision is reduced or downgraded through this process is living in la-la land. To put this in context, since the second world war, there has never been more than two consecutive years of reductions in public spending. We are now looking at seven years. The sort of challenges that we face are simply not going to be resolved by salami-slicing our budgets. We will have to

**Jenny Rathbone:** Mynychais y gynhadledd ddiweddar a gynhaliwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar wella gwasanaethau cyhoeddus. Mewn gweithdy, clywais gyfarwyddwr cyllid Llywodraeth Cymru yn disgrifio'r her sy'n ein hwynebu: y byddwn yn wynebu nid dim ond un neu ddwy flynedd, ond saith mlynedd o ostyngiad mewn gwariant cyhoeddus. Dyna'r fwydlen y mae Llywodraeth y DU yn ei weini i ni. Mae'r syniad, fel y mae'r Torïaid yn ei ddisgrifio, bod yn rhaid inni sicrhau nad oes unrhyw leihad neu israddio o ran y gwasanaethau sy'n cael eu darparu drwy'r broses hon yn dod o blaned arall. I roi cyd-destun i hyn, ers yr ail ryfel byd, ni fu erioed mwy na dwy flynedd yn olynol o ostyngiadau mewn gwariant cyhoeddus. Rydym nawr yn edrych ar saith mlynedd. Nid ydym yn mynd

do things completely differently.

i allu gwrthsefyll y math o heriau sy'n ein hwynebu drwy dafellu ein cyllidebau. Bydd yn rhaid inni wneud pethau mewn ffordd hollol wahanol.

**Janet Finch-Saunders:** Thank you for taking an intervention. Given your reference to the second world war, how do you feel about your Government leaving the United Kingdom Government with the largest ever deficit since the second world war? Is it not a fact that we must not deny here today that, as a result of that deficit, measures must be taken now to try to address it? Do you really think that it is sustainable to be paying £120 million of interest per day on the debt left by your Government?

**Janet Finch-Saunders:** Diolch i chi am ildio. O ystyried eich cyfeiriad at yr ail ryfel byd, sut ydych yn teimlo am y ffaith y bu i'ch Llywodraeth chi adael y diffyg mwyaf ers yr ail ryfel byd ar gyfer Llywodraeth y Deyrnas Unedig? Onid yw'n ffaith bod yn rhaid inni beidio â gwadu yma heddiw bod yn rhaid, o ganlyniad i'r diffyg hwnnw, cymryd camau yn awr i geisio ymateb iddo? A ydych wir yn credu ei fod yn gynaliadwy i dalu £120 miliwn o log bob dydd ar y ddyled a adawyd gan eich Llywodraeth?

**Jenny Rathbone:** This will be a barren debate if we constantly go back to what were the causes of the deficit. The deficit is what we have, and we can have a serious debate about how we get ourselves out of the current financial crisis. It is interesting that the UK Government is moving gently towards the position proposed by Ed Balls all the while, but it has not got there yet.

**Jenny Rathbone:** Bydd hwn yn ddadl ddiffrwyth os byddwn yn mynd yn ôl at yr hyn a achosodd y diffyg. Mae yna ddiffyg, a gallwn gael dadl ddifrifol am sut yr ydym yn cael ein hunain allan o'r argyfwng ariannol presennol. Mae'n ddiddorol bod Llywodraeth y DU yn symud yn araf tuag at y sefyllfa a gynigiwyd gan Ed Balls drwy'r adeg, ond nid yw wedi cyrraedd eto.

That is not what we are discussing today, because we do not control what the UK Government does. We must produce the best possible services that we can with the money that we have available, dished out to us by the UK Government. We can have those debates elsewhere.

Nid dyna beth yr ydym yn ei drafod heddiw, oherwydd nid ydym yn rheoli'r hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei wneud. Mae'n rhaid i ni sicrhau'r gwasanaethau gorau posibl gyda'r arian sydd ar gael inni, a ddosberthir i ni gan Lywodraeth y DU. Gallwn gael y dadleuon hynny mewn mannau eraill.

My argument is that we need a completely new approach and a new relationship with the citizens who are dependent on these services. That is what will be required. The Minister for Education and Skills already referred to the cultural challenges that face public servants in working together and working collaboratively with users as well as the third sector. I am not sure that we have enough time to wait for that cultural change to be embedded, because there are changes that will have to be made instantly.

Fy nadl i yw bod angen ymagwedd gwbl newydd tuag at y dinasyddion sy'n dibynnu ar y gwasanaethau hyn a pherthynas newydd gyda hwy. Dyna fydd ei angen. Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi cyfeirio yn barod at yr heriau diwylliannol sy'n wynebu gweision cyhoeddus wrth iddynt weithio gyda'i gilydd a chydweithio gyda defnyddwyr yn ogystal â'r trydydd sector. Nid wyf yn siŵr bod gennym ddigon o amser i aros i'r newid diwylliannol hynny gael ei ymgorffori, oherwydd mae angen gwneud rhai newidiadau ar unwaith.

We already have direct payments embedded in social care in Wales, particularly for older and disabled people, and they can give people greater control over the services that they get and promote their independence, but that

Mae gennym eisoes daliadau uniongyrchol ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru, yn enwedig ar gyfer pobl hŷn ac anabl, a gallant roi mwy o reolaeth i bobl dros y gwasanaethau maent yn eu cael a hybu eu

drive for independence and individual responsibility presents new challenges. It can also leave people feeling isolated and divorced from their community. So far, the market in older people's care has failed to create any real choice for older people. Outsourcing older people's residential care in Cardiff and in many other parts of the UK has become little more than a cost-cutting exercise, a race to the bottom by the private sector. If we do not have any sort of diverse care market, we do not offer a choice for citizens in deciding how they will buy the care that they need.

hannibyniaeth, ond mae'r ymgyrch dros annibyniaeth a chyfrifoldeb yr unigolyn yn cyflwyno heriau newydd. Gall hefyd adael pobl yn teimlo'n ynysig a chreu bwlch rhyngddynt hwy a'u cymunedau. Hyd yn hyn, mae'r farchnad gofal pobl hŷn wedi methu â chreu unrhyw ddewis go iawn i bobl hŷn. Mae'r broses o osod gwaith gofal preswyl i bobl hŷn ar gontract allanol yng Nghaerdydd a nifer o rannau eraill y DU wedi troi'n ymarfer i dorri costau, ras i'r gwaelod gan y sector preifat. Os nad oes gennym amrywiaeth yn y farchnad gofal, nid ydym yn cynnig dewis i ddinasyddion wrth benderfynu sut y byddant yn prynu'r gofal sydd ei angen arnynt.

The relentless pressure on local authority budgets has huge dangers in terms of the type of preventative services that could be cut if people are not careful in thinking about the services that we need to provide in order to ensure that people are not ending up at the most expensive end of service provision. For example, a majority of social workers are reporting that day centres are closing down, and day centres for the elderly are absolutely crucial to enable older people to receive a decent meal and to be in contact with other people in their day-to-day lives, while enabling carers to have respite and enabling service providers to effectively monitor and improve the physical and mental health of users of those services.

Mae'r pwysau di-baid ar gyllidebau awdurdodau lleol yn peri peryglon enfawr o ran y math o wasanaethau ataliol y gellid eu torri os nad yw pobl yn ofalus wrth feddwl am y gwasanaethau y mae angen i ni eu darparu er mwyn sicrhau nad yw pobl yn talu'n ddrud am y gwasanaethau maent yn eu derbyn. Er enghraifft, mae mwyafrif o weithwyr cymdeithasol yn adrodd bod canolfannau dydd yn cau i lawr, ac mae canolfannau dydd ar gyfer yr henoed yn gwbl hanfodol i alluogi pobl hŷn i gael pryd o fwyd da ac i fod mewn cysylltiad â phobl eraill yn eu bywydau o ddydd i ddydd, wrth alluogi gofalwyr i gael seibiant a galluogi darparwyr gwasanaethau i fonitro a gwella iechyd corfforol a meddyliol defnyddwyr y gwasanaethau hynny.

We have to look at much more radical ways of doing things. There is a Scope report on enabling disabled people—

Mae'n rhaid i ni edrych ar ffyrdd llawer mwy radical o wneud pethau. Mae adroddiad gan Scope ar alluogi pobl anabl—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Thank you. I call on Mark Isherwood.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Diolch. Galwaf ar Mark Isherwood.

**Mark Isherwood:** Five EU member states have now asked for a bail-out. If they had their way, the UK would be the sixth, meaning even bigger, externally imposed cuts. As the chair of Care Forum Wales recently stated

**Mark Isherwood:** Mae pump o aelod-wladwriaethau'r UE nawr wedi gofyn am gymorth ariannol. Petaent yn cael eu ffordd, y DU fyddai'r chweched, gan arwain at fwy o doriadau yn cael eu gorfodi o'r tu allan. Fel y dywedodd cadeirydd Fforwm Gofal Cymru yn ddiweddar,

'Radical reform of the planning and delivery of services is long overdue and we need to create a culture where the independent sector works in true partnership with public sector

Mae'n hen bryd inni gael diwygio radical o'r broses o gynllunio a darparu gwasanaethau ac mae angen inni greu diwylliant lle mae'r sector annibynnol yn gweithio mewn

bodies.'

partneriaeth wirioneddol gyda chyrff sector cyhoeddus.

He went on to say that

Aeth ymlaen i ddweud

'If we have that shift, we can achieve a great deal but if we don't I'm afraid we're going to fall short and this would be deeply disappointing for those requiring services.'

Petai'r newid hwnnw yn digwydd, gallwn gyflawni llawer iawn ond os nad ydym yn ei wneud, rwy'n ofni y byddwn yn syrthio'n brin a byddai hynny'n siom fawr i'r rhai sydd angen y gwasanaethau hynny.

The Welsh Government's Communities First programme is about bringing projects and networks together. The joint Wales Council for Voluntary Action and Community Development Cymru paper 'Communities First—A Way Forward' found that enabling communities to move beyond programmes and establish their own community organisations would provide the community-owned dimension so often sought but so seldom achieved in building a better Wales. Of course, the Welsh Government rejected that. Government must learn a better method: evidence of outcomes, better process measures and, therefore, better value services delivering more. In other words, it must understand what matters and design backwards, using the front end as the process design system.

Mae rhaglen Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cymru yn ymwneud â dod â phrosiectau a rhwydweithiau ynghyd. Bu i bapur a gyflwynwyd ar y cyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Datblygu Cymunedol Cymru 'Cymunedau yn Gyntaf—Ffordd Ymlaen' ddarganfod bod galluogi cymunedau i symud y tu hwnt i raglenni a sefydlu eu sefydliadau cymunedol eu hunain yn darparu'r dimensiwn o eiddo cymunedol a geisir yn aml ond, yn aml, heb lwyddiant wrth geisio adeiladu Cymru well. Wrth gwrs, bu i Lywodraeth Cymru wrthod hynny. Rhaid i'r Llywodraeth ddysgu dull gwell: tystiolaeth o ganlyniadau, mesurau proses gwell ac, felly, gwasanaethau gwell sy'n darparu mwy. Mewn geiriau eraill, rhaid iddi ddeall beth sy'n bwysig a chynllunio yn ôl, gan ddefnyddio'r pen blaen fel system i gynllunio'r broses.

As the Archbishop of Canterbury said here in March, communities must push back against managerial and functionalist approaches:

Fel y dywedodd Archesgob Caergaint yma ym mis Mawrth, rhaid i gymunedau wrthwynebu dulliau rheolaethol a swyddogaethol:

'preparing people to understand themselves and the society they inhabit',

gan baratoi pobl i ddeall eu hunain a'r gymdeithas maent yn byw ynddi,

and not to be cogs in the wheel. Although he said that there has been important progress in state welfare, there is also a problem about dependency and assuming that someone else is responsible for our problems.

ac i beidio â bod yn ddibwys yn y drefn. Er iddo ddweud y bu cynnydd pwysig yn y wladwriaeth les, mae hefyd problem ynglŷn â dibyniaeth a'r gred mai rhywun arall sy'n gyfrifol am ein problemau.

In some local authority areas across Wales, new discussions have already started around local area co-ordination as a key approach to building mutually supportive communities as the new front end of the service system. It makes personalisation about more than money; it is about a good life. Local area co-ordinators are embedded in local communities and support vulnerable people

Mewn rhai awdurdodau lleol ledled Cymru, mae trafodaethau eisoes wedi dechrau ynghylch cydlynu lleol fel dull allweddol o adeiladu cymunedau sy'n cefnogi ei gilydd ar flaen y system wasanaethau. Mae'n meddwl bod personoli yn ymwneud â mwy nag arian; mae'n ymwneud â bywyd da. Mae cydlynwyr ardal leol yn cael eu hymgorffori mewn cymunedau lleol ac yn cefnogi pobl sy'n

to build their personal vision for a good life, because all people have an inherent strength, ability and capacity to contribute.

agored i niwed i adeiladu eu gweledigaeth bersonol ar gyfer bywyd da, oherwydd bod gan bawb gryfder a gallu cynhenid i gyfrannu.

Asset-based community development recognises that we cannot know what a community needs before we first know what it has, identifying and bringing together the community's gifts, skills, talents and resources. Housing is crucial to health, wellbeing and regeneration, and a decade of housing cuts in the boom years was unforgivable. The UK Localism Act 2011 seeks to build safer and stronger communities while decentralising power from Government, engaging residents in creating a resident-led, grass-roots approach in areas that include social homes management, care for older people and reducing social problems. Wales, too, should be embracing this, putting the service user first.

Mae datblygu cymunedol yn seiliedig ar asedau yn cydnabod na allwn wybod beth yw anghenion cymuned cyn i ni wybod yn gyntaf beth sydd ganddi, gan nodi a dwyn ynghyd arbenigedd, sgiliau, doniau ac adnoddau'r gymuned. Mae tai yn hanfodol i iechyd, lles ac adfywio, ac roedd degawd o doriadau tai yn y blynyddoedd ffyniannus yn anfaddeuol. Mae Deddf Lleoliaeth 2011 y DU yn ceisio adeiladu cymunedau mwy diogel a chryfach wrth ddatganoli pŵer oddi wrth y Llywodraeth, gan ennyn diddordeb trigolion i greu ffordd o weithredu sy'n cael ei harwain gan drigolion ar lawr gwlad mewn meysydd sy'n cynnwys rheoli cartrefi cymdeithasol, gofal i bobl hŷn a lleihau problemau cymdeithasol. Dylai Cymru, hefyd, weithredu yn y ffordd hon, gan roi defnyddiwr y gwasanaeth yn gyntaf.

Throughout Wales, the independent sector provides the great majority of the care, through independent hospitals, care homes, nursing care homes and supported living. To alienate this resource, with all that it can and should contribute towards innovation, would be a waste of an opportunity that would not cost the taxpayer a penny. Independent sector providers are more than willing to make a contribution, and they should be pressed to do so, maximising the opportunity available for public sector resources.

Ledled Cymru, mae'r sector annibynnol yn darparu'r mwyafrif helaeth o ofal, drwy ysbytai annibynnol, cartrefi gofal, cartrefi gofal nyrsio a byw â chymorth. Byddai dieithrio'r adnodd hwn, gyda phopeth y gall ac y dylai gyfrannu tuag at arloesi, yn wastraff o gyfle na fyddai'n costio ceiniog i'r trethdalwr. Mae darparwyr yn y sector annibynnol yn fwy na pharod i wneud cyfraniad, a dylid pwyso arnynt i wneud hynny, gan wneud y gorau o'r cyfle sydd ar gael o ran adnoddau sector cyhoeddus.

The NHS could learn from hospices about the integration of care services in the home, community, hospital and hospice. Care Forum Wales told me in a recent meeting that private and third sector providers have much greater freedom to innovate than the public sector, and that there is a need to tackle bureaucracy, such as their members being asked to provide the same information to the care and social services inspectorate, the health board and the local authority.

Gallai'r GIG ddysgu oddi wrth hosbisau am integreiddio gwasanaethau gofal yn y cartref, y gymuned, ysbytai a hosbisau. Dywedodd Fforwm Gofal Cymru wrthyf mewn cyfarfod diweddar fod gan ddarparwyr yn y sector preifat a'r trydydd sector lawer mwy o ryddid i arloesi na'r sector cyhoeddus, a bod angen mynd i'r afael â biwrocratiaeth, er enghraifft, yr angen i'w haelodau ddarparu'r un wybodaeth i'r arolygiaeth gofal a gwasanaethau cymdeithasol, y bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol.

Proposed legislation, such as the social services Bill, must take account of the practical constraints that care providers face. For example, there is concern at the proposal

Mae'n rhaid i ddeddfwriaeth arfaethedig, fel y Bil gwasanaethau cymdeithasol, ystyried y cyfyngiadau ymarferol y mae darparwyr gofal yn eu hwynebu. Er enghraifft, ceir

to license premises for a fixed period, whereas residential care providers currently have a licence that is only revoked if unacceptable behaviour occurs. The proposal would affect their access to bank finance, compromising their ability to sustain buildings and putting care providers off infrastructure projects.

pryder ynghylch y cynnig i drwyddedu sefydliadau am gyfnod penodol, yn lle'r sefyllfa bresennol lle mae gan ddarparwyr gofal preswyl drwydded sy'n cael ei ddirymu dim ond os oes ymddygiad annerbyniol yn digwydd. Byddai'r cynnig yn effeithio ar eu mynediad at gyllid banc, gan beryglu eu gallu i gynnal adeiladau ac fe all olygu bod darparwyr gofal yn troi eu cefnau ar brosiectau seilwaith.

An implicit belief that the state is in the business of fixing broken people and communities, imposing systems that are appropriate to institutional management, simply does not work. Government remains obsessed with economies of scale, but public and independent service providers do not deal with commodities; they deal with relationships. The public sector has been transactionalised, when it is cheaper and more efficient to know the people in our communities and to deliver for them.

Yn syml, nid yw'r gred ddealledig bod y wladwriaeth yn y busnes o drwsio pobl a chymunedau sydd wedi eu torri, gan osod systemau sy'n briodol i reoli sefydliadol, yn gweithio. Mae obsesiwn y Llywodraeth gydag arbedion maint yn parhau, ond nid yw darparwyr gwasanaethau o'r sectorau cyhoeddus ac annibynnol yn ymdrin â nwyddau; maent yn ymdrin â pherthnasau. Mae'r sector cyhoeddus wedi cael ei fasnachu, pan y mae'n rhatach ac yn fwy effeithlon i adnabod y bobl yn ein cymunedau ac i ddarparu ar eu cyfer.

**Kenneth Skates:** Redesigning the map of public services to make them fit for the twenty-first century is a defining challenge for every Government in the UK. For us here in Wales, the test is how to protect our core public services from those who wish to see the state wither away, as Rowan Williams recently observed, while articulating an argument for genuine and considered reform of the centralised post-war model. Like Jenny Rathbone, I would like to raise one issue in relation to public service reform that perhaps gets too often overlooked: the vital role of user agreement in determining the overall success and quality of our public services.

**Kenneth Skates:** Mae ailgynllunio'r map gwasanaethau cyhoeddus i'w wneud yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain yn her ddiffiniol ar gyfer pob Llywodraeth yn y DU. I ni yma yng Nghymru, y prawf yw sut i amddiffyn ein gwasanaethau cyhoeddus craidd rhag y rhai sy'n dymuno gweld y wladwriaeth yn gwywo, fel y bu i Rowan Williams grybwyll yn ddiweddar, wrth fynegi dadl dros ddiwygio dilys ac ystyriol o'r model canolog a ddatblygwyd ar ôl y rhyfel. Fel Jenny Rathbone, hoffwn godi un mater yn ymwneud â diwygio gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael ei hesgeuluso'n rhy aml: rôl hanfodol cytundeb y defnyddiwr wrth benderfynu ar lwyddiant cyffredinol ac ansawdd ein gwasanaethau cyhoeddus.

We can clearly see in each of our constituencies every day the impact that active citizens can have on public services. Parental engagement is vital to the success of our schools and their pupils. Our lifestyle, our approach to our health and compliance with treatment regimes are crucial to the effectiveness of the NHS, while the police would find their role unmanageable if communities did not exercise at least some degree of co-operation, civic responsibility and self-policing.

Gallwn weld yn glir bob dydd ym mhob un o'n hetholaethau yr effaith y gall dinasyddion gweithgar eu cael ar wasanaethau cyhoeddus. Mae ymgysylltiad rhieni yn hanfodol i lwyddiant ein hysgolion a'u disgyblion. Mae ein ffordd o fyw, ein hymagwedd tuag at ein hiechyd a chydymffurfio â chyfundrefnau triniaeth yn hanfodol i effeithiolrwydd y GIG, a byddai rôl yr heddlu yn anodd iawn pe na bai cymunedau yn ymarfer o leiaf rhywfaint o gydweithrediad, cyfrifoldeb dinesig a hunan-blismona.

These reciprocal features of our public services are vital to the way they function. The state and its partners cannot operate good public services without the support, commitment and everyday engagement of service providers, service users and the wider community. We need to think about this very carefully over the next few years. If we want twenty-first century public services, then we have to accept that there is a limited amount that the state, with its finite resources, can deliver on its own. In my view, we need a new, more ambitious model of citizenship that moves away from the traditional, hierarchical model and encourages active engagement among its users, where a fresh social contract balances rights with responsibilities in a reciprocal agreement that, once again, ties the destiny of the individual to that of society in general.

Mae'r nodweddion cytbwys hyn o'n gwasanaethau cyhoeddus yn hanfodol i'r ffordd y maent yn gweithredu. Ni all y wladwriaeth a'i phartneriaid weithredu gwasanaethau cyhoeddus da heb gefnogaeth, ymrwymiad ac ymgysylltiad bob dydd darparwyr y gwasanaethau, defnyddwyr y gwasanaethau a'r gymuned ehangach. Mae angen i ni feddwl am hyn yn ofalus iawn dros y blynyddoedd nesaf. Os ydym am gael gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, yna mae'n rhaid i ni dderbyn mai dim ond hyn a hyn y gall y wladwriaeth ei gyflawni ar ei phen ei hun gyda'i hadnoddau cyfyngedig. Yn fy marn i, mae angen model newydd o ddinasyddiaeth sy'n fwy uchelgeisiol ac sy'n symud i ffwrdd o'r model traddodiadol, hierarchaidd ac yn annog ymgysylltiad gweithredol ymhlith ei ddefnyddwyr, lle mae cytundeb cymdeithasol newydd yn cydbwyso hawliau â chyfrifoldebau mewn cytundeb dwyochrog sydd, unwaith eto, yn clymu dyfodol yr unigolyn at ddyfodol cymdeithas yn gyffredinol.

In a time of increasing need, ever-shrinking resources and a growing need for more transparent public accountability, how users interact with services will be vital in getting more out of our public services.

Mewn cyfnod pan fo angen yn cynyddu, adnoddau yn lleihau ac angen cynyddol am fwy o dryloywder o ran atebolrwydd cyhoeddus, mae'r ffordd y mae defnyddwyr yn defnyddio gwasanaethau yn hanfodol er mwyn cael mwy allan o'n gwasanaethau cyhoeddus.

5.15 p.m.

Part of the imperative is practical. Of the 29 leading industrial countries, only Ireland and Iceland will experience sharper funding cuts than Britain, so more people will need to come together to identify, understand and solve public problems, using all appropriate means. The most effective public services, from prisoner rehabilitation services in Denmark to social care in Finland, have long had these values of engagement and co-operation at their core. Any model of public service reform should not, therefore, paint the users as passive recipients merely there to absorb what the state offers, but should see them as active citizens—

Mae rhan o'r rheidrwydd hwn yn ymarferol. O'r 29 o wledydd diwydiannol blaenllaw, dim ond Iwerddon a Gwlad yr Iâ fydd yn profi toriadau cyllid sy'n waeth na rhai Prydain, felly bydd angen i fwy o bobl ddod at ei gilydd i nodi, deall a datrys problemau cyhoeddus, gan ddefnyddio pob dull priodol. Bu gan y gwasanaethau cyhoeddus mwyaf effeithiol, o wasanaethau adsefydlu carcharorion yn Nenmarc i ofal cymdeithasol yn y Ffindir, werthoedd ymgysylltu a chydweithio yn graidd iddynt ers tro. Ni ddylai unrhyw fodel i ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus, felly, bortreadu'r defnyddwyr fel derbynwyr goddefol sydd yno yn unig i dderbyn yr hyn y mae'r wladwriaeth yn ei gynnig. Yn hytrach, dylid eu gweld fel dinasyddion gweithgar—

**Nick Ramsay:** As usual, you have not disappointed—it is a very interesting contribution; you seem to be saying one thing but you are actually, very subtly, putting the knife in your own side. Would you accept that you are saying that the Government, the state, cannot in the years to come fund all of these different aspects of our lives? On that basis, an alternative model, such as the big society—although not necessarily the big society—is absolutely necessary to make sure that those public services are funded.

**Nick Ramsay:** Fel arfer, nid ydych wedi fy siomi—mae'n gyfraniad diddorol iawn; ymddengys eich bod yn dweud un peth ond, mewn gwirionedd, rydych yn rhoi'r gyllell yn eich ochr ei hun mewn modd cynnil iawn. A fyddech yn derbyn eich bod yn dweud na all y Llywodraeth, y wladwriaeth, yn y blynyddoedd i ddod ariannu'r holl agweddau gwahanol hyn ar ein bywydau? Ar sail hynny, mae model amgen, megis y gymdeithas fawr—ond nid y gymdeithas fawr o reidrwydd—yn gwbl angenrheidiol i sicrhau bod y gwasanaethau cyhoeddus hynny'n cael eu hariannu.

**Kenneth Skates:** I find it incredible, this reference to the big society. I find the abbreviation 'BS' more appropriate, because that is exactly what it is. Unfortunately, we have seen the level of economic incompetence that we saw in the 1970s; the difference is that, in the 1970s, it was carried out by a One Nation Tory sailor, whereas this time it is a bunch of posh boys. As your party at Westminster reins in public spending, the state will have to find new and innovative ways of ensuring that services are provided at current levels. That is all about participation by active people. It is all about people getting more involved. There is nothing in the big society to promote that; it is merely a mask for cuts. That is it. It is a shoddy mask that everybody can see through.

**Kenneth Skates:** Mae'r cyfeiriad at y *big society* yn anghredadwy. Mae 'BS' yn dalfyriad mwy priodol, oherwydd dyna yn union yw. Yn anffodus, rydym wedi gweld yr un lefel o anallu economaidd a welsom yn y 1970au; y gwahaniaeth yw, yn y 1970au, roedd yn cael ei wneud gan un Tori o blaid un genedl, ond criw o fechgyn crand sy'n ei wneud y tro hwn. Wrth i'ch plaid yn San Steffan dorri gwariant cyhoeddus, bydd angen i'r wladwriaeth ddod o hyd i ffyrdd newydd ac arloesol o sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu ar y lefelau presennol. Mae hynny'n ymwneud â chyfranogiad gan bobl weithgar. Mae'n ymwneud â phobl yn cymryd mwy o ran. Does dim yn y gymdeithas fawr i hyrwyddo hynny; masg yw ar gyfer y toriadau. Dyna'i gyd. Mae'n fasg gwael y gall pawb weld drwyddo.

Any model of public service reform should not paint users as passive recipients. It should see them as active citizens, ready to be partners in change. Where this change needs encouragement, it is the role of modern Government to encourage the capacity for that engagement to take place. Everyone has the ability to drive forward change, to be an active citizen, and to take part in community self-governance, influencing political, social and civic decisions. Government has an important role in building capacity, providing particular support to people lacking the capacity or the opportunity to participate. However, none of this is easy. The Third Sector Research Centre has identified a civic core made up of just 8% of adults who provide nearly half the total voluntary hours

Ni ddylai unrhyw fodel i ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus bortreadu defnyddwyr yn dderbynwyr goddefol. Dylai eu gweld fel dinasyddion gweithgar, sy'n barod i fod yn bartneriaid yn y newid. Pan fydd angen anogaeth ar gyfer gwneud y newid hwn, rôl Llywodraeth fodern yw annog y capasiti fel y gall yr ymgysylltu hwnnw ddigwydd. Mae gan bawb y gallu i gyflawni newid, i fod yn ddinesydd gweithredol, ac i gymryd rhan yn hunanlywodraeth y gymuned a dylanwadu ar benderfyniadau gwleidyddol, cymdeithasol a dinesig. Mae gan y Llywodraeth rôl bwysig o ran meithrin capasiti, gan ddarparu cefnogaeth arbennig i bobl nad oes ganddynt y gallu neu'r cyfle i gymryd rhan. Fodd bynnag, nid yw unrhyw ran o hyn yn hawdd.

in the UK, and who are drawn from a very narrow social demography. It is clear that we need to find new and more effective ways of fostering a greater engagement with public services, and encourage a greater number of people to become involved where they live. This is not an insurmountable challenge. History shows us a fine Welsh tradition of dynamic, active and collaborative user engagement prior to 1945. We can remake our public services and the collaboration agenda need not only be about service providers working together, but citizens too, collaborating to drive forward improvements and be part of the process of reform.

Mae Canolfan Ymchwil y Trydydd Sector wedi dod o hyd i graidd dinesig sy'n cynnwys dim ond 8% o oedolion sy'n darparu bron i hanner cyfanswm yr oriau gwirfoddol yn y DU, ac sy'n dod o ddemograffeg gymdeithasol gul iawn. Mae'n amlwg bod angen inni ddod o hyd i ffyrdd newydd a mwy effeithiol o feithrin mwy o ymgysylltu â gwasanaethau cyhoeddus, ac annog mwy o bobl i gymryd rhan lle maent yn byw. Nid yw hon yn her anorchfygol. Dengys hanes draddodiad o ymgysylltu â defnyddwyr mewn ffordd ddeinamig, weithredol a chydweithredol yng Nghymru cyn 1945. Gallwn ail-greu ein gwasanaethau cyhoeddus ac nid oes yn rhaid i'r agenda cydweithio ymwneud yn unig â darparwyr gwasanaeth yn cydweithio; dylai gynnwys dinasyddion hefyd, yn cydweithio i sicrhau gwelliannau ac i fod yn rhan o'r broses o ddiwygio.

**Julie Morgan:** How we deliver public services is absolutely key to the health and wellbeing of our citizens and I completely support the Welsh Government's policy of moving towards working in collaboration and partnership rather than in competition. The compact for change is a very positive move, as are the local service boards and all the initiatives that have come forward from the Welsh Government.

**Julie Morgan:** Mae sut yr ydym yn darparu gwasanaethau cyhoeddus yn gwbl allweddol i iechyd a lles ein dinasyddion ac rwy'n llwyr gefnogi polisi Llywodraeth Cymru o symud tuag at gydweithio a phartneriaeth yn hytrach na chystadlu. Mae'r compact ar gyfer newid yn gam cadarnhaol iawn, fel y byrddau gwasanaeth lleol a'r holl fentrau sydd wedi'u cyflwyno gan Lywodraeth Cymru.

I just want to make a few points. First, I want to talk about the important role of the third sector, which has already been mentioned this afternoon. It is absolutely integral to the delivery of public services. The links between the Welsh Government and the voluntary sector have always been very close, and the third and voluntary sector must be included in this debate on public service reform. I just want to give a few examples of how the third sector is completely entwined with the public sector. If you look at the hospice movement, the services are provided by the voluntary sector, and the vast amount of the money is provided by the voluntary sector, but the hospices deliver an integral part of public services. I am the vice-president of George Thomas Hospice Care, based in Whitchurch, which delivers care at home for people with terminal illness throughout the whole of Cardiff. Its funding is 30% statutory and 70% voluntary. It is

Rwyf am wneud rhywfaint o bwyntiau. Yn gyntaf, rwyf am siarad am rôl bwysig y trydydd sector, sydd eisoes wedi'i grybwyll y prynhawn yma. Mae'n gwbl hanfodol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Bu'r cysylltiadau rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector gwirfoddol yn agos iawn erioed, a rhaid cynnwys y sector gwirfoddol a'r trydydd sector yn y ddadl hon ar ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus. Rwyf am roi rhai enghreifftiau o sut mae'r trydydd sector wedi ymblethu'n llwyr â'r sector cyhoeddus. Os edrychwch ar y mudiad hosbis, mae'r gwasanaethau'n cael eu darparu gan y sector gwirfoddol, ac mae llawer iawn o'r arian yn cael ei ddarparu gan y sector gwirfoddol, ond mae hosbisau yn darparu rhan annatod o wasanaethau cyhoeddus. Rwy'n is-lywydd Gofal Hosbis George Thomas, sydd yn yr Eglwys Newydd, sy'n darparu gofal yn y cartref i bobl â salwch terfynol ar draws Caerdydd. Mae ei gyllid yn rhannu'n 30% o

completely entwined in the delivery of public service. It is, therefore, important that we include the voluntary sector in our discussion on public services. It would be great if we could give them more money, but it is important that they deliver these aspects of services, because they are able to concentrate on them in a way that statutory authorities are, perhaps, unable to do, given that they have a whole range of responsibilities.

arian statudol a 70% o arian gwirfoddol. Mae wedi ymblethu'n llwyr yn narpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. Felly, mae'n bwysig ein bod yn cynnwys y sector gwirfoddol wrth drafod gwasanaethau cyhoeddus. Byddai'n wych pe gallem roi mwy o arian iddo, ond mae'n bwysig ei fod yn darparu'r gwasanaethau hyn, oherwydd ei fod yn gallu canolbwyntio arnynt mewn ffordd na all awdurdodau statudol ei wneud, o bosibl, o ystyried yr ystod eang o gyfrifoldebau sydd ganddynt.

The voluntary sector is key in identifying the needs of groups that may be in need of help from the public sector. Yesterday, I attended the grandparents and kinship care group at the City Hall in Cardiff. This group is made up of relatives, mainly grandparents, who have responsibility for bringing up their grandchildren, usually due to problems that their sons and daughters have experienced. The role of grandparents and their need for public services when they are in this situation is not yet really recognised; it is not just looking after their grandchildren for a couple of hours while their parents go to work, it is total commitment, bringing them up through the teenage years and all of the difficulties. There is a need for recognition and for financial and emotional support for people in this situation. The voluntary sector highlights those growing groups that have a need for public services.

Mae'r sector gwirfoddol yn allweddol o ran nodi anghenion grwpiau y gallai fod arnynt angen cymorth gan y sector cyhoeddus. Ddoe, bûm i weld grŵp gofal gan neiniau a theidiau a pherthnasau yn Neuadd y Ddinas yng Nghaerdydd. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys perthnasau, neiniau a theidiau yn bennaf, sy'n gyfrifol am fagu eu hwyrion a'u hwyresau, fel arfer oherwydd problemau sydd gan eu meibion a'u merched. Nid yw rôl teidiau a neiniau a'u hangen am wasanaethau cyhoeddus pan fyddant yn y sefyllfa hon wedi cael ei gydnabod eto mewn gwirionedd; nid yw'n golygu gofalu am eu hwyrion a'u hwyresau am ychydig o oriau tra bo eu rhieni yn mynd i'r gwaith yn unig; mae'n ymrwymiad llwyr, sy'n golygu eu magu yn ystod eu harddegau a'r holl anawsterau hynny. Mae angen rhoi cydnabyddiaeth a chymorth ariannol ac emosiynol i bobl yn y sefyllfa honno. Mae'r sector gwirfoddol yn amlygu'r grwpiau hynny sy'n tyfu y mae angen gwasanaethau cyhoeddus arnynt.

The Archbishop of Canterbury has been mentioned quite a lot this afternoon by several Members. The big society has also been mentioned a lot this afternoon. I want to repeat what Rowan Williams said over the weekend about the big society. Mark Isherwood also quoted Rowan Williams. He dismissed the big society as

Mae sawl Aelod wedi sôn am Archesgob Caergaint y prynhawn yma. Mae'r gymdeithas fawr hefyd wedi cael ei chrybwyll tipyn y prynhawn yma. Rwyf am ailadrodd yr hyn a ddywedodd Rowan Williams dros y penwythnos am y gymdeithas fawr. Gwnaeth Mark Isherwood hefyd ddyfynnu Rowan Williams. Gwrthododd y gymdeithas fawr am ei fod yn

'aspirational waffle designed to conceal a deeply damaging withdrawal of the state from its responsibilities to the most vulnerable.'

falu awyr uchelgeisiol a gynlluniwyd i guddio'r ffaith bod y wladwriaeth yn cilio o ran ei chyfrifoldebau tuag at y rhai mwyaf agored i niwed, mewn ffordd hynod o niweidiol.

That is well worth repeating here this afternoon. A key point in delivering public

Mae'n werth ailadrodd hynny y prynhawn yma. Pwynt allweddol wrth ddarparu

services is that the state does not abdicate its responsibilities, and that it works in partnership, trying to deliver a better service to its citizens. I emphasise that it is the added value of what the voluntary sector can provide that is important to take into account.

gwasanaethau cyhoeddus yw nad yw'r wladwriaeth yn ildio ei chyfrifoldebau, a'i bod yn gweithio mewn partneriaeth ac yn ceisio darparu gwell gwasanaeth i'w dinasyddion. Pwysleisiaf mai'r gwerth ychwanegol o'r hyn y gall y sector gwirfoddol ei ddarparu sy'n bwysig i'w ystyried.

I want to end my contribution with a quick example of something that was mentioned to me when I visited the Heath hospital last week. I was talking to a ward manager there about bedblocking and the issues of collaboration between local government and the health service, and she said that there were lots of things that could easily improve the situation that are not necessarily linked to having more beds in the private sector or to having more nursing homes. She said that a lot of the delays in leaving hospital are as a result of people waiting while blister packs are being organised by pharmacists. I was told that that is one of the key things that keep people in hospital. She said that, sometimes, people have to wait up to a week while this is done. Another issue that delays people is in relation to those who leave hospital on warfarin. There is a great deal of confusion in relation to where they get that warfarin and where they get their blood levels taken. It currently happens in different places in different parts of the country. Those are all aspects of public service reform that can be fairly easily tackled. I therefore ask the Minister, when he replies, to look at those particular examples.

Rwyf am orffen fy nghyfraniad gydag enghraifft gyflym o rywbeth y soniwyd wrthyf amdano pan ymwelais ag ysbyty'r Waun yr wythnos diwethaf. Roeddwn yn siarad â rheolwr ward yno am flocio gwelyau a phroblemau cydweithio rhwng llywodraeth leol a'r gwasanaeth iechyd, a dywedodd hi fod nifer o bethau a allai wella'r sefyllfa yn hawdd nad ydynt yn gysylltiedig o reidrwydd â chael mwy o welyau yn y sector preifat na chael mwy o gartrefi nyrsio. Dywedodd hi fod llawer o oedi o ran gadael yr ysbyty oherwydd bod pobl yn aros am becyn swigod gan fferyllwyr. Clywais mai dyna yw un o'r prif bethau sy'n cadw pobl yn yr ysbyty. Dywedodd fod pobl weithiau yn gorfod aros hyd at wythnos am hynny. Mater arall sy'n achosi oedi yw pobl sy'n gadael yr ysbyty ar warfarin. Mae llawer o ddryswch o ran lle maent yn cael y warfarin a lle maent yn cael profion gwaed. Ar hyn o bryd, mae'n digwydd mewn mannau gwahanol yng ngwahanol rannau o'r wlad. Mae'r rheiny yn ddiwygiadau i wasanaethau cyhoeddus y gellir eu cyflawni'n weddol hawdd. Felly, gofynnaf i'r Gweinidog, yn ei ymateb, i ystyried yr enghreifftiau penodol hynny.

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** I am grateful for Members' contributions this afternoon on this important issue of public service reform. I will start by picking up some of those issues that Members have raised with me today. I am again grateful for Peter Black's support in principle for the proposals of collaboration and the way that we are approaching the changes in public service delivery. However, while I am grateful for his support, there are some elements on which he is probably not surprised that I do not agree with him.

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau'r prynhawn yma ar y mater pwysig hwn, sef diwygio gwasanaethau cyhoeddus. Dechreuaf drwy ystyried rhai o'r materion y mae Aelodau wedi'u codi gyda mi heddiw. Diolch eto i Peter Black am gefnogi mewn egwyddor y cynigion ar gyfer cydweithio a'r ffordd rydym yn mynd ati i newid sut y darperir gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, er fy mod yn ddiolchgar am ei gefnogaeth, ni fydd yn synnu clywed nad wyf yn cytuno ag ef ar rai agweddau.

He mentioned the issue of the onus always being with the local authority. That is

Dywedodd fod y cyfrifoldeb yn gorwedd gyda'r awdurdod lleol bob tro. Nid yw

certainly not the case. We have the public service leadership group, but the Member may not be too familiar with its membership. Its membership consists of people from across the public sector. For example, the chief executive of Betsi Cadwaladr University Local Health Board sits as the chair of the regional block for north Wales, and, in south Wales, we have the chief constable for South Wales Police. The health boards and the fire service are all involved in this process in relation to public service leadership. They are taking forward some very strong projects to take the opportunities to deliver a better and cheaper service by working together.

hynny'n wir. Mae gennym grŵp arwain y gwasanaethau cyhoeddus, ond efallai nad yw'r Aelod yn gyfarwydd iawn â'i aelodaeth. Mae ei aelodaeth yn cynnwys pobl o bob rhan o'r sector cyhoeddus. Er enghraifft, prif weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yw cadeirydd bloc rhanbarthol gogledd Cymru, ac, yn ne Cymru, mae gennym brif gwnstabl Heddlu De Cymru. Mae'r byrddau iechyd a'r gwasanaeth tân oll ynghlwm â'r broses hon o arwain y gwasanaethau cyhoeddus. Maent yn datblygu prosiectau cadarn i fanteisio ar gyfleoedd i ddarparu gwasanaeth gwell a rhatach drwy gydweithio.

The Member mentioned local authorities wishing to be given the choice on how they do business. I am all for supporting that in principle. I work closely with the public service leadership group. Refreshing the partnership group is an important part of its buy-in to this process. However, as I mentioned earlier, we have to look realistically at the fact that we are being subjected to a £1.7 billion reduction in Welsh block funding. I respect the Member's point about not playing the blame game; I am, rather, dealing with the facts. For opposition Members—we did this in a table format, but they can do it differently if they wish—let me indicate what this £1.7 billion reduction would mean. It would mean Merthyr Tydfil, the Isle of Anglesey, Monmouth, Ceredigion, Blaenau Gwent, Torfaen, Denbighshire, Conwy, the Vale of Glamorgan, Pembrokeshire, Wrexham, Gwynedd and Powys getting no money at all this year—not even £1. They would get no money because of the £1.7 billion reduction that your Westminster colleagues are imposing on the Welsh public sector.

Dywedodd yr Aelod fod awdurdodau lleol am ddewis sut maent yn gwneud busnes. Rwy'n cefnogi hynny mewn egwyddor. Rwy'n gweithio'n agos gyda grŵp arwain y gwasanaethau cyhoeddus. Mae adfywio'r grŵp partneriaeth yn rhan bwysig o'i gael i gefnogi'r broses hon. Fodd bynnag, fel y soniais yn gynharach, mae'n rhaid inni edrych yn realistig ar y ffaith ein bod yn wynebu gostyngiad gwerth £1.7 biliwn yn y cyllid bloc i Gymru. Rwy'n parch pwynt yr Aelod am beidio â beio neb; rwyf fi, yn hytrach, yn delio â'r ffeithiau. Ar gyfer Aelodau'r wrthblaid—gwnaethom hyn ar ffurf tabl, ond gallant wneud hynny'n wahanol os dymunant—hoffwn nodi beth fyddai'r gostyngiad o £1.7 biliwn yn ei olygu. Byddai'n golygu na fyddai Merthyr Tudful, Ynys Môn, Mynwy, Ceredigion, Blaenau Gwent, Tor-faen, sir Ddinbych, Conwy, Bro Morgannwg, sir Benfro, Wrecsam, Gwynedd na Phowys yn cael arian eleni—dim £1 hyd yn oed. Ni fyddent yn cael arian oherwydd y gostyngiad o £1.7 biliwn sy'n cael ei orfodi ar sector cyhoeddus Cymru gan eu cydweithwyr yn San Steffan.

I thank Rhodri Glyn Thomas for his support today. He mentioned the issue of exploring what the Welsh public service may or may not look like. There are issues that we will be exploring through the Silk commission and Silk part 2. The vision of the Welsh Government is to provide a single public service without barriers, so that the public at large receiving services can procure those services from whatever organisation in the public sector, whether it is in health and

Diolch i Rhodri Glyn Thomas am ei gefnogaeth heddiw. Soniodd am archwilio sut y gallai gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru edrych neu beidio. Byddwn yn archwilio materion drwy gomisiwn Silk ac yn rhan 2 Silk. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw darparu un gwasanaeth cyhoeddus heb rwystrau, fel gall y cyhoedd sy'n cael gwasanaethau eu cael o ba bynnag sefydliad yn y sector cyhoeddus, os ydynt ym maes iechyd a gofal cymdeithasol neu drwy

social care or through local government, the fire service or the police; we need to move forward on that vision.

lywodraeth leol, y gwasanaeth tân neu'r heddlu; mae angen inni fwrw ymlaen â'r weledigaeth honno.

Jenny Rathbone raised the interesting issue that we have to change the way that we deliver services because of the £1.7 billion reduction in our funding. William Graham's amendment suggests that he would like to propose that there are no changes to or reductions in public services in Wales. As I said earlier, he is in a dream world; when you reduce a budget by £1.7 billion, proposing that there would be no changes to public service delivery is to be away with the fairies.

Soniodd Jenny Rathbone am y mater diddorol bod yn rhaid inni newid y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau oherwydd y gostyngiad o £1.7 biliwn yn ein cyllid. Mae gwelliant William Graham yn awgrymu y byddai'n hoffi cynnig nad oes unrhyw newidiadau neu ostyngiadau i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Fel y dywedais yn gynharach, mae ei ben yn y cymylau; pan fyddwch yn lleihau cyllideb £1.7 biliwn, ffolineb yw cynnig na fyddai unrhyw newidiadau i ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus.

I thank Ken Skates for his contribution on elements of this being citizen focused. It is important that we take people with us on the journey of understanding how services are procured. It does not matter to the public at large where the service is delivered as long as it is delivered and delivered well. We cannot afford to do this 22 times; we may have to do it on a regional or national basis. However, what is important for citizens is that they receive a service.

Diolch i Ken Skates am ei gyfraniad ar yr elfennau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Mae'n bwysig ein bod yn cynnwys pobl yn y broses o ddeall sut mae gwasanaethau'n cael eu caffael. Nid yw o bwys i'r cyhoedd lle mae gwasanaeth yn cael ei gyflwyno cyn belled â'i fod yn cael ei gyflwyno a'i gyflwyno'n dda. Ni allwn fforddio gwneud hynny 22 o weithiau; efallai y bydd yn rhaid inni wneud hynny yn rhanbarthol neu'n genedlaethol. Fodd bynnag, yr hyn sy'n bwysig i ddinasyddion yw eu bod yn cael gwasanaeth.

Julie Morgan raised a very important issue regarding the third sector having a seat on the public service leadership group, and understanding how we can involve that sector in transforming some of these services. I will take up the Member's specific point on warfarin and sharing best practice. She also mentioned aspirational waffle, which was an interesting point. That brings me on quite nicely to Mark Isherwood's contribution this afternoon. Mark, you continue to extoll the virtues of privatisation. Let me be clear about where we are in the Welsh Government. We support the public sector and public sector workers in Wales. We do not agree with Conservative policy of privatisation of the public services. [*Interruption.*] I can see that I have rattled opposition Members on this issue, but we stand firm on supporting the people who deliver services in Wales for the people of Wales.

Cododd Julie Morgan fater pwysig iawn am gynnwys y trydydd sector yn grŵp arwain y gwasanaethau cyhoeddus, a deall sut y gallwn gynnwys y sector hwnnw wrth drawsnewid rhai o'r gwasanaethau hyn. Byddaf yn ystyried pwynt yr Aelod am warfarin a rhannu arfer gorau. Soniodd hefyd am falu awyr uchelgeisiol, a oedd yn bwynt diddorol. Mae hynny'n dod â mi at gyfraniad Mark Isherwood y prynhawn yma. Mark, rydych yn parhau i bregethu rhinweddau preifateiddio. Gadewch imi egluro safbwynt Llywodraeth Cymru. Rydym yn cefnogi'r sector cyhoeddus a gweithwyr sector cyhoeddus yng Nghymru. Nid ydym yn cytuno â pholisi preifateiddio gwasanaethau cyhoeddus y Ceidwadwyr. [*Torri ar draws*.] Gallaf weld fy mod wedi cynhyrfu Aelodau'r wrthblaid ar y mater hwn, ond rydym yn sefyll yn gadarn o ran cefnogi'r bobl sy'n darparu gwasanaethau yng Nghymru ar gyfer pobl Cymru.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that there are no objections, therefore amendment 1 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw a ddylid derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes, felly derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 1.*
*Amendment 1 agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree amendment 2. Does any Member object? I see that there are objections, therefore I defer all further voting until voting time, which will now follow.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw a ddylid derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad, felly byddaf yn gohirio pob pleidlais arall tan y cyfnod pleidleisio, a gaiff ei gynnal yn awr.

Before we proceed with the votes, are there three Members who wish for the bell to be rung? I see that no-one does, so we will proceed to voting time.

Cyn inni fwrw ymlaen â'r pleidleisiau, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes, felly symudwn ymlaen at y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

5.30 p.m.

## Cyfnod Pleidleisio
## Voting Time

*Cynnig NDM5002: O blaid 27, Ymatal 11, Yn erbyn 14.*
*Motion NDM5002: For 27, Abstain 11, Against 14.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Black, Peter
Davies, Jocelyn
Gruffydd, Llyr Huws
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Parrott, Eluned
Powell, William
Roberts, Aled
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM5018: O blaid 11, Ymatal 0, Yn erbyn 41.*
*Amendment 2 to NDM5018: For 11, Abstain 0, Against 41.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay

Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Gwelliant 3 i NDM5018: O blaid 51, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 3 to NDM5018: For 51, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Andrew R.T.
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*

*Amendment agreed.*

*Gwelliant 4 i NDM5018: O blaid 43, Ymatal 0, Yn erbyn 9.*
*Amendment 4 to NDM5018: For 43, Abstain 0, Against 9.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Andrew R.T.
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Davies, Jocelyn
Gruffydd, Llyr Huws
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 5 i NDM5018: O blaid 52, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 5 to NDM5018: For 52, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad

Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Andrew R.T.
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 6 i NDM5018: O blaid 16, Ymatal 9, Yn erbyn 27.*
*Amendment 6 to NDM5018: For 16, Abstain 9, Against 27.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca

George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Williams, Kirsty

Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Davies, Jocelyn
Gruffydd, Llyr Huws
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Gwelliant 7 i NDM5018: O blaid 41, Ymatal 0, Yn erbyn 11.*
*Amendment 7 to NDM5018: For 41, Abstain 0, Against 11.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

Cynnig NDM5018 fel y'i diwygiwyd:

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*Yn nodi Agenda Diwygio'r Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru.*

*Yn cydnabod y pwysigrwydd bod Awdurdodau Lleol yn ymgysylltu â'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i hybu ymhellach y broses o gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy, effeithlon ac o ansawdd, sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr ledled Cymru.*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gydnabod pwysigrwydd tryloywder ac atebolrwydd ym mhob agwedd ar gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio dulliau o gynyddu hyder y cyhoedd yng nghyswllt cyflenwi holl ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus Cymru.*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i leihau nifer y grantiau sydd wedi'u neilltuo ac i drosglwyddo'r cyllid hwn i'r Grant Cymorth Refeniw ar gyfer awdurdodau lleol fel rhan o'i Hagenda Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus.*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio tuag at sefydlu gwasanaeth cyhoeddus penodol i Gymru.*

Motion NDM5018 as amended:

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Notes the Public Service Reform Agenda in Wales.*

*Acknowledges the importance of Local Authorities engaging with the public, private and third sectors to further advance quality, sustainable and efficient user-led public service delivery across Wales.*

*Calls on the Welsh Government to recognise the importance of transparency and accountability in all aspects of public service delivery in Wales.*

*Calls on the Welsh Government to examine ways of increasing public confidence in the delivery of all Welsh public service provision.*

*Calls on the Welsh Government to reduce the number of ring-fenced grants and to transfer this funding into the Revenue Support Grant for local authorities as part of its Public Service Reform Agenda.*

*Calls on the Welsh Government to work towards establishing a distinct Welsh public service.*

*Cynnig NDM5018 fel y'i diwygiwyd: O blaid 52, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Motion NDM5018 as amended: For 52, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Andrew R.T.
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd cynnig NDM5018 fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM5018 as amended agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** That concludes today's business.

**Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â chyfarfod heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.33 p.m.*
*The meeting ended at 5.33 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)

Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)